# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 16 Mai 2012
Wednesday, 16 May 2012

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

25 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

44 Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog Rhif 22.9
The Standards of Conduct Committee's Report under Standing Order No. 22.9

47 Cynnig i Gytuno ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)
Motion to Agree the General Principles of the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill

71 Dadl yn Ceisio Cytundeb y Cynulliad i Gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Asbestos (Adennill Costau Meddygol) (Mick Antoniw)
Debate Seeking the Assembly's Agreement to Introduce a Member-proposed Bill on Asbestos (Recovery of Medical Costs) (Mick Antoniw)

86 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Amaethyddiaeth a Choedwigaeth
Welsh Conservatives Debate Agriculture and Forestry

111 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

116 Dadl Fer: Tîm Prydain Fawr: Cyfle Euraid
Short Debate: Team GB: A Golden Opportunity

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
## Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

### Prosiectau Microgynhyrchu

### Microgeneration Projects

***1. Nick Ramsay:*** *Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi prosiectau microgynhyrchu ledled Cymru. OAQ(4)0117(ESD)*

***1. Nick Ramsay:*** *What plans does the Minister have to support micro-generation projects throughout Wales. OAQ(4)0117(ESD)*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** Welsh Government energy policy includes support for microgeneration projects in Wales.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Mae polisi ynni Llywodraeth Cymru yn cynnwys cymorth ar gyfer prosiectau microgynhyrchu yng Nghymru.

**Nick Ramsay:** That is clear, Minister; thank you. [*Laughter.*] Some things never change. The media has been full of stories about the Severn barrage over recent days for obvious reasons. However, I am sure that you will agree that microgeneration projects may not be in the public eye, but they are still there and, in many cases, are feasible. You may be aware that the Transition Chepstow group in my constituency is examining the feasibility of harnessing the power of the Wye river to produce power to supply the town. What support can the Welsh Government offer to help take this project forward?

**Nick Ramsay:** Mae hynny'n glir, Weinidog; diolch. [*Chwerthin.*] Nid yw rhai pethau byth yn newid. Mae'r cyfryngau wedi bod yn llawn straeon am forglawdd Hafren dros y dyddiau diwethaf am resymau amlwg. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno er nad yw prosiectau microgynhyrchu yn llygad y cyhoedd, maent yn dal yno ac, mewn llawer o achosion, maent yn ymarferol. Efallai eich bod yn ymwybodol bod grŵp Pontio Cas-gwent yn fy etholaeth yn edrych ar y posibilrwydd o harneisio grym afon Gwy i gynhyrchu pŵer i gyflenwi'r dref. Pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i helpu i ddatblygu'r prosiect hwn?

**John Griffiths:** Thank you for that supplementary question. It is very important that we support communities in Wales that wish to take forward micro-energy generation. It is very important for community development and if there can be a source of income from such projects, it can sustain community development and open up all sorts of new avenues over a long period of time. So, we are happy to offer that support. Ynni'r Fro is important as a scheme that was set up to provide advice and support and sometimes financial assistance. Additionally, Community Energy Wales is an important new player on this front. I hope that that initiative will be successfully launched at the

**John Griffiths:** Diolch am y cwestiwn atodol hwnnw. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cefnogi cymunedau yng Nghymru sy'n dymuno datblygu prosiectau microgynhyrchu ynni. Mae'n bwysig iawn ar gyfer datblygu cymuned ac os gall prosiectau o'r fath fod yn ffynhonnell incwm, gall gynnal datblygiad cymunedol ac agor pob math o lwybrau newydd dros gyfnod hir o amser. Felly, rydym yn hapus i gynnig y gefnogaeth honno. Mae Ynni'r Fro yn bwysig fel cynllun a sefydlwyd i roi cyngor a chefnogaeth, a chymorth ariannol weithiau. Yn ogystal, mae Ynni Cymunedol Cymru yn fenter newydd bwysig yn hyn o beth. Gobeithiaf y bydd y fenter honno'n cael ei lansio yn llwyddiannus

forthcoming Hay Festival of Literature and the Arts. I hope that your constituents make contact with both organisations.

yng Ngŵyl y Gelli cyn bo hir, sy’n ŵyl Lenyddiaeth a'r Celfyddydau. Rwyf yn gobeithio y bydd eich etholwyr yn cysylltu â'r ddau sefydliad.

**Rhaglen ar gyfer Dileu TB Buchol**

**Bovine TB Eradication Programme**

***2. Antoinette Sandbach:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu TB buchol. OAQ(4)0125(ESD)*

***2. Antoinette Sandbach:*** *Will the Minister make a statement on the Welsh Government’s bovine TB eradication programme. OAQ(4)0125(ESD)*

**John Griffiths:** Since my announcement on 20 March, the Office of the Chief Veterinary Officer has been working on implementation of the new strategic framework for bovine TB eradication in Wales.

**John Griffiths:** Ers fy nghyhoeddiad ar 20 Mawrth, mae Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi bod yn gweithio ar weithredu'r fframwaith strategol newydd ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru.

**Antoinette Sandbach:** The First Minister has stated in the Chamber that the science and the law were the only considerations behind your TB eradication u-turn. However, Professor Pollock, your science adviser on the TB eradication board, has resigned over your decision to use wildlife vaccination. You have refused on several occasions to state whether or not this was the preferred option of either the Chief Scientific Adviser for Wales or the Chief Veterinary Officer for Wales. Are you still prepared to stand here and state that your decision was based on science? Do you believe that any farmer whose livelihood is slowly being destroyed by this disease will believe you?

**Antoinette Sandbach:** Mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn y Siambr mai'r wyddoniaeth a'r gyfraith oedd yr unig ystyriaethau i'ch penderfyniad tro pedol ynghylch dileu TB. Fodd bynnag, mae'r Athro Pollock, eich cynghorydd gwyddoniaeth ar y bwrdd dileu TB, wedi ymddiswyddo yn sgîl eich penderfyniad i frechu bywyd gwyllt. Rydych wedi gwrthod dweud ar sawl achlysur ai’r dewis hwn a oedd orau gan naill ai Brif Gynghorydd Gwyddonol Cymru neu Brif Swyddog Milfeddygol Cymru. A ydych yn dal yn barod i sefyll yma a datgan bod eich penderfyniad wedi'i seilio ar wyddoniaeth? A ydych yn credu y bydd unrhyw ffermwr sydd â'i fywoliaeth yn araf gael ei dinistrio gan y clefyd hwn yn eich credu?

**John Griffiths:** We have had the science review, as we said that we would as a Government. In my statement to Plenary, I made clear what Welsh Government policy is and the vaccination programme that we will be taking forward in the intensive action area. I also made clear that our policy is based on science and that legal considerations were also a factor. I think that all of that is very clear and I have stated it a number of times. There are various views on the best way forward. I have thanked Professor Pollock for his work over a number of years, which we value. We will take forward policy and our comprehensive framework for the eradication of bovine TB in Wales, working with the industry and with vets through the eradication boards. In fact, I met with the eradication boards this morning.

**John Griffiths:** Rydym wedi cael yr adolygiad gwyddoniaeth, fel y dywedom y byddem fel Llywodraeth. Yn fy natganiad i'r Cyfarfod Llawn, nodais yn glir beth oedd polisi Llywodraeth Cymru ynghyd â'r rhaglen frechu y byddwn yn ei chyflwyno yn yr ardal triniaeth ddwys. Nodais yn glir hefyd fod ein polisi yn seiliedig ar wyddoniaeth a bod ystyriaethau cyfreithiol hefyd yn ffactor. Credaf fod hynny i gyd yn glir iawn ac rwyf wedi dweud hynny sawl gwaith. Mae gwahanol safbwyntiau ynghylch y ffordd orau ymlaen. Rwyf wedi diolch i'r Athro Pollock am ei waith dros nifer o flynyddoedd, ac rydym yn gwerthfawrogi hwnnw. Byddwn yn bwrw ymlaen â’r polisi a'n fframwaith cynhwysfawr ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru, gan weithio gyda'r diwydiant a chyda milfeddygon drwy'r byrddau dileu. Yn

wir, cefais gyfarfod â'r byrddau dileu y bore yma.

**Llyr Huws Gruffydd:** Yn dilyn yr oedi cyson a fu o ran gwneud cyhoeddiad ar bolisi newydd y Llywodraeth ar gyfer taclo TB mewn gwartheg a chreu disgwyliadau bod cyhoeddiad i ddod yn yr hydref, yn Nhachwedd, cyn y Nadolig, yn y flwyddyn newydd ac yn y blaen, pa wersi y byddwch yn eu dysgu, Weinidog, ynglŷn â'r modd y deliodd eich Llywodraeth chi â'r holl sefyllfa?

**Llyr Huws Gruffydd:** Following the constant delays in terms of making an announcement on the Government's new policy for the eradication of bovine TB and the raising of expectations that an announcement would be made in the autumn, in November, before Christmas, in the new year and so on, what lessons will you learn, Minister, about the way your Government dealt with the whole issue?

**John Griffiths:** I think that there was no delay. My Government dealt with this matter as it said that it would. We had the review in the time frame that we had indicated. We obviously then had to consider that review and formulate the comprehensive strategy. These things cannot be rushed; they are very important and significant matters and the process was appropriate and proper to that end.

**John Griffiths:** Nid wyf yn meddwl bod oedi wedi bod. Ymdriniodd fy Llywodraeth â'r mater hwn yn y modd y dywedodd y byddai'n gwneud. Cawsom yr adolygiad o fewn yr amser a nodwyd gennym. Yn amlwg roedd yn rhaid inni ystyried yr adolygiad hwnnw wedyn a llunio strategaeth gynhwysfawr. Ni ellir rhuthro'r pethau hyn; maent yn faterion pwysig a sylweddol iawn, ac roedd y broses yn briodol ac yn addas i'r perwyl hwnnw.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, if you are so convinced that vaccination is the answer to the eradication of TB in Welsh cattle, why is your Government restricting the vaccination programme to only the intensive action area, and when will farmers outsider that intensive action area be included in a wider vaccination programme?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, os ydych mor argyhoeddedig mai brechu yw'r ateb i ddileu TB buchol yng Nghymru, pam mae eich Llywodraeth yn cyfyngu ar y rhaglen frechu i'r ardal triniaeth ddwys yn unig, a phryd y bydd ffermwyr o'r tu allan i'r ardal triniaeth ddwys honno yn cael eu cynnwys mewn rhaglen frechu ehangach?

**John Griffiths:** It is a comprehensive strategy and vaccination is one part of that. I have asked my officials to look at other areas of Wales where we could take forward vaccination other than the intensive action area.

**John Griffiths:** Mae'n strategaeth gynhwysfawr ac mae brechu yn un rhan o hynny. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych ar ardaloedd eraill o Gymru lle gallem fwrw ymlaen â brechu ar wahân i'r ardal triniaeth ddwys.

### Gwella'r Amgylchedd

### Improving the Environment

***3. Christine Chapman:*** *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r amgylchedd yng Nghymru. OAQ(4)0126(ESD)*

***3. Christine Chapman:*** *What are the Welsh Government's priorities for improving the environment in Wales. OAQ(4)0126(ESD)*

**John Griffiths:** Our priorities are set out in the 'Sustaining a Living Wales' Green Paper, which is currently out for consultation. On Monday, I was pleased to host the Environment Matters conference, at which I

**John Griffiths:** Mae ein blaenoriaethau wedi'u nodi yn y Papur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw', sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Ar ddydd Llun, roeddwn yn falch o gynnal y gynhadledd Mae'r Amgylchedd yn

outlined a new focus on our inner urban environment.

Cyfri, ac ynddi bûm yn amlinellu ffocws newydd ar ein hamgylchedd trefol mewnol.

**Christine Chapman:** During Plenary business last week, I mentioned the Covenant of Mayors, which is a European movement aimed at encouraging local and regional authorities to improve their energy efficiency and use of renewable energy sources. I welcomed your written statement on Monday on improving our urban environment, with its emphasis on the social justice aspects of doing so. Minister, do you agree that meeting the objectives of the Covenant of Mayors could play an important role in improving the quality of the environment for many of our Welsh communities, and will you look at working with Welsh local authorities to emphasise these benefits?

**Christine Chapman:** Yn ystod busnes y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf, soniais am Gyfamod y Meiri, sydd yn fudiad Ewropeaidd gyda'r nod o annog awdurdodau lleol a rhanbarthol i wella sut maent yn defnyddio ynni'n effeithlon a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy. Roeddwn yn croesawu eich datganiad ysgrifenedig ddydd Llun ar wella ein hamgylchedd trefol, gyda'i bwyslais ar yr agweddau cyfiawnder cymdeithasol o wneud hynny. Weinidog, a ydych yn cytuno y gallai cyflawni amcanion Cyfamod y Meiri chwarae rhan bwysig o ran gwella ansawdd yr amgylchedd i lawer o'n cymunedau yng Nghymru, ac a wnewch chi edrych ar weithio gydag awdurdodau lleol Cymru i bwysleisio’r manteision hyn?

**John Griffiths:** I thank Christine Chapman for that supplementary question. I am very happy to work with local authorities in that way. We encourage these sorts of initiatives and they will help to deliver the outcomes that we seek from our sustainable development scheme and our climate change strategy. It is for organisations to decide the resource and level of commitment that is appropriate for them, but we very much look to work with them on these matters.

**John Griffiths:** Diolch i Christine Chapman am y cwestiwn atodol hwnnw. Rwyf yn hapus iawn i weithio gydag awdurdodau lleol yn y modd hwnnw. Rydym yn annog y mathau hyn o fentrau a byddant yn helpu i sicrhau'r canlyniadau a geisiwn o'n cynllun datblygu cynaliadwy a'n strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd. Y sefydliadau a fydd yn penderfynu ar yr adnoddau a lefel yr ymrwymiad sy'n briodol ar eu cyfer, ond rydym yn awyddus iawn i weithio gyda hwy ar y materion hyn.

**Russell George:** The consultation on the ‘Sustaining a Living Wales’ Green Paper, which was initially developed as the Government’s response to missing the 2010 biodiversity target, closes at the end of this month. Will you outline a timetable as to when we can expect an announcement on the next steps of the consultation, and will you also confirm that the announcement will be made in the Chamber to enable comment from Members?

**Russell George:** Mae'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ‘Cynnal Cymru Fyw’, a ddatblygwyd yn wreiddiol fel ymateb y Llywodraeth ar ôl methu targed bioamrywiaeth 2010, yn cau ddiwedd y mis hwn. A wnewch chi amlinellu amserlen o ran pryd y gallwn ddisgwyl cyhoeddiad ynghylch camau nesaf yr ymgynghoriad, ac a wnewch chi hefyd gadarnhau y bydd y cyhoeddiad yn cael ei wneud yn y Siambr er mwyn i Aelodau roi sylwadau?

**John Griffiths:** This is a very important consultation and, as Russell George mentioned, it has not yet concluded. We will need to look at the responses and evaluate them. We take forward this work very much in conjunction with the work to establish the single environment body by spring of next year. There is a lot of work going on and a lot to do, and I would be very happy to come

**John Griffiths:** Mae'r ymgynghoriad hwn yn bwysig iawn ac, fel y dywedodd Russell George, nid yw wedi dod i ben eto. Bydd angen inni edrych ar yr ymatebion a'u gwerthuso. Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar y cyd â'r gwaith i sefydlu’r un corff amgylcheddol erbyn gwanwyn y flwyddyn nesaf. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo ac mae llawer i'w wneud, a byddwn

back to the Chamber and report on that in due course.

yn hapus iawn i ddod yn ôl i'r Siambr i adrodd ar hynny maes o law.

**Rebecca Evans:** Will you confirm that the Living Wales programme will embrace the protection of Wales's wildlife that protected sites have currently delivered, and improve the conservation status of those sites that have not yet achieved a good condition? Will you also confirm that it will fill the gaps in the current network?

**Rebecca Evans:** A wnewch chi gadarnhau y bydd y rhaglen Cymru Fyw yn mynd ati i ddiogelu bywyd gwyllt Cymru fel y mae safleoedd gwarchodedig wedi'i wneud hyd yma, a gwella statws cadwraeth y safleoedd hynny nad ydynt mewn cyflwr da eto? A wnewch chi gadarnhau hefyd y bydd yn llenwi'r bylchau yn y rhwydwaith presennol?

**John Griffiths:** The responsibility for the designation of protected sites will transfer to the single body. As at present, appropriate management of the sites rests with the land manager, in partnership with, as it will be, the single environment body. There will be challenges to overcome, but removing organisational boundaries will allow us to share the enthusiasm, resource and expertise between the current three organisations, so that we can have a more joined-up natural resource management now and into the future. The new body will have a key role in protecting those sites and I would expect it to provide environmental advice and input into our planning processes and the development of new legislation. We should also get new regulatory arrangements that are simplified, whilst maintaining environmental standards.

**John Griffiths:** Bydd y cyfrifoldeb ar gyfer dynodi safleoedd gwarchodedig yn trosglwyddo i'r un corff. Yn union fel y mae pethau ar hyn o bryd, y rheolwyr tir fydd yn gyfrifol am reolaeth briodol y safleoedd, mewn partneriaeth â'r un corff amgylcheddol, fel y bydd. Bydd heriau i'w goresgyn, ond bydd cael gwared ar ffiniau sefydliadol yn ein galluogi i rannu'r brwdfrydedd, yr adnoddau a'r arbenigedd rhwng y tri sefydliad presennol, er mwyn inni allu rheoli adnoddau yn fwy naturiol a chydgysylltiedig yn awr ac yn y dyfodol. Bydd gan y corff newydd ran allweddol wrth ddiogelu'r safleoedd hynny a byddwn yn disgwyl iddo roi cyngor a chyfraniad amgylcheddol i'n prosesau cynllunio a datblygu deddfwriaeth newydd. Dylem hefyd gael trefniadau rheoleiddio newydd sy'n symlach, ond yn cynnal safonau amgylcheddol yr un pryd.

**Llyr Huws Gruffydd:** A fyddech yn barod i ystyried rhoi eglurhad pellach, efallai trwy ddatganiad, o'r gweithgareddau a fydd yn cael eu caniatáu o fewn y parthau cadwraeth morol? Mae potensial y gallai diffyg eglurder o'r cychwyn arwain at gamwybodaeth ynglŷn â'r goblygiadau economaidd ac yng nghyd-destun hamdden, ac yn y blaen.

**Llyr Huws Gruffydd:** Would you be willing to consider giving a further explanation, maybe in a statement, of the activities that will be permitted within the marine conservation zones? There is potential that a lack of clarity from the outset could lead to misinformation about the economic and leisure implications and so on.

**John Griffiths:** The consultation on marine conservation zones is in its very early stages. We will be going through three stages. I think that I can say that the description regarding no-take and no-deposit zones accurately sums up the approach that we envisage, but there is a lot of consultation to be done and there are a lot of meetings to be had before we come to any firm conclusions.

**John Griffiths:** Mae'r ymgynghoriad ar barthau cadwraeth morol yn ei ddyddiau cynnar iawn. Byddwn yn mynd drwy dri cham. Rwyf yn meddwl y gallaf ddweud bod y disgrifiad o barthau dim-cymryd a dim-dyddodi yn crynhoi'r dull gweithredu a ragwelwn yn gywir, ond mae llawer o ymgynghori i'w wneud o hyd ac mae llawer o gyfarfodydd i'w cynnal cyn inni ddod i unrhyw gasgliadau pendant.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rwy'n derbyn ei bod yn gynnar iawn yn y broses, ond hyd yn oed

**Llyr Huws Gruffydd:** I accept that it is very early in the process, but I think that we need

ar y cychwyn yn deg rwy’n meddwl bod angen eglurder, oherwydd dyna pryd gall problemau gychwyn. Mae dryswch penodol wedi cael ei fynegi imi ynglŷn â’r ffaith y bydd traethau, pan fydd yr arfordir yn rhan o’r ardaloedd, yn cael eu cynnwys. Mae cwestiynau mawr yn cael eu gofyn ynglŷn â’r gweithgareddau y gellir eu cynnal ar y traethau hynny. Rwy’n pwyso arnoch i sicrhau bod eglurder, hyd yn oed ar y pwynt cychwynnol hwn.

clarity right from the beginning, because that is when problems can arise. A specific confusion has been expressed to me about the fact that beaches will be included when the coastline is a part of the zone. Many questions are being raised about the activities that will be permitted on those beaches. I urge you to ensure that there is clarity, even on this initial point.

**John Griffiths:** We will, of course, seek to provide clarity as we go through the process. However, at this stage, I think that it is very important that we allow for a feeding in of views without setting anything firmly in stone as far as the detail in concerned. So, I look forward to engagement with all interested parties—environmental, fishing, recreational and tourism.

**John Griffiths:** Byddwn, wrth gwrs, yn ceisio egluro wrth inni fynd drwy'r broses. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rwyf yn credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn caniatáu i bobl roi eu barn heb gadarnhau unrhyw beth yn llwyr o ran y manylion. Felly, rwyf yn edrych ymlaen at ymgysylltu â'r holl bartïon sydd â diddordeb—amgylcheddol, pysgota, hamdden a thwristiaeth.

**Kenneth Skates:** Carbon emissions, obesity levels and the price of oil are all on the rise and there are serious implications for our future lifestyles unless we radically change our approach to transport. As part of the active travel White Paper that was launched last week, Welsh local authorities will need to provide greater opportunities for walking and cycling routes in their communities. What discussions are you having in concert with the excellent Minister for Local Government and Communities in preparation for the active travel Bill, particularly in relation to facilitating greater access to privately owned land for active travel and recreation?

**Kenneth Skates:** Mae allyriadau carbon, lefelau gordewdra a phris olew i gyd ar gynnydd, ac mae goblygiadau difrifol o ran ein ffyrdd o fyw yn y dyfodol oni bai ein bod newid ein ffordd o feddwl am drafnidiaeth. Fel rhan o'r Papur Gwyn ar deithio llesol a lansiwyd yr wythnos ddiwethaf, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol Cymru roi mwy o gyfleoedd i gael llwybrau cerdded a beicio yn eu cymunedau. Pa drafodaethau rydych yn eu cael ar y cyd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gwych i baratoi ar gyfer y Bil Teithio Llesol, yn enwedig o ran hwyluso mwy o fynediad i dir preifat ar gyfer teithio llesol a hamdden?

**John Griffiths:** I am pleased to reassure Ken Skates that I have regular meetings with my esteemed colleague Carl Sargeant, including meetings on the active travel Bill. Obviously, there are great health, recreational and quality-of-life benefits, as well as modal shift, to be derived from the policies that are being taken forward by Carl Sargeant and they very much fit with my environmental objectives. With regard to private land ownership, these are issues that we have had, and still have, with the Wales coast path, as well as in terms of the active travel Bill, so I think that we will need to look at these issues and find better and quicker ways of dealing with these barriers to necessary progress.

**John Griffiths:** Rwyf yn falch o roi sicrwydd i Ken Skates fy mod yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda fy nghyd-Aelod sy'n uchel ei barch, Carl Sargeant, gan gynnwys cyfarfodydd ar y Bil Teithio Llesol. Yn amlwg, mae manteision mawr o ran iechyd, hamdden ac ansawdd bywyd, yn ogystal â newid dull teithio, yn deillio o'r polisïau sy'n cael eu datblygu gan Carl Sargeant ac maent yn cyd-fynd yn dda â’m hamcanion amgylcheddol. O ran perchnogaeth tir preifat, mae'r rhain yn faterion rydym wedi'u hwynebu, ac yn dal i'w wneud, gyda llwybr arfordir Cymru, yn ogystal ag o ran y Bil Teithio Llesol, felly rwyf yn meddwl y bydd angen inni edrych ar

y materion hyn a dod o hyd i ffyrdd gwell a chyflymach o ddelio â'r pethau hyn sy'n rhwystro'r datblygiad angenrheidiol.

**Parthau Cadwraeth Morol**

**Marine Conservation Zones**

***4. Ieuan Wyn Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Barthau Cadwraeth Morol. OAQ(4)0122(ESD)*

***4. Ieuan Wyn Jones:*** *Will the Minister make a statement on Marine Conservation Zones. OAQ(4)0122(ESD)*

**John Griffiths:** Rydym yn bwriadu dynodi tri neu bedwar parth cadwraeth morol yn 2014, yn amodol ar ymgynghoriad llawn ac ailadroddol. Dechreuodd y cyntaf o dri cham ymgynghori y mis diwethaf gan gyflwyno 10 safle potensial i'w hystyried.

**John Griffiths:** We are aiming to designate three or four marine conservation zones in 2014, subject to a comprehensive and iterative consultation exercise. The first of three consultation phases started last month presenting 10 potential sites as options for consideration.

**Ieuan Wyn Jones:** Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol bod dau barth yn cael eu hystyried ar gyfer eu dynodi yn Ynys Môn, sef gogledd-ddwyrain y Fenai ac Ynys Seiriol. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod gwrthwynebiad i'r cynlluniau yn barod, yn enwedig gan bysgotwyr, pobl sy'n rhedeg busnesau twristiaeth a phobl sy'n hwylio, ac yn y blaen. Y cwestiwn yw a fyddant yn gallu angori eu cychod neu eu llongau yn y parthau hyn. O ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth eglur gan y Gweinidog ynglŷn â beth yn union fydd yn cael ei ganiatáu yn y parthau hyn, nid yw'n rhyfedd fod pobl yn bryderus ac eisiau eu gwrthwynebu. Pam na all y Gweinidog fod yn llawer iawn mwy agored gyda ni ynglŷn â'r hyn fydd yn cael ei ganiatáu er mwyn i bawb gael ymgynghoriad sydd mor drylwyr a thryloyw â phosibl?

**Ieuan Wyn Jones:** I thank the Minister for that response. The Minister is aware that there are two zones being considered for designation on Anglesey, namely the north-east of the Menai strait and Puffin island. The Minister will be aware that there is already opposition to the proposals, particularly from the fishing community, those running tourism businesses and those who sail and so on. The question is whether they will be able to continue to anchor their boats or ships in these zones. Given the lack of clear information from the Minister about what exactly will be permitted in these zones, it is not surprising that people are concerned and want to oppose them. Why can the Minister not be far more open with us about what will be permitted so that everyone can have a consultation that is as thorough and transparent as possible?

1.45 p.m.

**John Griffiths:** Inevitably, a wide range of interests is involved in striking the right balance in taking marine conservation zones forward, and we are mindful of the economic and social interests involved. I think that we have been clear all along that those interests will be at the forefront of our minds as we take these zones forward. We have to balance that with the environmental issues. Wherever we can provide clarity, we will. As I said, it is in the early stages. It is the first phase of a three-phase consultation. I can certainly say that sailing through these zones would not be an issue, but dropping anchor would be,

**John Griffiths:** Yn anochel, mae ystod eang o fuddiannau yn berthnasol o ran cael y cydbwysedd cywir wrth fwrw ymlaen â'r parthau cadwraeth forol, ac rydym yn ymwybodol o'r buddiannau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig. Credaf ein bod wedi bod yn glir bob tro y bydd y buddiannau hynny yn cael lle blaenllaw wrth inni feddwl am fwrw ymlaen â'r parthau hyn. Rhaid inni gydbwyso hynny â'r materion amgylcheddol. Lle bynnag y gallwn roi eglurhad, gwnawn hynny. Fel y dywedais, mae hyn yn ei ddyddiau cynnar. Dyma'r cam cyntaf mewn ymgynghoriad tri cham. Gallaf ddweud yn

because that is, in effect, a deposit.

sicr na fyddai hwylio drwy'r parthau hyn yn broblem, ond byddai gollwng angor yn broblem, am ei fod, i bob pwrpas, yn dyddodi.

**Rebecca Evans:** Given that marine biodiversity has relatively low protection levels compared with land-based wildlife, the designations will be an important step towards closing that gap and enhancing our ecologically rich Welsh waters. Further to your response to the previous question, can you give us more detail on how the Welsh Government is actively communicating with the wider stakeholders to explain the importance of enhancing our marine biodiversity?

**Rebecca Evans:** O ystyried bod gan fioamrywiaeth forol lefelau cymharol isel o amddiffyniad o'i chymharu â bywyd gwyllt ar y tir, bydd y dynodiadau yn gam pwysig at gau'r bwlch hwnnw a gwella dyfroedd Cymru sy'n ecolegol gyfoethog. Yn dilyn eich ymateb i'r cwestiwn blaenorol, a allwch roi rhagor o fanylion inni am sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gyfathrebu â rhanddeiliaid ehangach i egluro pwysigrwydd gwella ein bioamrywiaeth forol?

**John Griffiths:** The consultation in itself is an important aspect of that engagement and, again, I would emphasise that this is the first of three phases of consultation. We will hold meetings and events and seek to engage as widely as possible so that all interested parties can feed in effectively.

**John Griffiths:** Mae'r ymgynghoriad ynddo'i hun yn agwedd bwysig ar yr ymgysylltu hwnnw ac, unwaith eto, hoffwn bwysleisio mai dyma'r cam cyntaf o blith tri cham yr ymgynghoriad. Byddwn yn cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau ac yn ceisio ymgysylltu â chymaint ag y bo modd er mwyn i bawb sydd â diddordeb allu cyfrannu'n effeithiol.

**Russell George:** An indicative timetable exists for marine plans in Wales, inshore and offshore, but, with no plans yet prepared, and with the current resource levels in Government to deal with this issue being minimal, are you confident that you will be able to achieve the 2015 target date?

**Russell George:** Mae amserlen ddangosol yn bodoli ar gyfer cynlluniau morol yng Nghymru, ar y glannau ac ar y môr, ond, gan nad oes dim cynlluniau wedi'u paratoi eto, a'r lefelau presennol o adnoddau yn y Llywodraeth i ymdrin â'r mater hwn yn fach iawn, a ydych yn hyderus y byddwch yn gallu cyrraedd y dyddiad targed sef 2015?

**John Griffiths:** Yes, I am. We are very much working towards that, and officials are carrying out a lot of work at the moment. As with many demands on Government, it is an exacting time frame, but it is one to which we are committed.

**John Griffiths:** Ydw. Rydym yn gweithio'n galed iawn at hynny, ac mae swyddogion yn gwneud llawer o waith ar hyn o bryd. Fel gyda llawer o’r gofynion ar y Llywodraeth, mae'n amserlen fanwl, ond rydym wedi ymrwymo iddi.

**William Powell:** Minister, as you will be aware, MCZs have the potential to make a significant difference to the health and biodiversity of our surrounding seas. However, I have been contacted by a number of stakeholders, including members of the Wales Environment Link, who highlight the fact that the messages coming out of the Welsh Government have not always been consistent. To that end, will you please outline what discussions you have had with

**William Powell:** Weinidog, fel y gwyddoch, mae gan y Parthau Cadwraeth Morol y potensial i wneud gwahaniaeth sylweddol i gyflwr a bioamrywiaeth y moroedd sydd o'n cwmpas. Fodd bynnag, mae nifer o randdeiliaid wedi cysylltu â mi, gan gynnwys aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru, sy’n tynnu sylw at y ffaith nad yw negeseuon Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyson bob amser. I'r perwyl hwnnw, a fyddech cystal ag amlinellu pa drafodaethau rydych wedi'u cael

colleagues across the Cabinet to enhance consistency in terms of the communication strategy around the MCZs?

gyda chyd-Aelodau ar draws y Cabinet i wella cysondeb o ran y strategaeth gyfathrebu ynghylch Parthau Cadwraeth Morol?

**John Griffiths:** I regularly meet Cabinet colleagues, and my officials regularly meet their officials, and discuss a wide range of matters, including these. We will very much take forward a consistent Welsh Government message and approach, in line with our central organising principle of sustainable development.

**John Griffiths:** Rwyf yn cwrdd yn rheolaidd â chyd-Aelodau yn y Cabinet, ac mae fy swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â'u swyddogion, ac yn trafod ystod eang o faterion, gan gynnwys y rhain. Byddwn yn bendant yn cyflwyno neges a dull gweithredu cyson gan Lywodraeth Cymru, yn unol â'n prif egwyddor drefniadol o ddatblygu cynaliadwy.

**William Powell:** Thank you for that answer. Staying on the topic of stakeholders, the Petitions Committee will soon receive a petition in opposition to the creation of MCZs in north Wales due to the impact that they will have, which colleagues have already raised, on leisure activities and fishing. Will you please reassure the Chamber that you have also engaged with the Members of the European Parliament who represent Wales in the formulation of this process, particularly given the important stage at which discussions on common agricultural policy reform have reached?

**William Powell:** Diolch ichi am yr ateb. Gan aros gyda'r rhanddeiliaid, bydd y Pwyllgor Deisebau yn derbyn deiseb yn fuan yn gwrthwynebu creu'r Parthau Cadwraeth Morol yn y gogledd oherwydd yr effaith y byddant yn ei chael ar weithgareddau pysgota a hamdden, rhywbeth y mae cyd-Aelodau eisoes wedi’i godi. A wnewch chi roi sicrwydd i'r Siambr eich bod hefyd wedi ymgysylltu ag Aelodau o Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru wrth lunio'r broses hon, yn enwedig wrth ystyried y cam pwysig y mae trafodaethau ar ddiwygio polisi amaethyddol cyffredin wedi ei gyrraedd?

**John Griffiths:** The European Union has been and is a major driver of environmental improvement, and many valuable developments have come from the European Union, so that is a central sphere of influence with regard to these matters. I am very open to engagement with, and ideas from, any of our Members of the European Parliament.

**John Griffiths:** Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi bod yn ffactor pwysig o ran sbarduno gwelliannau amgylcheddol, ac mae'n dal i fod felly, ac mae llawer o ddatblygiadau gwerthfawr wedi dod o du'r Undeb Ewropeaidd, felly mae'n gylch dylanwad canolog o ran y materion hyn. Rwyf yn agored iawn i ymgysylltu ag unrhyw un o'n Haelodau yn Senedd Ewrop, ac i drafod eu syniadau.

**Cynllunio**

**Planning**

***5. Peter Black:*** *Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch ei gyfrifoldebau dros gynllunio. OAQ(4)0116(ESD)*

***5. Peter Black:*** *What discussions has the Minister had with the UK Government regarding extending his responsibilities for planning. OAQ(4)0116(ESD)*

**John Griffiths:** Planning is a devolved function of the Welsh Government for which we already have full responsibility. The Welsh Government continues to strive for the devolution of major energy consents.

**John Griffiths:** Mae cynllunio yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli i Lywodraeth Cymru ac mae gennym gyfrifoldeb llawn dros hyn yn barod. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio datganoli'r prif ganiatadau ynni.

**Peter Black:** Thank you for that answer,

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw,

Minister. It is on major energy consents that I want to ask you a question. In the discussions that you have had with the UK Government about the devolution of major energy consents, what mechanisms have you suggested that the Welsh Government would put in place to deal with them if we were to acquire that power?

Weinidog. Hoffwn ofyn cwestiwn ichi ar y prif ganiatadau ynni. Yn y trafodaethau rydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli prif ganiatadau ynni, pa ddulliau rydych wedi'u hawgrymu y gallai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i ymdrin â hwy pe byddem yn cael y pŵer hwnnw?

**John Griffiths:** I have had discussions with Chris Huhne and, briefly, with Ed Davey on these matters, and a number of exchanges beyond that. I have emphasised the fact that we have a great deal of work going on at the moment regarding planning, which I am sure Members will be familiar with. We will have a Bill in due course, we have the independent advisory group, and we have specific work looking at the history and experience of energy consents. It is too early to pre-empt that and state what new system might emerge. Nonetheless, I have made the case very strongly that we need to be able to offer a consistent, stable and predictable system in Wales, and it would be much easier to do that if we had those further energy consents so that it is within the remit of the Welsh Government.

**John Griffiths:** Rwyf wedi cael trafodaethau gyda Chris Huhne ac, yn gryno, gydag Ed Davey ar y materion hyn, ac wedi cael sawl sgwrs ar ôl hynny. Rwyf wedi pwysleisio'r ffaith bod gennym lawer iawn yn digwydd ar hyn o bryd o ran cynllunio, ac rwyf yn siŵr y bydd Aelodau yn gyfarwydd â hynny. Bydd gennym Fil maes o law, mae gennym y grŵp cynghori annibynnol, ac mae gennym waith penodol sy'n edrych ar hanes a phrofiad yn ymwneud â chaniatadau ynni. Mae'n rhy gynnar i ragdybio hynny a nodi pa system newydd a allai godi. Serch hynny, rwyf wedi pledio'r achos yn gryf iawn bod angen inni allu cynnig system gyson, sefydlog a rhagweladwy yng Nghymru, ac y byddai'n llawer haws gwneud hynny pe byddai gennym y caniatadau ynni eraill hynny fel ei fod yn rhan o gylch gwaith Llywodraeth Cymru.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, the Localism Act 2011 has devolved many aspects of planning to a local level, with the introduction of neighbourhood plans, the community right-to-buy scheme and community consultation at the pre-planning application stage. Regrettably, many of these examples of devolution to communities have not been incorporated into Welsh law. What consideration would you give to giving a greater say in planning matters at a local level back to communities during the forthcoming planning review?

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, mae Deddf Lleoliaeth 2011 wedi datganoli sawl agwedd ar gynllunio i lefel leol, drwy gyflwyno cynlluniau cymdogaeth, cynllun hawl y gymuned i brynu ac ymgynghori â'r gymuned yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio. Yn anffodus, nid yw llawer o'r enghreifftiau hyn o ddatganoli i gymunedau wedi cael eu hymgorffori yng nghyfraith Cymru. Pa ystyriaeth y byddech yn ei rhoi i roi mwy o lais mewn materion cynllunio ar lefel leol yn ôl i'r cymunedau yn ystod yr adolygiad cynllunio arfaethedig?

**John Griffiths:** The first thing to say is that, as an outside observer of what has been happening in England, and following reports, it seems to me that there has been a swaying back and forth between localism on the one hand and a presumption for sustainable development on the other. It is far from clear what the position is. Local planning authorities and local development plans are the very bedrock of our planning system here in Wales. We have a very local approach. As

**John Griffiths:** Y peth cyntaf i'w ddweud, fel un sydd wedi bod yn edrych o'r tu allan ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn Lloegr, ac yn dilyn adroddiadau, yw ei bod yn ymddangos imi fod rhyw symud yn ôl ac ymlaen wedi bod rhwng lleoliaeth ar y naill law a rhagdybiaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy ar y llall. Nid yw’r sefyllfa’n glir o bell ffordd. Mae awdurdodau cynllunio lleol a chynlluniau datblygu lleol yn sylfaen hanfodol ein system gynllunio yma yng

I said in answer to Peter Black, I would not want to pre-empt any of the work that is currently going on, but the opportunities are there to feed in views and to help to shape what eventually emerges.

Nghymru. Mae gennym ddull gweithio lleol iawn. Fel y dywedais wrth ateb Peter Black, ni fyddwn am ragdybio unrhyw ran o'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd, ond mae'r cyfleoedd yno i gyflwyno barn ac i helpu i lunio'r hyn a ddaw yn y pen draw.

**Jocelyn Davies:** Going back to your answer to Peter Black about responsibility over energy projects, you will know that my group supports your bid for the transfer of those responsibilities. What reason does the UK Government give for refusing the transfer?

**Jocelyn Davies:** Gan fynd yn ôl at eich ateb i Peter Black am gyfrifoldeb dros brosiectau ynni, byddwch yn gwybod bod fy ngrŵp yn cefnogi'ch cais i drosglwyddo'r cyfrifoldebau hynny. Pa reswm y mae Llywodraeth y DU yn ei roi dros wrthod trosglwyddo?

**John Griffiths:** In my experience, there is a view in the UK Government that, for major projects of over 50 MW, what it has on England-and-Wales basis offers what it describes as a simplified, certain, stable system. We have a very different view: we think that what we have in Wales is very fragmentary and that it would be much better if we had those further energy powers, so that we could make a consistent, stable, predictable offer. Clearly, there is a difference of opinion there. The UK Government is saying that these matters could be dealt with in part 2 of the Silk commission, but we want to get on with things now and to be able to take forward energy policy in a much more effective way.

**John Griffiths:** O'm profiad, mae Llywodraeth y DU yn credu, ar gyfer prosiectau mawr dros 50 MW, fod yr hyn sydd ganddi yng Nghymru a Lloegr yn cynnig yr hyn a ddisgrifia fel system sefydlog, benodol a symlach. Mae ein barn yn wahanol iawn: rydym yn credu bod yr hyn sydd gennym yng Nghymru yn ddarniog iawn ac y byddai'n llawer gwell pe byddai gennym y pwerau ynni eraill, er mwyn inni gynnig rhywbeth mwy cyson, sefydlog a rhagweladwy. Yn amlwg, mae gwahaniaeth barn yno. Mae Llywodraeth y DU yn dweud y gellid ymdrin â'r materion hyn yn rhan 2 comisiwn Silk, ond rydym am fwrw ymlaen â phethau yn awr ac am allu bwrw ymlaen â pholisi ynni mewn ffordd lawer mwy effeithiol.

**Problemau Llygredd o Garthffosiaeth**

**Sewerage Pollution Problems**

***6. Aled Roberts**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am broblemau llygredd o garthffosiaeth yn dilyn y glaw trwm diweddar. OAQ(4)0128(ESD)*

***6. Aled Roberts:** Will the Minister make a statement about the problems of sewerage pollution following the recent heavy rain. OAQ(4)0128(ESD)*

**John Griffiths:** Cyfrifoldeb y cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn bennaf yw rheolaeth rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus Cymru. Rwy’n ymwybodol bod y cwmnïau hyn yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ymateb i achosion o lygredd carthffosiaeth yng Nghymru o ganlyniad i’r glaw trwm diweddar.

**John Griffiths:** The management of the public sewer network in Wales is primarily the responsibility of water and sewerage companies. I am aware that these companies are working with the Environment Agency to address sewerage pollution incidents in Wales as a result of the recent heavy rainfall.

**Aled Roberts:** Diolch, Weinidog, am eich ateb. Yn sgîl y digwyddiad diweddar yn y Rhyl, yn etholaeth Dyffryn Clwyd, sawl digwyddiad tebyg a gafwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac a ydych yn fodlon â’r mesurau y mae Asiantaeth yr Amgylchedd

**Aled Roberts:** Thank you, Minister, for your response. Following the recent incident in Rhyl, in the Vale of Clwyd constituency, how many similar incidents have there been over the last year, and you content with the measures that the Environment Agency and

a'r cwmnïau dŵr yn eu rhoi ar waith i ddelio â'r problemau hyn?

the water companies are implementing to deal with these problems?

**John Griffiths:** It is clear that we do need to see further work to deal with sewage overflows—they have been a problem for quite some time. A lot of investment has been made, and progress has been made, but there is clearly more to be done. With regard to the incident in Rhyl, having a beach closed for a few days is far from desirable. We will continue to remind the water companies of their responsibilities and to work with Environment Agency Wales for further improvement.

**John Griffiths:** Mae'n amlwg bod angen inni weld rhagor o waith i ymdrin â charthion yn gorlifo—mae hyn wedi bod yn broblem ers cryn amser. Mae llawer o fuddsoddi wedi bod, ac mae cynnydd wedi cael ei wneud, ond mae'n amlwg bod mwy i'w wneud. O ran y digwyddiad yn y Rhyl, mae cau traeth am rai dyddiau yn bell o fod yn ddymunol. Byddwn yn parhau i atgoffa'r cwmnïau dŵr o'u cyfrifoldebau ac i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn gwella mwy.

**Darren Millar:** Minister, you will be aware that the sewage problem in the Vale of Clwyd also affected my constituency, because it was discharged directly into the River Clwyd, which forms a natural boundary between the Vale of Clwyd and Clwyd West. A big problem and a big challenge for Wales in going forward is that our sewerage infrastructure is not up to scratch in terms of being able to deal with the significant development proposed in some parts of north Wales and other areas of the country. What discussions have you had about the possible introduction of Dŵr Cymru, in particular, as a statutory consultee within the planning process? I think that that would help to minimise the risk in future.

**Darren Millar:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod y broblem carthion yn Nyffryn Clwyd hefyd wedi effeithio ar fy etholaeth, oherwydd i'r carthion gael eu gollwng yn uniongyrchol i Afon Clwyd, sy'n ffurfio ffin naturiol rhwng Dyffryn Clwyd a Gorllewin Clwyd. Un broblem fawr a her fawr i Gymru wrth iddi symud ymlaen yw nad yw ein seilwaith carthffosiaeth yn ddigon da i allu ymdrin â'r datblygiad sylweddol arfaethedig mewn rhai rhannau o'r gogledd ac ardaloedd eraill o'r wlad. Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael am y posibilrwydd o gyflwyno Dŵr Cymru, yn benodol, fel ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio? Rwyf yn meddwl y byddai hynny'n helpu i leihau'r risg yn y dyfodol.

**John Griffiths:** These are matters that should be considered in the planning process and in the development of local development plans. It is clear that the infrastructure is not wholly adequate to deal with surface water and sewage overflows. Therefore, further investment is needed. Then, of course, we come to the pricing mechanism, whereby the companies are allowed, to some extent, to raise their prices to allow for further investment. However, that has to be balanced against affordability, particularly at the current time.

**John Griffiths:** Mae'r rhain yn faterion y dylid eu hystyried yn y broses gynllunio ac wrth ddatblygu cynlluniau datblygu lleol. Mae'n amlwg nad yw'r seilwaith yn gwbl ddigonol i ymdrin â dŵr wyneb a charthion yn gorlifo. Felly, mae angen rhagor o fuddsoddiad. Yna, wrth gwrs, down at y mecanwaith prisio, lle caniateir i'r cwmnïau, i ryw raddau, godi eu prisiau er mwyn buddsoddi mwy. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso hynny yn erbyn fforddiadwyedd, yn enwedig yn y dyddiau sydd ohoni.

### Camlesi Cymru

### Wales's Canals

***7. Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Dyfrffyrdd Prydain am gynnal a chadw camlesi Cymru. OAQ(4)0118(ESD)*

***7. Nick Ramsay:** Will the Minister detail any discussions he has had with British Waterways over the upkeep of Wales' canals. OAQ(4)0118(ESD)*

**John Griffiths:** I will be meeting British Waterways on 30 May and this is one of the issues to be discussed.

**John Griffiths:** Byddaf yn cael cyfarfod â Dyfrffyrdd Prydain ar 30 Mai ac mae hyn yn un o'r materion a gaiff ei drafod.

**Nick Ramsay:** As you are aware, I am the chair of the cross-party group on waterways, therefore, this is an issue close to my heart. We have the transition at the moment from British Waterways to the new Canal and River Trust, which is a matter of interest and concern to all of those who follow the protection of waterways in Wales. Given that it would be difficult to ever fully devolve waterways for budgetary reasons, given the huge cost involved in maintaining Wales's four canals, and, indeed, canals across the UK, can you tell us how you intend to strengthen the relationship between your department, the Assembly and the new Canal and River Trust, to ensure that we have the best possible relationship, even though it is not a devolved function?

**Nick Ramsay:** Fel y gwyddoch, fi yw cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar ddyfrffyrdd, felly mae'r mater yn agos at fy nghalon. Ar hyn o bryd rydym yn y cyfnod pontio o Dyfrffyrdd Prydain i'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd newydd, sy'n fater o ddiddordeb a phryder i bawb sy'n dilyn y gwaith o ddiogelu dyfrffyrdd yng Nghymru. O ystyried y byddai'n anodd datganoli dyfrffyrdd yn llwyr unrhyw bryd oherwydd rhesymau cyllidebol, o ystyried cost enfawr cynnal pedwar camlas Cymru, ac, yn wir, camlesi ar draws y DU, a allwch ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu cryfhau'r berthynas rhwng eich adran, y Cynulliad a'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd newydd, er mwyn sicrhau bod gennym y berthynas orau bosibl, er nad yw'n swyddogaeth ddatganoledig?

**John Griffiths:** I accept that that is the relationship that we need. We would want to see synergy between relevant Welsh Government strategy and policy and the activities of the new trust, and also the necessary investment in Wales. My officials are working on a memorandum of understanding with the new body, which will provide some structure and framework for that relationship. I think that that will be very valuable.

**John Griffiths:** Rwyf yn derbyn mai dyna'r berthynas sydd ei hangen arnom. Byddem am weld synergedd rhwng strategaeth a pholisïau perthnasol Llywodraeth Cymru a gweithgareddau'r ymddiriedolaeth newydd, a hefyd y buddsoddiad angenrheidiol yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn gweithio ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r corff newydd, a fydd yn rhoi rhyw strwythur a fframwaith ar gyfer y berthynas honno. Rwyf yn meddwl y bydd hynny'n werthfawr iawn.

**Lindsay Whittle:** Minister, in view of the fact that you are meeting these people shortly, can you ask them what information they can give you on the extent to which British Waterways is developing as a form of social enterprise and whether they can provide employment opportunities for disabled and disadvantaged people in Wales?

**Lindsay Whittle:** Weinidog, yn wyneb y ffaith eich bod yn cwrdd â'r bobl hyn yn fuan, a allwch ofyn iddynt pa wybodaeth y gallant ei rhoi ichi ynghylch i ba raddau y mae Dyfrffyrdd Prydain yn datblygu fel math o fenter gymdeithasol, ac a allant roi cyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl a phobl dan anfantais yng Nghymru?

**John Griffiths:** I would be happy to raise those matters with the new body, and with British Waterways before the change is made. I know that the body has ambitious plans for development and work in Wales and for linking with other organisations and forming partnerships. I am sure that that will afford the kind of opportunities that the Member mentions.

**John Griffiths:** Byddwn yn hapus i godi'r materion hynny gyda'r corff newydd, a chyda Dyfrffyrdd Prydain cyn y newid. Gwn fod gan y corff gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer datblygu a gwaith yng Nghymru ac ar gyfer cysylltu â sefydliadau eraill a chreu partneriaethau. Rwyf yn siŵr y bydd hynny'n cynnig y math o gyfleoedd y mae'r Aelod yn sôn amdanynt.

**Blaenoriaethau ar gyfer Canol De Cymru**

*8.* ***Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Canol De Cymru dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0121(ESD)*

**John Griffiths:** I am committed to fulfilling, across Wales, the commitments that are set out for my portfolio in the programme for government.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** Thank you, Minister, for that answer. One of the responsibilities that you have is for planning and the delivery of local development plans. At the recent local government elections, certain councils in South Wales Central made a commitment that they would go back to the starting point of these LDPs and begin the process anew. Given that the Welsh Government set the targets, what discretion is there for new councils to restart the process of LDP consultation, because LDPs are important documents that councils need to be working to in developing planning policy in their areas?

**John Griffiths:** It is absolutely right that the local development plan is a basic responsibility of local authorities, because it guides development locally to a considerable and significant extent. If they do not have an up-to-date local development plan in place, they are not fulfilling their responsibilities. Only five are in place in the 25 local planning authorities in Wales at the moment, so there is considerable work to be done, and I urge every local authority in Wales—whether it has a new administration or not—to ensure that it has up-to-date LDPs in place as quickly as possible.

2.00 p.m.

**'Cynnal Cymru Fyw'**

*9.* ***Llyr Huws Gruffydd:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y papur gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw'. OAQ(4)0127(ESD)*

**John Griffiths:** Cafodd ymgynghoriadau cyhoeddus eu lansio ar 30 Ionawr 2012 gan

**Priorities for South Wales Central**

*8.* ***Andrew R.T. Davies:*** *Will the Minister make a statement on his priorities for South Wales Central for the next six months. OAQ(4)0121(ESD)*

**John Griffiths:** Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni, ar draws Cymru, yr ymrwymiadau a nodwyd ar gyfer fy mhortffolio yn y rhaglen lywodraethu.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Un o'r cyfrifoldebau sydd gennych yw cynllunio a darparu cynlluniau datblygu lleol. Yn yr etholiadau llywodraeth leol diweddar, gwnaeth ambell gyngor yng Nghanol De Cymru ymrwymiad y byddent yn mynd yn ôl i fan cychwyn y Cynlluniau Datblygu Lleol hyn ac yn dechrau'r broses o'r newydd. O gofio mai Llywodraeth Cymru sy'n gosod y targedau, pa ddisgresiwn sydd i gynghorau newydd ailgychwyn y broses o ymgynghori ynghylch Cynlluniau Datblygu Lleol, gan eu bod yn ddogfennau pwysig y mae'n rhaid i gynghorau eu dilyn wrth ddatblygu polisi cynllunio yn eu hardaloedd?

**John Griffiths:** Mae'n gwbl briodol mai cyfrifoldeb sylfaenol awdurdodau lleol yw'r cynllun datblygu lleol, gan ei fod yn llywio datblygiad yn lleol i raddau helaeth. Os nad oes ganddynt gynllun datblygu lleol cyfredol ar waith, nid ydynt yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Dim ond pump sydd ar waith yn y 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru ar hyn o bryd, felly mae cryn dipyn o waith i'w wneud. Rwyf yn annog pob awdurdod lleol yng Nghymru—pa un ai bod ganddo weinyddiaeth newydd neu beidio—i sicrhau bod ganddo'r Cynlluniau Datblygu Lleol diweddaraf ar waith cyn gynted â phosibl.

**'Sustaining a Living Wales'**

*9.* ***Llyr Huws Gruffydd:*** *Will the Minister make a statement about the green paper 'Sustaining a Living Wales'. OAQ(4)0127(ESD)*

**John Griffiths:** Public consultations were launched on 30 January 2012 and they close

gau ar 31 Mai 2012. Mae'r cynigion a osodir yn y Papur Gwyrdd yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru.

on 31 May 2012. The proposals set out in the Green Paper reinforce our commitment to ensuring that sustainable development is the central organising principle of the Welsh Government.

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch yn fawr ichi am yr ateb hwnnw. Mae pwyslais yn y Papur Gwyrdd ar wneud pethau'n haws i ddatblygwyr a'r rhai sydd angen caniatâd a thrwyddedau ar gyfer eu gweithgareddau, ac rydym yn croesawu hynny. A wnewch chi roi sicrwydd y bydd unrhyw ymdrechion i symleiddio'r rheoliadau yn gwella safonau amgylcheddol ac nid yn eu herydu na'u tanseilio?

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you very much for that response. The Green Paper places an emphasis on expediting matters for developers and those who need consent or permits for their activities, and we welcome that. Will you give an assurance that any attempts to simplify the regulations will improve environmental standards rather than erode or undermine them?

**John Griffiths:** I am happy to confirm that, in seeking and achieving the appropriate balance, it will be important to ensure that, as well as simplifying the regulatory process and making it more user-friendly, we protect and improve environmental safeguards.

**John Griffiths:** O ran chwilio am y cydbwysedd priodol a sicrhau'r cydbwysedd hwnnw, rwyf yn barod i gadarnhau y bydd yn bwysig gwneud yn siŵr ein bod yn diogelu ac yn gwella mesurau diogelu amgylcheddol, yn ogystal â symleiddio'r broses reoleiddio a'i gwneud yn haws ei defnyddio.

**The Presiding Officer:** I call Antoinette Sandbach.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Antoinette Sandbach.

**Antoinette Sandbach:** I think that I am down for the next question.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn credu mai ar gyfer y cwestiwn nesaf y mae fy enw i i lawr.

**The Presiding Officer:** In that case, I call Simon Thomas to ask question 10—

**Y Llywydd:** Os felly, galwaf ar Simon Thomas i ofyn cwestiwn 10—

**Antoinette Sandbach:** Perhaps I can pick up on that, actually.

**Antoinette Sandbach:** A dweud y gwir, efallai y gallaf godi pwynt o hynny.

**The Presiding Officer:** Just move on to the question as soon as you can.

**Y Llywydd:** A fyddech cystal â gofyn y cwestiwn cyn gynted ag y gallwch.

**Antoinette Sandbach:** Minister, what targets will you be setting for the environmental safeguards and how will they be measured? Recently, an answer from the First Minister indicated that the delivery unit has not set targets in any department. How will you measure that?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, pa dargedau y byddwch yn eu gosod ar gyfer y mesurau diogelu amgylcheddol, a sut y byddant yn cael eu mesur? Yn ddiweddar, roedd ateb gan y Prif Weinidog yn dangos nad yw'r Uned Gyflawni wedi gosod targedau mewn unrhyw adran. Sut y byddwch yn mesur hynny?

**John Griffiths:** We have existing targets in place, which will continue, and when the new single environment body is in place, in conjunction with the consultation on 'Sustaining a Living Wales', it will then be timely to reconsider these matters.

**John Griffiths:** Mae gennym dargedau ar waith, a bydd y rheini'n parhau. Pan fydd yr un corff amgylcheddol newydd wedi'i sefydlu, ar y cyd â'r ymgynghoriad ar 'Cynnal Cymru Fyw', bydd hynny'n adeg briodol i ailystyried y materion hyn.

**Ynni Adnewyddadwy**

***10. Simon Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae ei adran yn mynd ati i annog defnyddio rhagor o ynni adnewyddadwy. OAQ(4)0123(ESD)*

**John Griffiths:** Mae 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' yn amlinellu ein meddylfryd tuag at garbon isel yn y dyfodol yng Nghymru, a hybu a datblygu ynni adnewyddadwy.

**Simon Thomas:** Diolch, Weinidog, am yr ateb. I mi, mae microgynhyrchu yn bwysig iawn gan ei fod yn creu cyswllt uniongyrchol rhwng y cwsmer a'r broses o gynhyrchu ynni, gan atgyfnerthu negeseuon am y newid yn yr hinsawdd. Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd, yn enwedig o fewn y gyfundrefn cynllunio, i'w gwneud yn haws i bobl osod dulliau microgynhyrchu yn eu cartrefi, gan gynnwys cartrefi yn ardaloedd y parciau cenedlaethol?

**John Griffiths:** I accept that we need to make it easier for householders and businesses to install equipment for energy microgeneration. This very month, we will be putting greater permitted development rights in place for householders and, this summer, we will have greater permitted development rights in place for non-domestic properties.

**The Presiding Officer:** I call the opposition spokesperson, Antoinette Sandbach.

**Antoinette Sandbach:** Minister, I am relieved to hear that because, as you are aware, I have asked you questions on this issue on a number of occasions. You have clearly brought forward your plans, which I think you said initially would be introduced towards the end of 2012. It is clear that many rural businesses have had to fight tooth and nail with the planning system, at considerable additional cost, to install these micro or small-scale renewable energy projects. Why has it taken so long to give permitted development rights in Wales when, over the border in England, those rights have been long established and have been benefitting rural communities for some time?

**Renewable Energy**

***10. Simon Thomas:*** *Will the Minister outline how his department is actively encouraging more use of renewable energy. OAQ(4)0123(ESD)*

**John Griffiths:** 'Energy Wales: A Low Carbon Transition' covers our approach to Wales's low-carbon future and to promoting and developing renewable energy.

**Simon Thomas:** Thank you for that answer, Minister. To me, microgeneration is very important because it creates a direct link between the consumer and the process of energy generation, thereby reinforcing climate change messages. What steps will you be taking, particularly within the planning system, to make it easier for people to install microgeneration equipment in their homes, including homes within national park boundaries?

**John Griffiths:** Rwyf yn derbyn bod angen inni ei gwneud yn haws i ddeiliaid tai a busnesau osod offer ar gyfer microgynhyrchu ynni. Yn wir, yn ystod y mis, byddwn yn rhoi gwell hawliau datblygu a ganiateir ar waith ar gyfer deiliaid tai ac, yn ystod yr haf, bydd gennym well hawliau datblygu a ganiateir ar waith ar gyfer eiddo annomestig.

**Y Llywydd:** Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Antoinette Sandbach.

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, rwyf yn falch o glywed hynny oherwydd, fel y gwyddoch, rwyf wedi eich holi am y mater hwn ar sawl achlysur. Rydych yn amlwg wedi dwyn eich cynlluniau ymlaen, gan ichi ddweud ar y dechrau mai erbyn diwedd 2012 y byddent yn cael eu cyflwyno. Mae'n amlwg bod llawer o fusnesau gwledig wedi gorfod ymladd i'r eithaf â'r system gynllunio, a hynny am gryn dipyn o gost ychwanegol, er mwyn gosod prosiectau ynni adnewyddadwy micro neu fach. Pam mae wedi cymryd cymaint o amser i roi hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru, gan gofio bod yr hawliau hynny wedi eu hen sefydlu dros y ffin yn Lloegr, ac wedi bod yn dwyn budd i gymunedau gwledig ers tro?

**John Griffiths:** It has not taken 'so long', as the Member describes it, to get these new rights in place. There was work that needed to be carried out, such as radar mapping, for example, which takes some time. I am pleased that we are now able to move quickly to get these further permitted development rights in place this summer, although I can assure the Member that that is no way attributable to her incisive questioning.

**John Griffiths:** Nid yw wedi cymryd 'cymaint o amser', fel y dywed yr Aelod, i sefydlu'r hawliau newydd hyn. Roedd angen gwneud gwaith fel radarfapio, er enghraifft, sy'n cymryd dipyn o amser. Rwyf yn falch ein bod bellach yn gallu symud yn gyflym i sefydlu'r gwell hawliau datblygu a ganiateir ychwanegol yn ystod yr haf, er y gallaf sicrhau'r Aelod na ellir priodoli hynny o gwbl i'w holi treiddgar.

**Antoinette Sandbach:** Presumably, as projects generating below 50 MW have always been devolved to Wales, it in fact has taken since 1999 for these permitted development rights to be put in place. You might not call 11 years 'so long', but others might disagree. You have indicated that you will bring forward permitted development rights, but will there be energy performance certificate requirements, and if so, what will they be for business premises?

**Antoinette Sandbach:** Gan fod prosiectau sy'n cynhyrchu llai na 50 MW wedi cael eu datganoli i Gymru erioed, mewn gwirionedd, gellir dweud ei bod wedi cymryd er 1999 i'r hawliau datblygu a ganiateir hyn gael eu rhoi ar waith. Efallai nad yw 11 mlynedd yn 'gymaint o amser' â hynny yn eich barn chi, ond efallai y bydd pobl eraill yn anghytuno. Rydych wedi dweud y byddwch yn cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir, ond a fydd gofynion o ran tystysgrifau perfformiad ynni ac, os felly, beth fydd y gofynion ar gyfer eiddo busnes?

**John Griffiths:** I do not accept that time frame 'since 1999', as the Member describes it, as being applicable to these matters. We will take forward these permitted development rights in the next month or two, as I said, and the Member will be interested to know that it will also address some of the issues that she has raised in the past with regard to agriculture and forestry. However, there may be environmental impact considerations to be taken into account.

**John Griffiths:** Nid wyf yn derbyn bod y ffrâm amser 'er 1999', fel y dywed yr Aelod, yn berthnasol i'r materion hyn. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r hawliau datblygu a ganiateir yn ystod y mis neu ddau nesaf, fel y dywedais, ac rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn falch o wybod y bydd hyn hefyd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion y mae hi wedi'u codi yn y gorffennol o ran amaethyddiaeth a choedwigaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhoi sylw i ystyriaethau effaith ar yr amgylchedd.

### Cymysgedd Ynni y DU

### The UK's Energy Mix

***11. Eluned Parrott:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad posibl Cymru at gymysgedd ynni y DU. OAQ(4)0115(ESD)*

***11. Eluned Parrott:** Will the Minister make a statement on Wales' potential contribution to the UK's energy mix. OAQ(4)0115(ESD)*

**John Griffiths:** Wales is well placed to make a significant contribution to a low-carbon energy mix in the UK while enhancing the economic, social and environmental wellbeing of our communities.

**John Griffiths:** Mae Cymru mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad pwysig at gymysgedd ynni carbon isel yn y DU, gan wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymunedau ar yr un pryd.

**Eluned Parrott:** Thank you for that answer, Minister. Tidal power from the Severn estuary clearly has the potential to make a significant contribution to our energy mix.

**Eluned Parrott:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'n amlwg bod gan ynni'r llanw yn Aber Afon Hafren y potensial i wneud cyfraniad sylweddol at ein cymysgedd ynni.

However, it is my understanding that, if the sites of special scientific interest in the Severn estuary were to be destroyed by the construction of a large-scale barrage such as that proposed by Corlan Hafren, under EU environmental law, new sites of equivalent size and quality would have to be created. Is Peter Hain misguided, or have you identified an alternative site for 39,410 acres of estuarine reserves?

Fodd bynnag, pe bai safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn Aber Afon Hafren yn cael eu dinistrio wrth adeiladu morglawdd ar raddfa fawr fel yr un a gynigir gan Corlan Hafren, o dan gyfraith amgylcheddol yr UE, caf ar ddeall y byddai'n rhaid creu safleoedd newydd o'r un maint ac ansawdd. A yw Peter Hain wedi cael ei gamarwain, ynteu a ydych wedi dod o hyd i safle arall ar gyfer 39,410 o erwau o warchodfeydd aberol?

**John Griffiths:** I am sure that the Member is aware that some considerable work has been carried out on the best way of harnessing the great potential energy in the Severn estuary, and that has sought to balance the generation potential with environmental factors. There are various proposals, and a Severn barrage is a serious one, which the Government is considering seriously. However, a number of other possibilities will also be given serious consideration.

**John Griffiths:** Rwyf yn siŵr bod yr Aelod yn gwybod bod llawer o waith wedi'i wneud i weld beth yw'r ffordd orau o fanteisio ar botensial ynni gwych Aber Afon Hafren. Mae'r gwaith hwnnw wedi ceisio cael y cydbwysedd rhwng y potensial i gynhyrchu a'r ffactorau amgylcheddol. Ceir cynigion amrywiol, ac mae morglawdd Hafren yn un difrifol sy'n cael ei ystyried o ddifrif gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, bydd nifer o bosibiliadau eraill hefyd yn cael eu hystyried o ddifrif.

**Angela Burns:** Minister, in 2004, the then Labour Minister, Andrew Davies, opened Gamesa Energy UK's headquarters in Newport and said:

**Angela Burns:** Weinidog, yn 2004, agorodd Andrew Davies, y Gweinidog Llafur ar y pryd, bencadlys Gamesa Energy UK yng Nghasnewydd, gan ddweud:

'The time is ripe to take up the challenge and opportunity we are offering in Wales through our strategy for a clean energy future.'

Mae'r amser wedi dod i ymgymryd â'r her a'r cyfle rydym yn ei gynnig yng Nghymru drwy ein strategaeth ar gyfer dyfodol o ynni glân.

I was astounded to learn recently, through written questions to the First Minister, that your Cabinet colleagues have had no communication whatsoever with Gamesa while it was deciding where to create more than 800 jobs and invest more than £125 million. As you know, that has now gone to Scotland. I simply ask you to put on record your regret that you and your Cabinet colleagues did not take a proactive approach to securing what is now a lost opportunity for Wales.

Cefais fy synnu'n ddiweddar pan glywais, drwy gwestiynau ysgrifenedig i'r Prif Weinidog, nad oedd eich cyd-Weinidogion yn y Cabinet wedi cyfathrebu o gwbl â Gamesa pan oedd yn ceisio penderfynu lle i greu mwy na 800 o swyddi a buddsoddi mwy na £125 miliwn. Fel y gwyddoch, mae hynny bellach wedi mynd i'r Alban. Rwyf yn gofyn ichi'n syml roi ar gofnod eich bod yn difaru na wnaethoch chi na'ch cyd-Weinidogion yn y Cabinet fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau yr hyn sydd, erbyn hyn, yn gyfle wedi'i golli i Gymru.

**John Griffiths:** The Welsh Government is very proactive in attracting and retaining industry and jobs here in Wales, and a great deal of effort from Ministers and officials is directed to that end. If the Member wishes to raise a particular example—and I assume that she already has, from what she has said—I

**John Griffiths:** Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweithiol iawn wrth ddenu a chadw diwydiannau a swyddi yma yng Nghymru, ac mae Gweinidogion a swyddogion yn gwneud llawer iawn o ymdrech i'r perwyl hwnnw. Os yw'r Aelod yn dymuno codi enghraifft benodol—a thybiaf ei bod wedi gwneud

am sure that she will get a response, if she has not already had it. However, in general, we are very clear that 'Energy Wales' sets out our ambitions to attract jobs and growth as well as to meet the challenges of climate change and energy production here in Wales.

hynny, o'r hyn y mae wedi'i ddweud—rwyf yn siŵr y caiff ymateb, os nad yw wedi cael ymateb yn barod. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn glir iawn bod 'Ynni Cymru' yn nodi ein dyheadau i ddenu swyddi a thwf yn ogystal â chwrdd â heriau newid hinsawdd a chynhyrchu ynni yma yng Nghymru.

**Bethan Jenkins:** Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, nid yw pwerau dros brosiectau dŵr dros 1 MW wedi'u datganoli i Gymru. A fyddwch yn cael trafodaethau gyda Peter Hain, sydd bellach yn ymgyrchydd un-mater dros forglawdd Hafren, am wthio am ddatganoli'r pwerau hynny i Gymru, gan fod hwn yn fater o bwys mawr iddo fel person?

**Bethan Jenkins:** As you know, I am sure, powers for hydro projects over 1 MW have not been devolved to Wales. Will you be holding discussions with Peter Hain, who is now a single-issue campaigner for the Severn barrage, on pushing for the devolution of these powers to Wales, given that the issue is of such great importance to him personally?

**John Griffiths:** I look forward to discussing and meeting with a variety of players and individuals to further our absolutely correct ambitions to gain further energy consents for Wales.

**John Griffiths:** Edrychaf ymlaen at drafod a chael cyfarfod ag amrywiaeth o gyfranwyr ac unigolion i hyrwyddo ein dyheadau cwbl briodol i sicrhau rhagor o bwerau caniatâd ynni i Gymru.

**Afonydd Cymru**

**Welsh Rivers**

***12. Elin Jones:*** *Pa gynnydd sydd wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf ar gytundebau mynediad i afonydd Cymru. OAQ(4)0119(ESD)*

***12. Elin Jones:*** *What progress has been made in the last 12 months on access agreements to Welsh rivers. OAQ(4)0119(ESD)*

**John Griffiths:** Rydym yn parhau i annog hwyluso trefniadau mynediad gwirfoddol.

**John Griffiths:** We continue to encourage the facilitation of voluntary access arrangements.

**Elin Jones:** If there is insufficient progress on voluntary access agreements over the next months and years, will you at some point consider a licensing scheme for all river users, as proposed by the Sustainability Committee's report in 2010?

**Elin Jones:** Os nad oes digon o gynnydd o ran cytundebau mynediad gwirfoddol dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, a wnewch chi, ar ryw adeg, ystyried cynllun trwyddedu ar gyfer pawb sy'n defnyddio afonydd, fel y cynigiwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn 2010?

**John Griffiths:** We are committed to the voluntary approach. It is a good exercise to bring together the various interested parties to see whether they can reach an agreement. We have seen progress in parts of Wales, such as the success seen as a result of the Splash funding that we provide to facilitate new arrangements. We keep these matters under review and, if necessary, we will consider different approaches.

**John Griffiths:** Rydym wedi ymrwymo i'r dull gweithredu gwirfoddol. Mae'n ymarfer da dwyn ynghyd y gwahanol bartïon â diddordeb i weld a allant ddod i gytundeb. Rydym wedi gweld cynnydd mewn rhannau o Gymru, fel y llwyddiant a welwyd yn sgîl cyllid Sblash, sy'n cael ei ddarparu gennym i hwyluso trefniadau newydd. Rydym yn adolygu'r materion hyn ac, os oes angen, byddwn yn ystyried gwahanol ddulliau gweithredu.

**Andrew R.T. Davies:** As a member of the Petitions Committee in the third Assembly, I know that it undertook a considerable piece of scrutiny work in this field, which was passed on to the Sustainability Committee in order for it to carry out a wider scoping exercise. Are you in a position to make a statement on what progress has been made to implement the recommendations that the then Government accepted and which you now, as Minister, are charged with implementing? When we looked into this, there was widespread confrontation over the issue in certain parts of Wales.

**Andrew R.T. Davies:** Fel aelod o'r Pwyllgor Deisebau yn y trydydd Cynulliad, rwyf yn gwybod ei fod wedi cynnal darn sylweddol o waith craffu yn y maes hwn, a gafodd ei roi i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd er mwyn i'r pwyllgor hwnnw gynnal ymarfer cwmpasu ehangach. A ydych mewn sefyllfa i roi datganiad am y cynnydd a wnaed i weithredu'r argymhellion a dderbyniwyd gan y Llywodraeth ar y pryd—yr argymhellion rydych chi'n awr, fel Gweinidog, yn gyfrifol am eu gweithredu? Pan edrychom ar hyn, roedd cryn dipyn o wrthwynebiad i’r mater mewn rhannau penodol o Gymru.

**John Griffiths:** There are difficulties. I have had meetings with the various groups involved. It is not at all impossible to achieve agreement and progress, as I mentioned in reply to Elin Jones’s question. I would be happy to report to Plenary on the latest situation at an appropriate time.

**John Griffiths:** Mae anawsterau'n bodoli. Rwyf wedi cael cyfarfodydd â'r gwahanol grwpiau sy'n gysylltiedig. Nid yw'n amhosibl o gwbl sicrhau cytundeb a chynnydd, fel y soniais wrth ymateb i gwestiwn Elin Jones. Byddwn yn fwy na bodlon rhoi adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf i'r Cyfarfod Llawn ar adeg briodol.

**Atal Llifogydd**

**Flood Prevention**

***13. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am atal llifogydd. OAQ(4)0120(ESD)*

***13. Jocelyn Davies:*** *Will the Minister make a statement on flood prevention. OAQ(4)0120(ESD)*

**John Griffiths:** In November, I published our national strategy for flood and coastal erosion risk management, which sets out our policies on flood prevention.

**John Griffiths:** Ym mis Tachwedd, cyhoeddais ein strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, sy'n nodi ein polisïau ar atal llifogydd.

**Jocelyn Davies:** You will probably recall that I recently contacted you about the vulnerability of homes to flooding in Newbridge and Caerphilly. You told me that a funding bid was subject to discussions with the council. Could you update me on that?

**Jocelyn Davies:** Mae'n siŵr y byddwch yn cofio imi gysylltu â chi yn ddiweddar ynghylch cartrefi sy'n agored iawn i lifogydd yn Nhrecelyn a Chaerffili. Dywedoch wrthyf fod cais am gyllid yn cael ei drafod â'r cyngor. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi am hynny?

**John Griffiths:** I will write to the Member with the latest position.

**John Griffiths:** Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod i ddweud beth yw’r sefyllfa ddiweddaraf.

**Darren Millar:** You will be aware that, of all the constituencies in Wales, mine is at the greatest risk of flooding given the number of homes and businesses that can be affected. Vital infrastructure in the area is also

**Darren Millar:** Byddwch yn ymwybodol, o'r holl etholaethau sydd yng Nghymru, fy etholaeth i sy'n wynebu'r risg fwyaf o lifogydd, o ystyried nifer y cartrefi a'r busnesau y gallai llifogydd effeithio arnynt.

protected by flood defences, particularly in Colwyn Bay, where the sea defences afford protection to both the North Wales Coast Railway line and the A55 trunk road. There have been improvements in flood protection in Colwyn Bay, but not along the Old Colwyn part of the coast. What work is your Government doing to address the problems in Old Colwyn, particularly with the other agencies that might need to be involved to solve that ongoing problem?

Mae seilwaith hollbwysig yn yr ardal hefyd yn cael ei ddiogelu gan amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn enwedig ym Mae Colwyn, lle mae'r amddiffynfeydd môr yn amddiffyn lein Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru a chefnffordd yr A55. Mae amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi cael eu gwella ym Mae Colwyn, ond nid ar hyd y rhan o’r arfordir sydd yn Hen Golwyn. Pa waith sy'n cael ei wneud gan eich Llywodraeth i fynd i'r afael â'r problemau yn Hen Golwyn, yn enwedig gyda'r asiantaethau eraill y byddai angen eu cynnwys efallai er mwyn datrys y broblem barhaus honno?

**John Griffiths:** I very much understand the points made by Darren Millar. It is indeed the case that, as well as protecting businesses and residences, our sea defences protect vital infrastructure—roads, railways and some of our sewage and water infrastructure as well. It is therefore vital that we maintain those defences and, when necessary, replace them and, beyond that, build new defences. That takes a great deal of resource, and, as Members know, there is not a great deal of capital available at the moment. We look to lever in moneys to help with the necessary work wherever possible. My officials are in contact with the local authority, the Environment Agency, and the owners of the infrastructure that the Member mentions.

**John Griffiths:** Rwyf yn deall yn iawn y pwyntiau a wnaed gan Darren Millar. Mae'n wir fod ein hamddiffynfeydd môr yn diogelu seilweithiau hollbwysig—ffyrdd, rheilffyrdd ac ambell ran o'n seilwaith carthffosiaeth a dŵr hefyd, yn ogystal â busnesau a chartrefi. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal a chadw'r amddiffynfeydd hynny a, phan fo angen, yn eu disodli, gan adeiladu amddiffynfeydd newydd pan fydd y sefyllfa wedi mynd y tu hwnt i hynny. Mae angen llawer iawn o adnoddau ar gyfer hynny ac, fel y gŵyr yr Aelodau, nid oes llawer iawn o gyfalaf ar gael ar hyn o bryd. Rydym yn ceisio denu arian i helpu gyda'r gwaith angenrheidiol lle bynnag y bo’n bosibl. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, a pherchnogion y seilwaith y mae'r Aelod yn sôn amdano.

**Parthau Cadwraeth Morol**

**Marine Conservation Zones**

***14. Simon Thomas:*** *Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael ynglŷn â chreu Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru. OAQ(4)0124(ESD)*

***14. Simon Thomas:*** *What discussions has the Minister had regarding creating Marine Conservation Zones in Wales. OAQ(4)0124(ESD)*

**John Griffiths:** Mae fy swyddogion wedi bod mewn trafodaethau gydag ystod o grwpiau parthed y dull gwarchodedig iawn o greu parthau cadwraeth morol. Rydym ar ganol cam cyntaf yr ymgynghoriad ar yr opsiynau ar gyfer safleoedd gwarchodedig iawn, gan drafod y camau nesaf mewn mwy o fanylder gyda chymunedau lleol.

**John Griffiths:** My officials have held discussions with a range of groups about the highly protected approach to creating marine conservation zones. We are now out to first-stage consultation on the options for highly protected sites, engaging in more detail with local communities to inform the next steps.

2.15 p.m.

**Simon Thomas:** A ydych yn cytuno bod

**Simon Thomas:** Do you agree that fishermen

pysgotwyr mewn lleoedd megis Pen Llŷn a Bae Ceredigion yn rhan o'r gwead i gynnal pysgodfeydd cynaliadwy ac y dylai fod yn bosibl i bobl barhau i wneud bywoliaeth, hyd yn oed o dan y gyfundrefn newydd? A fedrwch eu sicrhau y bydd modd iddynt gynnal bywoliaeth o'r môr fel rhan o'r gwead economaidd a thwristaidd mewn lleoedd megis Pen Llŷn?

in places such as the Llŷn peninsula and Cardigan bay are central to the creation of sustainable fisheries and that it should be possible for these people to continue to make a living, even under the new regime? Can you give an assurance that they will be able to make a living from the sea as part of the economic and tourism system in places such as the Llŷn peninsula?

**John Griffiths:** I assure the Member that the Welsh Government appreciates the interests in and the contribution to the fishing industry in Wales, both commercial and recreational. Those interests will be at the forefront of the development of the marine conservation zones.

**John Griffiths:** Rwyf yn sicrhau'r Aelod bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y buddiannau sydd yn y diwydiant pysgota yng Nghymru, boed fasnachol neu hamdden, a'r cyfraniadau at y diwydiant. Bydd y buddiannau hynny'n flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu'r parthau cadwraeth morol.

**Taflu Sbwriel**

**Littering**

***15. Julie Morgan:*** *Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i leihau taflu sbwriel. OAQ(4)0114(ESD)*

***15. Julie Morgan:*** *What plans does the Minister have to reduce littering. OAQ(4)0114(ESD)*

**John Griffiths:** The Welsh Government is committed to tackling littering, including fly-tipping, and to funding activities via Keep Wales Tidy, Environment Agency Wales and local authorities. At the Environment Matters conference on Monday, I announced our new place-based approach to environmental programmes, which will deliver integrated support to tackle environmental inequalities across Wales.

**John Griffiths:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â sbwriel, gan gynnwys tipio anghyfreithlon, ac i ariannu gweithgareddau drwy Cadwch Gymru'n Daclus, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac awdurdodau lleol. Yng nghynhadledd Environment Matters ddydd Llun, cyhoeddais ein hagwedd newydd at raglenni amgylcheddol—agwedd sy'n canolbwyntio ar leoliad—a fydd yn darparu cymorth integredig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau amgylcheddol ar hyd a lled Cymru.

**Julie Morgan:** I thank the Minister for his response. I am sure that the Minister is aware that smoking-related litter makes up the biggest part of littering in Wales and that the most of that is cigarette stubs, which are a danger to children and animals. What plans does he have to address that type of litter?

**Julie Morgan:** Diolch i'r Gweinidog am ei ymateb. Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol mai sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o sbwriel yng Nghymru. Bonion sigaréts yw'r rhan fwyaf o hynny, ac maent yn beryglus i blant ac anifeiliaid. Pa gynlluniau sydd ganddo i fynd i'r afael â'r math hwnnw o sbwriel?

**John Griffiths:** The matters that Julie Morgan mentioned are very important. Various approaches have been taken across Wales. Blaenau Gwent, for example, has a strict enforcement and fining system for dropping litter. Other areas have different approaches. We will look to see what works best across Wales. The idea of the new focus

**John Griffiths:** Mae'r materion a grybwyllwyd gan Julie Morgan yn bwysig iawn. Mae dulliau amrywiol wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae gan Flaenau Gwent, er enghraifft, system gorfodi a dirwyo lem ar gyfer gollwng sbwriel. Mae gan ardaloedd eraill ddulliau gweithredu gwahanol. Byddwn yn ceisio gweld beth sy'n

on inner-urban environmental issues is about dealing with the nitty-gritty of environmental matters that really count for people. Cigarette butts are part of the new approach that we will prioritise.

gweithio orau ar draws Cymru. Mae'r syniad o ffocws newydd ar faterion amgylcheddol yng nghanol trefi yn golygu mynd at wraidd materion amgylcheddol sydd wir yn bwysig i bobl. Mae bonion sigaréts yn rhan o'r dull gweithredu newydd y byddwn yn ei flaenoriaethu.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
## Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

### Digartrefedd

### Homelessness

***1. Sandy Mewies:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd. OAQ(4)0128(HRH)*

***1. Sandy Mewies:*** *Will the Minister give an update on Welsh Government measures to tackle homelessness. OAQ(4)0128(HRH)*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I thank the Member for Delyn for that question. Our 10-year homelessness plan sets out our policy on tackling homelessness, which we are implementing through funding, guidance and other support. Our priority is prevention. My proposals for improving homelessness legislation and other measures will be set out in the White Paper that I will publish on Monday.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Diolch i'r Aelod dros Ddelyn am y cwestiwn hwnnw. Mae ein cynllun digartrefedd 10 mlynedd yn amlinellu ein polisi ar fynd i'r afael â digartrefedd. Rydym yn gweithredu'r cynllun drwy roi arian, cyfarwyddyd a mathau eraill o gymorth. Ein blaenoriaeth yw atal. Bydd fy nghynigion ar gyfer gwella deddfwriaeth digartrefedd a mesurau eraill yn cael eu nodi yn y Papur Gwyn y byddaf yn ei gyhoeddi ddydd Llun.

**Sandy Mewies:** Thank you for that answer. Latest figures have revealed a decrease in the number of households accepted as being homeless and a fall in the number of people approaching local authorities for help. However, levels of homelessness are still at some of the highest since 2004-05. Worryingly, there has been an increase in the number of households where families go into bed-and-breakfast accommodation. As you will know, local authorities have tried hard to combat that. What can our Government do, if anything can be done, to prevent families falling into this dreadful situation?

**Sandy Mewies:** Diolch am yr ateb hwnnw. Mae'r ffigurau diweddaraf wedi dangos gostyngiad yn nifer yr aelwydydd sy'n cael eu derbyn fel aelwydydd digartref, yn ogystal â gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynd at awdurdodau lleol am gymorth. Fodd bynnag, mae lefelau digartrefedd yn dal ar eu huchaf er 2004-05. Bu cynnydd yn nifer yr aelwydydd lle mae teuluoedd yn mynd i lety gwely a brecwast, ac mae hynny'n destun pryder. Fel y gwyddoch, mae awdurdodau lleol wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â hynny. Beth y gall ein Llywodraeth ei wneud, os gellir gwneud unrhyw beth, i atal teuluoedd rhag canfod eu hunain yn y sefyllfa ddifrifol hon?

**Huw Lewis:** I thank the Member again for raising that very important point. We are in challenging economic times, which, combined with the inimical policies of the Westminster UK coalition Government when it comes to the fight against homelessness, means that one can only worry about the

**Huw Lewis:** Diolch eto i'r Aelod am godi'r pwynt hollbwysig hwnnw. Rydym mewn cyfnod economaidd anodd. Rhwng hynny a pholisïau anffafriol Llywodraeth glymblaid y DU yn San Steffan yn y frwydr yn erbyn digartrefedd, ni allwn wneud dim ond poeni am duedd gyffredinol y ffigurau digartrefedd.

overall general trend of homelessness figures. It is true that there was a reduction at the end of 2011. However, I strongly suspect, and would be prepared to bet, that that is not a signal of change in the general trend, but quite the opposite.

Mae'n wir y bu gostyngiad ddiwedd 2011, ond rwyf yn amau'n fawr, a byddwn yn barod i fentro arian, nad oes unrhyw arwydd o newid yn y duedd gyffredinol, ond i'r gwrthwyneb.

Next week, I will launch our housing White Paper, which will clearly set out our intention to tackle homelessness and strengthen the prevention work that has had such a positive impact on helping people to remain in their homes. Much work has already been carried out, as all Members will know, by local authorities and the voluntary sector in this area. However, the White Paper will show that there is a great deal more that can be done. Within that, I am particularly concerned about the admittedly small number of families who have to use bed-and-breakfast accommodation. No child should have to live in bed-and-breakfast accommodation, however temporarily. The White Paper will set out how this Government intends to deal with family homelessness.

Yr wythnos nesaf, byddaf yn lansio ein Papur Gwyn ar Dai, a fydd yn nodi’n glir ein bwriad i fynd i'r afael â digartrefedd a chryfhau’r gwaith ataliol sydd wedi cael effaith mor gadarnhaol ar helpu pobl i aros yn eu cartrefi. Fel y bydd yr Aelodau i gyd yn gwybod, mae llawer o waith eisoes wedi cael ei wneud yn y maes hwn gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, bydd y Papur Gwyn yn dangos y gellir gwneud llawer iawn mwy. O fewn hynny, rwyf yn arbennig o bryderus am nifer y teuluoedd sy’n gorfod defnyddio llety gwely a brecwast, er mai bach yw’r nifer hwnnw. Ni ddylai unrhyw blentyn orfod byw mewn llety gwely a brecwast, ni waeth beth yw hyd y cyfnod dros dro. Bydd y Papur Gwyn yn nodi sut y mae'r Llywodraeth hon yn bwriadu ymdrin â theuluoedd sy’n cael eu gwneud yn ddigartref.

**Mohammad Asghar:** Minister, one way to reduce homelessness in Wales is to make use of good-quality private rented sector housing. According to the Welsh Local Government Association, local authorities can use suitable accommodation in the private rented sector to discharge the homelessness duty only by agreement. It has proposed that current legislation be amended to give local authorities the power to use the private rented sector to discharge their homelessness duty, with safeguards in place in relation to affordability, quality, management and initial security. What plans does the Minister have to use the private rented sector to reduce homelessness in Wales?

**Mohammad Asghar:** Weinidog, un ffordd o leihau lefelau digartrefedd yng Nghymru yw defnyddio tai o safon yn y sector rhentu preifat. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dim ond drwy gytundeb y gall awdurdodau lleol ddefnyddio llety addas yn y sector rhentu preifat i ymgymryd â’u dyletswydd o ran digartrefedd. Mae wedi cynnig y dylai'r ddeddfwriaeth bresennol gael ei diwygio er mwyn rhoi’r grym i awdurdodau lleol ddefnyddio'r sector rhentu preifat i ymgymryd â’u dyletswydd o ran digartrefedd, gyda mesurau diogelwch ar waith yng nghyswllt fforddiadwyedd, ansawdd, rheoli a sicrwydd cychwynnol. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddefnyddio'r sector rhentu preifat i leihau lefelau digartrefedd yng Nghymru?

**Huw Lewis:** I hope that Mohammad Asghar will forgive me if I do not give, line by line, the detail of the White Paper’s coverage of this point. As I have said, it will be published on Monday. However, I can assure the Member that this very point will be covered as part of an overall radical reformation of the relationship between Government and the

**Huw Lewis:** Gobeithio y bydd Mohammad Asghar yn maddau imi os na fyddaf yn nodi’r manylion a geir yn y Papur Gwyn fesul llinell yn awr. Fel y dywedais, bydd yn cael ei gyhoeddi ddydd Llun. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Aelod y bydd yr union bwynt hwn yn cael sylw fel rhan o’r gwaith o ddiwygio'r berthynas rhwng y Llywodraeth a'r sector

private rented sector.

rhentu preifat yn radical drwyddi draw.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae gennyf deimlad y bydd 'Papur Gwyn' yn yr ateb y byddaf yn ei gael. Rydym yn gwybod bod y newidiadau i fudd-daliadau tai yn mynd i arwain, fel rydych wedi awgrymu, at fwy o bobl yn cael eu gwneud yn ddigartref neu yn wynebu'r bygythiad o ddigartrefedd. A allwch chi ddweud wrthym sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ysgwyddo'r baich ychwanegol, yn enwedig o gofio eu bod o dan bwysau aruthrol o safbwynt eu hadnoddau yn barod?

**Llyr Huws Gruffydd:** I have a feeling that 'White Paper' will be in the answer I receive. We know that the changes to housing benefit will lead, as you have suggested, to more people being made homeless or being under threat of becoming homeless. Can you tell us how the Welsh Government will assist local authorities to bear the additional burden, especially given that they are already under enormous pressure in terms of their resources?

**Huw Lewis:** I thank the Plaid Cymru spokesperson for that point. He is right to be concerned about the changes to housing benefit and the impact that they might have on the homelessness situation and, in general, upon people's ability to afford a decent place to live. That impact has yet to be fully realised. What we do know is that, at least in the case of London, housing benefit-related evictions have already begun and they have begun on a large scale. One can only speculate at this stage as to the effect that this might have on us in Wales.

**Huw Lewis:** Diolch i lefarydd Plaid Cymru am y pwynt hwnnw. Mae'n briodol iawn ei fod yn pryderu am y newidiadau i'r budd-dal tai a'r effaith y gallent ei chael ar y sefyllfa ddigartrefedd ac, yn gyffredinol, ar allu pobl i fforddio lle addas i fyw. Nid yw'r effaith honno wedi'i gweld yn llawn eto. Yr hyn rydym yn ei wybod yw bod achosion o droi allan oherwydd materion yn ymwneud â budd-dal tai eisoes wedi dechrau, yn Llundain o leiaf, ac maent wedi dechrau ar raddfa fawr. Ni ellir ond dyfalu ar hyn o bryd pa effaith y gallai hyn ei chael arnom ni yng Nghymru.

The specific answers to the points that you have raised will not be included in the White Paper to be published on Monday, but I can assure the Plaid Cymru spokesperson that this will be a central matter of debate as regards the White Paper conversation that will follow.

Ni fydd yr atebion penodol i'r pwyntiau a godwyd gennych yn cael eu cynnwys yn y Papur Gwyn a gyhoeddir ddydd Llun, ond gallaf sicrhau llefarydd Plaid Cymru y bydd hyn yn destun dadl ganolog o safbwynt y sgwrs ar y Papur Gwyn a fydd yn dilyn.

**Peter Black:** Minister, in terms of prevention, which I agree is absolutely crucial, what additional resources will accompany your White Paper for local authorities to deal with this issue? Will you be working more closely with registered social landlords to ask them to take their duties in terms of homelessness more seriously?

**Peter Black:** Weinidog, o ran atal, sy'n hollol hanfodol yn fy marn innau hefyd, pa adnoddau ychwanegol fydd yn cyd-fynd â'ch Papur Gwyn er mwyn i awdurdodau lleol allu ymdrin â'r mater hwn? A fyddwch yn gweithio'n agosach gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ofyn iddynt edrych yn fwy difrifol ar eu dyletswyddau o ran digartrefedd?

**Huw Lewis:** I thank Peter Black for those points. It is a little early to talk about extra resources, although, as I have previously mentioned in the Chamber, extra resources to the tune of £1.4 million have been allocated in order to assist partner organisations in helping people through the difficulties that

**Huw Lewis:** Diolch i Peter Black am y pwyntiau hynny. Mae braidd yn gynnar sôn am adnoddau ychwanegol, er, fel rwyf wedi sôn o'r blaen yn y Siambr, mae gwerth £1.4 miliwn o adnoddau ychwanegol wedi eu dyrannu er mwyn cynorthwyo sefydliadau partner yn benodol i helpu pobl drwy'r

housing benefit changes will present them with in particular. However, it is true to say that that will not be sufficient in future.

anawsterau a fydd yn codi yn sgîl y newidiadau i fudd-dal tai. Fodd bynnag, mae'n wir dweud na fydd hynny'n ddigonol yn y dyfodol.

Peter Black answers his own question in the text of what he has given us this afternoon. This will be a question of partnership working between the Government, registered social landlords, local authorities, the private rented sector and advice and support organisations across the country. We have to rework our relationship and we must all expect more of each other within that relationship. Housing and the threat of homelessness must be moved up the agenda of local authorities in particular.

Mae Peter Black yn ateb ei gwestiwn ei hun yn y testun y mae wedi ei roi inni y prynhawn yma. Bydd hyn yn fater o weithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau lleol, y sector rhentu preifat a mudiadau sy'n cynghori ac yn cefnogi ar hyd a lled y wlad. Rhaid inni ail-edrych ar ein perthynas a rhaid i bob un ohonom ddisgwyl mwy gan ein gilydd o fewn y berthynas honno. Rhaid rhoi tai a'r bygythiad o ddigartrefedd ar frig agendâu awdurdodau lleol yn arbennig.

**Peter Black:** I welcome your target of 7,500 new affordable homes, which will be key in terms of helping to tackle homelessness. In terms of that target, will you be publishing a clear definition of what you mean by an affordable home so that we can be clear how that target is being met? Will you give an undertaking to publish regular statistics so that we can also monitor that target, maybe on a quarterly or six-monthly basis?

**Peter Black:** Rwyf yn croesawu eich targed o 7,500 o gartrefi fforddiadwy newydd, a fydd yn allweddol i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd. O ran y targed hwnnw, a fyddwch yn cyhoeddi diffiniad clir o'r hyn rydych yn ei olygu wrth gartref fforddiadwy, er mwyn inni allu bod yn glir ynghylch y modd y mae'r targed hwnnw'n cael ei gyrraedd? A wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi ystadegau rheolaidd er mwyn inni hefyd allu monitro'r targed hwnnw, bob chwarter neu bob chwe mis efallai?

**Huw Lewis:** I thank the Liberal Democrat spokesperson for that welcome. I will set that alongside the press release that he issued yesterday, which, let us say, had a slightly more critical tone with regard to the 7,500 affordable homes target. Affordable homes are clearly defined—and have been for quite a long time as far as we are concerned in Wales—as homes for social rent, homes for intermediate rent or assisted purchase part-rental deals, of which there are several different versions.

**Huw Lewis:** Diolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am y croeso hwnnw. Byddaf yn gosod hynny ochr yn ochr â'r datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ganddo ddoe, a oedd, gadewch inni ddweud, ychydig yn fwy beirniadol o'r targed ar gyfer 7,500 o dai fforddiadwy. Mae tai fforddiadwy'n cael eu diffinio'n glir—ac maent wedi cael eu diffinio'n glir ers tro yng Nghymru—fel cartrefi cymdeithasol ar rent, cartrefi rhent canolradd, neu gynlluniau prynu'n rhannol, rhentu'n rhannol gyda chymorth, lle ceir nifer o wahanol fersiynau.

I have forgotten the second part of your question, Peter.

Rwyf wedi anghofio ail ran eich cwestiwn, Peter.

**The Presiding Officer:** Order. He is not repeating it.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid yw'n ei ailadrodd.

**Peter Black:** It was about regular statistics.

**Peter Black:** Roedd yn ymwneud ag ystadegau rheolaidd.

**Huw Lewis:** The statistics, as you know, are produced annually. Thank you for that, Peter; I will call on you again when I need you. [*Laughter*.]

**Huw Lewis:** Mae'r ystadegau, fel y gwyddoch, yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn. Diolch am hynny, Peter; byddaf yn galw arnoch eto pan fydd arnaf eich angen. [*Chwerthin.*]

**The Presiding Officer:** Order. Can we move on, because we are already running out of time, Minister?

**Y Llywydd:** Trefn. A allwn ni symud ymlaen, gan fod amser eisoes yn brin, Weinidog?

**Huw Lewis:** Statistics are produced annually, and there are no plans to change that.

**Huw Lewis:** Mae'r ystadegau'n cael eu cynhyrchu bob blwyddyn, ac nid oes unrhyw gynlluniau i newid hynny.

**Treftadaeth Grefyddol**

**Religious Heritage**

***2. Alun Ffred Jones:*** *Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu cyfoeth treftadaeth grefyddol Cymru. OAQ(4)0130(HRH)*

***2. Alun Ffred Jones:*** *What are the Welsh Government’s plans for securing the wealth of Wales’ religious heritage. OAQ(4)0130(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank Alun Ffred Jones for that question. Places of worship are an important part of our heritage, although, strictly speaking, not all have historical or architectural significance. When such buildings close, it is important that new uses are found that will protect the building and secure its special interest. Some could be used for affordable housing or as other community resources.

**Huw Lewis:** Diolch i Alun Ffred Jones am y cwestiwn hwnnw. Mae mannau addoli yn rhan bwysig o'n treftadaeth, er nad oes gan y mannau hyn i gyd, a bod yn fanwl gywir, arwyddocâd hanesyddol neu bensaernïol. Pan fydd adeiladau o'r fath yn cau, mae'n bwysig dod o hyd i ffyrdd newydd o'u defnyddio er mwyn diogelu'r adeilad a'r diddordeb arbennig sydd ynddo. Byddai modd defnyddio rhai adeiladau at ddibenion tai fforddiadwy neu fel adnoddau eraill ar gyfer y gymuned.

**Alun Ffred Jones:** Un o amcanion y Llywodraeth yw diogelu ein treftadaeth grefyddol, fel rydych wedi ei nodi. Mae cannoedd o gapeli yng Nghymru wedi eu rhestru ond ychydig iawn o adnoddau sydd ar gael i’w diogelu, ac, yn aml iawn, mae ymddiriedolwyr yn prinhau. Mae cymdeithas Capel yn gwneud gwaith da iawn o ran adnewyddu a phrynu rhai o’r adeiladau hyn. Pa gymorth pellach y gallwch ei gynnig i Capel a chyrff eraill er mwyn diogelu’r dreftadaeth hon a gwireddu amcanion y Llywodraeth?

**Alun Ffred Jones:** One of the Government’s objectives is to safeguard our religious heritage, as you have noted. Hundreds of chapels in Wales are listed, but very few resources are available to safeguard them, and, of course, trustees are becoming few and far between. The Capel society is doing good work in renovating and purchasing some of these buildings. What further assistance can you offer Capel and other associations in order to safeguard this heritage and to achieve the Government’s objectives?

**Huw Lewis:** Meetings and discussions surrounding this issue have been under way for some time, with regard to churches and chapels. I had a very constructive meeting with the Archbishop of Wales just a few weeks ago, and I have attempted to set up a meeting with the Union of Welsh

**Huw Lewis:** Mae cyfarfodydd a thrafodaethau ynghylch y mater hwn wedi bod ar droed ers tro, o ran eglwysi a chapeli. Cefais gyfarfod adeiladol iawn ag Archesgob Cymru dim ond ychydig wythnosau'n ôl, ac rwyf wedi ceisio trefnu cyfarfod ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ers tro er mwyn

Independents for some time in order to have some initial discussions. As you said, many of these buildings are listed; around 12 chapels are Grade I listed, and there are hundreds of Grade II and Grade II* listed buildings. This is an issue for us all. The scale of this problem is somewhat awe-inspiring, but we must seek solutions such as the fantastic shared end use of the Hanbury chapel in Bargoed, where a new library facility is running in parallel with a continued place of worship. The congregation is still using that fantastic building as a place of worship as the community uses the library facility. That is an outstanding example, and it will inform the conversation that we must have about this. I also hope that the Member for Arfon will be a part of that conversation.

cynnal trafodaethau cychwynnol. Fel y dywedoch, mae llawer o'r adeiladau hyn wedi'u rhestru; mae oddeutu 12 o gapeli yn adeiladau rhestredig Gradd I, a cheir cannoedd o adeiladau rhestredig Gradd II a Gradd II*. Mae hyn yn broblem i bob un ohonom. Mae graddfa'r broblem hon yn bur syfrdanol, ond rhaid inni chwilio am atebion, drwy edrych ar gapel Hanbury ym Margoed, er enghraifft, sy'n cael ei ddefnyddio fel llyfrgell newydd ond yn dal yn fan addoliad. Mae'r gynulleidfa'n dal i ddefnyddio'r adeilad gwych fel man addoli tra mae'r gymuned yn defnyddio’r llyfrgell sydd ynddo. Mae honno'n enghraifft ragorol, a bydd yn sail i'r sgwrs y mae'n rhaid inni ei chael am hyn. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd yr Aelod dros Arfon yn gallu bod yn rhan o'r sgwrs honno.

**Mike Hedges:** First, I congratulate the Minister on the substantial support that he has given for chapel buildings, not least in my constituency. However, many chapels have less than 10 years of viability left if we look at their membership figures, and even more have less than 20 years. What work is being done with the different denominations to work towards preserving many of these iconic nineteenth century buildings?

**Mike Hedges:** Yn gyntaf, hoffwn longyfarch y Gweinidog am y cymorth sylweddol y mae wedi'i roi i adeiladau capeli, yn fy etholaeth i yn enwedig. Fodd bynnag, mae oes llawer o gapeli yn llai na 10 mlynedd os edrychwn ar eu ffigurau aelodaeth, ac mae oes hyd yn oed mwy ohonynt yn llai na 20 mlynedd. Pa waith sy'n cael ei wneud gyda'r gwahanol enwadau i weithio tuag at gadw llawer o'r adeiladau nodedig hyn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg?

**Huw Lewis:** To sum up Mike Hedges’ point, the clock is ticking, and many of the buildings that we are talking about here are reaching a natural crisis point in terms of their age and maturity, taken alongside the age and maturity of some of the congregations involved. It is time to get down to urgent discussions. Although it was simple and straightforward to start a conversation with the Church in Wales, it has proven more difficult to sit down and begin face-to-face talks with the nonconformist denominations. I would encourage those church leaders to whom I have written to respond as soon as possible if they have not done so already.

**Huw Lewis:** I grynhoi pwynt Mike Hedges, mae amser yn prysur ddiflannu, ac mae llawer o'r adeiladau rydym yn sôn amdanynt yn cyrraedd sefyllfa o argyfwng naturiol o ran eu hoedran a'u haeddfedrwydd, gan gofio oedran ac aeddfedrwydd rhai o'r cynulleidfaoedd sy'n gysylltiedig hefyd. Mae'n bryd inni gael trafodaethau brys. Er ei bod yn syml ac yn rhwydd dechrau siarad â’r Eglwys yng Nghymru, bu'n anos eistedd i lawr a dechrau trafod wyneb yn wyneb â'r enwadau anghydffurfiol. Byddwn yn annog arweinwyr yr eglwysi hynny rwyf wedi ysgrifennu atynt i ymateb cyn gynted â phosibl os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes.

**Nick Ramsay:** Minister, I welcome your commitment to protecting Wales’s religious heritage. Indeed, Wales boasts a large number of religious buildings from the nineteenth century and before, both chapels and churches, which need protection,

**Nick Ramsay:** Weinidog, rwyf yn croesawu eich ymrwymiad i ddiogelu treftadaeth grefyddol Cymru. Yn wir, mae gan Gymru nifer fawr o adeiladau crefyddol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a chyn hynny, yn gapeli ac yn eglwysi. Mae angen

although it is costly.

gwarchod yr adeiladau hynny, er bod hynny'n gostus.

2.30 p.m.

What discussions have you had with organisations such as the Friends of Friendless Churches? In my constituency, near Llanfair Cilgedin, there is a church that has a fantastic example of scraffiti. That church will not necessarily be protected by any other organisation; it has long since fallen out of use. Without organisations such as Friends of Friendless Churches these buildings would not be protected, and our children and our children’s children would not be able to benefit from what we are able to benefit from today.

Pa drafodaethau rydych wedi'u cael â mudiadau fel Cyfeillion Eglwysi Digyfaill? Yn fy etholaeth i, ger Llanfair Cilgedin, ceir eglwys sy’n cynnwys enghraifft wych o sgraffiti. Ni fydd yr eglwys honno o reidrwydd yn cael ei diogelu gan unrhyw fudiad arall; mae pobl wedi hen roi'r gorau i'w defnyddio. Heb fudiadau fel Cyfeillion Eglwysi Digyfaill, ni fyddai'r adeiladau hyn yn cael eu diogelu, ac ni fyddai ein plant na phlant ein plant yn gallu elwa o'r hyn rydym ni'n gallu elwa ohono heddiw.

**Huw Lewis:** I am aware of the work of Friends of Friendless Churches. It does important work, particularly regarding churches in rural communities, which present a whole new menu of problems in terms of future use and so on. I very much want it to be part of a summit that I am planning some time during this calendar year for Government, Cadw and other agencies as well as the various denominations of churches to get together to begin to talk about this in an all-Wales sense.

**Huw Lewis:** Rwyf yn ymwybodol o waith Cyfeillion Eglwysi Digyfaill. Mae'n gwneud gwaith pwysig, yn enwedig o ran eglwysi mewn cymunedau gwledig, sy'n cyflwyno ystod newydd o broblemau o ran defnydd yn y dyfodol ac yn y blaen. Rwyf yn awyddus iawn iddo fod yn rhan o uwchgynhadledd rwyf yn ei threfnu rywbryd yn ystod y flwyddyn galendr hon er mwyn i’r Llywodraeth, Cadw ac asiantaethau eraill, yn ogystal â’r gwahanol enwadau, ddod at ei gilydd i ddechrau siarad am hyn yng nghyd-destun Cymru gyfan.

However, I will also say to Nick Ramsay that it would help considerably, in terms of looking at the future health of the built religious heritage of Wales, if the UK Government were to revisit its hasty decision to put VAT on the refurbishment costs of such buildings, thereby torpedoing dozens of potential rescue packages.

Fodd bynnag, byddaf hefyd yn dweud wrth Nick Ramsay y byddai'n helpu'n sylweddol, o ran edrych ar iechyd treftadaeth grefyddol adeiledig Cymru yn y dyfodol, pe bai Llywodraeth y DU yn ailystyried ei phenderfyniad byrbwyll i godi TAW ar gostau adnewyddu adeiladau o'r fath, a thrwy hynny chwalu dwsinau o becynnau achub posibl.

**Cefnogi Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

**Support for the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales**

***3. Elin Jones:*** *Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn y dyfodol. OAQ(4)0121(HRH)*

***3. Elin Jones:*** *How will the Welsh Government support the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales in future. OAQ(4)0121(HRH)*

**Huw Lewis:** I well understand the Assembly Member for Ceredigion’s concern about this. I recently wrote to the chair of the royal commission setting out the commission’s remit for 2012-13, confirming a budget of

**Huw Lewis:** Rwyf yn deall pryder yr Aelod Cynulliad dros Geredigion ynglŷn â hyn. Yn ddiweddar, bu imi ysgrifennu at gadeirydd y comisiwn brenhinol yn amlinellu cylch gwaith y comisiwn ar gyfer 2012-13, gan

almost £2.2 million for its core work and special projects. I also asked the commission to work with my officials to consider measures for long-term resilience.

gadarnhau cyllideb o bron i £2.2 miliwn ar gyfer ei waith craidd a'i brosiectau arbennig. Gofynnais hefyd i'r comisiwn weithio gyda fy swyddogion i ystyried mesurau ar gyfer cydnerthedd hirdymor.

**Elin Jones:** The Council for British Archaeology produced an independent report on 23 April last year for Welsh Government on historic environment bodies, and concluded that provision for the historic environment is admirable, even given current economic realities, and that there is a value for users in retaining separation of those bodies. Despite the clear view of that independent assessment exercise, what persuaded you to consider that the merger of historic environment bodies was an option that you wanted to pursue?

**Elin Jones:** Ar 23 Ebrill y llynedd, gwnaeth Cyngor Archaeoleg Prydain lunio adroddiad annibynnol ar gyrff amgylchedd hanesyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Daeth i'r casgliad bod y ddarpariaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn glodwiw, hyd yn oed o ystyried y sefyllfa economaidd presennol, a bod cadw'r cyrff hynny ar wahân o werth i ddefnyddwyr. Er gwaethaf safbwynt clir yr asesiad annibynnol hwnnw, beth wnaeth eich perswadio i ystyried bod cyfuno cyrff amgylchedd hanesyddol yn opsiwn roeddech am ei ddilyn?

**Huw Lewis:** I reassure the AM for Ceredigion that I have not yet been convinced of the necessity of a merger as such, although that is an item on the agenda. However, I am convinced that, if we are to maintain a resilient heritage sector in the round over what will be two, three or four extremely difficult years when it comes to Government funding and how budgets are put together, some remaking of how we do this work will be a necessity. Otherwise the sector will become unnecessarily weakened, in my view, and that will lead to a worse consequence. I reassure you that I will have an eye on the fact that the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales is based in Aberystwyth and that it is a good thing in terms of jobs and careers, which will be at the top of my list when it comes to any kind of consideration of the future. In other words, I am not in the business of looking for redundancies or lay-offs.

**Huw Lewis:** Rwyf am sicrhau'r AC dros Geredigion nad wyf eto wedi fy argyhoeddi bod angen y fath gyfuno, er ei fod yn eitem ar yr agenda. Fodd bynnag, os ydym am gynnal sector treftadaeth cadarn yn gyffredinol dros yr hyn a fydd yn ddwy, tair neu bedair blynedd anodd iawn o ran arian y Llywodraeth a sut y caiff cyllidebau eu pennu, rwyf wedi fy argyhoeddi y bydd angen ailfeddwl ychydig ynglŷn â sut rydym yn gwneud y gwaith hwn. Fel arall, bydd y sector yn gwanhau heb fod angen, yn fy marn i, a bydd hynny'n arwain at ganlyniadau gwaeth. Rwyf yn eich sicrhau y byddaf yn cadw mewn cof y ffaith bod Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi ei leoli yn Aberystwyth a bod hynny'n beth da o ran swyddi a gyrfaoedd, a fydd ar frig fy rhestr wrth ystyried y dyfodol mewn unrhyw ffordd. Hynny yw, nid wyf yn chwilio am swyddi i'w dileu nac am bobl i'w diswyddo.

**Suzy Davies:** Did you have a particular reason for publishing a written statement on historic and environmental services on the day of the local elections rather than making an oral statement, which would have allowed Members to question you on those proposals?

**Suzy Davies:** A oedd gennych reswm arbennig dros gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar wasanaethau hanesyddol ac amgylcheddol ar ddiwrnod yr etholiadau lleol yn hytrach na gwneud datganiad llafar, a fyddai wedi caniatáu i Aelodau eich holi ynglŷn â'r cynigion hynny?

**Huw Lewis:** Given that you have just questioned me on the proposals, the conspiracy theory is somewhat thin.

**Huw Lewis:** O ystyried eich bod newydd fy holi ynglŷn â'r cynigion, nid yw'r theori cynllwynio'n dal dŵr.

**Suzy Davies:** Something tells me that you did not intend to make an oral statement in the Chamber until October, by which time I think that I would have started to feel like an ancient monument myself. [*Laughter.*] In the recent past, we have seen independently exercised functions of the Welsh Development Agency and the Wales Tourist Board taken over by Welsh Government, and you will be aware of how the effect of that has been perceived. Conversely, we have a Children's Commissioner for Wales, an Older People's Commissioner for Wales and a Welsh Language Commissioner, and their independence is highly valued. Will you confirm whether a commission established by royal warrant can constitutionally be merged, and secondly, do you understand Members' concerns that the guaranteed independence of the royal commission could be compromised by these proposals?

**Suzy Davies:** Mae rhywbeth yn dweud wrthyf nad oeddech yn bwriadu gwneud datganiad llafar yn y Siambr tan fis Hydref, ac erbyn hynny rwyf yn credu y byddwn wedi dechrau teimlo fel heneb fy hun. [*Chwerthin.*] Yn ddiweddar, rydym wedi gweld Llywodraeth Cymru'n cymryd yr awenau o ran swyddogaethau annibynnol Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, a byddwch yn gwybod beth y mae pobl yn ei feddwl am effaith hynny. I'r gwrthwyneb, mae gennym Gomisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, ac mae'r ffaith eu bod yn annibynnol yn cael ei ystyried yn bwysig. A wnewch gadarnhau a oes modd i gomisiwn sy'n cael ei sefydlu yn ôl gwarant brenhinol gael ei uno'n gyfansoddiadol, ac yn ail, a ydych yn deall pryderon yr Aelodau y gallai'r cynigion hyn beryglu annibyniaeth sicr y comisiwn brenhinol?

**Huw Lewis:** I understand the Member's concerns, but I would urge her to look at the situation across the border in England and in Scotland, where these things have already occurred. What is driving this agenda here in Wales is not an ideological commitment on my part to do down any part of the heritage sector, least of all the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales; it is the Liberal Democrat-Tory coalition Government in Westminster that is, in effect, driving us to face the reality of what budget cuts we might face in the next few years and to be in a position where we have to be ready for that.

**Huw Lewis:** Rwyf yn deall pryderon yr Aelod, ond byddwn yn ei hannog i edrych ar y sefyllfa ar draws y ffin yn Lloegr ac yn yr Alban, lle mae'r pethau hyn eisoes wedi digwydd. Nid ymrwymiad ideolegol ar fy rhan i er mwyn bychanu unrhyw ran o'r sector treftadaeth, yn arbennig Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yw'r hyn sy'n gwthio'r agenda hon yma yng Nghymru. Llywodraeth glymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid yn San Steffan sydd, i bob pwrpas, yn ein gwthio i wynebu'r realiti o ran y toriadau cyllideb y byddwn yn eu hwynebu, o bosibl, dros y blynyddoedd nesaf, ac i fod mewn sefyllfa lle mae'n rhaid inni fod yn barod am hynny.

**Aled Roberts:** I am aware of the commission's work in support of the designation of Pontcysyllte as a world heritage site. There is some concern with regard to the independent report in respect of the specialist services that are provided by the commission, particularly with regard to its archives. Will the working group that you set up bear those services in mind and be required by you to give us great detail with regard to the protection of those services?

**Aled Roberts:** Rwyf yn ymwybodol o waith y comisiwn i gefnogi dynodi Pontcysyllte fel safle treftadaeth y byd. Ceir peth pryder ynghylch yr adroddiad annibynnol o ran y gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan y comisiwn, yn enwedig yng nghyswllt ei archifau. A wnaiff y gweithgor y gwnaethoch ei sefydlu gadw'r gwasanaethau hynny mewn cof, ac a fyddwch yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithgor roi'r holl fanylion inni ynglŷn â'r camau i ddiogelu'r gwasanaethau hynny?

**Huw Lewis:** Absolutely. I can assure you that CyMAL is intimately involved with these discussions as we go forward. I

**Huw Lewis:** Wrth gwrs. Gallaf eich sicrhau bod CyMAL yn ymwneud yn agos â'r trafodaethau hyn wrth inni symud ymlaen.

recognise the value of the archive service that is provided. I also recognise that there is an accommodation problem for the archive in its current location, which will also have to be addressed.

Rwyf yn cydnabod gwerth y gwasanaeth archifau a ddarperir. Rwyf hefyd yn cydnabod bod problem yn ymwneud â lle ar gyfer yr archif yn ei lleoliad presennol, a bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r broblem hon hefyd.

**The Presiding Officer:** Question 4, OAQ(4)0119(HRH), is withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd Cwestiwn 4, OAQ(4)0119(HRH), yn ôl.

**Cefnogi Safleoedd o Ddiddordeb**

**Support for Sites of Historic Interest**

***5. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yng Nghymru. OAQ(4)0115(HRH)*

***5. Paul Davies****: Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support sites of historic interest in Wales. OAQ(4)0115(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Preseli Pembrokeshire for that question. Wales has a rich heritage, of which we as a nation are justly proud. The Welsh Government, through Cadw, offers grants and advice to sustain the future of historic sites in Wales. Cadw also has statutory responsibilities for the 127 sites in its care and prepares annual work programmes for that purpose.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Breseli Sir Benfro am y cwestiwn hwnnw. Mae gan Gymru dreftadaeth gyfoethog, ac rydym yn haeddiannol falch o'r dreftadaeth honno fel cenedl. Mae Llywodraeth Cymru, drwy Cadw, yn cynnig grantiau a chyngor er mwyn cynnal dyfodol safleoedd hanesyddol yng Nghymru. Mae gan Cadw hefyd gyfrifoldebau statudol ar gyfer y 127 o safleoedd sydd o dan ei ofal, ac mae'n paratoi rhaglenni gwaith blynyddol at y diben hwnnw.

**Paul Davies:** I am grateful to the Minister for that answer. One of the sites of historical interests in my constituency is the castle in Haverfordwest. There is concern about its future, because there is a possibility that part of the site could be developed, thereby affecting public access to it. I know that the Minister has received correspondence on this, but does he agree that it is imperative that public access to sites of this nature is not restricted? Also, what is the Welsh Government doing to protect and promote public access to sites of historic interest in Wales?

**Paul Davies:** Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Un o'r safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yn fy etholaeth i yw'r castell yn Hwlffordd. Ceir pryder ynglŷn â dyfodol y castell, oherwydd mae posibilrwydd y gellid datblygu rhan o'r safle, gan effeithio ar fynediad cyhoeddus iddo. Rwyf yn gwybod bod y Gweinidog wedi derbyn gohebiaeth ynghylch hyn, ond a yw'n cytuno ei bod yn hollbwysig nad yw mynediad cyhoeddus i safleoedd o'r fath yn cael ei gyfyngu? Hefyd, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu a hyrwyddo mynediad cyhoeddus i safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yng Nghymru?

**Huw Lewis:** I thank the Member for that question—the specific and general parts of it. We are both aware of the correspondence that has been shared between us on the future of the castle at Haverfordwest. I can confirm that I have a personal commitment to ensuring that public access remains high on all our agendas. There are aspects of the future of Haverfordwest castle that are not

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw—y rhannau penodol a chyffredinol ohono. Mae'r ddau ohonom yn ymwybodol o'r ohebiaeth rhyngom ynghylch dyfodol y castell yn Hwlffordd. Gallaf gadarnhau fy mod yn ymrwymo'n bersonol i sicrhau bod mynediad cyhoeddus yn parhau'n uchel ar agenda pob un ohonom. Mae agweddau ar ddyfodol castell Hwlffordd nad ydynt yn

directly under my control, but I hope that a sensible conversation between all partners will reassure the citizens of Haverfordwest and visitors to the area.

uniongyrchol o dan fy rheolaeth i, ond rwyf yn gobeithio y bydd sgwrs synhwyrol rhwng yr holl bartneriaid yn tawelu meddwl dinasyddion Hwlffordd ac ymwelwyr â'r ardal.

In terms of the general question on access, there is an exciting conversation to be had here in the run-up to the heritage Bill. I can assure the Member for Preseli Pembrokeshire that this agenda, as far as I am concerned, will be absolutely central to the development of that legislation.

O ran y cwestiwn cyffredinol ar fynediad, mae sgwrs gyffrous i'w chynnal yma yn y cyfnod sy'n arwain at y Bil treftadaeth. Gallaf sicrhau'r Aelod dros Breseli Sir Benfro y bydd yr agenda hon, o'm safbwynt i, yn gwbl ganolog i ddatblygu'r ddeddfwriaeth honno.

**Bethan Jenkins:** According to 'A review of fiscal measures to benefit heritage conservation', a report commissioned in 2007 by Dublin Institute of Technology and Northumbria University, there are numerous fiscal and financial measures that could be implemented to benefit heritage buildings so that they remain utilised. Has the Minister given any thought to such options in the interim period before the heritage protection Bill is introduced?

**Bethan Jenkins:** Yn ôl '*A review of fiscal measures to benefit heritage conservation*', sef adroddiad a gomisiynwyd yn 2007 gan Sefydliad Technoleg Dulyn a Phrifysgol Northumbria, mae nifer o fesurau cyllidol ac ariannol y gellid eu rhoi ar waith er budd i adeiladau treftadaeth fel eu bod yn parhau i gael eu defnyddio. A yw'r Gweinidog wedi ystyried opsiynau o'r fath o gwbl yn y cyfnod interim cyn i'r Bil gwarchod treftadaeth gael ei gyflwyno?

**Huw Lewis:** I am not familiar with that particular piece of research, but I would agree in general terms that the utility of our ancient and historic monuments—our other built heritage, if you like—is extremely important. In fact, it is the single most critical factor. Today, I was at Caerphilly castle for the launch of the Cauldrons and Furnaces Cultural Olympiad. This event was just kicking off that work. There are eight historic buildings involved in this across Wales, and Caerphilly castle is just one of those. What strikes you immediately is the ability, with a bit of imagination on our part and that of our partners, to bring to life those pieces of built heritage so that the utility of these buildings for whatever purpose is absolutely central.

**Huw Lewis:** Nid wyf yn gyfarwydd â'r gwaith ymchwil penodol hwnnw, ond byddwn yn cytuno yn gyffredinol bod sicrhau bod ein henebion hynafol a hanesyddol—ein treftadaeth adeiledig arall, fel petai—yn cael eu defnyddio yn hynod o bwysig. Yn wir, dyma'r un ffactor pwysicaf. Heddiw, roeddwn yng nghastell Caerffili ar gyfer lansio'r Olympiad Diwylliannol Crochanau a Ffwrneisi. Roedd y digwyddiad hwn yn nodi dechrau'r gwaith hwnnw. Mae wyth o adeiladau hanesyddol yn rhan o hyn ar draws Cymru, a dim ond un o'r rheini yw castell Caerffili. Yr hyn sy'n eich taro ar unwaith yw'r gallu, gydag ychydig o ddychymyg ar ein rhan ni ac ar ran ein partneriaid, i ddod â'r darnau hynny o dreftadaeth adeiledig yn fyw, fel bod y ffordd y caiff yr adeiladau hyn eu defnyddio, am ba ddiben bynnag, yn gwbl ganolog.

**Bethan Jenkins:** Thank you for that response. As you will appreciate, many sites and buildings are threatened as we are speaking here today. You said earlier that the clock is ticking with regards to nineteenth century buildings, but I wonder whether we could wind you up a little bit and try to encourage you to quicken the process by

**Bethan Jenkins:** Diolch am yr ymateb hwnnw. Fel y byddwch yn sylweddoli, mae llawer o safleoedd ac adeiladau o dan fygythiad tra rydym ninnau'n siarad yma heddiw. Gwnaethoch ddweud yn gynharach bod y cloc yn tician o ran adeiladau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond tybed a allem eich cynhyrfu ychydig a cheisio eich

which we could save some of these buildings. As I have said here previously, Customs House in Port Talbot is not a designated site or listed building. How quickly can we ensure that these buildings are not lost in the interim period between now and when the heritage protection Bill is consulted upon or introduced?

annog i gyflymu'r broses lle gallem achub rhai o'r adeiladau hyn. Fel yr wyf wedi ei ddweud yma o'r blaen, nid yw adeilad Customs House ym Mhort Talbot yn safle dynodedig nac yn adeilad rhestredig. Pa mor gyflym y gallwn sicrhau nad yw'r adeiladau hyn yn cael eu colli yn y cyfnod interim rhwng nawr a phan yr ymgynghorir ar y Bil gwarchod treftadaeth neu pan gaiff ei gyflwyno?

**Huw Lewis:** I thank Bethan Jenkins for that question, although I have to say that I get wound up less easily as I get older—not that I am slowing down, Presiding Officer. [*Laughter*.] It is not quite that bad yet. I have to say to the Member that I understand her concern about this intervening time between the place we are now and the passing of legislation that might protect our built heritage. This is causing enormous concern in various communities across Wales with regard to all sorts of buildings that people know and love. However, I have to say that there is ample power, particularly in the hands of local government at the moment, to step in now without extra legislation being passed. The process of local listing is available and, at the bottom of all of this, there is the question of political will at the local level if such things are to be preserved. There are some local authorities that take a very positive stance in this regard and others that seem to regard the whole subject area with a great deal of concern or even fear. In the intervening period between now and the passage of new legislation, I will continue to work as best I can with partners, including local government, to reassure people of my view that these buildings should be seen as community assets and not liabilities.

**Huw Lewis:** Diolch i Bethan Jenkins am y cwestiwn hwnnw, er, rhaid imi ddweud nad yw mor hawdd fy nghynhyrfu wrth imi fynd yn hŷn—er nad wyf yn arafu, Lywydd. [*Chwerthin.*] Nid yw cynddrwg â hynny eto. Rhaid imi ddweud wrth yr Aelod fy mod yn deall ei phryder ynglŷn â'r amser hwn rhwng ein sefyllfa ar hyn o bryd a phasio'r ddeddfwriaeth a allai warchod ein treftadaeth adeiledig. Mae hyn yn achosi pryder mawr mewn gwahanol gymunedau ledled Cymru, mewn perthynas â phob math o adeiladau y mae pobl yn eu hadnabod ac yn eu caru. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud bod digon o bŵer, yn enwedig yn nwylo llywodraeth leol ar hyn o bryd, i gamu i mewn yn awr heb orfod pasio deddfwriaeth ychwanegol. Mae'r broses o restru lleol ar gael, ac yn gefndir i hyn oll, mae’n dibynnu a oes ewyllys wleidyddol ar y lefel leol i gadw pethau o’r fath ai peidio. Mae rhai awdurdodau lleol yn sefyll yn gadarnhaol iawn dros hyn, ac mae eraill sydd i’w gweld yn bryderus ynghylch y maes pwnc cyfan, neu’n ei ofni hyd yn oed. Yn y cyfnod rhwng nawr a phasio'r ddeddfwriaeth newydd, byddaf yn parhau i weithio gorau gallaf gyda phartneriaid, gan gynnwys llywodraeth leol, i sicrhau pobl fy mod o'r farn y dylai'r adeiladau hyn gael eu hystyried yn asedau cymunedol ac nid yn faich.

**Eluned Parrott:** Minister, how tempting you make it to try to wind you up. You will be aware that, on 8 May, the Deputy Minister for Agriculture, Fisheries, Food and European Programmes made a statement suggesting that, in future, there would be a presumption against using EU structural funds to support access to heritage projects. Given that Visit Wales’s statistics show that more than 80% of visitors to Wales visit a heritage attraction and the positive contribution they make to the economy, what assessment have you made of the challenges

**Eluned Parrott:** Weinidog, mae'n demtasiwn fawr ceisio eich cynhyrfu. Byddwch yn ymwybodol bod y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd wedi gwneud datganiad ar 8 Mai yn awgrymu y byddai rhagdybiaeth yn y dyfodol yn erbyn defnyddio cronfeydd strwythurol yr UE i gefnogi mynediad i brosiectau treftadaeth. O gofio bod ystadegau Croeso Cymru yn dangos bod mwy nag 80 y cant o ymwelwyr â Chymru yn ymweld ag atyniad treftadaeth, a'r cyfraniad cadarnhaol y maent yn ei wneud

this will present to the development of heritage tourism in Wales?

i'r economi, sut rydych chi wedi asesu'r heriau i ddatblygu twristiaeth treftadaeth yng Nghymru a fydd yn codi yn sgîl hyn?

**Huw Lewis:** We need to get to grips with all sorts of new ways in which European money will flow as regards all sorts of projects. I cannot say that I am entirely clear yet exactly what impact this will have in a technical sense. However, what I do know is that the continued flow of European money into heritage tourism will be an essential element of achieving our goals over the next few years.

**Huw Lewis:** Mae angen inni fynd i'r afael â phob math o ffyrdd newydd y bydd arian Ewropeaidd yn llifo yng nghyswllt pob math o brosiectau. Ni allaf ddweud fy mod yn gwbl glir eto pa effaith yn union y bydd hyn yn ei chael mewn ystyr dechnegol. Fodd bynnag, yr hyn yr wyf yn ei wybod yw y bydd y llif parhaus o arian Ewropeaidd i dwristiaeth treftadaeth yn elfen hanfodol o gyflawni ein nodau dros y blynyddoedd nesaf.

**Parch o ran Digartrefedd**

**Respect in relation to Homelessness**

***6. Llyr Huws Gruffydd:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod pobl sy'n gofyn am gymorth gan awdurdodau lleol ar dai a digartrefedd yn cael eu trin â pharch. OAQ(4)0129(HRH)*

***6. Llyr Huws Gruffydd:*** *Will the Minister outline what actions he has taken to ensure that people approaching local authorities for help with housing and homelessness are treated with respect. OAQ(4)0129(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for North Wales for that question. The Welsh Government expects everyone seeking housing assistance to be treated with respect, as set out in our 10-year homelessness plan and the statutory guidance that goes with it. Local authorities and their partners are responsible for the delivery of housing services, and we will continue to encourage and support their continual improvement.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru am y cwestiwn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bawb sy'n ceisio cymorth tai gael eu trin â pharch, fel y nodwyd yn ein cynllun digartrefedd 10 mlynedd a'r canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r cynllun. Mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau tai, a byddwn yn parhau i'w hannog a'u cefnogi i wella'n barhaus.

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch am yr ateb hwnnw. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol hefyd o ymchwil diweddar gan Shelter Cymru sy'n dangos y diffyg parch gan rai staff mewn awdurdodau lleol wrth ddelio â phobl sy'n ddigartref, yn enwedig gan ichi gymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwnnw.

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you for that response. I am sure that you are aware of recent research by Shelter Cymru that demonstrates the lack of respect shown by certain staff in local authorities who have been dealing with homeless people, particularly as you participated in that research yourself.

2.45 p.m.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil hefyd yn cadarnhau diffyg llwyr o ran cydweithio neu *joined-up thinking* mewn awdurdodau lleol, gydag adrannau budd-dal tai, er enghraifft, ddim yn sylweddoli bod eu penderfyniadau yn cael impact ar waith yr adran dai yn yr un awdurdod. Beth fyddwch yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn ac a wnewch ystyried gwneud

However, the research also confirms a complete lack of joined-up thinking within local authorities, with housing benefit departments, for example, not realising that their decisions will have an impact on the work of the housing department within the same authority. What will you do to get to grips with this and will you consider making

atal digartrefedd yn ddyletswydd gorfforaethol?

preventing homelessness a corporate responsibility?

**Huw Lewis:** I thank Llyr Huws Gruffydd for that point. With the risk of sounding like a cracked record, I assure the Member for North Wales that a great deal of detail will be available come Monday and the launch of the White Paper in relation to the questions that he has asked. I am very much alive to the criticisms and observations that have been made in the report by Shelter Cymru and Cymorth Cymru that was released at the beginning of the month. It is very worrying, particularly because this evidence is coming from the horse’s mouth. It is coming from the front line and the people who have accessed, or are accessing, homelessness services. Several lessons keep coming through to us: one is that there is a huge degree of inconsistency across Wales in the way that people are treated and supported and the second is that, in some instances, although this is not the case always and everywhere, there has been this feeling that people are being treated with a lack of respect. The White Paper will suggest a whole-scale reworking—a reform, if you like—of homelessness advice services throughout Wales. I can say that there will also be a demand for consistency when it comes to advice services across the country.

**Huw Lewis:** Diolch i Llyr Huws Gruffydd am wneud y pwynt hwnnw. Er fy mod mewn perygl o swnio fel tiwn gron, gallaf dawelu meddwl yr Aelod dros Ogledd Cymru y bydd llawer iawn o fanylion ar gael o ddydd Llun ymlaen yn sgîl lansio'r Papur Gwyn mewn perthynas â'r cwestiynau y mae wedi eu gofyn. Rwyf yn effro iawn i'r feirniadaeth a'r sylwadau sydd wedi cael eu gwneud yn yr adroddiad gan Shelter Cymru a Cymorth Cymru a gafodd ei ryddhau ddechrau'r mis. Mae'n destun pryder go iawn, yn enwedig gan fod y dystiolaeth hon yn dod o lygad y ffynnon. Mae'n dod o'r rheng flaen a chan y bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau digartrefedd o'r blaen, neu sy'n eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae nifer o wersi'n parhau i ddod i'r amlwg: un yw bod llawer o anghysondeb ar draws Cymru yn y ffordd y caiff pobl eu trin a'u cefnogi, a'r ail yw y teimlir bod pobl yn cael eu trin â diffyg parch mewn rhai achosion, er nad yw hyn yn wir bob amser nac ym mhob man. Bydd y Papur Gwyn yn awgrymu ad-drefnu—neu ddiwygio, fel petai—yr holl wasanaethau cyngor ar ddigartrefedd ledled Cymru. Gallaf ddweud y bydd galw hefyd am gysondeb o ran gwasanaethau cyngor ar draws y wlad.

**Mark Isherwood:** Last week, we saw figures from the Council of Mortgage Lenders, reporting slightly more encouragingly, that UK repossessions were stable, arrears were falling and that it may be levelling down its forecast for repossessions in 2012. However, it cautioned that there are always factors that can disrupt the current stable picture. Therefore, what dialogue have you had with lenders and local authorities in Wales to ensure that mortgage borrowers in difficulty, who approach either body, receive joined-up support and signposting, hopefully to avoid, wherever possible, the repossession of their homes?

**Mark Isherwood:** Yr wythnos diwethaf, gwelsom ffigurau gan y Cyngor Benthycwyr Morgeisi, yn adrodd, ychydig yn fwy calonogol, bod achosion o adfeddiannu yn y DU yn sefydlog, bod ôl-ddyledion yn gostwng ac efallai eu bod yn rhagweld lefel isel o achosion o adfeddiannu yn 2012. Fodd bynnag, roedd yn rhybuddio bod ffactorau bob amser sy'n gallu amharu ar y darlun sefydlog presennol. Felly, pa drafodaeth rydych wedi'i chael gyda benthycwyr ac awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau bod benthycwyr morgeisi sydd mewn trafferth, sy'n cysylltu â'r naill gorff neu'r llall, yn derbyn gwasanaeth cyfeirio a chefnogaeth cydgysylltiedig yn y gobaith o osgoi gweld eu cartrefi'n cael eu hadfeddiannu, lle bynnag y bo hynny’n bosibl?

**Huw Lewis:** I thank Mark Isherwood for that question. It is true that repossessions are fairly stable. Indeed, some sets of statistics

**Huw Lewis:** Diolch i Mark Isherwood am y cwestiwn hwnnw. Mae'n wir bod achosion o adfeddiannu yn weddol sefydlog. Yn wir,

tell us that they are falling. However, I am worried that that could be the calm before the storm, in that some mortgage lenders might feel that it is hardly worth the bother of repossessing now in such a deep economic downturn, because the sale of the property, the asset, would be at a depressed price and would be slow in coming. I might be overly cynical, but if the economy picks up a little, we could see a surge in repossessions as lenders realise that they can cash in the asset to which the loan is secured. I say to Mark Isherwood that what the White Paper will have to say about advice and support services will cover the whole housing system. This is not just a question of people in rented accommodation facing problems; the services will also be for homeowners and people with mortgages. People having difficulty making their repayments would be every bit as much a part of the reformed advisory services as anybody else.

mae rhai ystadegau'n dweud wrthym eu bod yn gostwng. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu mai gosteg cyn y storm yw hynny, o bosibl, oherwydd gallai rhai benthycwyr morgeisi deimlo nad yw prin yn werth y drafferth o adfeddiannu yn awr yn y fath ddirywiad economaidd difrifol, oherwydd byddai'r eiddo, yr ased, yn cael ei werthu am bris isel, a byddai adennill yr arian yn cymryd amser. Efallai fy mod yn rhy sinigaidd, ond pe bai'r economi'n gwella rhyw fymryn, mae'n bosibl y byddwn yn gweld cynnydd yn yr achosion o adfeddiannu wrth i fenthycwyr sylweddoli y gallant gyfnewid yr ased y mae'r benthyciad wedi'i warantu iddo am arian parod. Rwyf am ddweud wrth Mark Isherwood y bydd yr hyn sydd gan y Papur Gwyn i'w ddweud am wasanaethau cynghori a chymorth yn berthnasol i'r system dai gyfan. Nid dim ond pobl mewn llety rhent sy'n wynebu problemau sy'n bwysig yma; bydd y gwasanaethau hefyd ar gael i berchnogion tai a phobl gyda morgeisi. Byddai pobl sy'n wynebu anhawster wrth dalu eu had-daliadau yn gymaint o ran o'r gwasanaethau cynghori diwygiedig â phawb arall.

**Kirsty Williams:** Many people with a learning disability aspire to live independently and to maintain a tenancy in their own right. However, their housing aspirations are often ignored or, if they are not ignored, there is a lack of suitable housing for them. What discussions will you have with local authorities and registered social landlords to look at the provision of suitable housing for those with learning disabilities? What discussions have you had with Gwenda Thomas, the Deputy Minister for Children and Social Services, to ensure that those people with a learning disability who aspire to live independently and to maintain a tenancy have the right to do so?

**Kirsty Williams:** Mae llawer o bobl sydd ag anabledd dysgu yn dyheu am fyw'n annibynnol ac am gynnal tenantiaeth eu hunain. Fodd bynnag, mae eu dyheadau o ran tai yn cael eu hanwybyddu'n aml, neu os nad ydynt yn cael eu hanwybyddu, ceir diffyg tai addas ar eu cyfer. Pa drafodaethau fyddwch chi'n eu cynnal gydag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ystyried darparu tai addas ar gyfer y rheini sydd ag anableddau dysgu? Pa drafodaethau rydych wedi eu cynnal gyda Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod gan y rheini sydd ag anableddau dysgu ac sy'n dyheu am fyw'n annibynnol ac am gynnal tenantiaeth yr hawl i wneud hynny?

**Huw Lewis:** These discussions are an ongoing part of the generality of work, particularly between myself and my colleague Gwenda Thomas. This will also form part of the evolution of the Supporting People programme, which is currently undergoing change as a result of the Aylward review, and there are many other aspects to

**Huw Lewis:** Mae'r trafodaethau hyn yn rhan barhaus o'r gwaith cyffredinol, yn enwedig rhwng fy nghyd-Weinidog, Gwenda Thomas, a minnau. Bydd hyn hefyd yn rhan o ddatblygu'r rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n cael ei newid ar hyn o bryd o ganlyniad i adolygiad Aylward, ac mae llawer o agweddau eraill ar hyn a fydd yn effeithio ar newidiadau

this that will impact upon regulatory change, which, again, means that I must refer to the publication of the White Paper on Monday. I would also set this in the context of the disability living allowance being slashed by the UK Lib Dem-Tory Government, with anything up to a third of disabled children, for instance, about to lose their disability payments, with the consequent impact that that will have on family income and the inevitability of some families of disabled people being pushed into financial instability, because of the actions of the UK Government.

rheoliadol, sydd, unwaith eto, yn golygu bod yn rhaid imi gyfeirio at gyhoeddi'r Papur Gwyn ddydd Llun. Byddwn hefyd yn rhoi hyn yng nghyd-destun y ffaith bod Llywodraeth y DU, sef Llywodraeth y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid, yn torri'r lwfans byw i'r anabl. Gallai hyd at draean o blant anabl, er enghraifft, fod ar fin colli eu taliadau anabledd. Rhan o'r cyd-destun hefyd yw'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar incwm y teulu, a bydd yn anochel y bydd teuluoedd rhai pobl anabl yn cael eu gwthio i ansefydlogrwydd ariannol oherwydd gweithredoedd Llywodraeth y DU.

**Corau a Bandiau Pres**

**Choirs and Brass Bands**

***7. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Gweinidog roi datganiad yn egluro polisi Llywodraeth Cymru ar gefnogi corau a bandiau pres o Gymru. OAQ(4)0118(HRH)*

***7. Mick Antoniw:*** *Will the Minister provide a statement clarifying the Welsh Government's policy on supporting Welsh choirs and Welsh brass bands. OAQ(4)0118(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Pontypridd for that question. As I mentioned in March, funding is channelled, under the arm's-length funding principle in this regard, through the Arts Council of Wales. Organisations may also apply to the lottery. The Arts Council of Wales also funds Tŷ Cerdd to run a separate grant regime, which is open to brass bands and choirs.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am y cwestiwn hwnnw. Fel y bu imi sôn ym mis Mawrth, mae'r arian yn cael ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru o dan yr egwyddor arian hyd braich yn yr achos hwn. Gall sefydliadau hefyd wneud cais i'r loteri. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn ariannu Tŷ Cerdd i gynnal trefn grantiau ar wahân, sy'n agored i fandiau pres a chorau.

**Mick Antoniw:** May I say, with the greatest of respect, that that answer was not good enough, because we have world champion choirs and brass bands going all over the world, promoting Wales? We have Cory Band, which has constituents of mine in it, and which has won the world championship several times—it beat the stuffing out of Grimethorpe Colliery Band—and it gets no support whatsoever. May I ask you to go away and re-examine exactly why we can provide support for all sorts of other forms of arts, but when it comes to working-class culture, we seem to give no financial support of any relevance?

**Mick Antoniw:** A phob parch, a gaf fi ddweud nad oedd yr ateb hwnnw yn ddigon da, gan fod gennym gorau a bandiau pres sy'n bencampwyr byd, yn teithio i bedwar ban y byd yn hyrwyddo Cymru? Mae Band Cory, y mae rhai o'm hetholwyr yn aelodau ohono, wedi ennill pencampwriaeth y byd sawl gwaith—mae'n sicr wedi curo Band Grimethorpe Colliery—ac nid yw'n cael dim cymorth o gwbl. A gaf fi ofyn ichi fynd ymaith ac ailystyried yn union pam y gallwn roi cymorth i bob math o gelfyddyd arall, ond pan ddaw at ddiwylliant y dosbarth gweithiol, mae'n ymddangos nad ydym yn rhoi prin ddim cymorth ariannol o bwys?

**Huw Lewis:** I understand Mick Antoniw's passion when it comes to the achievements of Cory Band and choirs up and down Wales. These are a very proud part of our heritage. On the other hand, I would fall out with him a little if he were to regard me as a Minister

**Huw Lewis:** Rwyf yn deall angerdd Mick Antoniw yng nghyswllt cyflawniadau Band Cory a chorau ar hyd a lled Cymru. Mae'r rhain yn rhan o'n treftadaeth y gallwn ymfalchïo ynddi. Ar y llaw arall, byddwn yn cweryla rhywfaint ag ef pe bai'n fy ystyried

who cared not for working-class culture. As I said, funding is channelled through an arm’s-length organisation, the Arts Council of Wales. That is a fundamental political principle on which we operate. If the Member can evidence to me that we are facing a systematic problem when it comes to this kind of artistic expression, I would gladly join with a chorus of concern—if you will forgive the pun—around this. My understanding is that Cory Band is fairly blessed when it comes to private funding. I would also distinguish between that day-to-day support and the costs over and above that that might come from touring or travelling abroad. There would be all sorts of questions opened up here about all sorts of organisations that might wish to travel around the world, all of which I would love to support, of a sporting, artistic or cultural nature more generally.

innau'n Weinidog nad yw'n malio dim am ddiwylliant y dosbarth gweithiol. Fel y dywedais, caiff arian ei sianelu drwy sefydliad hyd braich, Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hynny'n egwyddor wleidyddol sylfaenol rydym yn gweithredu arni. Pe bai'r Aelod yn gallu dangos tystiolaeth imi ein bod yn wynebu problem systematig o ran y math hwn o fynegiant artistig, byddwn yn falch o ymuno â chôr o bryder—maddeuwch y chwarae ar eiriau—ynglŷn â hyn. Roeddwn ar ddeall bod Band Cory yn weddol lwcus o ran arian preifat. Byddwn hefyd yn gwahaniaethu rhwng y cymorth o ddydd i ddydd a'r costau ychwanegol a allai ddeillio o deithio'r wlad neu deithio dramor. Byddai pob math o gwestiynau’n dod i'r amlwg yma ynglŷn â phob math o sefydliadau a fyddai’n dymuno teithio o amgylch y byd, o bosibl. Byddwn wrth fy modd yn cefnogi pob un ohonynt, boed hwy o natur chwaraeon, artistig neu o natur ddiwylliannol yn fwy cyffredinol.

**Suzy Davies:** I do not know how many of us will have watched *Britain’s Got Talent*, but I am sure that everyone in the Chamber knows about it and would like to congratulate Only Boys Aloud for coming third on Saturday. Some of the boys involved came from poorer economic backgrounds across the south Wales Valleys, including my region. Being able to take part in this choir not only reconnected them with their heritage, but showed that, sometimes, it just takes one opportunity to change aspirations. Minister, how do you plan to capitalise on the regeneration potential of musical traditions, including their promotion to the wider world as Mick Antoniw said?

**Suzy Davies:** Nid wyf yn gwybod faint ohonom fyddai wedi gwylio *Britain's Got Talent*, ond rwyf yn siŵr bod pawb yn y Siambr yn gwybod am y rhaglen ac yn dymuno llongyfarch Only Boys Aloud am ddod yn drydydd ddydd Sadwrn. Roedd rhai o'r bechgyn a oedd yn aelodau yn dod o gefndiroedd economaidd tlotach ar draws Cymoedd y de, gan gynnwys fy rhanbarth innau. Roedd gallu cymryd rhan yn y côr nid yn unig yn eu hailgysylltu â'u treftadaeth, ond yn dangos mai dim ond un cyfle sydd ei angen, weithiau, i newid dyheadau. Weinidog, sut rydych yn bwriadu manteisio ar botensial traddodiadau cerddorol o ran adfywio, gan gynnwys eu potensial wrth eu hyrwyddo i weddill y byd, fel y dywedodd Mick Antoniw?

**Huw Lewis:** I thank Suzy Davies for that question. It is for all of us to offer our congratulations to Only Boys Aloud. That national stage that those individuals stepped out on and seized has done them a power of good in terms of their life chances and their perceptions of where they might travel in life, but it has also done a power of good for the promotion of Welsh culture. It is particularly welcome because it has come through the hard work and dedication of such young people. When it comes to detailed

**Huw Lewis:** Diolch i Suzy Davies am y cwestiwn hwnnw. Dylai pob un ohonom longyfarch Only Boys Aloud. Mae'r llwyfan cenedlaethol y bu i'r unigolion hynny gamu arni a manteisio arni wneud byd o les iddynt o ran eu cyfleoedd bywyd a'u canfyddiadau o ble y gallai eu bywydau fynd â hwy, ond mae hefyd wedi gwneud byd o les o ran hyrwyddo diwylliant Cymru. Mae wir i'w groesawu gan ei fod wedi deillio o waith caled ac ymroddiad pobl mor ifanc. Pan ddaw at sgyrsiau manwl am y cyfeiriad y gallai Only

conversations around where Only Boys Aloud might go from here and how we might best support that, I have to say that such detailed conversations have not been had. However, like any other organisation, if it were to approach me or the Arts Council of Wales, I know that, at the very least, it would be taken notice of—although I am beginning to think that its success is such that it may not need the support of a mere Government Minister in the very near future.

Boys Aloud deithio iddo nawr a'r ffordd orau inni gefnogi hynny, rhaid imi gyfaddef nad oes sgyrsiau manwl o'r fath wedi digwydd. Fodd bynnag, fel unrhyw sefydliad arall, pe bai'n dod ataf innau neu at Gyngor Celfyddydau Cymru, rwyf yn gwybod y byddai sylw'n cael ei roi iddo, o leiaf—er fy mod yn dechrau meddwl ei fod wedi cael cymaint o lwyddiant fel na fydd arno angen cefnogaeth un o Weinidogion y Llywodraeth yn y dyfodol agos.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rwy'n siŵr y byddech hefyd am longyfarch Nu Sxool o ardal Port Talbot a gymerodd ran yn yr un rhaglen nos Sadwrn ac a oedd hefyd yn cynrychioli Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, I am sure that you would also want to congratulate Nu Sxool from Port Talbot that took part in the same programme on Saturday, also representing Wales.

Mae'r cwestiynau yr ydych wedi eu hwynebu yn ymwneud â'r traddodiad o berfformio'n gyhoeddus gan gorau, bandiau pres ac artistiaid o wahanol fathau. Byddwch yn cydnabod bod gwledydd eraill, gan gynnwys Llydaw, er enghraifft, yn hyrwyddo perfformiadau cyhoeddus o'r fath am eu bod yn adlewyrchiad o'u diwylliannau a'u traddodiadau. A oes gennych gynlluniau fel Gweinidog i sicrhau bod Cymru'n gwneud y gorau o'r traddodiad cyfoethog sydd gennym ac yn rhannu hwnnw yn ein cymunedau ni ac ar deithiau tramor?

The questions that you have answered concern the tradition of public performance by choirs, brass bands and artists of all sorts. You will acknowledge, Minister, that other countries, including Brittany, for example, promote such public performances because they reflect their traditions and culture. Do you have any plans as Minister to ensure that Wales makes the most of our rich traditions and shares those in our communities and on trips abroad?

**Huw Lewis:** I would welcome any suggestions that might come forward, but I think that we have a very proud record in Wales of doing just that, not least through the eisteddfodau that are held throughout the country and that are tremendously well supported, from the National Eisteddfod on down, and including the Llangollen International Eisteddfod.

**Huw Lewis:** Byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau a ddaw i law, ond credaf ein bod eisoes yn gwneud hynny'n foddhaol iawn yng Nghymru, er enghraifft drwy eisteddfodau sy'n cael eu cynnal ledled y wlad ac sy'n cael eu cefnogi'n arbennig o dda, o'r Eisteddfod Genedlaethol i eisteddfodau cylch, gan gynnwys Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, wrth gwrs.

### Rheolyddion Rhent

### Rent Controls

***8. Jenny Rathbone:*** *A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o rôl bosibl rheolyddion rhent yng Nghymru. OAQ(4)0125(HRH)*

***8. Jenny Rathbone:*** *Has the Welsh Government made any assessment of the potential role for rent controls in Wales. OAQ(4)0125(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank Jenny Rathbone for that point. Rent controls were a feature of the housing landscape up until the late 1980s, I believe, when they were abolished by the Thatcher Government. [*Interruption.*] I will try saying that again sometime; it seems to

**Huw Lewis:** Diolch i Jenny Rathbone am wneud y pwynt hwnnw. Roedd rheolyddion rhent yn un o nodweddion y cyd-destun tai hyd at y 1980au hwyr, rwyf yn credu, pan gawsant eu diddymu gan Lywodraeth Thatcher. [*Torri ar draws.*] Rwyf yn mynd i

wake everyone up. [*Interruption.*] I did not catch that.

geisio dweud hynny eto rywbryd; mae'n deffro pawb, i bob golwg. [*Torri ar draws.*] Chlywais i mo hynny.

**The Presiding Officer:** I think that you walked into that, Minister. Can you move on, please?

**Y Llywydd:** Rwyf yn meddwl eich bod wedi syrthio i'r fagl y tro hwnnw, Weinidog. A fyddech cystal â symud ymlaen, os gwelwch yn dda?

**Huw Lewis:** Yes. What I would say to the Member is this: we are in a period of flux when it comes to the radical changes to the benefits system and an economy that is pushing up living costs in general. Although there has been no studied look at rent controls in a Welsh context up until this point, and Jenny Rathbone may be disappointed to find no direct reference to it in the White Paper when it comes out on Monday, it does not mean that the debate around rent control in Wales is necessarily a closed one.

**Huw Lewis:** Iawn. Dyma beth sydd gennyf i'w ddweud wrth yr Aelod: rydym mewn cyfnod o ansicrwydd o ran y newidiadau radical i'r system fudd-daliadau ac o ran economi sy'n cynyddu costau byw yn gyffredinol. Er na fu unrhyw astudiaeth yn ystyried rheolyddion rhent yng nghyd-destun Cymru cyn hyn, ac efallai y bydd Jenny Rathbone yn siomedig na fydd yn gweld unrhyw gyfeiriad uniongyrchol ato yn y Papur Gwyn pan gaiff ei gyhoeddi ddydd Llun, nid yw'n golygu bod y ddadl ynghylch rheoli rhent yng Nghymru yn un gaeedig, o reidrwydd.

**Jenny Rathbone:** Thank you, Minister, for that honest answer. I have listened carefully to the responses that you have given to other Members who are concerned about the rising tide of homelessness. I am particularly concerned about constituents who will be considered to be under-occupying properties and who are likely be minded to use their low wages to top up the reduced rent subsidy in order to avoid having to move home and all the upheavals that that would cause for their children in having to change schools and so on. Could the Welsh Government consider this as a possibility, given that we are about to enter uncharted waters?

**Jenny Rathbone:** Diolch, Weinidog, am yr ateb gonest hwnnw. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar yr ymatebion rydych wedi'u rhoi i Aelodau eraill sy'n bryderus am lefel gynyddol digartrefedd. Rwyf yn arbennig o bryderus am etholwyr y mae pobl yn ystyried eu bod yn tan-feddiannu eiddo, ac sy'n debygol o orfod defnyddio eu cyflogau isel i ychwanegu at y cymhorthdal rhent gostyngol er mwyn osgoi gorfod symud cartref ac osgoi’r holl newidiadau mawr y byddai hynny'n ei olygu i'w plant wrth iddynt orfod newid ysgol ac ati. A allai Llywodraeth Cymru ystyried hyn fel posibilrwydd, o gofio ein bod ar fin troedio tir newydd?

**Huw Lewis:** I think that we will need to consider this as part of a suite of possible responses to a situation in which people are receiving and will receive multiple blows when it comes to their ability to hold on to their homes. Under-occupation is one issue, and the mere fact that you may be under 35 years old will be another. You may lose your disability living allowance, and you may see your housing benefit cut. You will certainly see your fuel and food bills multiplied. The extent to which this will push people into precarious situations with regard to keeping up with their rent or mortgage payments is something that we are yet to completely

**Huw Lewis:** Rwyf yn credu y bydd angen inni ystyried hyn fel rhan o gyfres o ymatebion posibl i sefyllfa lle mae pobl yn dioddef, a lle bydd pobl yn dioddef, sawl ergyd o ran eu gallu i ddal gafael ar eu cartrefi. Mae tan-feddiannu yn un broblem, ac mae’r ffaith y gallech fod o dan 35 mlwydd oed yn broblem arall. Mae’n bosibl y byddwch yn colli eich lwfans byw i'r anabl, ac efallai y bydd eich budd-dal tai yn cael ei leihau. Yn sicr, bydd eich biliau tanwydd a bwyd yn cynyddu. Mae'r graddau y bydd hyn yn gwthio pobl i sefyllfaoedd ansicr o ran talu eu rhent neu eu taliadau morgais yn rhywbeth nad ydym yn gwbl sicr ohono eto,

ascertain, but this picture is not going to be a very attractive one, and I think that rent controls have to remain at least in our back pocket as something that we may need to bring out and take a look at later on.

ond ni fydd y darlun yn un deniadol iawn. Rwyf yn credu bod yn rhaid inni gadw rheolyddion rhent yng nghefn ein meddwl fel rhywbeth y gallai fod angen inni eu hystyried yn nes ymlaen.

3.00 p.m.

**Jocelyn Davies:** As affordable homes within the private rented sector have now fallen from 50% to 30%, because of those housing benefit changes, are private sector landlords now lowering their rents, as predicted by the UK Government?

**Jocelyn Davies:** Gan fod cartrefi fforddiadwy yn y sector rhentu preifat bellach wedi gostwng o 50 y cant i 30 y cant, o ganlyniad i'r newidiadau hynny yn y budd-dal tai, a yw landlordiaid sector preifat bellach yn gostwng eu rhenti, fel y rhagwelwyd gan Lywodraeth y DU?

**Huw Lewis:** I would love to be able to say ‘yes’ and to point to rents coming down to more reasonable levels across Wales, or anywhere else in the UK, but I have not seen a single reported instance, either in the media or through any kind of academic study, that points to that happening. In fact, it is quite the reverse. All the reports that we are receiving, particularly from London, are that landlords are now taking the opportunity to undertake a wave of housing benefit-related evictions to clear people in receipt of benefit out of whole swathes of property across London. London will feel this first, because of the nature of the property market in the city. However, this effect will ripple across the UK, and I worry very much that, for instance, areas such as the north-west of England or Bristol might become net exporters of people who are having to leave their homes because of housing benefit cuts.

**Huw Lewis:** Byddwn wrth fy modd yn gallu dweud 'ydyn' a chyfeirio at renti'n gostwng i lefelau mwy rhesymol ledled Cymru, neu unrhyw le arall yn y DU, ond nid wyf wedi gweld un enghraifft yn cael ei hadrodd, naill ai yn y cyfryngau neu drwy unrhyw fath o astudiaeth academaidd, sy'n dangos bod hynny'n digwydd. I'r gwrthwyneb, yn wir. Mae'r holl adroddiadau rydym yn eu derbyn, yn enwedig o Lundain, yn dangos bod landlordiaid bellach yn manteisio ar y cyfle i droi pobl sy'n cael budd-dal tai allan o'u cartrefi mewn amrywiol eiddo ar draws Llundain. Llundain fydd yn dioddef hyn yn gyntaf oherwydd natur marchnad eiddo'r ddinas. Fodd bynnag, bydd yr effaith hon i'w theimlo ar draws y DU, ac rwyf yn poeni'n arw y gallai ardaloedd fel gogledd-orllewin Lloegr neu Fryste, er enghraifft, allforio pobl sy’n gorfod gadael eu cartrefi oherwydd y toriadau yn y budd-dal tai.

## Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog Rhif 22.9
## The Standards of Conduct Committee’s Report under Standing Order No. 22.9

*Cynnig NDM4985 Mick Antoniw*

*Motion NDM4985 Mick Antoniw*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad—Adroddiad 01-12—a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Mai 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; a*

*1. Considers the Report of the Standards of Conduct Committee—Report 01-12—laid before the Assembly on 9 May 2012 in accordance with Standing Order 22.9; and*

*2. Yn cymeradwyo’r argymhelliad yn yr adroddiad y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid ceryddu Keith Davies*

*2. Endorses the recommendation in the report that a breach has been found and that Keith Davies AM should be censured.*

*AC.*

**Mick Antoniw:** I move the motion.

Having received the report of the independent National Assembly for Wales Commissioner for Standards, Gerard Elias QC, into a complaint relating to the conduct of Mr Keith Davies, the Standards of Conduct Committee moved swiftly to meet and give consideration to his findings. We gave the commissioner's report our careful consideration, and our report clearly sets out the committee's considered judgment as to the sanction that is appropriate in this case. The motion invites the Assembly to endorse the committee's recommendation in this case.

**Keith Davies:** Fel y gwelsoch yn adroddiad y comisiynydd safonau, rwy'n derbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd ac wedi gwneud datganiad personol ysgrifenedig. Fy mhwrpas yn awr yw ymddiheuro i chi, fy nghyd-Aelodau, i'm hetholwyr, i staff y Cynulliad ac i staff y gwesty am fy ymddygiad, ac, yn bennaf, i'm teulu am y cywilydd cyhoeddus sydd wedi dilyn yn genedlaethol ac yn lleol.

As you have seen in the commissioner for standards' report, I accept the report in its entirety and have made a written personal statement. My purpose now is to apologise to you, my Assembly Member colleagues, my constituents, Assembly staff and the hotel staff for my behaviour and, in particular, to my family for the public shame that has followed nationally and locally.

**Angela Burns:** On behalf of the Welsh Conservatives, I would like to thank the Chair and members of the Standards of Conduct Committee for their report to the Assembly under Standing Order No. 22.9. We note the recommendation to censure the Member under Standing Order No. 22.10, and endorse this action. We also note the Member for Llanelli's acknowledgement of, and apology for, the matters raised in the complaint. Looking to the future, Llywydd, the Welsh Conservatives would fully support the Standards of Conduct Committee in its ongoing consideration of the matter of sanctions. We look forward to any recommendations to revise Standing Orders,

**Mick Antoniw:** Cynigiaf y cynnig.

Ar ôl cael adroddiad Gerard Elias CF, Comisiynydd Safonau Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad Mr Keith Davies, aeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ati'n ddi-oed i gwrdd ac i ystyried ei ganfyddiadau. Gwnaethom ystyried adroddiad y comisiynydd yn ofalus, ac mae ein hadroddiad yn amlinellu'n glir farn y pwyllgor ar ôl ystyried y gosb sy'n briodol yn yr achos hwn. Mae'r cynnig yn gwahodd y Cynulliad i gymeradwyo argymhelliad y pwyllgor yn yr achos hwn.

**Keith Davies:** As you will have seen in the report of the commissioner for standards, I accept the report in its entirety and have made a written personal statement. My purpose now is to apologise to you, my fellow Members, my constituents, the Assembly's staff and the staff of the hotel for my conduct and, in particular, to my family for the public shame that has followed nationally and locally.

Fel y gwelsoch yn adroddiad y comisiynydd safonau, rwy'n derbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd ac wedi gwneud datganiad personol ysgrifenedig. Fy mhwrpas yn awr yw ymddiheuro i chi, fy nghyd-Aelodau, i'm hetholwyr, i staff y Cynulliad ac i staff y gwesty am fy ymddygiad, ac, yn bennaf, i'm teulu am y cywilydd cyhoeddus sydd wedi dilyn yn genedlaethol ac yn lleol.

**Angela Burns:** Ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd ac i aelodau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad am eu hadroddiad i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog Rhif 22.9. Rydym yn nodi'r argymhelliad i geryddu'r Aelod o dan Reol Sefydlog Rhif 22.10, ac yn cymeradwyo hynny. Rydym hefyd yn nodi bod yr Aelod dros Lanelli yn cydnabod y materion a godwyd yn y gŵyn, ac yn ymddiheuro am y materion hynny. Gan edrych i'r dyfodol, Lywydd, byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn llwyr gefnogi'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wrth iddo fynd ati i ystyried cosbau. Rydym yn edrych ymlaen at unrhyw argymhellion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog maes o law, fel

as may be deemed appropriate, in due course.

yr ystyrir yn briodol.

**Simon Thomas:** Hoffwn hefyd ddiolch i Mick Antoniw a’r pwyllgor am eu gwaith clou a chymen ar y mater hwn. Bûm, am ddwy flynedd, yn gwasanaethu ar bwyllgor tebyg yn Nhŷ’r Cyffredin—y Pwyllgor Breintiau a Safonau—a gwn nad gwaith pleserus yw hwn, ond gwaith hanfodol yw er mwyn cynnal enw da sefydliad a senedd ddemocrataidd. Diolchaf i’r Aelod dros Lanelli am ei ddatganiad ar lafar heddiw. Rwy’n meddwl bod hwnnw’n briodol ac yn gosod cynsail, gobeithio, ar gyfer unrhyw achosion tebyg sy’n codi yn y dyfodol.

**Simon Thomas:** I would also like to thank Mick Antoniw and the committee for their swift and excellent work on this matter. For two years, I served on a similar committee in the House of Commons—the Standards and Privileges Committee—and I know that this is not pleasant work, but it is crucial to maintain the reputation of a democratically elected institution. I thank the Member for Llanelli for his oral statement today. I think that it was appropriate and it sets a precedent, hopefully, for any similar cases that arise in future.

I believe, Presiding Officer, that one outstanding matter remains. It is referred to in the report under paragraphs 12 and 15, and was also referred to by Angela Burns. That is the ongoing investigation and consideration by the Standards of Conduct Committee as to whether the sanctions regime is sufficient and cast sufficiently wide. The constituents of Llanelli who have contacted me over the last few days have been bemused that we limit the sanctions depending on the kind of transgression. They do not understand why one kind of transgression, for example, financial transgression, leads to some sanctions and others lead to others. They are very much of the view that if conduct such as this happens in a workplace, it can lead to the docking of pay or suspension from a place of work, and they wanted me to convey those views for further consideration by the Standards of Conduct Committee as it looks to the future. I hope that this concludes this matter. It is now for the Labour Party to use its own disciplinary measures, as it has announced.

Rwyf yn credu, Lywydd, bod un mater ar ôl i’w drafod. Cyfeirir ato yn yr adroddiad o dan baragraffau 12 a 15, a chyfeiriodd Angela Burns ato hefyd, sef ystyriaeth ac ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, ynghylch a yw'r system gosbau yn ddigonol ac yn ddigon eang. Mae etholwyr Llanelli sydd wedi cysylltu â mi yn ystod y dyddiau diwethaf wedi synnu ein bod yn cyfyngu ein cosbau, gan ddibynnu ar y math o gamymddygiad. Nid ydynt yn deall pam mae un math o gamymddygiad, er enghraifft, camymddygiad ariannol, yn arwain at rai cosbau, a mathau eraill o gamymddygiad yn arwain at gosbau eraill. Maent yn bendant o'r farn y gall ymddygiad o’r fath yn y gweithle arwain at docio cyflog neu atal o'r gwaith dros dro, ac roeddent eisiau imi gyfleu'r farn honno i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei hystyried ymhellach wrth iddo edrych tua'r dyfodol. Gobeithio y bydd hyn yn dod â'r mater hwn i ben. Mae'n awr yn bryd i'r Blaid Lafur ddefnyddio ei mesurau disgyblu ei hun, fel y mae wedi cyhoeddi.

**Mick Antoniw:** The Assembly is being asked to endorse the committee’s judgment of the sanctions appropriate in this particular case. In considering this case, it would have been inappropriate for the committee to introduce issues relating to sanctions that might be imposed in other cases. We have applied the rules, as they exist, on the basis of the facts as presented to us. The Standards of Conduct Committee is undertaking an ongoing review, which is considering the totality of conduct issues and sanctions and a report will be presented to the Assembly in

**Mick Antoniw:** Gofynnir i'r Cynulliad gymeradwyo barn y pwyllgor ynghylch y cosbau sy’n briodol yn yr achos penodol hwn. Wrth ystyried yr achos hwn, byddai wedi bod yn amhriodol i'r pwyllgor gyflwyno materion sy'n ymwneud â chosbau a allai gael eu rhoi mewn achosion eraill. Rydym wedi gweithredu'r rheolau, fel y maent yn bodoli, ar sail y ffeithiau a gyflwynwyd inni. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd, sy'n ystyried yr holl faterion sy’n ymwneud ag ymddygiad a chosbau, a bydd adroddiad yn cael ei

due course.

gyflwyno i'r Cynulliad maes o law.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, rwyf yn datgan bod gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.06 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.06 p.m.*

## Cynnig i Gytuno ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)
## Motion to Agree the General Principles of the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill

*Cynnig NDM4984 Rhodri Glyn Thomas*

*Motion NDM4984 Rhodri Glyn Thomas*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.11:*

*Yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).*

*Agrees to the general principles of the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill.*

**Comisiynydd y Cynulliad (Rhodri Glyn Thomas):** Cynigiaf y cynnig.

**Assembly Commissioner (Rhodri Glyn Thomas):** I move the motion.

Mae'n bleser cael agor y ddadl hon ar egwyddorion cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), a gyflwynais i'r Cynulliad ar 30 Ionawr eleni. Mae'n bwysig inni nodi ar y cychwyn ein bod yn sôn am egwyddorion cyffredinol y Bil hwn ar yr adeg arbennig hon yn y broses ac y bydd cyfle yn ddiweddarach i edrych ar y manylion.

It is a pleasure to open this debate on the general principles of the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill, which I introduced to the Assembly on 30 January of this year. It is important to note at the outset that we are talking about the general principles of the Bill at this particular stage in the process and there will be an opportunity to look at the details later on.

Pwrpas y Bil yw diweddaru'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywio'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Bil yn nodi'n glir mai Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad ac y dylid eu trin yn gyfartal. Mae hefyd yn darparu peirianwaith a fydd yn sicrhau bod y Comisiwn yn gweithredu'r egwyddor honno'n effeithiol. Yn ganolog i'r peirianwaith hwnnw bydd y

The purpose of the Bill is to update the legal framework that directs the way in which the National Assembly and the Assembly Commission operate through the media of Welsh and English. The Bill clearly notes that Welsh and English are the official languages of the Assembly and should be treated equally. It also provides a mechanism to ensure that the Commission implements that principle effectively. Central to that mechanism is the official languages scheme,

cynllun ieithoedd swyddogol, a fydd yn nodi'r camau manwl y bydd yn rhaid i'r Comisiwn eu cymryd. Rhaid i'r cynllun gael cymeradwyaeth y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn ac ni fydd yn bosibl ei newid mewn unrhyw fodd heb ganiatâd pellach y Cynulliad.

which will set out the detailed steps that the Commission will have to take. The scheme will have to be approved by the Assembly in Plenary and it will not be possible to change the scheme in any way without the further approval of the Assembly.

Rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt nad yw pawb wedi ei ddeall yn llawn: mae unrhyw beth yn y cynllun yn gorfod cael cymeradwyaeth y Cynulliad yn ei gyfanrwydd, a bydd unrhyw newid iddo yn gorfod dod gerbron y Cynulliad. Felly, bydd y Bil yn sicrhau bod y rheolaeth dros ddarpariaeth ddwyieithog yng ngwaith y Cynulliad a'r Comisiwn yn gorwedd, fel sy'n briodol, yn nwylo'r Cynulliad ei hun. O ran y cynllun, gallaf eich sicrhau y rhoddir ystyriaeth ofalus ac adeiladol i'r argymhellion gan y Comisiwn.

I think that that is a point that perhaps not everyone has fully understood: anything in the scheme has to have the approval of the Assembly as a whole and any change to it will have to come before the Assembly. Therefore, the Bill will ensure that the regulation of bilingual provision in the work of the Assembly and the Commission lies, as is appropriate, in the hands of the Assembly itself. In relation to the scheme, I can assure you that the recommendations will be given careful and constructive consideration by the Commission.

Ymhlith pethau eraill, mae swyddogion eisoes wedi trefnu i gyfarfodydd gael eu cynnal gyda staff a'r undebau dros y misoedd nesaf i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau arfaethedig newydd yn sgîl y Bil a'r cynllun, ac i'w cynorthwyo i'w gweithredu. Bwriad y Comisiwn yw ailystyried y cynllun diwygiedig yn yr hydref a'i gyflwyno i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd wedi i'r Bil, os caiff ei basio gan y Cynulliad, ddod yn Ddeddf. Mae hyn yn newid o'r bwriad gwreiddiol o wneud cais am gymeradwyaeth y Cynulliad i'r Bil a'r cynllun ym mis Gorffennaf. Bydd hyn yn caniatáu inni adolygu'r cynllun yn sgîl unrhyw newidiadau a gytunir i'r Bil a'r drafodaeth bellach gyda staff a'u cynrychiolwyr.

Among other things, officials have already arranged for meetings to be held with staff and unions over the coming months to ensure that they are aware of their proposed new duties in the wake of the Bill and scheme, and to support them in their implementation. The Commission's intention is to reconsider the revised scheme in the autumn and to present it to the Assembly as soon as possible after the Bill, if passed by the Assembly, becomes an Act. This is a change from the original intention of asking the Assembly to approve the Bill and the scheme in July. This will allow us to revise the scheme following any changes agreed to the Bill and the further discussions with staff and their representatives.

Mae'r pwyllgor hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion sy'n eithriadol o bwysig, ac mae'r Comisiwn yn cyd-fynd â'r pwyllgor eu bod yn elfennau pwysig o strategaeth a fydd yn gwneud y Cynulliad yn gorff gwirioneddol ddwyieithog. Fodd bynnag, rydym yn dal i gredu mai materion i'w trin gan y cynllun ydynt ac felly nid oes gofyn iddynt ymddangos ar wyneb y Bil.

The committee has also made a number of very important recommendations, and the Commission agrees with the committee that these are important elements of a strategy that will make the Assembly a truly bilingual institution. However, we continue to believe that these are matters to be dealt with by the scheme and, therefore, that there is no need for them to appear on the face of the Bill.

Mae'r ail argymhelliad yn cyfeirio at fater pwysig iawn, gan argymell gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog o holl drafodion y

The second recommendation refers to a very important matter, as it recommends placing a statutory duty on the Commission to provide a fully bilingual record of all Assembly

Cynulliad. Hynny yw, byddai cofnod ysgrifenedig wedi'i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, yn ogystal ag o'r Gymraeg i'r Saesneg, nid yn unig ar gyfer Cyfarfodydd Llawn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ond hefyd ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau. Credaf fod angen rhywfaint o dystiolaeth am hyn, a byddai diddordeb gennyf wybod a yw'r pwyllgor wedi casglu tystiolaeth am yr union gost. Mae'r amcangyfrif o'r gost yr wyf fi wedi ei glywed yn uchel iawn. Credaf mai'r cwestiwn o ran hyn yw ai dyna'r flaenoriaeth o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn holl weithgareddau'r Cynulliad a hwyluso defnydd y Gymraeg, oherwydd yr hyn sy'n greiddiol i'r Bil hwn yw sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn gwbl naturiol yma, ochr yn ochr â'r Saesneg. Rhaid sylweddoli y byddai'r cam hwn yn mynd â ni gryn dipyn ymhellach na'r sefyllfa bresennol. Byddai diddordeb gennyf glywed am gefndir yr argymhelliad hwn, a pham mae'r pwyllgor yn credu ei fod mor bwysig.

proceedings. That is, there would be a written record translated from English into Welsh, as well as from Welsh into English, not only for Plenary meetings, as is currently the case, but also for meetings of committees and sub-committees. I believe that we need some evidence on this, and I would be interested to know whether the committee has gathered any evidence on the exact cost. The cost estimate that I have heard is very high. I believe that the question here is whether this is the priority in terms of promoting the Welsh language in all the activities of the Assembly and facilitating the use of the Welsh language, because what is at the core of this Bill is ensuring that the Welsh language is used entirely naturally in this place, side by side with English. We must realise that this step would take us a good deal further than the current situation. I would be interested to hear the background to this recommendation, and why the committee believes it to be so important.

Byddai blaenoriaethu'r ddarpariaeth ychwanegol honno uwchlaw gwasanaethau dwyieithog eraill yn cyfyngu ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau amgen, er enghraifft, cyhoeddi tystiolaeth rhanddeiliaid yn y ddwy iaith. Teimlwn fod sicrhau adnoddau ar gyfer rhai o'r mentrau hynny yr un mor bwysig er mwyn datblygu sefydliad dwyieithog gwirioneddol effeithiol. Yn y tymor hwy, pwy a ŵyr pa ddatblygiadau pellach a ddaw a fyddai'n caniatáu ehangu ar ein gwasanaethau dwyieithog, gan gynnwys cofnod dwyieithog o gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau?

Prioritising that additional provision above other bilingual services would limit our ability to provide other services, such as publishing the evidence of stakeholders in both languages. We feel that safeguarding resources to pay for some of those initiatives is just as important if we are to develop a truly effective bilingual institution. In the longer term, who knows what further developments will take place that will allow us to expand our provision of bilingual services, including bilingual records of committee and sub-committee meetings?

Cymerwch, er enghraifft, y newid diweddar i ailsefydlu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn. Drwy'r gwaith arloesol a wneir yn barod yn y maes cyfieithu, gyda chymorth technoleg gwybodaeth, llwyddwyd i ddod o hyd i ffordd o gysoni'r angen am gofnod hollol ddwyieithog o Gyfarfodydd Llawn gyda'r angen i ddefnyddio arian cyhoeddus yn y ffordd ddoethaf posibl. Mae'r gwaith hwnnw'n dal i fod yn arloesol a rhaid gwneud llawer mwy o waith datblygu cyn y byddwn mewn sefyllfa i ddefnyddio'r dechnoleg honno i'w llawn botensial.

Take, for example, the recent change to re-establish a fully bilingual record of Plenary proceedings. Through the innovative work that is already being done in the field of translation, with the aid of information technology, we have successfully reconciled the need for a fully bilingual record of Plenary proceedings with the need to use public money in the wisest possible way. That work continues to be innovative and a great deal more development work will need to be done before we will be in a position to use that technology to its full potential.

Fe gofiwch i'r Comisiwn amcangyfrif ymlaen llaw y byddai'r gost ychwanegol o ddarparu cofnod hollol ddwyieithog o Gyfarfodydd Llawn gan ddefnyddio'r dulliau newydd hyn o gwmpas £100,000 y flwyddyn. Mae dal yn rhy gynnar i asesu'r union gost, ond os ystyriwch fod cofnodion o drafodion pwyllgorau ac is-bwyllgorau tua dwywaith neu deirgwaith hyd cofnod y Cyfarfodydd Llawn, cewch ryw syniad o oblygiadau'r argymhelliad hwn. Cred y Comisiwn, felly, mai'r ffordd synhwyrol o drin gwasanaethau penodol, gan gynnwys trefniadau cyfieithu Cofnod y Trafodion, yw eu cynnwys o fewn y cynllun ieithoedd swyddogol ac nid ar wyneb y Bil. Dyna'r ffordd o sicrhau bod y trefniadau hynny yn medru esblygu'n naturiol dros amser mewn modd blaengar ond ymarferol.

You will recall that the Commission estimated beforehand that the additional cost of providing a fully bilingual record of Plenary meetings using these new methods would be around £100,000 a year. It is still too early to assess the exact cost, but, when you consider that records of committee and sub-committee meetings would be two or three times the length of those of Plenary meetings, you get some idea of the implications of this recommendation. The Commission believes, therefore, that the sensible way of dealing with specific services, including arrangements for the translation of the Record of Proceedings, is by including them in the official languages scheme, not by putting them on the face of the Bill. That is how to ensure that those arrangements can naturally evolve over time in an innovative but practical way.

Hoffwn bwysleisio unwaith eto fod darpariaeth newydd eisoes yn y Bil sy'n gofyn i unrhyw newid i'r cynllun gael ei gytuno gan y Cynulliad cyfan. Ni fyddai'n bosibl i'r Comisiwn ddileu gwasanaeth sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun, gan gynnwys y ddyletswydd i ddarparu cofnod hollol ddwyieithog o Gyfarfodydd Llawn, heb gydsyniad y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Wedi ystyried yr holl faterion perthnasol, felly, nid yw'n fwriad gan y Comisiwn gyflwyno gwelliant i weithredu'r ail argymhelliad.

I emphasise yet again that there is already new provision within the Bill requiring any change to the scheme to be agreed by the Assembly as a whole. It would not be possible for the Commission to remove a service included in the scheme, including the duty to provide a fully bilingual record of Plenary meetings, without the consent of the Assembly in Plenary. Having considered all the relevant issues, therefore, it is not the Commission's intention to table an amendment to implement the second recommendation.

Mae'r trydydd argymhelliad yn gofyn am welliant i'r is-baragraff 2(2)(6) newydd sydd i'w fewnosod, a hynny er mwyn gwella eglurdeb ei effaith. Ein teimlad yw bod y ddarpariaeth hon yn glir o ran ei heffaith, ond rydym, wrth gwrs, yn fodlon ystyried yn ofalus y ffordd y caiff yr is-baragraff ei eirio ac i gyflwyno gwelliant gerbron y pwyllgor er mwyn cael gwared ar unrhyw amheuaeth ar y mater.

The third recommendation requests an amendment to the new sub-paragraph 2(2)(6) that is to be inserted, in order to improve the clarity of its effects. Our feeling is that this provision is clear in its effect, but we are of course willing to consider carefully the way in which the sub-paragraph is worded and to table an amendment for the committee's consideration to get rid of any doubts on the matter.

3.15 p.m.

Yn olaf, mae'r pedwerydd argymhelliad yn gofyn am welliant a fydd yn ei gwneud hi'n orfodol i'r Cynulliad adolygu'r cynllun ieithoedd swyddogol yn ffurfiol yn ystod pob Cynulliad. Mae hyn yn hollol gyson â bwriad y Comisiwn, ond derbyniwn fod yr ansicrwydd presennol o ran hyd tymor

Finally, the fourth recommendation asks for an amendment that would compel the Assembly to review the official languages scheme formally during every Assembly. That is entirely consistent with the Commission's intention, but we accept that the current uncertainty regarding the length

Cynulliadau'r dyfodol wedi arwain at ddiffyg eglurder yn y Bil ar hyn. Bydd y Comisiwn, felly, yn cyflwyno gwelliant gerbron er mwyn gwireddu dymuniad y pwyllgor.

of future Assemblies has led to a lack of clarity in the Bill in relation to this. The Commission will, therefore, table an amendment to fulfil the committee's wishes.

I gloi, diolchaf unwaith eto i'r pwyllgor am ei ystyriaeth ofalus ac adeiladol o gynnwys y Bil. Rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan y gefnogaeth a ddangoswyd gan Aelodau a rhanddeiliaid yn ystod trafodion y pwyllgor. Derbyniaf, yn sgîl adroddiad y pwyllgor, fod gwaith pwysig i'w wneud er mwyn gwella'r Bil ymhellach—a'r cynllun maes o law—ac anogaf Aelodau i gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, er mwyn galluogi'r gwaith pellach hwnnw i fynd rhagddo.

In conclusion, I thank the committee again for its careful and constructive consideration of the contents of the Bill. I have been greatly encouraged by the support shown by Members and stakeholders during the committee's proceedings. I accept, in the wake of the committee's report, that there is important work to be done to improve the Bill further—and the scheme in due course—and I urge Members to support the general principles of the Bill today to allow that further work to progress.

**Ann Jones:** I am pleased to contribute to this debate as Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee that scrutinised the Bill at Stage 1. I thank all those who contributed to the work that has resulted in this report. As well as considering the Bill, as the Commissioner has said, we have also considered the draft official languages scheme that accompanied the Bill. Although our views on the scheme are not appropriate for this debate, I want to take this opportunity to say that we believe that substantial improvements need to be made to the scheme. I hope that the Commissioner will carefully consider our conclusions and recommendations—in fact, I believe that he said that he would—in relation to the scheme.

**Ann Jones:** Rwyf yn falch o gyfrannu at y ddadl hon, a minnau'n Gadeirydd ar y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a fu'n craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1. Diolch i bawb a gyfrannodd at y gwaith sydd wedi arwain at yr adroddiad hwn. Yn ogystal ag ystyried y Bil, fel y mae'r Comisiynydd wedi dweud, rydym hefyd wedi ystyried y cynllun ieithoedd swyddogol drafft a ddaeth gydag ef. Er nad yw'n briodol trafod ein barn am y cynllun yn y ddadl hon, yr wyf am achub ar y cyfle hwn i ddweud ein bod yn credu bod angen ei wella'n sylweddol. Rwyf yn gobeithio y gwnaiff y Comisiynydd ystyried ein casgliadau a'n hargymhellion yn ofalus—a dweud y gwir, credaf iddo ddweud y byddai—o ran y cynllun.

I now turn to the general principles of the Bill. There was widespread agreement that the Bill is needed, and the committee shared that view. We recognised that the legislative framework governing the bilingual services that the National Assembly and Assembly Commission are required to provide needs updating, particularly as the Welsh Language (Wales) Measure 2011 does not apply to either of these bodies. Therefore, having considered the evidence that we received, we are not convinced that the right balance has been struck between the specific requirements contained on the face of the Bill and the provisions to be included in the scheme. It is to those issues and the specific provisions of the Bill that I now turn, so that you can see where the committee is coming from.

Trof yn awr ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Roedd cytundeb cyffredinol bod angen y Bil, ac roedd y pwyllgor yn cytuno â'r farn honno. Roeddem yn sylweddoli bod angen diweddaru'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r gwasanaethau dwyieithog y mae gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad eu darparu, yn enwedig gan nad yw Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn berthnasol i'r naill gorff na'r llall. Felly, ar ôl ystyried y dystiolaeth a gawsom, nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod y cydbwysedd yn iawn rhwng y gofynion penodol sydd ar wyneb y Bil a'r darpariaethau sydd i'w cynnwys yn y cynllun. At y materion hynny a darpariaethau penodol y Bil y trof yn awr, er mwyn ichi weld beth yw safbwynt y pwyllgor.

We are pleased to see a provision in the Bill stating that English and Welsh are the official languages of the Assembly. We also welcome the inclusion of a right to use either language when participating in Assembly proceedings. However, we were concerned that the drafting of the new sub-sections 35(1A) and 35(1B) of the Government of Wales Act 2006 potentially limits the extent to which citizens can engage with the Assembly in the language of their choice. For example, it does not guarantee that citizens can read the transcripts of committee meetings in both English and Welsh after they have taken place. We therefore recommend that the Commissioner explore the feasibility of tabling amendments to widen the scope of these provisions, so that citizens can engage more fully with the Assembly in the language of their choice. In our view, this position should be clearly highlighted in the legislation.

Rydym yn falch o weld darpariaeth yn y Bil sy'n dweud mai'r Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad. Rydym yn croesawu hefyd ei fod yn cynnwys hawl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall wrth gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad. Serch hynny, roeddem yn poeni y gallai drafftio isadrannau newydd 35(1A) a 35(1B) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gyfyngu ar i ba raddau y gall dinasyddion ymwneud â'r Cynulliad yn eu dewis iaith. Er enghraifft, nid yw'n gwarantu y gall dinasyddion ddarllen trawsgrifau cyfarfodydd pwyllgorau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ôl eu cynnal. Rydym felly'n argymell y dylai'r Comisiynydd archwilio dichonoldeb cyflwyno gwelliannau i ehangu cwmpas y darpariaethau hyn, er mwyn i ddinasyddion allu ymwneud yn llawnach â'r Cynulliad yn eu dewis iaith. Yn ein barn ni, dylid gwneud hyn yn glir yn y ddeddfwriaeth.

Section 2 of the Bill states that the Assembly Commission must adopt and publish an official languages scheme. It also defines specific Assembly Commission duties in relation to such a scheme. While we agreed with the Commission’s decision to use a language scheme to deliver its bilingual duties, the committee made three recommendations that, in our view, would strengthen section 2 and, in so doing, would place additional duties on the face of the Bill.

Dywed Adran 2 o'r Bil ei bod yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad fabwysiadu a chyhoeddi cynllun ieithoedd swyddogol. Mae'n diffinio hefyd ddyletswyddau penodol Comisiwn y Cynulliad yng nghyswllt cynllun o'r fath. Er ein bod yn cytuno â phenderfyniad y Comisiwn i ddefnyddio cynllun iaith i gyflawni ei ddyletswyddau o ran dwyieithrwydd, gwnaeth y pwyllgor dri argymhelliad a fyddai, yn ein barn ni, yn cryfhau adran 2 ac a fyddai, wrth wneud hynny, yn cynnwys dyletswyddau ychwanegol ar wyneb y Bil.

We recommend that the Commissioner table appropriate amendments to ensure that the scheme must include provision relating to a fully bilingual record of all Assembly proceedings, that is the Record of Proceedings of Plenary and all committees. There should be a system for categorising which other documents should be published in both official languages. There should also be a corporate action plan with targets, a set of key performance indicators, and a bilingual skills strategy. Our decision to request that a provision on having a fully bilingual Record of Proceedings appear on the face of the Bill reflects the overwhelming evidence that we received in favour of such an approach.

Rydym yn argymell y dylai'r Comisiynydd gyflwyno gwelliannau priodol i sicrhau bod y cynllun yn gorfod cynnwys darpariaeth ynglŷn â chofnod cwbl ddwyieithog o holl drafodion y Cynulliad, hynny yw Cofnod Trafodion y Cyfarfodydd Llawn a'r holl bwyllgorau. Dylai fod system ar gyfer categoreiddio pa ddogfennau eraill y dylid eu cyhoeddi yn y ddwy iaith swyddogol. Dylai fod cynllun gweithredu corfforaethol gyda thargedau hefyd, set o ddangosyddion perfformiad allweddol, a strategaeth sgiliau dwyieithog. Mae ein penderfyniad i ofyn am gynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil ynglŷn â chael Cofnod cwbl ddwyieithog o'r Trafodion yn adlewyrchu'r dystiolaeth lethol a gawsom o blaid hyn.

In reaching that view, we agreed with witnesses who highlighted the symbolic importance of the Record of Proceedings to the Welsh language, particularly given its status as the official report of the National Assembly, which, as our national democratic institution, makes decisions that affects all our daily lives. Given the importance that we attach to the Record, we consider that any decision by a future Assembly Commission not to produce the Record bilingually should require another Bill to make that change, rather than an amendment to a scheme.

Wrth lunio'r farn honno, roeddem yn cytuno â'r tystion a gyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd symbolaidd Cofnod y Trafodion i'r Gymraeg, yn enwedig a chofio'i statws fel adroddiad swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol, sef, ein sefydliad democrataidd cenedlaethol sy'n penderfynu ynglŷn â materion sy'n effeithio ar ein bywydau beunyddiol ni i gyd. Gan ein bod yn rhoi cymaint o bwys ar y Cofnod, credwn, petai unrhyw Gomisiwn yn y Cynulliad yn y dyfodol yn penderfynu peidio â chyhoeddi'r Cofnod yn ddwyieithog, y dylai fod gofyn cael Bil arall i gyflwyno'r newid hwnnw, yn hytrach na diwygio cynllun.

As I have already mentioned in relation to the new sub-sections (1A) and (1B), we felt it important for citizens to be able to read all proceedings of the Assembly, after they have taken place, in the language of their choice. That is why we recommend that all transcripts of committee proceedings should be bilingual.

Fel yr wyf eisoes wedi crybwyll yng nghyswllt isadrannau newydd (1A) ac (1B), teimlem ei bod yn bwysig i ddinasyddion allu darllen holl drafodion y Cynulliad, ar ôl iddynt gael eu cynnal, yn eu dewis iaith. Dyna pam yr ydym yn argymell y dylai trawsgrifau holl drafodion y pwyllgorau fod yn ddwyieithog.

Overall, the approach that we are suggesting aims to bring much greater clarity and certainty to the citizen about the type of services that the Assembly Commission would be obliged to provide bilingually. It is for that reason that we believe that new sub-paragraph 8(6) of Schedule 2 to the Government of Wales Act 2006 should be amended to provide greater clarity about its intended purpose. Without that clarification, we have reservations about the implications of the provision for the delivery of bilingual services by the Assembly Commission. Our only other suggestion for an amendment to section 2 is that the scheme be formally reviewed at least once every Assembly, rather than every five years, as is currently provided for in the Bill. I am grateful to the Commissioner for saying that he will look at that.

Drwyddi draw, nod ein hawgrymiadau yw ceisio rhoi mwy o eglurder a sicrwydd i'r dinesydd ynglŷn â'r math o wasanaethau y byddai gofyn i Gomisiwn y Cynulliad eu darparu'n ddwyieithog. Dyna pam yr ydym yn credu y dylid diwygio is-baragraff newydd 8(6) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gynnig mwy o eglurder ynglŷn â'i fwriad. Heb yr eglurhad hwnnw, rydym yn amheus ynglŷn â goblygiadau'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau gwasanaethau dwyieithog gan Gomisiwn y Cynulliad. Ein hunig awgrym arall ar gyfer diwygio adran 2 yw y dylid adolygu'r cynllun yn ffurfiol o leiaf unwaith ym mhob Cynulliad, yn hytrach na phob pum mlynedd, fel y dywed y Bil ar hyn o bryd. Rwyf yn ddiolchgar i'r Comisiynydd am ddweud y gwnaiff edrych ar hynny.

Turning to the financial implications of the Bill, we did not believe that they were explained as clearly as they could have been. In addition, we recognised that our recommendations could potentially add to the costs. We have no indication of what those costs would be. It is not for the committee to put those forward. As a consequence, we strongly recommend that, whatever approach

A throi at oblygiadau ariannol y Bil, nid oeddem yn credu iddynt gael eu hesbonio mor glir ag y gallasid eu hesbonio. At hynny, roeddem yn sylweddoli y gallai ein hargymhellion ni ychwanegu at y costau. Nid wyddom beth fyddai'r costau hynny. Nid gwaith y pwyllgor yw cyflwyno'r rheini. Felly, rydym yn argymell yn gryf, sut bynnag y bydd Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu

the Assembly Commission decides to pursue with the Bill and the accompanying scheme, it should ensure that adequate funds are identified and committed to deliver the objectives and commitments that they contain. If we are to be a truly bilingual service, costs—while they are important—should not prohibit us or anybody else from achieving our aim. I hope that the Commissioner will accept the conclusions and recommendations contained in our report and will consider tabling appropriate amendments at Stage 2.

bwrw ymlaen â'r Bil a'r cynllun cysylltiedig, y dylai sicrhau bod digon o arian ar gael a'i fod yn cael ei neilltuo i wireddu eu hamcanion a'u hymrwymiadau. Er mwyn inni fod yn wasanaeth gwirioneddol ddwyieithog, ni ddylai costau—er eu bod yn bwysig—ein rhwystro ni na neb arall rhag cyrraedd ein nod. Yr wyf yn gobeithio y gwnaiff y Comisiynydd dderbyn y casgliadau a'r argymhellion sydd yn ein hadroddiad ac y gwnaiff ystyried cyflwyno gwelliannau priodol yng Nghyfnod 2.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Rwy’n falch o gael y cyfle i gyfrannu at y ddadl am y Bil pwysig hwn. Fel y Gweinidog yn y Llywodraeth sy’n gyfrifol am y Gymraeg, gwn fod yr iaith yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cynifer o bobl ar draws Cymru. Mae’r ffaith ein bod yn trafod sut y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn mynd ati i ddelio â’r iaith yn tanlinellu’r pwysigrwydd hwnnw. Mae hefyd yn adlewyrchu pa mor benderfynol y mae nifer o bobl, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i weld y Gymraeg yn ffynnu.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I am pleased to have the opportunity to contribute to today’s debate about this important Bill. As the Government Minister with responsibility for the Welsh language, I know how important a part it plays in the lives of so many people across Wales. The fact that we are today discussing the National Assembly’s approach to the language serves only to underline its importance. It also reflects the determination shared by so many, including the Welsh Government, to see the language thrive.

Gwelsom, yn ystod y drafodaeth a’r dadleuon am gyfieithu Cofnod y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor, fod penderfyniadau’r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad o ran yr iaith o ddiddordeb i nifer fawr o bobl. Maent yn rhoi arwydd clir i’r bobl hynny am y graddau y mae’r Cynulliad yn edrych ar ôl eu buddiannau ac yn cynrychioli’n briodol y bobl a wnaeth ein hethol i fod yn Aelodau Cynulliad.

As we have seen during the discussion and debate about translating the Record of Plenary and committee meetings, the decisions taken by the Assembly and the Assembly Commission with regard to the language are of interest to many. They give a clear signal to those people about the degree to which the Assembly cares for their interests, and properly represents the people who elected us to be Assembly Members.

Felly, rwy’n falch o weld y Bil hwn ger ein bron ac am y cyfle y mae’n ei roi inni ystyried y mater pwysig hwn. Rwyf hefyd o’r farn bod y Bil yn cynnig dull cadarn, rhesymol ac ymarferol o esbonio sut y dylai’r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad ymgymryd â’r dasg o ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae’r cynllun ieithoedd swyddogol drafft, sy’n atodiad i femorandwm esboniadol y Bil, wedi darparu ychydig o gig ar yr asgwrn, i helpu i esbonio beth yn union y mae Comisiynydd y Cynulliad yn cynnig y dylid ei gynnig fel gwasanaeth dwyieithog.

I am pleased, therefore, to see this Bill before us, and for the opportunity that it gives us to consider this important issue. I also believe that the Bill offers a robust, reasonable and workable approach to setting out how the Assembly and the Assembly Commission should approach the task of providing a bilingual service. The draft official language scheme annexed to the Bill’s explanatory memorandum has put some of the meat on the bone to help to set out what exactly the Assembly Commissioner proposes to offer by way of a bilingual service.

Mae opsiwn arall, wrth gwrs, sef bod Gweinidogion Cymru yn cynnwys y

There is another option available, of course, namely for the Welsh Ministers to bring the

Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad yn y system safonau a fydd yn cael ei sefydlu o dan Fesur y Gymraeg. Er nad yw'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad wedi'u cynnwys yn y grŵp a allai fod yn gymwys i orfod cydymffurfio â'r safonau, mae'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy Orchymyn, ddiwygio'r grŵp hwnnw. Byddai gwneud hynny yn rhoi'r cyfrifoldeb am fonitro cydymffurfiaeth ag unrhyw safonau a osodir i Gomisiynydd y Gymraeg. Byddai gan y comisiynydd, yn ogystal, y cyfrifoldeb o weithredu, pe bai angen, y pwerau gorfodi sydd gan y comisiynydd o dan y Mesur.

Assembly and the Assembly Commission within the standards system that is to be established under the Welsh language Measure. Although the Assembly and Assembly Commission are not currently included in the group potentially subject to standards, the Measure gives the Welsh Ministers the power, by Order, to amend that group. Doing so would give the Welsh Language Commissioner responsibility for monitoring compliance with any standards imposed. The commissioner would also have responsibility for exercising, if necessary, the relevant enforcement powers conferred upon the commissioner by the Measure.

Ar ôl pwyso a mesur, fodd bynnag, fy marn i yw mai'r dull mwyaf priodol fydd i'r Cynulliad benderfynu sut y dylai ymgymryd â'r dasg o ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Byddai gwneud hynny yn adlewyrchu sefyllfa gyfansoddiadol y Cynulliad fel deddfwrfa a gaiff ei hethol yn ddemocrataidd. Mae dewis y dull hwn, fodd bynnag, yn gosod her i'r Cynulliad ac i Gomisiwn y Cynulliad i wneud hyn yn iawn, ac i fabwysiadu arfer da o ran y defnydd o'r Gymraeg.

On balance, however, I am of the view that the most appropriate approach would be for the Assembly to decide how it should approach the task of providing a bilingual service. To do so would reflect the constitutional position of the Assembly as a democratically elected legislature. Adopting this approach does, however, present the Assembly and the Assembly Commission with the challenge of getting this right and of adopting best practice with regard to the use of the Welsh language.

Mae angen i'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad osod esiampl i eraill i'w dilyn, nid dim ond fel sefydliadau, ond fel unigolion sy'n gweithio o fewn y sefydliadau hynny. Mae angen inni ddangos y gall ac y dylai y Gymraeg gael ei defnyddio fel rhan o fywyd bob dydd, ac mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad, i wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae'r Cynulliad yn eu rhoi i ni i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

Both the Assembly and the Assembly Commission need to set an example for others to follow, and not just as organisations, but as individuals working within those organisations. We need to show that Welsh can and should be used as part of day-to-day life, and there is a responsibility on us all, including Assembly Members, to make the most of the opportunities that the Assembly gives us to use both Welsh and English.

Mae'r iaith yn rhywbeth i'w thrysori, i fod yn falch ohoni, i'w hamddiffyn ac i'w meithrin, ond, yn anad dim, mae'n rhywbeth i'w defnyddio. Gwn fod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ei adroddiad gwerthfawr a manwl wedi cytuno i'r angen am y Bil hwn, a bod y farn honno yn cael ei rhannu gan y rhan fwyaf o'r rhai a ddarparodd dystiolaeth i'r pwyllgor, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Rwyf wedi gweld a nodi argymhellion y pwyllgor ynghylch y Bil, sydd, wrth gwrs, yn faterion i Gomisiwn y Cynulliad eu hystyried. Ni fyddaf, felly, yn rhoi sylwadau arnynt yma,

The language is something to treasure, to be proud of, to protect and to nurture, but above all, it is something to use. I know that the Communities, Equality and Local Government Committee in its valuable and comprehensive report has agreed on the need for this Bill and that that view was shared by the majority of witnesses who provided evidence to the committee, including the Welsh Language Board. I have seen and noted the committee's recommendations with regard to the Bill, which are, of course, matters for the Assembly Commission to consider. I do not propose, therefore, to

heblaw i ddweud y byddwn yn annog y Comisiwn i gadw mewn cof fy sylwadau cynharach ynghylch yr angen i osod esiampl i eraill i'w dilyn mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg.

comment on them here, except to say that I urge the Commission to bear in mind my earlier comments about the need to set an example for others to follow with regard to the use of the Welsh language.

Fel y bydd Aelodau yn gwybod, un o brif ddarpariaethau Mesur y Gymraeg yw honno ynghylch statws swyddogol y Gymraeg a amlinellir yn Rhan 1 y Mesur hwnnw. Mae'r ddarpariaeth honno o bwysigrwydd mawr i'r iaith, ac mae'r datganiad yn y Bil ieithoedd swyddogol fod y Gymraeg yn iaith swyddogol i'r Cynulliad yn gwneud llawer i wneud y statws hwnnw yn realiti, gan danlinellu ei arwyddocâd a dangos eto sut y mae'r iaith yn helpu i siapio cymeriad a gwerthoedd Cymru cynyddol ddatganoledig. Bydd y statws hwnnw, ynghyd â'r ddarpariaeth yn y Bil a fydd yn rhoi'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth gyfrannu at drafodion y Cynulliad, yn ei gwneud hi'n hollol glir bod y Cynulliad hwn a'r Llywodraeth hon eisiau gweld y Gymraeg yn rhan o galon ac enaid Cymru. Gyda'r Bil hwn, strategaeth iaith newydd y Llywodraeth, Mesur y Gymraeg, a'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, rydym yn rhoi arwydd clir i bobl Cymru o'n cefnogaeth am yr iaith.

As Members will know, one of the key provisions of the Welsh language Measure is that about the official status of the language, set out in Part 1 of that Measure. That provision is of huge importance to the language, and the declaration in the official languages Bill that Welsh is an official language of the Assembly will do much to make that status a reality, while underlining its significance and further demonstrating how the language helps to shape the character and values of an increasingly devolved Wales. That status, coupled in the Bill with the right to use either Welsh or English when participating in Assembly proceedings, will make it abundantly clear that the Assembly and this Government want to see the Welsh language as part of the heart and soul of Wales. With this Bill, the Government's new Welsh language strategy, the Welsh language Measure and the Welsh-medium education strategy, we are giving the people of Wales a clear signal of our support for the language.

Rwyf hefyd wedi gweld sylwadau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ei adroddiad ynghylch y cynllun ieithoedd swyddogol drafft a gafodd ei gyhoeddi, yn ddefnyddiol iawn, ochr yn ochr â'r Bil fel atodiad i'r memorandwm esboniadol. Fel y mae adroddiad y pwyllgor yn ei nodi, roedd consensws y byddai'n briodol i ddyletswyddau Comisiwn y Cynulliad gael eu hamlinellu drwy gynllun. Nodaf, fodd bynnag, fod y pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â'r cynllun drafft. Mae'r rhain, unwaith eto, yn fater i'r Comisiynydd i'w ystyried. Fodd bynnag, o ystyried y berthynas weithio agos rhwng y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, buaswn yn annog y Comisiwn i drafod gyda'r Llywodraeth sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hynny sy'n delio gyda'i berthynas gyda thrydydd partïon, a sut y bydd y cynllun yn trin ei berthynas gyda thrydydd partïon fel y Llywodraeth.

I have also seen the Communities, Equality and Local Government Committee report's comments on the draft official languages scheme, which was very usefully published alongside the Bill as an annex to the explanatory memorandum. As the committee report states, there was a general consensus that it would be appropriate to set out the Assembly Commission's duties by means of a scheme. I note, however, that the committee has made several recommendations with regard to the draft scheme. These, once again, are matters for the Commissioner to consider. However, given the close working relationship between the Assembly, the Assembly Commission and the Welsh Government, I would urge the Commission to discuss with the Government its intended response to those recommendations that deal with its relationship with third parties, and how the scheme will govern its relationship with third parties such as the Government.

3.30 p.m.

Felly, gan fod adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn dangos fod cefnogaeth i'r Bil, a chan fod y Bil yn cynnig dull rhesymol ac ymarferol o amlinellu sut y dylai'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad ymgymryd â'r dasg o ddarparu gwasanaeth dwyieithog, gallaf gadarnhau bod y Llywodraeth yn cefnogi'r angen am y ddeddfwriaeth hon ac yn fodlon gydag egwyddorion cyffredinol y Bil.

Given, therefore, the support for the Bill evidenced by the Communities, Equality and Local Government Committee's report, and given the fact that the Bill offers a reasonable and workable approach to setting out how the Assembly, and the Assembly Commission, should approach the task of providing a bilingual service, I am able to confirm that the Government supports the need for this legislation and is content with the Bill's general principles.

Edrychaf ymlaen, fodd bynnag, at weld sut bydd Comisiwn y Cynulliad yn ymateb i'r argymhellion a amlinellir yn adroddiad y pwyllgor ac at ddadl bellach yn y cyfarfod llawn ynghylch y Bil pwysig hwn.

I look forward, however, to seeing how the Assembly Commission will respond to the recommendations set out in the Communities, Equality and Local Government Committee's report and look forward to a further debate in Plenary about this important Bill.

**Suzy Davies:** Diolchaf i Rhodri Glyn Thomas a'r pwyllgor am eu gwaith. Yn gyntaf, fel Ceidwadwyr Cymreig, rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. Mae'n annioddefol meddwl y gallai deddfwrfa osod dyletswyddau cydraddoldeb a dianc rhag dyletswyddau o'r fath ei hun.

**Suzy Davies:** I thank Rhodri Glyn Thomas and the committee for their work. First, as Welsh Conservatives, we support the general principles of this Bill. It is unthinkable that a legislature could set equality duties for others and avoid such duties itself.

Mae adran 1 y Bil hwn yn gwneud newid pwysig i adran 35 yn Neddf 2006. Rydym wedi colli cyfeiriadau at driniaeth gyfartal wrth gynnal trafodion y Cynulliad dim ond pan fydd yn briodol ac yn ymarferol. Mae hynny wedi cael ei ddisodli gan ofyniad absoliwt ar gyfer y ddwy iaith i gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal, gan effeithio ar unrhyw un sy'n cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad.

Section 1 of the Bill would make important changes to section 35 of the 2006 Act. The reference to treating the languages on the basis of equality in Assembly proceedings, so far as is appropriate and reasonably practicable, is not in the Bill. This has been replaced by an absolute requirement for both languages to be treated on the basis of equality, affecting anyone participating in Assembly proceedings.

Fodd bynnag, mae'r rhwymedigaeth gadarnach yn berthnasol i drafodion y Cynulliad yn unig, fel y'i diffinnir gan adran 1(5) Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid yw'n ymddangos ei fod yn gymwys i weithgareddau eraill yr Aelodau a staff y Comisiwn. Bu dadleuon y dylai'r rheolau sy'n ymwneud â Chofnod y Trafodion yn y Cyfarfod Llawn ymddangos ar wyneb y Bil, ond fy marn i yw nad oes angen gwneud hynny. Mae'r cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o 'drafodion y Cynulliad', ac felly mae'n cael ei gynnwys yn awtomatig yn adran 1(2). Drwy gyfeirio ato ar wahân, gellid codi amheuaeth am statws cymharol y pwyllgorau

However, the stronger commitment relates only to Assembly proceedings, as defined in section 1(5) of the Government of Wales Act 2006. It does not appear to apply to other activities undertaken by Members and Commission staff. There have been debates that rules relating to the Record of Proceedings of Plenary meetings should appear on the face of the Bill, but I do not believe that this is required. The record of Plenary proceedings is included in the definition of 'Assembly proceedings' and, therefore, it is included automatically in section 1(2). Referring to it separately could cast doubts as to the comparative status of committees and sub-committees, unless the

ac is-bwyllgorau, oni bai bod y diffiniad o 'drafodion y Cynulliad' yn cael ei newid a bod gofyniad absoliwt i drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal yn cael ei wneud yn berthnasol i bob un o'r tair elfen, gan gynnwys y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau.

definition of 'Assembly proceedings' is changed and that an absolute requirement for both languages to be treated on the basis of equality is applied to all three elements, including committees and sub-committees.

Os bydd y diffiniad o 'drafodion y Cynulliad' yn cael ei gadw, gellid hyd yn oed hepgor yr is-baragraff (6) newydd yn Atodlen 2. Mae'n is-baragraff problematig a allai arwain at awgrym y gall fod eithriadau mympwyol i reol a osodir gan adran 1(2). Mae hwn wedi bod yn destun dadl sylweddol.

If the definition of 'Assembly proceedings' is retained, the new sub-paragraph (6) in Schedule 2 could be deleted. This is a problematic sub-paragraph that could lead to a suggestion of exceptions being made on a whim to a rule set out in section 1(2). This has been the subject of some considerable debate.

Os yw adran 1(2) mewn gwirionedd yn gosod dyletswydd o driniaeth gyfartal yn nhrafodion y Cynulliad fel y'i diffinnir, mae'n ddyletswydd gyfyngedig. Mae'n rhaid gofyn pam y byddai eithriadau yn angenrheidiol. Mae llawer o weithgareddau yn y lle hwn y tu allan i'r diffiniad ac, felly, ni fyddent yn ddarostyngedig i'r rheol newydd.

If section 1(2) truly places a duty to treat the languages on the basis of quality in Assembly proceedings as defined, then it is a limited duty. We must, therefore, ask why exceptions would be necessary. Many of the activities of this place are outwith the definition and would not be subject to the new rule.

Os bydd y Comisiynydd yn ceisio darparu ar gyfer eithriadau, a derbyniaf y gallai fod rhesymeg dros eithriadau, efallai yr hoffai ystyried ailddrafftio is-baragraff (6) i adlewyrchu'r teimlad ei fod yn berthnasol i eithriadau yn hytrach na'i adael mor agored.

If the Commissioner tries to provide for exceptions, and I accept that there could be reasons for such exceptions, perhaps he would like to consider redrafting sub-paragraph (6) in order to reflect the feeling that it is relevant to exceptions, rather than leaving it so openly worded.

Efallai bydd y Comisiwn hefyd am ystyried cynnwys diffiniad am gymryd rhan yn adran 1(2), oherwydd goblygiadau cost, gyda diffiniad yn ymddangos ar wyneb y Bil yn y ffordd arferol.

Perhaps the Commission would also wish to consider defining 'participating' in section 1(2), due to cost implications, with the definition appearing on the face of the Bill in the usual manner.

Sut mae hyn yn effeithio ar y mater o gydbwysedd rhwng y Bil a'r cynllun? Ar y naill law, os bydd y Bil yn gosod dyletswydd absoliwt, efallai y dylai fod mwy o fanylion ar wyneb y Bil ynghylch y gofyniad lleiaf i gydymffurfio â dyletswydd o'r fath. Ar y llaw arall, gallech ddadlau bod dyletswydd yn absoliwt ac yn glir, ac nad oes angen amodau pellach yn y Bil neu'r cynllun. Yn anffodus, ni all y Bil fel ag y mae benderfynu. Mae adran 2(2)(5) y Bil yn dyfynnu dwy esiampl y mae'n rhaid i'r cynllun roi sylw iddynt. Nid yw'r geiriad a awgrymir ar gyfer adran 2(2)(5) yn datrys dim. Mae'n dweud bod yn rhaid i'r cynllun

How does this impact upon the issue of balance between the Bill and the scheme. On the one hand, if the Bill places an absolute duty, then perhaps there should be more details on the face of the Bill regarding the minimum requirements in terms of compliance with such a duty. On the other hand, you could argue that a duty is absolute and clearly set out and that further conditions, therefore, are not required in the Bill or the scheme. Unfortunately, the Bill, as currently worded, cannot decide. Section 2(2)(5) of the Bill quotes two examples that the scheme would have to cover. The wording suggested for section 2(2)(5) solves nothing. It states

wneud darpariaeth; mae'n rhaid iddo ystyried a dweud rhywbeth. Nid yw'n pennu gofyniad sylfaenol i ddangos triniaeth gyfartal. Nid yw'n dweud y dylai cyfieithu cydamserol, dwyffordd fod yn orfodol er enghraifft. Nid wyf yn dadlau bod yn rhaid iddo ddweud hynny, ond mae'n dal yn agored i'r cynllun wneud darpariaeth ar gyfer rhywbeth yn nhair elfen trafodion y Cynulliad. Mae hyn yn siomedig, ond mae'n dangos cydraddoldeb o leiaf.

that the scheme must include provision; it must consider matters and make a statement. It does not set out a fundamental requirement to ensure equality of treatment. It does not say that simultaneous translation of both languages should be mandatory, for example. I am not arguing that this should be included, but it is still open for the scheme to make provision in relation to the three elements of Assembly proceedings. This is disappointing, but it at least reflects equality.

Efallai mai hyn oedd y bwriad wrth gwrs, ond nid yw hynny'n ddigon clir. Os yw'n golygu gosod gofynion lleiaf ar gyfer cydymffurfio â dyletswydd absoliwt o ran trafodion y Cynulliad, nid yw'n cyflawni hynny. Fodd bynnag, os taw'r bwriad yn syml yw sicrhau bod y cynllun yn ystyried elfennau penodol sy'n berthnasol i gyfrifoldeb dwyieithog ehangach y Comisiwn, heb fod yn argymhellol, pam dewis dim ond y ddau? Gellid dadlau bod rhai o'r awgrymiadau eraill a ystyriwyd gan y pwyllgor yn haeddu lle ar wyneb y Bil. Beth bynnag yw bwriadau'r Bil, mae'n rhaid i'r Comisiynydd fod yn ymatebol i ystyriaethau ymarferol amseru, rheoli disgwyliadau a dod o hyd i arian i weithredu'r amcanion. Ni, ac nid y Comisiwn, all wneud y gwahaniaeth.

This may well have been the intention of course, but that is not set out clearly enough. If it means placing minimum requirements for compliance with an absolute duty in terms of Assembly proceedings, then it does not achieve its aim. However, if the aim is simply to ensure that the scheme considers specific elements that are relevant to the Commission's wider responsibilities in terms of bilingualism, without being recommendatory, why choose only two? One could argue that some of the other suggestions considered by the committee deserve their place on the face of the Bill. Whatever the intentions of the Bill, the Commissioner must be responsive to the practical requirements in terms of timings, managing expectations and finding the money to implement the objectives. It is us, and not the Commission, that can make a difference.

**Mike Hedges:** First, I echo most of Leighton Andrews's comments. As a member of the Communities, Equality and Local Government Committee, which has been scrutinising the Bill, I speak in favour of it, but I would like to highlight some of the recommendations. First, the Bill supports the principle of one country and two official languages. The Bill's general principles had almost unanimous support both from witnesses and members of the wider public with whom I have discussed it. There is a need for the Bill to make provision for the use of the Welsh and English languages in the proceedings of the National Assembly, and by the Assembly Commission, but the committee felt that we did not want to turn the National Assembly into a free translation service for the rest of Wales—when an organisation who wished to send something in English would do so because the National

**Mike Hedges:** Yn gyntaf, ategaf y rhan fwyaf o sylwadau Leighton Andrews. A minnau'n aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sydd wedi bod yn craffu ar y Bil, yr wyf yn siarad o'i blaid, ond hoffwn dynnu sylw at rai o'r argymhellion. Yn gyntaf, mae'r Bil yn cefnogi'r egwyddor bod gennym un wlad a dwy iaith swyddogol. Cafodd egwyddorion cyffredinol y Bil gefnogaeth unfrydol, fwy neu lai, gan y tystion a chan aelodau'r cyhoedd ehangach yr wyf wedi'i drafod â hwy. Mae angen i'r Bil ddarparu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn nhrafodion y Cynulliad Cenedlaethol, a chan Gomisiwn y Cynulliad, ond teimlai'r pwyllgor nad oeddem am droi'r Cynulliad Cenedlaethol yn wasanaeth cyfieithu di-dâl i weddill Cymru—lle byddai corff a ddymunai anfon rhywbeth yn Saesneg yn gwneud hynny oherwydd y byddai Cynulliad

Assembly for Wales would translate it. The committee did not see that as a role, and I do not think that this body would see that as a role either.

Cenedlaethol Cymru yn ei gyfieithu. Ni welai'r pwyllgor mai gwaith Cynulliad oedd hynny, ac ni chredaf y byddai'r corff hwn yn meddwl hynny ychwaith.

Recommendation 2 states that the Commission should bring forward suitably worded amendments to ensure that the scheme must include, but not limit itself, to provision relating to the following: simultaneous translation from one language to another and a fully bilingual Record of Proceedings. An assumption appears to exist that people choose to speak Welsh or English and that most people are fluent in both, so they are making a choice. That is not my experience and I will give you two short anecdotes that reflect that. First, a retired headteacher of a Welsh-medium school who was conducting a bilingual service in a chapel I attended recently needed to ask a member of the diaconate for the English translation of a word. This person is highly educated, having made his way right through the education system. Secondly, a constituent of mine wished to make a complaint in Welsh because that was the only way in which they could fully express themselves and describe their problem. There are people for whom Welsh is not a language of choice; it is the language that they have to use because it is the language in which they feel most able to express themselves. If this is true in Swansea East, it is true of other constituencies throughout Wales. It is important that the translation is there for those people who find it easier to read and understand things in Welsh. I do not drift into the Commissioner's constituency too much, but there are a number of people I know in the Amman valley who find it easier when things are written and spoken in Welsh than when people talk and write to them in English.

Dywed Argymhelliad 2 y dylai'r Comisiwn gyflwyno gwelliannau sydd wedi'u geirio'n briodol i sicrhau ei bod yn rhaid i'r cynllun gynnwys, heb gyfyngu ei hun i hynny, darpariaeth sy'n ymwneud â'r canlynol: cyfieithu ar y pryd o'r naill iaith i'r llall a Chofnod y Trafodion sy'n gwbl ddwyieithog. I bob golwg, mae rhai'n rhyw dybio bod pobl yn dewis siarad Cymraeg neu Saesneg a bod y rhan fwyaf o bobl yn rhugl yn y ddwy iaith, ac mai mater o ddewis yw hi. Nid dyna fy mhrofiad i ac adroddaf ddwy stori fach ichi sy'n dangos hynny. Yn gyntaf, roedd pennaeth ysgol cyfrwng Cymraeg a oedd wedi ymddeol yn cynnal gwasanaeth dwyieithog mewn capel y bûm ynddo'n ddiweddar a bu'n rhaid iddo ofyn i un o'r diaconiaid gyfieithu gair i'r Saesneg. Mae'r unigolyn hwn wedi cael addysg dda, wedi dilyn y system addysg i'w phen draw. Yn ail, roedd rhywun yn fy etholaeth am gwyno yn Gymraeg oherwydd mai dyna'r unig ffordd yr oedd yn gallu mynegi ei hun a disgrifio'i broblem. Nid dewis iaith yw'r Gymraeg i rai pobl ond yr iaith y mae'n rhaid iddynt ei defnyddio oherwydd mai dyna'r iaith sy'n dod hawsaf iddynt wrth fynegi eu hunain. Os yw hyn yn wir yn Nwyrain Abertawe, mae'n wir am etholaethau eraill ledled Cymru. Mae'n bwysig bod y cyfieithiad yno i bobl sy'n ei chael hi'n haws darllen a deall pethau yn Gymraeg. Anaml y byddaf yn crwydro i etholaeth y Comisiynydd, ond mae nifer o bobl yr wyf yn eu hadnabod yn nyffryn Aman sy'n ei chael yn haws pan fydd pethau'n cael eu hysgrifennu a'u dweud yn Gymraeg na phan fydd pobl yn siarad Saesneg â hwy ac yn ysgrifennu atynt yn Saesneg.

Recommendation 2 goes on to call for a system of categorising which other documents should be published in both languages. Again, this is intended to protect the Assembly from becoming the all-Wales translation service with huge costs involved. Recommendation 2 also calls for a corporate action plan, noting specific targets, timescales and responsibilities, a set of key performance indicators and a bilingual skills

Mae argymhelliad 2 yn mynd rhagddo i alw am drefn sy'n categoreiddio pa ddogfennau eraill y dylid eu cyhoeddi yn y ddwy iaith. Unwaith eto, bwriad hyn yw gwarchod y Cynulliad rhag dod yn wasanaeth cyfieithu i Gymru gyfan a'r costau enfawr a fyddai ynghlwm wrth hynny. Mae argymhelliad 2 yn galw hefyd am gynllun gweithredu corfforaethol, sy'n nodi targedau penodol, amserlenni a chyfrifoldebau, set o

strategy. Recommendation 7 says that, if you cannot do that

ddangosyddion perfformiad allweddol a strategaeth sgiliau dwyieithog. Dywed argymhelliad 7, oni allwch wneud hynny

‘For the avoidance of doubt, we strongly recommend that, if the Commission is not minded to amend the Bill as suggested in Recommendation 2, the Scheme should be amended to incorporate an action plan and targets that will allow the scheme to be effectively monitored and scrutinised’.

'Fel nad oes unrhyw amheuaeth, rydym yn argymell yn gryf y dylid diwygio'r Cynllun i gynnwys cynllun gweithredu a thargedau a fydd yn galluogi i'r Cynllun gael ei fonitro’n effeithiol a bod gwaith craffu effeithiol arno, os nad yw'r Comisiynydd yn bwriadu diwygio'r Bil fel yr awgrymir yn Argymhelliad 2'.

I am one of those people that believes that unless you have targets or something with which to check against, it is impossible to monitor and say whether or not it is working effectively. Without that, people will say that it is, and it is difficult to argue against that.

Rwyf fi'n un o'r bobl hynny'n sy'n credu, oni fydd gennych dargedau neu rywbeth i'w cymharu â hwy, ei bod yn amhosibl monitro a dweud a yw'r drefn yn gweithio'n effeithiol neu beidio. Heb hynny, bydd pobl yn dweud ei fod, ac mae'n anodd dadlau yn erbyn hynny.

Finally, I wish to highlight recommendation 20, which says

Yn olaf, rwyf am dynnu sylw at argymhelliad 20, sy'n dweud

‘We therefore strongly recommend that, whatever approach the Assembly Commission decides to pursue with the Bill and Scheme, it should ensure that adequate funds are identified and committed to deliver the objectives and commitments they contain.’

'Felly, rydym yn argymell yn gryf y dylai Comisiwn y Cynulliad, pa ddull bynnag y mae'n penderfynu ei ddefnyddio ar gyfer y Bil a'r Cynllun, sicrhau bod digon o arian ar gael ac wedi'i ymrwymo i fodloni'r amcanion a'r ymrwymiadau sydd ynddynt.'

I have spent a long time in local government, where you are first told that you do not want to do it; when you say that you want to do it, you are told ‘You haven’t got the money for it’; and when you say that you will find the money for it, you are told that there may be some legal difficulties in carrying it out. I do not want to hear that we cannot do this because of a lack of money. I fully support the aim of the Bill, and I believe that addressing the issues that I have raised here will improve it. It is important that the people of Wales feel that we believe that both languages are equal.

Rwyf wedi treulio cryn amser mewn llywodraeth leol. Yno, dywedir wrthych yn gyntaf nad ydych am wneud rhywbeth; a phan ddywedwch eich bod, dywedir wrthych 'Does gennych chi mo'r arian i wneud hynny'; a phan ddywedwch y dewch o hyd i'r arian ar ei gyfer, dywedir wrthych y gall fod rhywfaint o anawsterau cyfreithiol i'ch rhwystro. Nid wyf am glywed na allwn wneud hyn oherwydd prinder arian. Rwy'n llwyr gefnogi nod y Bil, ac rwy'n credu y bydd mynd i'r afael â'r materion yr wyf wedi'u codi yma yn ei wella. Mae'n bwysig bod pobl Cymru yn teimlo ein bod yn credu bod y ddwy iaith yn gydradd.

**Bethan Jenkins:** Diolch i Ann Jones am gyflwyno’r hyn roedd y pwyllgor wedi ei gymeradwyo, a diolch hefyd i’r staff sydd wedi helpu i ysgrifennu’r ddogfen gynhwysfawr hon ar ein rhan.

**Bethan Jenkins:** I thank Ann Jones for presenting what the committee has endorsed and I also thank those staff who have assisted in drafting this comprehensive document on our behalf.

I ddechrau, mae’n bwysig iawn inni ddangos

First, it is very important that we as a

esiampl fel Cynulliad Cenedlaethol o'r hyn y buasem yn disgwyl i gyrff eraill ei weithredu yng Nghymru. Ddoe ddiwethaf, er enghraifft, dywedodd BMA Cymru nad nawr yw'r amser i osod mwy o amodau arno o ran yr iaith Gymraeg, gan ein bod ni mewn cyfnod o doriadau economaidd. Os yw cyrff fel y BMA yng Nghymru yn mynd i gwestiynu'r hyn sydd angen ei wneud o ran yr iaith Gymraeg ac yn gweld wedyn ein bod ni'n glastwreiddio'r hyn sy'n digwydd yn y Comisiwn, pa fath o esiampl rydym ni fel Cynulliad yn ei gosod iddynt? Felly, rwyf yn credu y dylem gael y drafodaeth hon yng nghyd-destun y ffaith y bydd pobl yn disgwyl i'r Comisiwn a'r Senedd hon fod yn gryf iawn ar y mater hwn.

National Assembly set an example for other organisations in Wales of how we would expect them to act. Only yesterday, for example, BMA Wales said that now is not the time to place more conditions on it in respect of the Welsh language, given that we are in a period of economic cuts. If bodies such as the BMA here in Wales are questioning what needs to be done in relation to the Welsh language and they then see that we are diluting what is happening in the Commission, what kind of an example are we setting as an Assembly? Therefore, I think that we should hold this discussion in the context of the fact that people will expect the Commission and this Senedd to take a robust stance on this issue.

Dyna pam rwyf yn anhapus iawn nad yw'r Comisiynydd yn cymeradwyo argymhelliad 2, oherwydd cafodd hwn lawer iawn o sylw yn y pwyllgor. Dywedodd tyst ar ôl tyst fod angen rhoi darpariaeth am y Cofnod ar wyneb y Bil yn sgîl y problemau a gawsom dros y blynyddoedd, ac yn sgîl penderfyniad y Comisiwn i dorri ei gynllun iaith ei hun, yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oherwydd iddo benderfynu peidio â chyfieithu'r Cofnod, a hefyd i gyhoeddi cyfieithiad ar ôl pum diwrnod. Felly, mae angen i ni fod yn gryf iawn ynghylch y pwynt hwn, yn enwedig gan ein bod ni'n gweld diffyg defnydd o'r Gymraeg yn aml yn y Cynulliad. Nid wyf yn credu bod cost yn rhywbeth y dylem roi cymaint o bwyslais arno, gyda phob parch. Gwnaed toriadau enfawr i'w wasanaethau Cymraeg gan y Cynulliad, tra bod cyllideb y Comisiwn wedi cynyddu. Dros y tair blynedd diwethaf, mae gwariant ar wasanaethau Cymraeg y Cynulliad wedi ei dorri mewn termau real o dros 14%, tra bod cyllideb Comisiwn y Cynulliad yn cynyddu 6.3% y flwyddyn nesaf. Felly, ni ddylem wastad fynd yn ôl i sôn am y gost.

That is why I am particularly unhappy that the Commissioner will not be accepting recommendation 2, because the matter was covered extensively in committee. Witness after witness said that a provision about the Record should be included on the face of the Bill in light of the problems that we have had over the years, and in light of the Commission's decision to breach its own language scheme, according to the Welsh Language Board, by resolving to discontinue translating the Record, and then to publish a translation after five days. Therefore, we have to be strong on this point, particularly as we often see a lack of Welsh being used in the Assembly. We should be not emphasising cost too much, with all due respect. The Assembly has made huge cuts to Welsh-language services while the Commission's budget has increased. Over the past three years, expenditure on the Assembly's Welsh-language services has seen a cut in real terms of more than 14%, while the Assembly Commission's budget will increase 6.3% next year. Therefore, we should not always come back to talking about the cost.

Roeddwn yn anghytuno'n gryf â'r pwyllgor, oherwydd roeddwn yn meddwl y dylem ddileu adran 2(2)(6), ond rwyf yn cydnabod bod y pwyllgor wedi gofyn i'r Comisiwn esbonio'r rhesymeg dros yr adran honno. Rwyf yn credu ei bod yn *loophole* i beidio â sôn am gynnig gwasanaethau dwyieithog, a daeth nifer o dystion gerbron y pwyllgor i ddweud hynny, gan gynnwys cynrychiolwyr y mentrau iaith a swyddogion iaith cynghorau

I disagreed strongly with the committee, because I believed that we should delete section 2(2)(6), but I accept that the committee asked the Commission to explain its rationale for that section. I think that it is a loophole not to mention providing bilingual services, and many of the witnesses who appeared before the committee said as much, including representatives of the *mentrau iaith* and the language officers of Cardiff and

Caerdydd a Chaerffili. Nid ydym yn gallu dewis a dethol lle rydym am fod yn gryf yn hynny o beth; mae angen i ni sicrhau nad yw *loopholes* fel hyn yn codi. Defnyddiwyd Iwerddon fel esiampl gref yn hynny o beth, ond roeddwn yn Iwerddon dros y diwrnodau diwethaf, a gwelais eu bod yn gryfach ar bapur nag ydynt ar lafar. Felly, wrth ddyfynnu tystiolaeth o leoedd eraill, mae'n rhaid sicrhau bod ganddynt strategaethau digon cryf i gyfiawnhau'r gymhariaeth.

Caerphilly councils. We cannot pick and choose where we want to be strong in that regard; we need to ensure that loopholes such as that are removed. Ireland was used as a strong example in that regard, but I was in Ireland this week, and I saw that they are stronger on paper than they are in reality. Therefore, when we quote evidence from other places, we must ensure that they have robust enough strategies to justify making such a comparison.

3.45 p.m.

Yn lle adran 2(2)(6), mae'n bwysig inni roi dyletswyddau penodol ar wyneb y Bil fel enghraifft o leiafswm gwasanaethau—er enghraifft, cyfieithu ar y pryd, cyfieithu'r Cofnod, a sicrhau bod dogfennau yn ddwyieithog. Credaf y bydd hyn yn rhoi eglurhad digonol i'r cyhoedd ynglŷn â'r hyn y gallant ei ddisgwyl yn Gymraeg a Saesneg yma. Dyna mae argymhelliad 2 yn ei ddweud mor gryf. Hefyd, dylem ddileu'r sôn am hen eiriad Deddf 1993 o ran trin '*on a basis of equality*' a mewnosod y syniad y dylai'r ddwy iaith gael eu trin yn gyfartal. Mae hyn yn newid pwyslais eithaf sylweddol. Rwy'n cytuno hefyd gyda gosod yr angen am dargedau yn y cynllun, er mwyn ein galluogi i fonitro ei effeithiolrwydd wrth wireddu amcanion y Bil. Eto, cawsom ddigon o dystiolaeth i ddweud nad yw'r cynllun fel ag y mae yn ddigon cryf, bod angen targedau amlwg a bod angen eu monitro.

In place of section 2(2)(6), it is important that we place specific responsibilities on the face of the Bill as an example of minimum services—such as interpretation, translation of the Record and ensuring that documents are bilingual. I believe that this will provide adequate clarity for the public on what they can expect to receive through the medium of Welsh and English here. That is what recommendation 2 states so clearly. In addition, we should stop referring to the old wording of the 1993 Act of treating 'on the basis of equality', and insert the idea of treating both languages equally. This is quite a significant change of emphasis. I also agree that we need to include a requirement for targets in the scheme, so that we can monitor its efficiency in achieving the Bill's aims. Again, we had plenty of evidence that the scheme, as it stands, is not robust enough, and that we need clearly stated targets that are monitored.

I gloi, credaf fod angen inni edrych ar rôl yr ombwdsmon. Rwy'n deall y bydd yr ombwdsmon yn sicrhau bod arbenigedd yn dod o du'r comisiynydd iaith newydd, ond nid yw'n glir sut y bydd y berthynas honno yn gweithio. Gobeithiaf y gallwn gael mwy o eglurdeb ar hyn wrth i'r broses fynd yn ei blaen.

To conclude, I believe that we need to look at the role of the ombudsman. I understand that the ombudsman will ensure that expertise is provided by the new language commissioner, but it is not clear how that relationship will work. I hope that we can get a bit more clarity on this during the process.

**Mick Antoniw:** I generally welcome the Bill, but I believe that there are a number of matters in it that need to be examined very carefully. I agree very much with some of Suzy Davies's comments, because I believe that the Bill contains contradictions. With regard to the whole issue of section 2(2)(6), I am not sure whether it is necessary to include it, because it seems to create more

**Mick Antoniw:** Rwy'n croesawu'r Bil yn gyffredinol, ond rwy'n credu bod nifer o faterion ynddo y mae angen eu harchwilio'n ofalus iawn. Rwy'n cytuno i raddau helaeth â rhai o sylwadau Suzy Davies, oherwydd credaf fod y Bil yn ei wrth-ddweud ei hun mewn mannau. Gyda golwg ar holl fater adran 2(2)(6), nid wyf yn siŵr a oes angen ei chynnwys, oherwydd, i bob golwg, mae'n

contradictions than anything else. What is important is the draft scheme produced and its quality and clarity.

creu mwy o wrth-ddweud na dim byd arall. Yr hyn sy'n bwysig yw'r cynllun drafft a gyhoeddir, ei ansawdd a'i eglurder.

In addition to the points that Suzy Davies has clearly set out, and which I hope the Commission will take note of, the nub of my concern is the Cofnod—the Record of Proceedings. We are now a legislature. The laws that we pass and the cases that arise from those laws create Welsh jurisprudence. Quite often, in the interpretation of the legislation, it is necessary to look at the legislature's intentions. That means that the Cofnod is not only a historic record but a legal record in its own right. If we are to take our own development of Welsh jurisprudence seriously—we have had numerous debates on this—it seems to me that we must have a bilingual record of those proceedings. It is not necessarily an issue for me that it must be contemporaneous—that it must be produced within five days, two weeks or whatever—but there must be a process whereby there is access within a certain period of time to that record.

Yn ogystal â'r pwyntiau y mae Suzy Davies wedi'u cyflwyno'n glir, ac y bydd y Comisiwn, gobeithio, yn rhoi sylw iddynt, yr hyn sy'n fy mhoeni fwyaf yw Cofnod y Trafodion. Rydym bellach yn ddeddfwrfa. O'r cyfreithiau y byddwn yn eu creu a'r achosion sy'n codi o'r cyfreithiau y daw cyfreitheg Cymru. Yn aml iawn, wrth ddehongli'r ddeddfwriaeth, bydd angen edrych ar fwriadau'r ddeddfwrfa. Mae hynny'n golygu nad dim ond cofnod hanesyddol yw'r Cofnod ond cofnod cyfreithiol ynddo'i hun. Os ydym am fod o ddifrif ynglŷn â'r ffordd y byddwn yn datblygu ein cyfreitheg ni ein hunain yng Nghymru—rydym wedi cynnal sawl dadl am hyn—mae'n ymddangos i mi ei bod yn rhaid inni gael cofnod dwyieithog o'r trafodion hynny. O'm rhan i, nid oes yn rhaid i hynny ddigwydd ar y pryd—na bod rhaid ei gyhoeddi o fewn pum niwrnod, pythefnos neu beth bynnag—ond rhaid cael proses lle bydd modd i bobl fynd at y cofnod hwnnw o fewn cyfnod penodol.

It would be bizarre, and possibly in conflict with the legislation itself, if, at that particular stage, you had reference only to an English-language version of the proceedings. Therefore, as a legislature, we have to ensure—and I hope that the Commission will give this assurance—that there will be publication of the full Record of Proceedings in both languages. If that assurance is not given, I would certainly give consideration at a later stage to proposing an amendment for the deletion of section 2(2)(6), as well as other amendments.

Byddai'n rhyfedd iawn, ac o bosibl yn groes i'r ddeddfwriaeth ei hun, pe na allech, bryd hynny, ond cyfeirio at fersiwn Saesneg o'r trafodion. Felly, bydd yn rhaid inni, a ninnau'n ddeddfwrfa—ac rwyf yn gobeithio y gwnaiff y Comisiwn roi'r sicrwydd hwn inni—sicrhau y cyhoeddir fersiwn lawn Cofnod y Trafodion yn y ddwy iaith. Oni chawn y sicrwydd hwnnw, byddwn yn bendant yn ystyried cynnig gwelliant yn ddiweddarach yn y broses i ddileu adran 2(2)(6), yn ogystal â gwelliannau eraill.

**Aled Roberts:** Gobeithiaf fy mod yn sefyll yma y prynhawn yma fel un o'r Cymry Cymraeg olaf i dderbyn eu haddysg yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg, ac un na chafodd y cyfle i drafod drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gweithle. Roeddwn yn aelod o gyngor am dros 22 mlynedd, a'r siom fwyaf a gefais fel arweinydd cyngor oedd nad oedd modd imi siarad Cymraeg yn fy nghyngor fy hun. Mae hynny'n dal i fod yn wir yng nghyngor Wrecsam. I'r rhai ohonoch sy'n byw yn y gorllewin, dywedaf fy mod yn

**Aled Roberts:** I hope that I stand here today as one of the last Welsh-speakers in Wales to have received their education entirely through the medium of English, and who was not given the opportunity to discuss issues in the Welsh language in the workplace. I was a member of a council for more than 22 years, and my greatest disappointment as a council leader was that I was not able to speak Welsh in my own council. That is still not possible in Wrexham council. To those of you who live in west Wales, I say that I support the

cefnogi ymgais y Gweinidog i droi Cymru yn wlad ddwyieithog, ond rydym yn bell iawn o hynny ar hyn o bryd.

Minister's attempt to turn Wales into a bilingual country, but we are far from achieving that.

Mae'r ddadl hon yn bwysig, oherwydd ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd symbolaidd y ffaith bod Cofnod y Trafodion yn y Cynulliad yn ddwyieithog. Rwyf hefyd yn ategu'r hyn a ddywedodd Bethan Jenkins. O fy mhrofiad i mewn llywodraeth leol, mae'n bwysig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei weld fel corff sy'n arwain y gad o ran sicrhau bod Cofnod cwbl ddwyieithog ar gael. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod geiriad y Bil yn gadarnhaol ac rwy'n croesawu'r ffaith bod pobl eisoes yn teimlo'n gryfach am ein hiaith.

This debate is important, because we should not underestimate the symbolic importance of the fact that the Assembly's Record of Proceedings is available bilingually. I also endorse what Bethan Jenkins said. From my experience in local government, it is important that the National Assembly is seen as a body that is at the vanguard in terms of ensuring that a fully bilingual Record is produced. I welcome the fact that the committee Chair and members want to ensure that the Bill is positively worded and I welcome the fact that people already feel more strongly about our language.

Roedd yn ddiwrnod trist yn 2009 pan benderfynodd Comisiwn y Cynulliad na fyddai'n cyhoeddi fersiwn ddwyieithog o'r Cofnod mwyach, er mwyn arbed arian. Fel y dywedodd Bethan Jenkins, mae'n drist i ystyried bod gwariant y Cynulliad ar wasanaethau Cymraeg yn y blynyddoedd diwethaf wedi gostwng, er bod gwariant y Comisiwn ei hun wedi cynyddu. Fis Mehefin diwethaf, achubwyd cam y rhai a frwydrodd yn erbyn penderfyniad y Comisiwn pan farnodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg bod y Comisiwn wedi methu â bodloni gofynion ei gynllun iaith statudol ei hun. Mae'r cynllun iaith wedi newid tair gwaith mewn tair blynedd, oherwydd bod y broses a'r arfer o gyfieithu wedi newid tair gwaith. Daeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r casgliad bod y Cynulliad yn torri ei gynllun iaith ac anwybyddodd y Cynulliad ddyfarniad y corff statudol hwnnw am dros 15 mis. Yn fy marn i, roedd y Comisiwn yn torri'r gyfraith, felly mae angen cynnwys triniaeth gyfartal i'r Gymraeg ar wyneb y Bil. Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei weld yn sefydliad sy'n arwain y gad. Os nad ydym yn dangos esiampl o ran ymrwymiad i'r iaith Gymraeg, nid oes fawr o obaith inni annog twf a datblygiad yr iaith, sef yr hyn mae'r Llywodraeth yn ceisio ei wneud gyda Mesur 2011. Nid yw'r Cynulliad na'r Comisiwn wedi'u cynnwys dan Fesur y Gymraeg, fel y dywedodd y Gweinidog, ar hyn o bryd. Rwy'n croesawu'r Bil hwn yn fawr iawn.

It was a sad day in 2009 when the Assembly Commission decided that it would no longer produce a bilingual version of the Record, in order to save money. As Bethan Jenkins said, it is sad that Assembly expenditure on Welsh-language services has gone down at a time when Commission expenditure has gone up. Last June, those who fought against the Commission's decision were vindicated when the Welsh Language Board resolved that the Commission had failed to fulfil the requirements of its own statutory language scheme. The language scheme has changed three times in three years, as a result of three changes to the translation process and practice. The Welsh Language Board came to the conclusion that the Assembly broke its language scheme and the Commission ignored the resolution of that statutory body for over 15 months. In my view, the Commission was breaking the law, so there is a need to include reference to equal treatment for the Welsh language on the face of the Bill. The National Assembly for Wales must be seen to be leading the way. If we do not lead by example in relation to a commitment to the Welsh language, what hope do we have of encouraging the language's growth and development, which is what the Government is trying to do with the 2011 Measure? The Assembly and the Commission are not currently included under the Welsh language Measure, as the Minister said. I warmly welcome this Bill.

Mae adroddiad y pwyllgor yn gwneud

The committee report includes practical

argymhellion ymarferol sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth a dadansoddiad. Mae'n amlwg bod y pwyllgor wedi mynd ati'n ofalus iawn i asesu effaith ei benderfyniadau. Felly, rwy'n cefnogi argymhellion y pwyllgor i'r carn, yn enwedig y rhai hynny sy'n cynnwys cynlluniau gweithredu, amserlenni, targedau a chyfrifoldebau ar gyfer y cynllun ieithoedd swyddogol. Rwy'n mawr obeithio y bydd y Comisiynydd hefyd yn cefnogi'r argymhellion hyn. Rydym hefyd, fel grŵp, yn cytuno bod craffu effeithiol yn hollbwysig, ac mai'r ffordd orau o sicrhau hyn fyddai drwy gyflwyno adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad.

recommendations based on evidence and analysis. It is clear that the committee set about carefully assessing the effect of its decisions. Therefore, I fully support the committee's recommendations, especially those that include action plans, timetables, targets and responsibilities for the official languages scheme. I strongly hope that the Commissioner will also support those recommendations. As a group, we also agree that effective scrutiny is vital, and that the best way of doing that would be by way of an annual report to the Assembly.

Mae'n braf iawn gweld bod argymhelliad 4 yn dweud y dylai'r cynllun gael ei adolygu yn ystod pob tymor Cynulliad. Rwy'n cofio newidiadau tebyg i'r cynllun plant drafft yn cael eu cyflwyno ym mis Mawrth, a dderbyniwyd gan y Llywodraeth. Mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi llwyddo i sicrhau cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a chydymffurfiaeth, a chredaf eu bod wedi cwmpasu'r egwyddorion cyffredinol yn effeithiol iawn. Fel y dywedodd Mick Antoniw, rhaid inni edrych yn fanwl ar y manylion, ond rwy'n hyderus bod yr adroddiad hwn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynnydd ein hiaith.

It is good to see that recommendation 4 says that the scheme should be reviewed during every Assembly term. I remember similar changes to the draft children's scheme being proposed in March, which were accepted by the Government. The report and the recommendations have managed to secure balance between flexibility and compliance, and I believe that they have very effectively encompassed the underlying principles. As Mick Antoniw said, we must look carefully at the detail, but I am confident that this report provides a strong foundation for the progress of our language.

**Alun Ffred Jones:** Mae cefnogaeth gyffredinol i'r Bil hwn, nid yn unig o du'r pwyllgor, ond hefyd o du'r tystion a ddaeth ger ei fron. Rwy'n siarad fel un sydd wedi gweithio mewn cwmni preifat ac mewn sefydliad cyhoeddus lle roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn helaeth. Yng Nghyngor Gwynedd, roeddwn yn rhan o greu'r polisi iaith, ac rwy'n meddwl bod rhaid inni sylweddoli un peth: i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â sefydliadau o'r fath, nid cyfieithu pob dogfen sydd yn gwneud sefydliad yn sefydliad trwyadl ddwyieithog. Camgymeriad elfennol a diffyg deall deinameg defnydd iaith yw hynny.

**Alun Ffred Jones:** There is general support for this Bill, not only from the committee but also from the witnesses who appeared before it. I speak as someone who has worked for a private company and in a public institution where extensive use was made of the Welsh language. In Gwynedd Council, I played a part in forming the language policy, and I believe that we must realise one thing: for those who are unfamiliar with organisations like this, it is not by translating every document that you create a fully bilingual institution. That is a fundamental mistake and a misunderstanding of the dynamics of language use.

Bydd angen i'r Bil, yn y pen draw, gyflawni dau beth. Yn gyntaf, mae'n rhaid gwneud y Cynulliad yn lle sydd yn drwyadl ddwyieithog—i ni sy'n gweithio yma yn Aelodau ac yn staff. Mae hynny'n golygu mynd ymhellach na chyfieithu dogfennau o'r Saesneg pan fo hynny'n gyfleus. Y wedd

The Bill will ultimately have to fulfil two functions. First, the Assembly will have to become a fully bilingual institution—for those of us who work here as Members and staff. That means going further than just translating documents into Welsh when it is convenient. The other aspect is public

arall i'r Bil yw cyswllt y cyhoedd â'r sefydliad hwn a'r angen i bobl o'r tu allan sy'n cyfathrebu â'r Cynulliad allu gwneud hynny'n rhwydd yn eu dewis iaith. I'r perwyl hwnnw, mae datblygu sgiliau'r staff presennol ac i'r dyfodol cyn bwysiced ag unrhyw agwedd arall ar y Bil. Pan fo ein staff ni neu'r cyhoedd yn cysylltu ag unrhyw adran o fewn y Cynulliad, mae'n hollbwysig eu bod yn gallu gwneud hynny yn rhwydd ac yn ddirwystr ac mewn modd proffesiynol yn eu dewis iaith. Cyflawni hynny fydd un o'r tasgau mawr sydd yn wynebu'r Comisiwn.

interface with this institution and the requirement for people to be able to communicate easily with the Assembly in their chosen language. To that end, developing the skills of current and future staff is as important as any other aspect of the Bill. When our staff or members of the public contact any department within the Assembly, it is crucial that they are able to do so easily and without any barriers, in a professional way in the language of their choice. Achieving that will be one of the huge tasks facing the Commission.

Bydd hynny, yn ei dro, yn cael effaith ar y ffordd rydym ni—y sawl sydd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu sydd wedi dysgu Cymraeg—yn gweithredu. Bydd hefyd yn rhoi'r hyder inni ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gweithgareddau'r Cynulliad bob amser. Fel y dywedais, os nad ydym yn defnyddio'r Gymraeg o fewn gweithgareddau'r Cynulliad nid yw dwyieithrwydd, mewn gwirionedd, yn ddim ond label cyfleus disylwedd. Dyna yw dwyieithrwydd yn aml mewn llawer o sefydliadau sydd â chynllun iaith ond lle nad oes, mewn gwirionedd, ddefnydd o'r Gymraeg. Dyna'r her i'r Comisiwn wrth lunio'r Bil hwn.

In turn, that will impact upon the way that we—those of us who speak Welsh as a first language or those who have learned the language—carry out our work. It will also give us confidence in always using the Welsh language in Assembly proceedings. As I have said, unless we make use of the language in Assembly proceedings, bilingualism is nothing but a convenient label that has no substance. Very often, that is what bilingualism becomes in many institutions that have language schemes but where, in reality, no use is made of the language. That is the challenge for the Commission in drawing up this Bill.

Rwy'n deall ac yn cefnogi'r disgrifiad yn adran 1(2)(1B), sy'n rhoi hawl i ddefnyddio'r naill neu'r llall o'r ieithoedd swyddogol wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cynulliad. Fodd bynnag, fel y dywedais, mewn sefydliad fel hwn, lle mai Saesneg yw'r brif iaith weinyddol, mewn gwirionedd, a'r brif iaith sy'n cael ei defnyddio, mae angen cymryd camau cadarnhaol er mwyn cefnogi defnydd y Gymraeg a gwneud hynny yn naturiol. Yn y cyswllt hwn, mae adran 2(2)(6) yn anffodus iawn ac mor negyddol ei naws fel bod yn rhaid i'r Comisiwn edrych arno eto. Mae'r ffordd mae wedi cael ei osod ar hyn o bryd yn ymddangos fel pe bai bron yn dirymu gweddill y Bil.

I understand and support the description in section 1(2)(1B), giving people the right to use either one of the official languages in participating in Assembly proceedings. However, as I said, in an institution such as this where, in reality, English is the main administrative language and the main language used, positive steps need to be taken to support the use of Welsh and to make it a natural part of proceedings. In that regard, section 2(2)(6) is very unfortunate, and is so negative in its wording that the Commission will have to revisit it. The way that it is currently set out makes it appear as if it revokes the rest of the Bill.

Y gwir amdani yw na allwn osgoi nag anwybyddu goblygiadau cost wrth greu gwasanaethau a darpariaethau fel hyn. Yn hynny o beth, rwy'n deall dadleuon y Comisiynydd a'r angen i flaenoriaethu. Fodd bynnag, rwy'n credu, o'r dystiolaeth a gawsom, fod gwerth symbolaidd i'r Cofnod mewn ffordd nad oeddwn wedi meddwl

The truth is that we cannot avoid or ignore the cost implications of creating such services and provisions. In that regard, I understand the arguments put forward by the Commission and the need to prioritise. However, I believe, from the evidence that we received, that there is a symbolic value to the Record that I had not previously

amdano o'r blaen. Hynny yw, dogfen weithredol yw'r Cofnod i mi, ond tu allan i'r Cynulliad mae'n cael ei gweld fel dogfen symbolaidd. Yn wir, aeth un tyst mor bell â chymharu dylanwad y Cofnod â chyfieithu'r Beibl. Rwy'n credu mai camgymeriad oedd gwneud y gymhariaeth honno, ond rydych yn deall y sentiment. Felly, rwy'n credu bod lle i ddadlau y dylai cyfeiriad at y Cofnod fod ar wyneb y Bil.

considered. For me, the Record is a working document, but outside the Assembly it is seen as a symbolic document. Indeed, one witness went as far as to compare the Record with translating the Bible. I believe that that comparison was wrong, but one understands the sentiment. Therefore, I believe that there is scope for arguing that there should be reference to the Record on the face of the Bill.

Fodd bynnag, yr hyn sy'n hollbwysig yw bod y Bil a'r cynllun gweithredu yn sicrhau parch at y ddwy iaith ac yn mapio llwybr clir i ddatblygu'r sefydliad hwn mewn ffordd a fydd yn rhoi cyfleoedd gwirioneddol gyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn ddiwahân.

However, what is vital is that the Bill and the implementation plan ensure respect for both languages and map a clear route for developing this institution in a way that provides real opportunities for Welsh and English speakers alike.

**Comisiynydd y Cynulliad (Rhodri Glyn Thomas):** Diolch i'r holl gyfranwyr am eu sylwadau. Ar y cyfan, mae'r sylwadau wedi bod yn gadarnhaol ac yn gefnogol i egwyddorion cyffredinol y Bil, sef yr hyn rydym yn ei drafod yn benodol ar yr adeg hon; bydd cyfle eto i edrych ar y manylion. Rwy'n eich sicrhau fy mod i, fel y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb yn y maes arbennig hwn, a'm cyd Gomisiynwyr yn parhau i wrando ar yr hyn sydd yn cael ei ddweud, a byddwn yn parhau i ystyried yr hyn rydych yn ei ddweud.

**Assembly Commissioner (Rhodri Glyn Thomas):** I thank all those who have contributed for their comments. On the whole, the comments have been positive and supportive of the general principles of the Bill, which is what we are specifically discussing at this time; there will be opportunities again to look at the detail. I give you an assurance that I, as the Commissioner with responsibility for this particular area, and my fellow Commissioners continue to listen to what is said, and we will continue to consider your views.

4.00 p.m.

Rwy'n credu bod ychydig o ddiffyg eglurder ac ychydig o ddiffyg cysondeb. Gan gyfeirio'n benodol at y cyfraniadau sydd wedi sôn am wyneb y Bil, dywedaf unwaith yn rhagor, ar hyn o bryd, er ein bod wedi gwrando'n ofalus ar y dystiolaeth—a mae'n wir dweud bod cryn alw i roi rhai pethau penodol ar wyneb y Bil yn y dystiolaeth a dderbyniodd y pwyllgor ac a dderbynion ni yn y ddau ymgynghoriad—mae'r Comisiwn yn dal i gredu mai camgymeriad fyddai eu rhoi ar wyneb y Bil, oherwydd byddai hynny'n cyfyngu i raddau helaeth yr hyn y gellid ei wneud. Mae'r elfennau hynny wedi eu diogelu yn y cynllun, ac fel rwyf wedi ei ddweud yn barod, pe bai unrhyw ymgais i newid y cynllun, byddai'n rhaid iddo ddod yn ôl i'r fan hon i Aelodau ei gytuno. Credaf mai camgymeriad sylfaenol yw'r ofn nad yw'r elfennau hynny'n cael eu diogelu os nad

I believe that there is something of a lack of clarity and an inconsistency perhaps. Referring specifically to the contributions that have mentioned the face of the Bill, I say once again, at the moment, although we have listened carefully to the evidence—and it is true to say that there have been quite a few calls to include specific things on the face of the Bill in the evidence that the committee received and that we received in the two consultations—the Commission still believes that it would be an error to include them on the face of the Bill, because that would limit to a great extent what could be done. Those elements are safeguarded within the scheme and, as I have already said, if there were any attempt to alter the scheme, it would have to come back here for Members' agreement. I think that the fear that those elements are not being protected if they are not on the face of

ydynt ar wyneb y Bil.

the Bill is a fundamental error.

Nid oes gennyf mo'r amser i gyfeirio'n benodol at yr holl sylwadau. Roedd sylwadau manwl iawn gan Suzy Davies a gafodd eu hategu gan Mick Antoniw. Rhown ystyriaeth i'r materion hynny, lle'r ydych yn cyfeirio'n benodol at eiriad a'i oblygiadau o ran y ddeddfwriaeth. Nid oes gennyf yr amser nac ychwaith y cymwysterau, rhaid dweud, i ymateb yn ffurfiol i chi, ond edrychwn ar hynny'n fanwl a rhoi ystyriaeth fanwl iddo.

I do not have time to refer specifically to all the comments made. There were some very detailed comments by Suzy Davies that were endorsed by Mick Antoniw. We will consider those matters, where you refer specifically to the wording and its implications in terms of the legislation. I do not have time or the qualifications, it must be said, to respond formally to you, but we will look at that closely and give it careful consideration.

Cyfeiriaf yn gyflym ac yn gyffredinol at Gadeirydd y pwyllgor, Ann Jones, am fod mor gefnogol. Rydym yn gwerthfawrogi ei chefnogaeth a chefnogaeth y pwyllgor. Rhaid dweud, Ann, fy mod yn derbyn yr hyn rydych yn ei ddweud na ddylai cost ein hatal rhag gwneud unrhyw beth, ond yn anffodus, yn y byd real, rydym yn gorfod ystyried costau a goblygiadau hynny. Os yw pobl yn mynd i sôn am gyfieithu holl drafodion y Cynulliad—mae cyfeiriadau wedi bod hyd yn oed at bob peth sy'n digwydd ar ystâd y Cynulliad—rydych yn sôn am symiau enfawr o arian. Hyd yn oed gyda chofnodion y pwyllgorau, rydych yn sôn am gannoedd o filoedd o bunnoedd. Pe baech yn sôn am yr agweddau eraill, byddai'r gost yn fwy byth. Byddai'n rhaid i ni fel Comisiwn gael gwybod beth yn union yw blaenoriaethau'r Aelodau yn hynny o beth.

I will refer swiftly and in general to the Chair of the committee, Ann Jones, for being so supportive. We appreciate her support and the support of the committee. I have to say, Ann, that I accept what you say that the cost should not preclude us from doing anything, but unfortunately, in the real world, we have to consider the costs and their implications. If people are going to talk about translating all proceedings of the Assembly—some have even referred to everything that happens on the Assembly estate—you are talking about huge sums of money. Even with committee transcripts, you are talking about hundreds of thousands of pounds. If you were talking about all the other aspects, the cost would be even greater. We, as a Commission, would need to know exactly what Members' priorities are in that sense.

Yn y pen draw, yr Aelodau a fydd yn penderfynu. Hynny yw, nid oes gan y Comisiwn awdurdod o unrhyw fath i benderfynu'n groes i ddymuniadau Aelodau, a bydd y Bil yn dod yn ôl ger eich bron, a'r cynllun o ran hynny, i chi eu cadarnhau.

At the end of the day, Members will decide. That is, the Commission does not have any sort of authority to make a decision that is contrary to the wishes of Members, and the Bill will come back before you, as will the scheme, for your approval.

O ran Leighton Andrews, diolchaf iddo am ei gyfraniad. Cefais rywfaint o ofn ar un adeg y byddai'n ein gosod dan y comisiynydd iaith fel y byddem yn atebol i safonau. Nid wyf yn credu mai dyna yw'r ffordd ymlaen, ac rwy'n falch bod y Gweinidog wedi dod i'r un casgliad.

In terms of Leighton Andrews, I thank him for his contribution. I was a little scared at one point that he was going to place us under the responsibility of the language commissioner and that we would be subject to standards. I do not think that that is the way forward, and I am pleased that the Minister has reached the same conclusion.

Rwy'n credu ei fod yn bwysig, fel dywedodd y Gweinidog, bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn esiampl i gyrff a sefydliadau eraill a'i fod yn dangos arweiniad. Rwy'n hyderus ein bod yn gwneud hynny, ac mae'r gwaith

I think that it is important, as the Minister said, that the National Assembly for Wales is an exemplar for other bodies and institutions and shows leadership. I am confident that we are doing that, and the work that we are doing

yr ydym yn ei wneud ar y Cofnod ar hyn o bryd yn waith arloesol, ac mae cyfleoedd gwych i gynorthwyo cyrff a sefydliadau eraill yng Nghymru gyda gwaith cyfieithu drwy rannu'r gwaith arloesol hwn gyda nhw. Rwyf wedi trafod hyn â'r Gweinidog i weld a allwn gydweithio gyda Llywodraeth Cymru yn hynny o beth, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

on the Record at the moment is innovative, and there are excellent opportunities to assist other bodies and institutions in Wales with translation work by sharing this innovative practice with them. I have discussed this with the Minister to see whether we can collaborate with the Welsh Government in that regard, and we will continue with those discussions.

Diolch i Suzy Davies. Fel y dywedais, rhown ystyriaeth i hynny. Mike Hedges, rwy'n derbyn yr hyn rydych wedi ei ddweud: ni ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod yn wasanaeth cyfieithu i gyrff eraill. Rhaid inni ysbrydoli cyrff eraill i fod yn gyrff dwyieithog ac i gyflawni'r gwaith hwnnw.

I thank Suzy Davies. As I said, we will give consideration to that. Mike Hedges, I accept what you said: the National Assembly for Wales should not be a translation service for other organisations. We have to inspire other organisations to become bilingual organisations and to undertake that work themselves.

Bethan Jenkins, diolch, rwy'n derbyn yr hyn rydych wedi ei ddweud am y teimladau ynghylch argymhelliad 2. Rydym yn dal i wrando o ran hynny, ond rwy'n credu bod yn rhaid bod yn fwy penodol, a rhaid bod yn fwy sicr mai hon yw'r flaenoriaeth. Pwrpas y Bil hwn—

Bethan Jenkins, thank you, I accept what you have said about the feelings regarding recommendation 2. We are still listening to views on that, but I think that you need to be more specific, and we need to know that this is the priority. The purpose of this Bill—

**Bethan Jenkins** *a gododd—*

**Bethan Jenkins** *rose*—

**Rhodri Glyn Thomas:** Ni chredaf fod gennyf amser—rwy'n mynd i gael trafferth i gyfeirio at yr hyn a ddywedwyd gan y siaradwyr fel y mae, a chredaf ei bod yn bwysig fy mod yn gwneud hynny.

**Rhodri Glyn Thomas:** I do not think that I have enough time—I am going to find it difficult to refer to all that has been said by contributors anyway, and I think that it is important that I do that.

Mae'n rhaid bod yn benodol ynglŷn â'n blaenoriaethau. Ai dyna'r ffordd i symud pethau ymlaen? Fel dywedodd Alun Ffred, y peth pwysig yw ein bod yn hyrwyddo'r Gymraeg, yn hwyluso'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ac yn creu deinamig lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol yn y lle hwn. Dyna'r her a'r sialens sy'n ein hwynebu. Diolch i Aled Roberts hefyd am ei gyfraniad ef; ydy, mae'r Cynulliad yn mynd i fod yn ysbrydoliaeth i gyrff eraill.

We have to be specific about our priorities. Is that the way to move things forward? As Alun Ffred said, the important thing is that we promote the Welsh language, facilitate the use made of the Welsh language and create a dynamic where the Welsh language is used naturally in this place. That is the challenge that is facing us. I also thank Aled Roberts for his contribution; yes, the Assembly will be an inspiration to other organisations.

Dywedaf wrth ddiweddu—a diolch i chi am ychydig o ryddid i fynd dros amser, Dirprwy Lywydd—nad oes glastwreiddio wedi digwydd yn y Comisiwn hwn. Nid wyf yn mynd i gyfeirio at Gomisiynau blaenorol; nid dyna fy nghyfrifoldeb i. O ran y Comisiwn hwn, adeiladu ar y ddarpariaeth yw'r hyn rydym wedi ei wneud, a dyna fyddwn yn

I will say in conclusion—and thank you for the little latitude that you have given me in going over time, Deputy Presiding Officer—that there has been no dilution in this Commission. I am not going to refer to previous Commissions; that is not my responsibility. In terms of this Commission, we have built on the provision, and that is

parhau i'w wneud, gan baratoi'r ddarpariaeth ar gyfer hwyluso'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y lle hwn a hyrwyddo hynny. Y mesur o lwyddiant neu fethiant fydd faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio yn naturiol yn y sefydliad hwn. Os nad ydym yn llwyddo i gynyddu hynny, bydd y Bil a'r cynllun wedi methu.

what we will continue to do, and we will prepare for the facilitation of the use of the Welsh language in this place and promote that. The measure of success or failure will be how much Welsh is used naturally in this institution. If we do not succeed in increasing that, the Bill and the scheme will have failed.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn egwyddorion cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree to the general principles of the National Assembly for Wales Bill. Are there any objections? I see that there are not. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Dadl yn Ceisio Cytundeb y Cynulliad i Gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Asbestos (Adennill Costau Meddygol) (Mick Antoniw)
## Debate Seeking the Assembly's Agreement to Introduce a Member-proposed Bill on Asbestos (Recovery of Medical Costs) (Mick Antoniw)

*Cynnig NDM4955 Mick Antoniw*

*Motion NDM4955 Mick Antoniw*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.91:*

*Yn cytuno y caiff Mick Antoniw gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ddydd Gwener 16 Mawrth o dan Reol Sefydlog 26.90.*

*Agrees that Mick Antoniw may introduce a Bill to give effect to the pre-ballot information tabled on Friday 16 March under Standing Order 26.90.*

**Mick Antoniw:** I move the motion.

**Mick Antoniw:** Cynigiaf y cynnig.

I am very pleased to have the opportunity to bring this motion to the Assembly seeking leave to table an Asbestos (Recovery of Medical Costs) Member-proposed Bill. I am pleased to welcome the support that I have received for this Bill from asbestos sufferers, families who have lost loved ones to this disease, voluntary groups, trade unions, such as GMB, Unite and others, and other Assembly Members.

Rwyf yn falch iawn o gael y cyfle i gyflwyno'r cynnig hwn gerbron y Cynulliad gan geisio caniatâd i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Asbestos (Adennill Costau Meddygol). Rwyf yn falch o groesawu'r gefnogaeth yr wyf wedi'i chael i'r Bil hwn gan bobl sydd wedi dioddef oherwydd asbestos, teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid i'r clefyd hwn, grwpiau gwirfoddol, undebau llafur, megis y GMB, Unite ac eraill ac Aelodau eraill y Cynulliad.

I am very aware that, in this Chamber, there are many Members who have personal experience of asbestos disease, either through contacts with constituents or direct knowledge of friends and families of persons

Rwyf yn ymwybodol iawn bod llawer o Aelodau yn y Siambr hon sydd wedi cael profiad personol o glefyd asbestos, naill ai drwy gysylltiadau ag etholwyr neu wybodaeth uniongyrchol am gyfeillion a

who have been exposed to this cruel dust. Many of you, your constituents and friends and family will know of the devastating impact of the most horrific of these diseases, mesothelioma, which is a cancer of the lining of the lungs.

theuluoedd y sawl sydd wedi'u gadael yn ddiamddiffyn rhag y llwch creulon hwn. Bydd llawer ohonoch, eich etholwyr a'ch ffrindiau a'ch teuluoedd yn gwybod am yr effaith ddinistriol a gaiff y clefyd mwyaf echrydus y blith y rhain, mesothelioma, sef canser ar leinin yr ysgyfaint.

In Wales, there are around 100 new cases of mesothelioma diagnosed each year and over 2,000 in the UK as a whole. The number of new cases is expected to continue to increase until around 2015 and then continue for many years thereafter. In addition to mesothelioma, Health and Safety Executive evidence indicates that there are, in addition, a similar number of asbestos-related lung cancer cases occurring each year. In addition, there will be cases of asbestosis, which is a fibrosis of the lungs and pleural thickening. Mesothelioma is always a terminal disease, caused by asbestos exposure, which leads to death in 50% of cases within 12 months of diagnosis. The disease has a latency period of between 10 and 50 years and, on average, 30 to 40 years. Therefore, the current cases relate to exposure that occurred decades ago.

Yng Nghymru, canfyddir oddeutu 100 o achosion newydd o mesothelioma bob blwyddyn a mwy na 2,000 yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Disgwylir i nifer yr achosion newydd barhau i gynyddu tan tua 2015 ac yna barhau am flynyddoedd lawer wedyn. Yn ogystal â mesothelioma, mae tystiolaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awgrymu bod nifer tebyg eto o achosion canser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos yn digwydd bob blwyddyn. At hynny, bydd achosion o asbestosis, sef ffibrosis yr ysgyfaint a thewychu pliwraidd. Mae mesothelioma bob tro'n glefyd marwol. Mae'n cael ei achosi drwy fod yn ddiamddiffyn rhag asbestos ac ar ôl cael diagnosis, bydd tua 50% o'r cleifion yn marw o fewn 12 mis. Gall y clefyd aros ynghudd am gyfnod rhwng 10 a 50 mlynedd, ac, ar gyfartaledd, bydd y cyfnod cudd hwnnw'n para rhwng 30 a 40 mlynedd. Felly, mae'r achosion a welir heddiw'n digwydd oherwydd i'r cleifion gael eu gadael yn ddiamddiffyn rhag asbestos ddegawdau yn ôl.

In my past work as a trade union solicitor, I have represented many families over the years. The devastating effect of mesothelioma can be tragically illustrated by one particular family I represented and which I will never forget. I represented a woman who had been diagnosed with mesothelioma. The background to her diagnosis was as tragic as it can get. Her grandfather worked for an insulation company. He died in the 1960s from what was certainly mesothelioma. Her father worked for the same company. He also developed mesothelioma and died. She, herself, had never worked with asbestos, but had secondary exposure as a young girl. When her dad came home, she would greet him, play with him and sit on his lap. She would help wash his work clothes. In this way she was exposed to the asbestos dust that he brought home with him, little knowing that he was introducing this lethal dust into his

Yn rhinwedd fy ngwaith fel cyfreithiwr i undeb llafur yn y gorffennol, rwyf wedi cynrychioli llawer o deuluoedd dros y blynyddoedd. Mae hanes un teulu penodol y bûm yn ei gynrychioli'n ddarlun trasig o effaith ddinistriol mesothelioma ac mae'n hanes nad anghofiaf fyth. Bûm yn cynrychioli menyw a oedd wedi cael gwybod bod mesothelioma arni. Roedd cefndir ei diagnosis mor drasig ag y gall fod. Roedd ei thaid yn gweithio i gwmni insiwleiddio. Bu farw o fesothelioma yn yr 1960au. Nid oes fawr o amheuaeth am hynny. Bu ei thad yn gweithio i'r cwmni hefyd. Cafodd yntau fesothelioma a bu farw. Nid oedd hi ei hun erioed wedi gweithio gydag asbestos, ond a hithau'n ferch ifanc, roedd wedi cael ei gadael yn ddiamddiffyn rhagddo yn sgil ei thad. Pan ddeuai ef adref, byddai'n ei groesawu, yn chwarae gydag ef ac yn eistedd yn ei gôl. Byddai'n helpu i olchi ei ddillad gwaith. Cafodd ei gadael yn ddiamddiffyn

family home. Three generations were wiped out by asbestos over a period of 40 years.

rhag llwch yr asbestos a gludai adref fel hyn heb iddo sylweddoli ei fod yn dod â'r llwch marwol hwn i aelwyd ei deulu. Lladdwyd tair cenhedlaeth gan asbestos dros gyfnod o 40 mlynedd.

This is not just a disease known to the traditional heavy industries: we are seeing teachers being diagnosed with mesothelioma. There were only three such cases a year in the 1980s across the whole of the UK and now there are 16 a year. The presence of asbestos in many older public—and, indeed, private—buildings means that those of us lucky enough to work in new developments will be unaffected, but there are plenty of public sector workplaces throughout Wales that still have asbestos within them. It is a lottery as to who will develop a disease from exposure—men who work alongside each other may do or not. However, we know that the terrible legacy of corporate negligence and wilful disregard for the dangers of asbestos will continue to afflict Welsh workers and their families for many years to come.

Nid dim ond clefyd sy'n hysbys i'r diwydiannau traddodiadol trwm yw hwn: rydym yn gweld athrawon yn dioddef o fesothelioma. Nid oedd ond tri achos y flwyddyn fel hyn yn yr 1980au drwy'r Deyrnas Unedig i gyd ac erbyn hyn, mae 16 y flwyddyn. Mae'r ffaith bod asbestos mewn llawer o'n hadeiladau cyhoeddus hŷn—ac, yn wir yn ein hadeiladau preifat—yn golygu nad effeithir ar y rheini ohonom sy'n ddigon ffodus i weithio mewn datblygiadau newydd, ond mae digonedd o weithleoedd y sector cyhoeddus ledled Cymru lle mae yna asbestos o hyd. Loteri yw hi pwy a gaiff y clefyd drwy gael eu gadael yn ddiamddiffyn—bydd rhai dynion sy'n gweithio ochr yn ochr â'i gilydd yn ei gael ac eraill yn ei osgoi. Ond, gwyddom y bydd gwaddol erchyll esgeulustod corfforaethol ac anwybyddu peryglon asbestos yn fwriadol yn dal i fod yn bla ar weithwyr Cymru a'u teuluoedd am flynyddoedd lawer eto.

For those diagnosed with asbestos disease, the NHS in Wales plays a vitally important role in almost all aspects of their care, from the initial appointments with their GPs through to radiography, diagnosis and treatment by consultants and specialist nurses; radiotherapy; chemotherapy; in some cases, surgery; and, ultimately, for those with the most serious of asbestos-related disease, palliative care. In the briefing at lunch time, prior to this meeting, we heard one of Wales’s leading chest physicians, Dr Ian Williamson, describe the background to asbestos disease and the excellent support that the NHS provides to asbestos sufferers. He commented that, whereas a decade ago there were only a small number of cases per year, the numbers are increasing year on year.

I'r rheini sy'n cael gwybod bod clefyd asbestos arnynt, mae'r GIG yng Nghymru yn chwarae rhan hollbwysig ym mhob agwedd bron ar eu gofal, o'r apwyntiadau cychwynnol â'u meddyg teulu i radiograffeg, diagnosis a thriniaeth gan ymgynghorwyr a nyrsys arbenigol; radiotherapi; cemotherapi, llawdriniaeth mewn ambell achos; a, maes o law, i'r rheini sy'n dioddef o'r clefyd cysylltiedig ag asbestos mwyaf difrifol, gofal lliniarol. Yn y cyfarfod briffio amser cinio, cyn y cyfarfod hwn, clywsom un o brif feddygon y frest yng Nghymru, Dr Ian Williamson, yn disgrifio cefndir clefyd asbestos a'r cymorth rhagorol y bydd y GIG yn ei roi i'r dioddefwyr. Dywedodd, o'i gymharu â degawd yn ôl, pan nad oedd ond nifer bach o achosion bob blwyddyn, fod y niferoedd yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall.

The Bill that I propose tabling is based on existing UK-wide legislation that empowers the Government to recover the medical costs of NHS care following road traffic accidents from negligent drivers and their insurers. If

Seilir y Bil yr wyf yn cynnig ei gyflwyno ar ddeddfwriaeth sydd eisoes ar waith ledled y Deyrnas Unedig. Mae honno'n grymuso'r Llywodraeth i adennill costau meddygol gan yrwyr esgeulus a'u hyswirwyr i dalu am ofal

the motion is successful, the Bill will be brought under the health competency of the Assembly under Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006. It will empower the Welsh Government to recover the cost of medical treatment provided by the NHS in Wales to asbestos sufferers, where there has been a civil judgment or out-of-court settlement. I want to be clear that it does not create any new entitlement to civil compensation and the recoupment of NHS costs will only apply in those cases where there is already an established legal liability to pay compensation. In such cases, the Bill would impose a legal obligation on the employer or insurer who is liable to pay compensation by agreement or under a court order to notify the Welsh Government of the settlement and to repay the cost of the NHS treatment.

y GIG ar ôl damweiniau ar y ffyrdd. Os bydd y cynnig yn llwyddo, cyflwynir y Bil o dan gymhwysedd iechyd y Cynulliad o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd yn grymuso Llywodraeth Cymru i adennill cost triniaeth feddygol a ddarperir gan y GIG yng Nghymru i ddioddefwyr asbestos, lle y cafwyd dyfarniad sifil neu setliad y tu allan i'r llys. Rwyf am ei gwneud yn glir nad yw'n creu unrhyw hawl newydd i iawndal sifil ac na fydd adennill costau'r GIG ond yn berthnasol i'r achosion hynny lle y sefydlwyd eisoes bod rhywun yn gyfreithiol atebol am dalu iawndal. Mewn achosion o'r fath, byddai'r Bil yn ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol ar i'r cyflogwr neu'r yswiriwr sy'n atebol am dalu iawndal, drwy gytundeb neu o dan orchymyn llys, hysbysu Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r setliad ac ad-dalu cost triniaeth y GIG.

It is intended that the costs recovered would be ring-fenced by the Minister for health each year and allocated for the specific benefit of asbestos victims and their families. This is not money that will be lost in the coffers of Government, but funds to be used, for example, to enable the hard-pressed NHS to provide additional support for palliative care or for other forms of support for families through counselling, specialist nursing and so on. In this way, it will be redirected by displacing some of the financial burden from the NHS onto those who caused the harm, for the benefit of those most affected by asbestos disease. I believe that this is an innovative and purposeful use of the new legislative powers of the Assembly and I hope that it will receive your unanimous support.

Y bwriad yw y byddai'r costau a adenillid yn cael eu neilltuo gan y Gweinidog iechyd bob blwyddyn ac yn cael eu dyrannu er budd penodol dioddefwyr asbestos a’u teuluoedd. Ni fydd yr arian hwn yn mynd ar goll yng nghoffrau’r Llywodraeth ond arian ydyw, er enghraifft, i alluogi’r GIG sydd o dan bwysau i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer gofal lliniarol neu ar gyfer ffurfiau eraill o gymorth i deuluoedd drwy gwnsela, nyrsio arbenigol ac ati. Drwy wneud hyn, caiff ei ailgyfeirio drwy drosglwyddo rhywfaint o’r baich sydd ar y GIG i ysgwyddau’r sawl a achosodd y niwed, er budd y rheini y mae clefyd asbestos yn effeithio fwyaf arnynt. Credaf fod defnyddio pwerau deddfu newydd y Cynulliad fel hyn yn arloesol ac yn bwrpasol, ac rwyf yn gobeithio y caiff eich cefnogaeth unfrydol.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I am pleased to have the opportunity to speak in this debate. Although there are a number of issues that require further consideration, the Welsh Government supports, in principle, the proposal for an asbestos (recovery of medical costs) Bill. We will therefore be supporting Mick Antoniw’s motion today.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Rwyf yn falch o gael y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Er bod nifer o faterion y mae gofyn eu hystyried rhagor, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi, mewn egwyddor, y cynnig i gyflwyno Bil ar gyfer asbestos (adennill costau meddygol). Felly, byddwn yn cefnogi cynnig Mick Antoniw heddiw.

Asbestos is the single greatest cause of work-related death in the UK and, in many ways, is one of the great scandals of our industrial history. The lives of many hard-working men

O ran marwolaethau cysylltiedig â gwaith yn y Deyrnas Unedig, asbestos yw'r achos unigol mwyaf un ac, mewn sawl ffordd, dyma un o scandalau mawr ein hanes

and women have been destroyed by illnesses associated with asbestos exposure. Today, Health and Safety Executive figures suggest that asbestos-related disease causes more than 4,000 deaths UK-wide every year. The Trades Union Congress estimates that the figure could be more than 5,000. Around 100 cases of mesothelioma are diagnosed in Wales each year. Mesothelioma is cancer of the lining of the lungs and is only caused by asbestos exposure.

diwydiannol. Mae bywydau llawer o ddynion a menywod sy'n gweithio'n galed wedi cael eu difetha gan afiechydon sy'n gysylltiedig â chael eu gadael yn ddiamddiffyn rhag asbestos. Heddiw, mae ffigurau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awgrymu bod clefydau cysylltiedig ag asbestos yn achosi mwy na 4,000 o farwolaethau ledled y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae Cyngres yr Undebau Llafur yn amcangyfrif y gallai'r ffigur fod yn fwy na 5,000. Bydd tua 100 o bobl bob blwyddyn yn cael gwybod bod mesothelioma arnynt. Canser yn leinin yr ysgyfaint yw mesothelioma a'r unig beth sy'n ei achosi yw bod yn ddiamddiffyn rhag asbestos.

4.15 p.m.

As Mick said, it is invariably fatal—usually within three to nine months of diagnosis. The Health and Safety Executive estimates that, for every mesothelioma case, a similar number of asbestos-related lung cancer cases are also diagnosed each year. In addition, there are hundreds of asbestosis cases—fibrosis of the lung—and many more cases of pleural thickening. Most cases arise from asbestos exposure that occurred decades ago. The average latency period for the disease is between 30 and 40 years. The number of people affected continues to rise due to the time that it can take for the illness to develop and is expected to peak around 2015. While any premature death is a tragedy, there seems to me to be something particularly horrifying about a condition that can lie latent for 30 to 40 years and then cause inevitable death within months of diagnosis.

Fel y dywedodd Mick, mae bob tro'n farwol—o fewn rhwng tri a naw mis i'r diagnosis. Yn ôl amcangyfrifon yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ar gyfer pob achos o mesothelioma, bydd nifer tebyg yn cael gwybod hefyd bod ganddynt ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos. Yn ogystal â hynny, mae cannoedd o achosion o asbestosis—ffibrosis yr ysgyfaint—a llawer mwy o achosion o dewychu pliwraidd. Bydd y rhan fwyaf o'r achosion yn codi oherwydd bod pobl wedi'u gadael yn ddiamddiffyn rhag asbestos ddegawdau yn ôl. Cyfnod cudd y clefyd ar gyfartaledd yw rhwng 30 a 40 mlynedd. Mae nifer y bobl yr effeithir arnynt yn dal i gynyddu oherwydd ei bod yn cymryd cymaint o amser i'r salwch ddatblygu a disgwylir y bydd ar ei anterth tua'r flwyddyn 2015. Er bod unrhyw farwolaeth cyn pryd yn drasiedi, mae'n ymddangos i mi fod rhywbeth arbennig o ddychrynllyd am gyflwr sydd efallai'n gorwedd ynghudd am oddeutu 30 i 40 mlynedd ac wedyn yn achosi marwolaeth anochel o fewn misoedd i'r diagnosis.

The ambition behind Mick's proposed Bill, that the NHS costs associated with treatment of these diseases should be recovered, is therefore something that we should all welcome. Of course, there are practical and legal issues that will have to be resolved. There are currently no directly comparable activities within NHS Wales that could provide a template for implementation or an indication of the likely cost of administering

Felly, mae'r uchelgais sy'n gefn i Fil arfaethedig Mick, sef y dylid adennill costau'r GIG sy'n gysylltiedig â thrin y clefydau hyn, yn rhywbeth y dylem i gyd ei groesawu. Wrth gwrs, bydd angen datrys materion ymarferol a chyfreithiol. Ar hyn o bryd, nid oes gweithgareddau y gellir eu cymharu'n uniongyrchol â hyn o fewn GIG Cymru a allai gynnig templed ar gyfer gweithredu neu awgrym ynglŷn â chost

a scheme. Existing arrangements under the injury cost recovery scheme legislation are administered by the Department for Work and Pensions. I also understand that Mick intends the Bill to include provision for all costs to be recovered, including primary and community care costs. I note this, but we need to be mindful of the potential practical difficulties in identifying the treatment that has been received over a lengthy period. We will also need to think about issues around current and past residency, where people received their treatment, and whether this affects the recovery of costs. So, there are plenty of issues that need further consideration and examination, and I know that Mick is aware of them. However, I strongly believe that we should not be put off, but rather should work hard to identify solutions to those issues. For that reason, the Welsh Government supports the principle of the proposed Bill, and will support this motion today.

debygol gweinyddu cynllun. Gweinyddir y trefniadau presennol o dan ddeddfwriaeth y cynllun adennill costau am anafiadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Caf ar ddeall hefyd fod Mick yn bwriadu i'r Bil gynnwys darpariaeth i'r holl gostau gael eu hadennill, gan gynnwys costau gofal sylfaenol a chymunedol. Nodaf hyn, ond mae angen inni gadw mewn cof yr anawsterau ymarferol posibl a allai godi o ran cael gwybod pa driniaeth a gafwyd dros gyfnod hir. Bydd angen inni feddwl hefyd am faterion sy'n ymwneud â phreswyliaeth ar hyn o bryd ac yn y gorffennol, ymhle y cafodd pobl eu trin, ac a yw hyn yn effeithio ar adennill y costau. Felly, mae llawer o bethau y mae angen eu hystyried a'u harchwilio'n fanylach, a gwn fod Mick yn ymwybodol ohonynt. Serch hynny, rwyf yn credu'n gryf na ddylai hyn ein hatal ond y dylem yn hytrach weithio'n galed i ganfod atebion i'r problemau hyn. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddor y Bil arfaethedig ac y bydd yn cefnogi'r cynnig heddiw.

**Darren Millar:** I congratulate Mick on bringing forward this innovative proposal for a Bill. We on the Welsh Conservative benches fully support it, and we look forward to exploring it in more detail at committee stage should it move forward today. I was pleased to see the Minister for Health and Social Services also extend her support to moving this issue forward.

**Darren Millar:** Rwyf yn llongyfarch Mick ar gyflwyno'r cynnig arloesol hwn ar gyfer Bil. Rydym ni ar feinciau'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei gefnogi'n llwyr, ac edrychwn ymlaen at ei archwilio'n fanylach yn ystod cyfnod y pwyllgor os aiff rhagddo heddiw. Roeddwn yn falch o weld bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hithau'n cefnogi bwrw ymlaen â'r mater hwn.

There is no doubt that everybody deserves to be safe and to remain well in their place of work, and everybody deserves to have a diligent employer to protect them from harm at work. However, that is, unfortunately, not always the case, and, for the many who came across asbestos in their day-to-day employment and in other parts of their daily lives the consequences have been severe. Mick rightly pointed to some examples from his own experience in his constituency, and we can all point to examples of people who have been known to us and our family and friends—very tragic cases. We know that the ill health caused by exposure to asbestos can lead not just to long-term chronic conditions but also, in some cases, to death.

Nid oes amheuaeth nad yw pawb yn haeddu bod yn ddiogel a chadw'n iach yn eu man gwaith, a bod pawb yn haeddu cael cyflogwr cydwybodol i'w warchod rhag niwed yn y gwaith. Serch hynny, yn anffodus, nid felly y mae bob tro, ac i'r llu a ddaeth ar draws asbestos yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac mewn rhannau eraill o'u bywyd beunyddiol, mae'r canlyniadau wedi bod yn ddifrifol. Roedd Mick yn llygad ei le'n cyfeirio at ychydig o enghreifftiau o'i brofiad ei hun yn ei etholaeth, a gallwn i gyd sôn am enghreifftiau o bobl yr ydym ni a'n teuluoedd a'n cyfeillion wedi'u hadnabod—achosion trasig iawn. Gwyddom fod yr afiechyd sy'n cael ei achosi yn sgil bod yn ddiamddiffyn rhag asbestos yn gallu arwain nid dim ond at gyflyrau cronig tymor hir ond hefyd, mewn ambell achos, at farwolaeth.

You are quite right, Mick—we have not yet reached the height of the human cost of asbestos in this country. The number of cases is increasing, as the Minister has outlined, and it is a cause for concern that this means increasing costs for the Welsh NHS at a time when budgets are under significant pressure. Anything that can be done to recover the cost to the public purse of the illnesses that have been caused by asbestos can only be a good thing. We are talking only about those cases where employers, in particular, have been proven to be negligent, so it makes sense that we use the tools available to us to seek justice for the taxpayer as well, in terms of the costs.

Rydych yn gwbl gywir, Mick—nid yw cost ddynol asbestos wedi cyrraedd ei hanterth eto yn y wlad hon. Mae nifer yr achosion yn cynyddu, fel y crybwyllwyd gan y Gweinidog, ac mae'n destun pryder bod hyn yn golygu cynnydd yng nghostau GIG Cymru a chyllidebau o dan bwysau sylweddol. Mae unrhyw beth y gellir ei wneud i adennill y gost i'r pwrs cyhoeddus, yn sgil yr afiechydon sydd wedi'u hachosi gan asbestos, o reidrwydd yn beth da. Nid ydym ond yn sôn am yr achosion hynny lle y profwyd bod cyflogwyr, yn benodol, yn esgeulus. Felly, mae'n gall inni ddefnyddio'r arfau sydd ar gael inni er mwyn ceisio cyfiawnder i'r trethdalwr hefyd, o ran y costau.

There are areas that need to be thought through in terms of the cross-border issues and the practical application of legislation as we go forward. We also need to consider the fact that legal action in itself can be quite costly, and, if the Welsh Government is to seek to recover costs, then those costs must be more than the cost of the legal action that we might need to take in order to recover them. I know that measures such as the grouping of claims, so that there can be a collective element to recovering costs, might be the way forward. However, in short, I congratulate Mick on bringing this to the Chamber, and I hope that we will be able to bring forward some practical solutions as we consider it at the committee stage. I look forward to being able to contribute to that debate.

Mae angen ystyried rhai pethau o ran y materion trawsffiniol a sut yr eir ati'n ymarferol i roi'r ddeddfwriaeth ar waith wrth inni fwrw ymlaen. Mae angen inni ystyried hefyd y ffaith y gall y camau cyfreithiol eu hunain fod yn eithaf costus, ac, os yw Llywodraeth Cymru am geisio adennill y costau, yna, rhaid i'r costau hynny fod yn fwy na chost y camau cyfreithiol y gall fod angen inni eu cymryd er mwyn eu hadennill. Gwn y gall fod modd datrys hyn drwy gymryd camau megis grwpio hawliadau, er mwyn adennill y costau drwy gyfuno achosion. Serch hynny, rwyf yn llongyfarch Mick ar ddod â hyn gerbron y Siambr, ac rwyf yn gobeithio y gallwn gyflwyno rhywfaint o atebion ymarferol wrth inni ei ystyried yn ystod y cyfnod pwyllgor. Rwyf yn edrych ymlaen at allu cyfrannu at y ddadl honno.

**Joyce Watson:** First, I state my wholehearted support of Mick Antoniw in his bid to bring forward an asbestos (recovery of medical costs) Bill. I recognise that it promises further justice for asbestos victims and their families, both current and, sadly, those to come. Mick has described in sorrowful detail the terrible legacy of asbestos—the suffering of its victims and the pain of their families. I think that Members on all sides of the Chamber will agree that, where wilful negligence is proved in a civil court, our already burdened national health service should have recourse to recover the cost of treatment.

**Joyce Watson:** Yn gyntaf, hoffwn ddatgan fy mod yn llwyr gefnogi Mick Antoniw yn ei gais i gyflwyno Bil ar gyfer asbestos (adennill costau). Rwyf yn sylweddoli ei fod yn addo rhagor o gyfiawnder i ddioddefwyr asbestos a'u teuluoedd, ar hyn o bryd, ac, yn anffodus, y rheini a fydd yn dioddef yn y dyfodol. Mae Mick wedi disgrifio'n fanwl o drist waddol echrydus asbestos—trallod y rhai sy'n dioddef yn ei sgil a phoen eu teuluoedd. Credaf y bydd Aelodau ar bob ochr i'r Siambr yn cytuno, lle y profir esgeulustod bwriadol mewn llys sifil, y dylai ein gwasanaeth iechyd gwladol sydd eisoes yn ysgwyddo beichiau mawr, allu adennill cost y driniaeth.

In reading the background to the Bill, I was disturbed to learn how timely the legislation will be. The long latency period between exposure to asbestos dust and developing these horrible, insidious diseases is such that we will still not have reached the peak. Asbestos will wreak more misery before the rate of disease begins to subside.

Wrth ddarllen cefndir y Bil, roeddwn yn tristáu wrth ddeall pa mor amserol y bydd y ddeddfwriaeth hon. Mae'r cyfnod cudd hir rhwng bod yn ddiamddiffyn rhag llwch asbestos a datblygu'r clefydau echrydus, ofnadwy hyn mor hir nes nad yw wedi cyrraedd ei anterth eto. Bydd asbestos yn creu mwy o drallod cyn i gyfradd y clefyd ddechrau edwino.

I appreciate that today is for debating the principle of such a Bill, not necessarily the detail. As I said, I fully support the principle of the proposed Bill and what it sets out to achieve. It would be useful to flesh out some specifics, however. In particular, Mick has drawn an interesting comparison between his proposal and existing legislation for recovering costs from road traffic accidents. I would be interested to learn what the legal experience of this has been and how often and how successfully it has been used. Also, I would like to know how the NHS has calculated costs in these cases and whether, given the long-term nature of ongoing treatment, the NHS would recover costs in a piecemeal way, as patients received treatment, or whether it would be simply a one-off payment.

Rwy'n sylweddoli mai diwrnod i drafod egwyddor Bil o'r fath yw heddiw, ac nid y manylion o reidrwydd. Fel y dywedais, rwyf yn llwyr gefnogi egwyddor y Bil arfaethedig a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni. Serch hynny, byddai'n fuddiol rhoi ychydig o gnawd ar ambell bwynt. Yn benodol, mae Mick wedi tynnu sylw at gymhariaeth ddiddorol rhwng ei gynnig ef a'r ddeddfwriaeth sydd eisoes ar waith ar gyfer adennill costau yn sgil damweiniau ar y ffyrdd. Byddai'n dda gennyf glywed am y profiad cyfreithiol yn y cyswllt hwn, pa mor aml y defnyddiwyd y gyfraith ac i ba raddau y llwyddodd hynny. Hoffwn wybod hefyd sut mae'r GIG wedi cyfrifo costau yn yr achosion hyn ac a fyddai'r GIG, ac ystyried natur tymor hir triniaeth barhaus, yn adennill costau fesul tipyn, wrth i'r cleifion gael eu trin, ynteu a fyddai ond yn cael taliad untro.

I sincerely hope that the Bill passes this stage so that we can return to these and other issues. Once again, I commend Mick Antoniw on bringing this worthy proposal before the Assembly today.

Rwyf yn gobeithio o ddifrif y bydd y Bil yn mynd drwy'r cyfnod hwn er mwyn inni ddychwelyd at y mater hwn a materion eraill. Unwaith eto, rwyf am ganmol Mick Antoniw am ddod a'r cynnig clodwiw hwn gerbron y Cynulliad heddiw.

**Elin Jones:** Fel sawl un arall, rwy'n hapus iawn i gefnogi'r egwyddor y prynhawn yma i ganiatáu i Mick Antoniw barhau i ddatblygu'r cynnig i ddeddfu yn y maes hwn. Mae Mick Antoniw wedi amlinellu erchylltra clefydau asbestos yn ei gyflwyniad a'r goblygiadau ar gyfer iechyd yr unigolyn a'r gost i'r NHS. Mae'r egwyddor o ad-dalu i'r NHS am y gost o drin y claf pan fod esgeulustod wedi'i brofi yn egwyddor a gefnogaf yn llawn. Fodd bynnag, mae ambell gwestiwn yn codi a fydd angen eu hasesu'n fanwl cyn y cytunir ar y fath ddeddfwriaeth yn derfynol.

**Elin Jones:** Like others who have spoken, I am very happy to support the principle this afternoon to allow Mick Antoniw to continue to develop the proposal to legislate in this field. Mick Antoniw has outlined the horrors of asbestos-related diseases in his opening remarks and the implications for the health of the individual and the cost to the NHS. The principle of repaying the NHS the cost of treating the patient when negligence has been proven is one that I support fully. However, a few questions arise that will need to be dealt with in full before such legislation is finally agreed.

Mae'r Gweinidog ac eraill wedi cyfeirio at

The Minister and others have referred to

ambell un o’r cwestiynau hyn a hoffwn innau wneud yn yr un modd. Y mwyaf o’r rhain i mi yw’r angen am ddadansoddiad cost a budd llawn o gyflwyno Bil o’r fath. Ni fyddem fyth am gyrraedd pwynt lle byddai’r gost o ariannu strwythur i adennill costau meddygol gan gyflogwyr yn fwy na’r gost i’r NHS o drin yr unigolyn. Felly, cyn imi benderfynu cefnogi deddfwriaeth o’r fath yn derfynol, bydd angen imi weld dadansoddiad clir y bydd y budd ariannol i’r pwrs cyhoeddus yn sylweddol fwy na’r costau i’r Llywodraeth o greu system i adennill yr arian i’r NHS. Fel dywedodd y Gweinidog yn ei chyfraniad, nid oes system debyg yn bodoli yn yr NHS nac o fewn y Llywodraeth ar hyn o bryd.

some of these questions and I would like to do the same. The greatest of these is the need for a full cost-benefit analysis of introducing such a Bill. We would never want to reach a point where the cost of funding the structure to re-claw medical costs from the employer would be greater than the cost to the NHS of treating the individual. Therefore, before I finally decide to support such legislation, I will need to see a clear analysis that the financial benefit to the public purse will be significantly greater than the cost to the Government of creating a system to re-claw these funds for the NHS. As the Minister said in her contribution, such a system does not exist in the NHS or within the Government currently.

Cwestiwn arall gennyf yw: beth fyddai’n digwydd pe byddai’r sector cyhoeddus yn gyflogwr? Byddai’r Llywodraeth hon, o bosibl, eisiau adennill costau gan lywodraeth leol neu Lywodraeth San Steffan fel cyflogwyr, ond beth fyddai’n digwydd pe byddai’r Llywodraeth hon yn gyflogwr? Bu achos yn fy etholaeth a ddaeth yn gyhoeddus fis Awst y llynedd, lle’r oedd 30 o’r staff cynnal a chadw yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais wedi dod i gysylltiad ag asbestos rhwng 2004 a 2009. Yn yr achos hwnnw, mae’r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch wedi dweud na fydd hi’n bosibl dod ag achos esgeulustod llwyddiannus yn erbyn y cyflogwr am nad yw’r cyflogwr ar y pryd, sef ymddiriedolaeth iechyd Ceredigion, yn bodoli bellach ac nad yw’r *liability* cyfreithiol wedi’i drosglwyddo i’r cyflogwr newydd, sef Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.

I have another question: what would happen if the public sector were the employer? Possibly, the Government here would want to re-claw costs from local government or the Westminster Government if they were the employer, but what would happen if this Government were the employer? There was a case in my constituency that was made public last August, where 30 members of the maintenance staff at Bronglais General Hospital were exposed to asbestos between 2004 and 2009. In that case, the Health and Safety Executive has said that it will not be possible to bring a successful negligence case against the employer as the employer at that time, namely Ceredigion health trust, no longer exists and legal liability was not transferred to the new employer, namely Hywel Dda Local Health Board.

Mae Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, yn cynnal adolygiad o’r achos hwn yn ysbyty Bronglais. Rwy’n gobeithio clywed argymhellion yr adolygiad hwnnw rhywbryd yn y dyfodol. Y cwestiwn rwyf am i Mick Antoniw ei ateb, felly, wrth iddo ddatblygu’r ddeddfwriaeth, yw sut bydd y ddeddfwriaeth yn delio ag achosion lle mai’r sector cyhoeddus yw’r cyflogwr ac, fel yn achos ysbyty Bronglais, lle mai’r Llywodraeth yw’r cyflogwr.

The Welsh Government is currently undertaking a review of this case in Bronglais hospital. I hope to hear the recommendations of that review sometime in the future. The question that I would like to see Mick Antoniw answer, therefore, as he develops the legislation, is how the legislation will deal with cases where the public sector is the employer and, as in the case of Bronglais hospital, where the Government is the employer.

Fodd bynnag, am y tro, rwy’n fwy na hapus i gymeradwyo’r ddeddfwriaeth hon mewn egwyddor ac rwy’n edrych ymlaen at weld y manylion wrth i ni symud i’r cam nesaf.

However, for the time being, I am more than happy to approve this legislation in principle and I look forward to seeing the details as we progress to the next stage.

**Kirsty Williams:** I congratulate Mick Antoniw on his good fortune in winning the ballot and being able to bring forward this piece of legislation. From the outset, I put on record the concern of the Welsh Liberal Democrats for all those families affected by illnesses related to exposure to asbestos. Mick Antoniw painted a very stark picture of the reality of that for families throughout Wales. It is clear from the evidence that Mick has brought forward that the costs to the NHS of providing care for those individuals is not insignificant.

**Kirsty Williams:** Rwyf yn llongyfarch Mick Antoniw ar fod mor ffodus ag ennill y balot a gallu cyflwyno’r darn hwn o ddeddfwriaeth. O’r cychwyn, hoffwn gofnodi cydymdeimlad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru â'r holl deuluoedd hynny y mae afiechydon cysylltiedig â bod yn ddiamddiffyn rhag asbestos yn effeithio arnynt. Rhoddodd Mick Antoniw ddarlun clir iawn o realiti hynny i deuluoedd ledled Cymru. Mae’n amlwg o’r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Mick fod costau darparu gofal i'r unigolion hynny'n sylweddol i'r GIG.

However, as has been stated, at this stage, the proposal raises more questions than answers. Who will qualify? The Minister alluded to issues relating to residency, past residency and where treatment had previously been provided. Who will decide the cost of the NHS treatment? In arriving at that figure, is it primary care, secondary care, or the whole package that will be assessed? Whose job will it be to find that out and put a price tag on it? Having established the costs, who will be responsible for taking on the recovery of them? As Elin Jones rightly said, we would not want to create a system that costs more for the Assembly to administer than it brings back in recovered costs. How can we be assured that the money recovered for the NHS is used for the purposes expressed by Mick Antoniw? Are we to have a separate fund or funding stream for each LHB? It is much more complex to set up, I suggest, than it is to state in a speech this afternoon.

Serch hynny, fel y dywedwyd, ar hyn o bryd, mae’r cynnig yn codi mwy o gwestiynau nag y mae’n eu hateb. Pwy a fydd yn gymwys? Crybwyllodd y Gweinidog faterion cysylltiedig â phreswyliaeth, preswyliaeth yn y gorffennol ac ymhle y darparwyd triniaeth yn y gorffennol. Pwy a fydd yn penderfynu faint mae triniaeth y GIG yn ei gostio? Wrth bennu'r ffigur hwnnw, ai gofal sylfaenol, gofal eilaidd ynteu’r pecyn cyfan a asesir? Gwaith pwy fydd cael gwybod hynny a rhoi pris arno? Ar ôl pennu’r costau, pwy a fydd yn gyfrifol am eu hadennill? Roedd Elin Jones yn llygad ei lle’n dweud na fyddem am greu system sy’n costio mwy i’r Cynulliad ei gweinyddu na’r costau y byddai’n eu hadennill. Sut y gallwn fod yn sicr bod yr arian a adenillir i'r GIG yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a restrwyd gan Mick Antoniw. Ai cronfa ar wahân fydd hon ynteu a fydd llif ariannu ar gael i bob BILl? Byddwn yn awgrymu ei fod yn fwy cymhleth o lawer i’w sefydlu nag y mae i’w ddatgan mewn araith heddiw.

There is some precedent here. The decision in the case of Drake and Others v. Foster Wheeler Ltd in 2010, which Mick will know well, I am sure, saw the solicitors recover not only the costs associated with care incurred by the family, but also the costs associated with the deceased’s stay in a hospice before his death. The judge made a particular distinction in that case between the recovery of the cost of hospice care and that of the general NHS, because of the palliative nature of the care provided at the hospice.

Mae rhywfaint o gynsail yma. Yn y penderfyniad yn achos Drake a’r Lleill v. Foster Wheeler Ltd 2010, y bydd Mick yn gwybod amdano’n dda, rwyf yn siŵr, llwyddodd y cyfreithwyr i adennill nid yn unig y costau a oedd yn gysylltiedig â’r gofal y bu’n rhaid i’r teulu eu talu, ond hefyd y costau a oedd yn gysylltiedig â’r cyfnod a dreuliodd y claf mewn hosbis cyn iddo farw. Roedd y barnwr yn gwahaniaethu’n benodol yn yr achos hwnnw rhwng adennill costau gofal mewn hosbis ac yn y GIG yn gyffredinol, oherwydd natur liniarol y gofal a ddarparwyd yn yr hosbis.

It raises important principles of precedent in relation to the NHS and the delivery of services. Mick, quite rightly, because of the scale of this problem, has looked at the issue of asbestos in particular. However, we could also make similar cases in relation to those who have been through the process of miners' compensation. There could be a Bill to look at the recovery of the cost to the NHS of treating vibration white finger or chronic obstructive pulmonary disease. Then, if we go down the line of miners' compensation, what about the other myriad conditions, diseases and illnesses that could be linked to a specific cause? At what stage does the NHS look to recover all those costs when treating someone? This brings up some important principles about the relationship between illness, the causes of illness, the NHS's duty to provide a service, and the question of who is ultimately responsible for paying for that service. Those are important principles that will need to be looked at as the legislation progresses.

Mae'n codi egwyddorion pwysig ynglŷn â chynsail yng nghyswllt y GIG a darparu gwasanaethau. Oherwydd maint y broblem hon, mae Mick, a hynny'n gwbl gywir, wedi edrych ar fater asbestos yn benodol. Serch hynny, gallem ddadlau hefyd mewn modd tebyg am y rheini sydd wedi bod drwy broses yr iawndal i lowyr. Gellid cyflwyno Bil i edrych ar adennill y gost a ysgwyddir gan y GIG wrth iddo drin cyflwr y bysedd gwyn neu glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint. Yna, os awn ar drywydd iawndal i lowyr, beth am y llu o gyflyrau, clefydau ac afiechydon eraill y gellid eu cysylltu ag achos penodol? Yn ystod pa gam y bydd y GIG yn ystyried adennill yr holl gostau hynny wrth drin rhywun? Mae hyn yn codi nifer o egwyddorion pwysig ynglŷn â'r berthynas rhwng y clefyd, achosion y clefyd, dyletswydd y GIG i ddarparu gwasanaeth, a'r cwestiwn ynglŷn â phwy yn y pen draw sy'n gyfrifol am dalu am y gwasanaeth hwnnw. Mae'r rheini'n egwyddorion pwysig y bydd angen eu hystyried wrth i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi.

4.30 p.m.

With those questions, I congratulate Mick on his good fortune and his work to date. As the legislation proceeds, I look forward to hearing how some of these issues are to be addressed.

Ar ôl codi'r cwestiynau hynny, rwyf yn llongyfarch Mick ar fod mor ffodus ac am ei waith hyd yn hyn. Wrth i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi, edrychaf ymlaen at glywed sut yr eir i'r afael â rhai o'r materion hyn.

**Nick Ramsay:** I add my voice to those who have said that they are happy to support Mick Antoniw at this stage as we discuss the general principles of dealing with recompense for the NHS when asbestos has been a problem in people's lives.

**Nick Ramsay:** Ychwanegaf fy llais at leisiau'r rheini sydd wedi dweud eu bod yn hapus i gefnogi Mick Antoniw yn ystod y cam hwn wrth inni drafod egwyddorion cyffredinol ymdrin â thalu iawndal i'r GIG pan fydd asbestos wedi bod yn broblem ym mywydau pobl.

In the third Assembly, I set up the cross-party group on asbestos, and I think that Mick came along and spoke at one of the meetings, wearing his previous hat. I remember his presentation discussing the human and the legal cost of asbestos, as well as receiving contributions from the companies involved in trying to deal with the asbestos problem. I was aware then of his passion for the subject. Therefore, I am pleased that, as Kirsty Williams said, Mick has been lucky in being chosen from the ballot at this point, succeeding where many AMs have yet to

Yn y trydydd Cynulliad, sefydlais y grŵp trawsbleidiol ar asbestos, a chredaf fod Mick wedi dod i siarad yn un o'r cyfarfodydd, gan wisgo'i het flaenorol. Rwyf yn cofio'i gyflwyniad yn trafod cost ddynol a chyfreithiol asbestos, a chofiaf hefyd gyfraniadau gan y cwmnïau a oedd yn ymwneud â cheisio ymdrin â phroblem asbestos. Roeddwn yn ymwybodol bryd hynny ei fod yn teimlo'n angerddol am y pwnc. Felly, rwyf yn falch, fel y dywedodd Kirsty Williams, fod Mick wedi bod mor ffodus â chael ei ddewis yn y balot y tro hwn,

succeed, and that he has raised a subject that is not just close to his heart, but also to mine.

gan lwyddo lle mae llawer o ACau heb lwyddo hyd yn hyn, a'i fod wedi codi pwnc sydd nid yn unig yn agos at ei galon ef, ond at fy nghalon innau.

In the third Assembly, I led a short debate on 'Asbestos: the Hidden Killer', during which I called on the then Assembly Government to look at the problem of asbestos in Wales. It is an issue that we keep coming back to, because, as the Minister said when referring to the statistics earlier, it is a worrying problem and there is an increasing awareness of the problem that we are facing. It used to be considered that, although the health aspects of asbestos were known—although not everyone accepts that, which is a great shame—it was thought that it was easier to leave asbestos in situ and not touch it as a subject. I am pleased that today's debate shows that that is no longer an acceptable way of proceeding. The figures show that 4,000 people die each year of asbestos-related illnesses in the UK and, by 2020, as we heard, that figure will have risen by 10,000 due to the potentially long incubation period for people who work in areas or live in homes affected by asbestos. I know that some Members may have heard of the Armley disaster, where a suburb of Leeds was affected by an asbestos factory between 1906 and around 1960. That affected around 1,000 homes and the case is still progressing.

Yn y trydydd Cynulliad, arweiniais ddadl fer ar 'Asbestos: Y Lladdwr Cudd', ac yn ystod y ddadl honno, galwais ar Lywodraeth y Cynulliad ar y pryd i ystyried problem asbestos yng Nghymru. Mae'n bwnc y byddwn yn dod yn ôl ato o hyd, oherwydd, fel y dywedodd y Gweinidog wrth gyfeirio at yr ystadegau gynnau, mae'n broblem syn peri pryder ac mae pobl yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r broblem yr ydym yn ei hwynebu. Arferid meddwl, er bod agweddau iechyd asbestos yn hysbys—er nad yw pawb yn derbyn hynny, sy'n bechod mawr—ei bod yn haws gadael asbestos yn y fan a'r lle a pheidio â chyffwrdd â'r pwnc. Rwyf yn falch bod y ddadl heddiw yn dangos nad yw hynny'n ffordd dderbyniol o fwrw ymlaen rhagor. Dengys y ffigurau fod 4,000 o bobl yn marw o afiechydon cysylltiedig ag asbestos bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig a chlywsom y bydd y ffigur hwnnw wedi cynyddu 10,000 erbyn 2020 oherwydd y cyfnod hir y gall y clefyd aros ynghudd i bobl sy'n gweithio mewn ardaloedd neu'n byw mewn cartrefi y mae asbestos yn effeithio arnynt. Gwn y bydd rhai Aelodau wedi clywed am drychineb Armley, lle yr effeithiwyd ar un o faestrefi Leeds gan ffatri asbestos rhwng 1906 a thua 1960. Effeithiodd hynny ar oddeutu 1,000 o gartrefi ac mae'r achos yn dal i fynd rhagddo.

Sadly, we have to accept that, for many, the damage is done. However, it is a reasonable principle that Mick is trying to progress, namely that, if liability has been proved in a particular case, we should seek to recover some of the costs for the NHS. I think that Mick used the example of car accidents and, where liability is proved in such instances, it is an accepted principle that there should be some sort of recompense. That said, I hear some of the concerns raised by Kirsty Williams, Elin Jones and other AMs. A number of questions need to be answered. We need some sort of analysis of the exact cost to the NHS, difficult though that may be. There is also the question of who we intend to qualify, and Darren also mentioned cross-border issues.

Yn anffodus, rhaid inni dderbyn bod y difrod wedi'i wneud i lawer. Serch hynny, mae'r egwyddor y mae Mick yn ceisio'i datblygu'n egwyddor resymol, sef, os profwyd atebolrwydd mewn achos arbennig, y dylem geisio adennill rhywfaint o'r costau i'r GIG. Credaf fod Mick wedi defnyddio enghraifft damweiniau ceir a, lle y profir atebolrwydd mewn amgylchiadau o'r fath, derbynnir yr egwyddor y dylai fod rhyw fath o iawndal. Wedi dweud hynny, rwyf yn cydymdeimlo â rhai o'r pryderon a godwyd gan Kirsty Williams, Elin Jones ac ACau eraill. Mae angen ateb nifer o gwestiynau. Mae angen rhyw fath o ddadansoddiad o'r union gost i'r GIG, pa mor anodd bynnag fyddai hynny. Hefyd, mae angen ystyried pwy yr ydym yn bwriadu iddynt fod yn gymwys a soniodd

Darren hefyd am faterion trawsffiniol.

The issue with asbestos, as Mick will know from his background as a lawyer, is that we are dealing with a long period of time for the incubation of mesothelioma and asbestosis, the classic cases, and that delay causes complications that do not arise in respect of many other illnesses. However, at this point, I am happy to support the general principles and to see these issues dealt with at a future time.

Y broblem gydag asbestos, fel y bydd Mick yn gwybod oherwydd ei gefndir fel cyfreithiwr, yw ein bod yn ymdrin â chyfnod hir pan fydd mesothelioma ac asbestosis ynghudd, yr achosion clasurol, ac mae'r oedi hwnnw’n achosi cymhlethdodau nad ydynt yn codi yng nghyswllt llawer o afiechydon eraill. Serch hynny, ar hyn o bryd, rwyf yn hapus i gefnogi’r egwyddorion cyffredinol ac i weld y materion hyn yn cael eu trafod rywbryd eto.

I will finish by mentioning a constituent whom I met, who brought home to me the true scale of the problem that we face. He is now retired, but he used to work in the nuclear industry and, in his younger days, worked in the team that constructed the Magnox reactors that used asbestos insulation for the reactor casing. It came in powder form, which was mixed with water to create a type of plasticine. He joked that he and his friends used to throw it around like snowballs before they attached it to the casing. He told me that he now has mesothelioma—and I think that he has a problem with the pleural cavity rather than the lungs—but that he is the lucky one, as every single member of that team that he worked with has since died of an asbestos-related condition. Therefore, it is important that we recognise the potential problems in the workplace. As I said, I am happy to support Mick’s proposal for a Bill at this point, and I hope that many of the questions that have been raised can be addressed.

Tynnaf i ben drwy grybwyll rhywun o’m hetholaeth y cyfarfûm ag ef, a’m gwnaeth yn ymwybodol o wir faint y broblem yr ydym yn ei hwynebu. Mae wedi ymddeol erbyn hyn ond arferai weithio yn y diwydiant niwclear a, phan oedd yn iau, bu’n gweithio yn y tîm a adeiladodd adweithyddion Magnox lle y defnyddid asbestos i insiwleiddio cas yr adweithydd. Daeth yr asbestos ar ffurf powdwr, ac fe gâi ei gymysgu â dŵr i greu math o blastisin. Byddai’n cellwair ei fod ef a’i gyfeillion yn arfer ei daflu fel peli eira cyn ei gydio yn y cas. Dywedodd wrthyf fod mesothelioma arno bellach—a chredaf mai problem yng ngheudod y plewra sydd ganddo yn hytrach nag ar ei ysgyfaint—ond mai ef yw’r un ffodus, oherwydd bod pob un o’r tîm hwnnw y bu’n gweithio gydag ef bellach wedi marw o gyflwr cysylltiedig ag asbestos. Felly, mae’n bwysig inni sylweddoli beth yw’r problemau posibl yn y gweithle. Fel y dywedais, rwyf yn hapus i gefnogi cynnig Mick ar gyfer Bil ar hyn o bryd, gan obeithio y bydd modd rhoi sylw i lawer o’r cwestiynau sydd wedi’u codi.

**Mick Antoniw:** I thank everyone for the valid comments and concerns that have been raised. The first raised by Kirsty was about my luck in winning the ballot. When it was announced that my name had been selected, I wondered why I had not also bought a lottery ticket that day, but so be it.

**Mick Antoniw:** Diolch i bawb am y sylwadau a’r pryderon dilys sydd wedi’u codi. Y pwynt cyntaf a godwyd oedd gan Kirsty ynglŷn â'm lwc yn ennill y balot. Pan gyhoeddwyd bod fy enw wedi’i ddethol, roeddwn yn difaru na phrynais docyn loteri y diwrnod hwnnw hefyd, ond dyna ni.

The points raised are valid, and they are ones to which I have been applying my mind. I have been working alongside Vaughan Gething on this and have been getting additional support from the trade unions on the background and the drafting, and so on.

Mae’r pwyntiau a godwyd yn rhai dilys a dyma’r pwyntiau yr wyf wedi bod yn rhoi sylw iddynt. Rwyf wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Vaughan Gething ar hyn ac wedi bod yn cael cymorth ychwanegol gan yr undebau llafur o ran y cefndir a’r drafftio ac ati.

The intention is to produce a template, a form of tariff system, and we are approaching that by looking at medical records in individual cases to evaluate the sorts of treatments that have been given. One of the difficulties is that no two cases are the same, and you are absolutely right that the administrative cost element of this must be negligible. There is a fairly simple way in which it can be done, and we are looking at that with experts at the moment. When we present the Bill, which I hope will be later in June, I hope that we will also present a certain amount of background expert evidence on that. However, it is a perfectly valid point to raise.

Y bwriad yw cynhyrchu templed, math o system dariff, ac rydym yn mynd ati drwy edrych ar gofnodion meddygol mewn achosion unigol i werthuso'r mathau o driniaethau a roddwyd. Un o'r anawsterau yw nad oes yr un dau achos yr un fath, ac rydych yn llygad eich lle ei bod yn rhaid sicrhau bod cost weinyddol y gwaith hwn cyn lleied ag sy'n bosibl. Gellir gwneud hyn mewn ffordd eithaf syml, ac rydym yn edrych ar hynny gyda'r arbenigwyr ar hyn o bryd. Pan fyddwn yn cyflwyno'r Bil, ac rwyf yn gobeithio mai yn ddiweddarach ym mis Mehefin y bydd hynny, rwyf yn gobeithio y byddwn hefyd yn cyflwyno rhywfaint o dystiolaeth gefndir arbenigol am hynny. Serch hynny, mae'n bwynt hollol ddilys i'w godi.

I very much appreciate Darren's comments on that. Interestingly, he referred to justice for the taxpayer but, if an individual had had private medical treatment, he would be able to claim all the costs back with a civil compensation claim so, in some ways, this would restore a certain amount of balance to the NHS.

Rwy'n gwerthfawrogi sylwadau Darren am hynny'n fawr. Roedd ei gyfeiriad at gyfiawnder i'r trethdalwr yn ddiddorol, ond, petai unigolyn wedi cael triniaeth feddygol breifat, byddai'n gallu adhawlio'r holl gostau drwy gyfrwng hawliad am iawndal sifil, felly, maen ambell ffordd, byddai hyn yn adfer rhywfaint o gydbwysedd i'r GIG.

Joyce raised some questions about how we will calculate the cost, which is a valid consideration and is, again, something that I am working on. I suppose the analogy that I would draw is that, if a foreign tourist came into the country and used the NHS, they would be presented with a bill afterwards. A tariff system is applicable in England, and we are looking at a similar mechanism that would be quite simple to use.

Codwyd nifer o gwestiynau gan Joyce am sut y byddem yn cyfrifo'r gost, sy'n ystyriaeth ddilys ac, unwaith eto yn rhywbeth yr wyf yn gweithio arno. Rwyf yn tybio mai'r gymhariaeth y byddwn yn ei chynnig yw, petai ymwelydd yn dod i'r wlad o dramor ac yn defnyddio'r GIG, y rhoddid bil iddynt wedyn. Mae system dariff ar waith yn Lloegr, ac rydym yn ystyried mecanwaith tebyg a fyddai'n eithaf syml i'w ddefnyddio.

Elin Jones raised the need for a cost-benefit analysis, which is perfectly valid. She raised a question about the public sector, although I would say that this is no different from any civil claim that might be brought against the public sector, when certain liabilities are triggered. The same would be the case for a public sector worker in respect of a road traffic accident: if the public sector is liable for the accident, it would pay the compensation. There is a certain paradox there, but it is nothing abnormal in the public sector. The Bill would apply only in cases where a company had been clearly identified as liable, had accepted liability, and was prepared to make a compensation payment. I

Cododd Elin Jones y pwynt bod angen dadansoddiad cost a budd, sy'n gwbl ddilys. Cododd gwestiwn am y sector cyhoeddus, er y byddwn yn dweud nad yw hyn yn wahanol o gwbl i unrhyw hawliad sifil a ddygid yn erbyn y sector cyhoeddus, pan fyddai atebolrwyddau penodol yn cael eu sbarduno. Byddai'r un peth yn wir am weithiwr yn y sector cyhoeddus a gâi ddamwain ffordd: petai'r sector cyhoeddus yn atebol am y ddamwain, byddai'n talu'r iawndal. Mae rhywfaint o baradocs yn y fan honno, ond nid yw'n annormal o gwbl yn y sector cyhoeddus. Ni fyddai'r Bil ond yn berthnasol mewn achosion lle y byddai cwmni'n amlwg yn atebol, wedi derbyn ei atebolrwydd ac yn

am well aware of the issues raised as regards who is liable and whether liability can be transferred, but they would not have any real relevance in this particular case.

barod i dalu iawndal. Rwyf yn gwbl ymwybodol o'r materion a godwyd ynglŷn â phwy sy'n atebol ac a oes modd trosglwyddo'r atebolrwydd, ond ni fyddai'r rhain mewn gwirionedd yn berthnasol yn yr achos arbennig hwn.

Nick Ramsay raised a number of issues with regard to the length of time involved. The only comment that I would make is that, yes, there is a length of time involved, but there are clear records of insurers at the time and some of these companies still exist. Another aspect that I did not mention in this context was how long we have known about the problem of asbestos. You can go back several thousand years to trace the first knowledge of the risks of asbestos. Many of you will not be aware that, in 1931, regulations were introduced in the UK relating to the hazards of asbestos and the diseases arising from it. However, at the time, it applied only to the people who worked in the asbestos industry. Therefore, the medical knowledge has been around for well over 100 years. In some ways, that is the tragedy. So many thousands of workmen and women were allowed to work with asbestos despite the knowledge at the highest levels of the real risks and hazards that they faced.

Cododd Nick Ramsay nifer o faterion ynglŷn â hyd y cyfnod dan sylw. Yr unig sylw y byddwn yn ei gynnig yw, oes, mae yna gyfnod hir i'w ystyried, ond mae cofnodion clir ar gael o hyd o'r yswirwyr ar y pryd ac mae rhywfaint o'r cwmnïau hyn yn dal i fodoli. Agwedd arall nas crybwyllais yn y cyd-destun hwn oedd ers faint rydym wedi gwybod am broblem asbestos. Gallwch fynd yn ôl filoedd o flynyddoedd i weld y wybodaeth gyntaf am beryglon asbestos. Ni fydd llawer ohonoch yn gwybod bod rheoliadau wedi'u cyflwyno yn 1931 yn y Deyrnas Unedig ynglŷn â pheryglon asbestos a'r clefydau sy'n codi yn ei sgil. Serch hynny, ar y pryd, nid oedd ond yn berthnasol i'r bobl a oedd yn gweithio yn y diwydiant asbestos. Felly, mae'r wybodaeth feddygol wedi bod gennym ers 100 mlynedd a mwy. Mewn rhai ffyrdd, dyna'r drasiedi. Gadawyd i gynifer o filoedd o weithwyr, yn ddynion ac yn fenywod, weithio gydag asbestos er bod pobl ar y lefelau uchaf yn gwybod am y gwir risgiau a'r peryglon a wynebid ganddynt.

Thank you all for your support. I hope to be able to bring a Bill forward expeditiously. I will certainly take on board all the points that have been raised.

Diolch ichi i gyd am eich cefnogaeth. Rwyf yn gobeithio y gallaf gyflwyno Bil yn ddi-oed. Yn sicr, byddaf yn cadw mewn cof yr holl bwyntiau sydd wedi'u codi.

The only final reference I would make is that those we met at lunchtime, people who have either lost someone because of asbestos or who are suffering themselves from asbestos-related disease, welcome very much the fact that there is at least focus and attention on this disease and its consequences, particularly in countries such as Wales.

Yr unig gyfeiriad yr hoffwn ei wneud i orffen yw bod y rheini y gwnaethom gyfarfod â hwy amser cinio, pobl sydd naill ai wedi colli rhywun oherwydd asbestos neu bobl sy'n dioddef eu hunain oherwydd clefyd cysylltiedig ag asbestos, yn croesawu'n fawr y ffaith ein bod o leiaf yn canolbwyntio ar y clefyd hwn a'i ganlyniadau ac yn rhoi sylw iddo, yn enwedig mewn gwledydd megis Cymru.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are objections. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Amaethyddiaeth a Choedwigaeth
### Agriculture and Forestry

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, and amendments 2 and 3 in the name of Peter Black.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliannau 2 a 3 yn enw Peter Black.

*Cynnig NDM4986 William Graham*

*Motion NDM4986 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn cydnabod y sialensiau sy'n wynebu'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth a'u gwerth i economi Cymru;*

*1. Recognises the challenges facing the agricultural and forestry sectors and their value to the Welsh economy;*

*2. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyflawni polisïau costeffeithiol i gefnogi'r diwydiannau gwledig hyn; a*

*2. Regrets the failure of the Welsh Government to deliver cost-effective policies to support these rural industries; and*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*3. Calls on the Welsh Government to:*

*a) ymgysylltu'n adeiladol â rhanddeiliaid y diwydiant;*

*a) constructively engage with industry stakeholders;*

*b) gwella tryloywder ei pholisïau; ac*

*b) improve the transparency of its policies; and*

*c) sicrhau bod ei pholisïau'n cyflawni gwerth am arian ac nad ydynt yn tanseilio swyddi gwledig yn y sector preifat.*

*c) ensure that its policies deliver value for money and do not undermine private sector rural jobs.*

**Antoinette Sandbach:** I move the motion.

**Antoinette Sandbach:** Cynigiaf y cynnig.

This debate is particularly appropriate on the day that the countryside comes to Cardiff, with the Countryside Alliance. It has reminded people here in Cardiff that rural Wales is a living and working landscape. It is home to two of our most sustainable industries: agriculture, which contributes £217 million to the Welsh economy; and commercial forestry, which contributes £841 million. These industries support approximately 77,000 Welsh jobs between them, and they maintain Wales's beautiful natural landscape, which is the centrepiece of the Welsh tourism industry.

Mae'r ddadl hon yn arbennig o addas ar y diwrnod y mae cefn gwlad yn dod i Gaerdydd gyda'r Gynghrair Cefn Gwlad. Mae wedi atgoffa pobl yma yng Nghaerdydd fod cefn gwlad Cymru yn dirwedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio. Mae'n gartref i ddau o'n diwydiannau mwyaf cynaliadwy: amaethyddiaeth, sy'n cyfrannu £217 miliwn i economi Cymru; a choedwigaeth fasnachol, sy'n cyfrannu £841 miliwn. Rhyngddynt, mae'r diwydiannau hyn yn cynnal oddeutu 77,000 o swyddi yng Nghymru, ac maent yn cadw harddwch tirwedd naturiol Cymru, sy'n ganolbwynt i'w diwydiant twristiaeth.

These industries face major challenges. Will rural communities have the freedom to adapt and diversify, given the failure to implement effective planning policies to encourage this? There will be major changes to the common agricultural policy. Will Welsh farmers have the freedom to adapt and diversify or will measures such as permanent pasture hamstring their operations? The dairy industry here is receiving a raw deal from processors. Will market failures be addressed to give the family dairy farm a future? I cannot do justice to all the issues facing these rural industries. My colleague, Paul Davies, will be speaking on bovine TB and the wasteful policy u-turn and Suzy Davies will be addressing the concerns of the dairy industry and the groceries code adjudicator—or supermarket ombudsman, as the post is referred to.

Mae’r diwydiannau hyn yn wynebu heriau mawr. A fydd gan gymunedau cefn gwlad y rhyddid i ymaddasu ac arallgyfeirio, ac ystyried y methiant i roi polisïau cynllunio effeithiol ar waith i annog hyn? Bydd newidiadau mawr i’r polisi amaethyddol cyffredin. A fydd gan ffermwyr Cymru’r rhyddid i ymaddasu ac arallgyfeirio ynteu a wnaiff camau megis tir pori parhaol lyffetheirio’u gwaith? Mae’r diwydiant llaeth yma’n cael bargen wael gan broseswyr. A roddir sylw i fethiannau’r farchnad er mwyn sicrhau dyfodol i’r fferm laeth deuluol? Ni allaf wneud cyfiawnder â'r holl faterion sy’n wynebu’r diwydiannu gwledig hyn. Bydd fy nghyd-Aelod, Paul Davies, yn sôn am TB buchol a’r tro pedol gwastraffus o ran polisi a bydd Suzy Davies yn sôn am bryderon y diwydiant llaeth a dyfarnwr y cod cyflenwi bwydydd—neu’r ombwdsman archfarchnadoedd, fel y gelwir y swydd.

Owing to time constraints, I regret that I will not be able to accept interventions. Of course, there are huge opportunities to be seized in both sectors, and there will be growing domestic and global demand for what Wales has to offer: high-quality, high-welfare, fully traceable food and fully sustainable timber. These rural industries need a Welsh Government that understands them, wants them to succeed and uses taxpayers’ money wisely to deliver the right support. We believe that the Welsh Government has made regrettable decisions that failed to deliver value for money, and I will briefly highlight some of these examples.

Oherwydd prinder amser, mae'n ddrwg gennyf na fyddaf yn gallu caniatáu ymyriadau. Wrth gwrs, mae cyfleoedd enfawr i bobl fachu arnynt yn y naill sector a'r llall, a bydd galw cynyddol gartref ac yn fyd-eang am yr hyn sydd gan Gymru i’w gynnig: bwyd o safon uchel y gellir olrhain ei darddiad, gofal mawr am les anifeiliaid, a choedwigoedd cwbl gynaliadwy. Yr hyn sydd ei angen ar y diwydiannau gwledig hyn yw Llywodraeth yng Nghymru sy’n eu deall, sydd am iddynt lwyddo ac sy’n defnyddio arian trethdalwyr yn ddoeth i ddarparu'r cymorth iawn. Credwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniadau anffodus sydd wedi methu sicrhau gwerth am arian, a byddaf yn tynnu sylw’n fras at rai o’r enghreifftiau hyn.

First, technical advice note 6 was the previous Government’s flagship policy to support rural communities and, among other things, rural enterprise housing. It has been an abject failure. Just 14 applications were approved in the first year. The Minister for Housing, Regeneration and Heritage, Huw Lewis, appeared to be unaware of the policy and its requirements when I questioned him earlier this year. Councils are failing to implement TAN 6 and the Welsh Government has failed to hold them to account. This is a good policy that has been

Yn gyntaf, nodyn cyngor technegol 6 oedd polisi blaenllaw'r Llywodraeth flaenorol i gefnogi cymunedau gwledig ac, ymhlith pethau eraill, i gefnogi mentrau tai gwledig. Mae wedi bod yn fethiant llwyr. Dim ond 14 o geisiadau a gymeradwywyd yn y flwyddyn gyntaf. I bob golwg, nid oedd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, Huw Lewis, yn ymwybodol o’r polisi a’i ofynion pan holais ef yn gynharach eleni. Nid yw'r cynghorau’n rhoi TAN 6 ar waith ac nid yw Llywodraeth Cymru yn eu dal yn atebol. Mae hwn yn bolisi da sydd wedi cael ei adael yn hel llwch

left to moulder by a Government that is failing to support rural enterprise.

gan Lywodraeth nad yw'n cefnogi mentrau gwledig.

Secondly, there is Glastir, the lame duck of the Welsh Government’s agri-environment scheme. This key agri-environment scheme is predicted to administer just £18 million this year, and yet the administration costs amounted to £5.1 million in the past two years. The Sell2Wales website advertised the monitoring contract in February at £9 million for a two-year contract. These administration costs defy belief. There have been two reviews of Glastir, a continued shortfall in applications and 886 have been withdrawn after applying. The Deputy Minister intends to reduce agri-environment spending in the RDP from 80 per cent to 60 per cent, punishing Welsh farmers for the Welsh Government’s failures. The Welsh Government’s approach has been high-handed and has alienated farmers who are interested and willing to participate. Stakeholders have warned of failings, but they were ignored.

Yn ail, mae Glastir, hwyaden gloff cynllun amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Rhagwelir na fydd y cynllun amaeth-amgylcheddol allweddol hwn ond yn rhannu £18 miliwn eleni, ac eto i gyd, roedd cost ei weinyddu’n £5.1 miliwn yn y ddwy flynedd diwethaf. Hysbysebwyd y contract monitro ar wefan GwerthwchiGymru ym mis Chwefror a oedd yn werth £9 miliwn am gontract dwy flynedd. Mae’r costau gweinyddu hyn yn anghredadwy. Mae Glastir wedi cael ei adolygu ddwywaith, ac mae’r diffyg ceisiadau wedi parhau gydag 886 wedi’u tynnu yn ôl ar ymgeisio. Mae’r Dirprwy Weinidog yn bwriadu lleihau’r gwario ar amaeth-amgylchedd yn y Cynllun Datblygu Gwledig o 80 y can i 60 y cant, gan gosbi ffermwyr Cymru am fethiannau Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymddwyn mewn ffordd anystyriol ac wedi gelyniaethu ffermwyr sydd â diddordeb ac yn barod i gymryd rhan. Mae rhanddeiliaid wedi rhybuddio ynglŷn â’r gwendidau ond fe’u hanwybyddwyd.

4.45 p.m.

Finally, in the forestry sector, the Welsh Government is taking on a multi-million-pound liability for the reorganisation of Forestry Commission GB. The Department for Environment, Food and Rural Affairs has confirmed that Wales would bear the full costs of a break-up. The current policy is short-sighted and largely ignores commercial forestry. There are real concerns by the industry that the emphasis on species choice and spacing will compromise private forestry and its ability to sustain the sector. The woodland managers that I speak to are astounded that Welsh Ministers appear neither to understand nor to care about what this Government is doing to their industry.

Yn olaf, yn y sector coedwigaeth, mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo atebolrwydd gwerth miliynau o bunnoedd dros ad-drefnu Comisiwn Coedwigaeth Prydain. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cadarnhau y byddai Cymru yn ysgwyddo costau llawn y gwahanu. Mae’r polisi presennol yn un fyr ei olwg ac mae’n anwybyddu coedwigaeth fasnachol i raddau helaeth. Mae’r diwydiant yn poeni o ddifrif y bydd y pwyslais ar ddewis rhywogaethau a bylchu yn peryglu dyfodol coedwigaeth fasnachol a'i gallu i gynnal y sector. Mae rheolwyr y coetiroedd y byddaf yn siarad â hwy’n syfrdan nad yw Gweinidogion Cymru i bob golwg nac yn deall yr hyn y mae’r Llywodraeth hon yn ei wneud i’w diwydiant nac yn poeni dim amdano.

In conclusion, we are calling on the Welsh Government to engage constructively with stakeholders to listen to, and act on, their concerns and expertise and to communicate clearly and regularly with industry

I gloi, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gysylltu'n adeiladol â rhanddeiliaid er mwyn gwrando ar eu pryderon a’u barn arbenigol a gweithredu ar sail hynny gan gyfathrebu’n glir ac yn rheolaidd â chynrychiolwyr y

representatives. We are calling for greater transparency. The First Minister could start by publishing delivery unit targets. I note that he has refused repeated requests to do so. His recent answer to a written question virtually defies belief, given his speech at the opening of this Assembly about how he was hanging his Government on delivery. The Welsh Conservatives believe that the Welsh Government needs to demonstrate some humility and rebuild the bridges it has burnt with the agriculture and forestry industries. It needs to work in genuine partnership to provide the right support to help agriculture and forestry to adapt and thrive in the face of the challenges of the decades ahead.

diwydiant. Rydym yn galw am fwy o dryloywder. Gallai'r Prif Weinidog ddechrau drwy gyhoeddi targedau ar gyfer unedau darparu. Sylwaf iddo wrthod ceisiadau i wneud hynny droeon. Mae ei ateb diweddar i gwestiwn ysgrifenedig yn eithaf anghredadwy, a chofio'i araith pan agorwyd y Cynulliad hwn ynglŷn â sut yr oedd yn mynd i farnu ei Lywodraeth ar sail yr hyn a gyflawnid ganddi. Cred y Ceidwadwyr Cymreig fod angen i Lywodraeth Cymru ddangos rhywfaint o ostyngeiddrwydd ac ailgodi'r pontydd y mae wedi'u llosgi rhyngddi a'r diwydiant amaeth a'r diwydiant coedwigaeth. Mae angen iddi weithio mewn partneriaeth go iawn er mwyn cynnig y cymorth iawn i helpu amaethyddiaeth a choedwigaeth i ymaddasu a ffynnu yn wyneb anawsterau'r degawdau sydd o'n blaen.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 2.*

*Delete point 2.*

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*Add as new sub point at end of point 3:*

*sicrhau bod y sector coedwigaeth yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ar y lefel uchaf mewn unrhyw un corff amgylcheddol newydd.*

*ensure that there is adequate representation for the forestry sector at the highest level in any new single environmental body.*

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Amendment 3 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu nad yw gweithredu'r cynllun Glastir wedi adlewyrchu pryderon y sector coedwigaeth yn ddigonol.*

*Regrets that the implementation of the Glastir scheme has not adequately reflected the concerns of the forestry sector.*

**William Powell:** I move amendments 2 and 3 in the name of Peter Black.

**William Powell:** Cynigiaf welliannau 2 a 3 yn enw Peter Black.

I outline our broad support for today's debate. Indeed, I join Antoinette Sandbach in recognising the great contribution made today by the 'Countryside at the Assembly' day that many of us took the opportunity to

Hoffwn ddweud ein bod yn cefnogi'r ddadl heddiw'n gyffredinol. Yn wir, ymunaf ag Antoinette Sandbach i gydnabod y cyfraniad gwych a gafwyd heddiw gan ddiwrnod 'Cefn Gwlad yn y Cynulliad' y manteisiodd llawer

attend. It was attended by people of all ages and from all parts of Wales.

ohonom ar y cyfle i fod yn bresennol ynddo. Daeth pobl o bob oedran ac o bob rhan o Gymru yno.

The farming and forestry sectors are facing a series of very serious challenges in the coming years and it is regrettable that so many of them are, at least in part, the direct result of decisions made by the current Welsh Government and its predecessor. Contributing over 6.5% of Wales's gross value added and employing around 60,000 people across the country, these two industries are of paramount importance to our national wellbeing. Outside the obvious financial contribution and job creation that they account for, they also contribute to our culture and to our capacity to sustain our environment. As such, they must not be overlooked. They are a vital part of our nation's heritage and our nation's future.

Bydd y sector ffermio a'r sector coedwigaeth yn wynebu cyfres o anawsterau difrifol iawn yn y blynyddoedd nesaf ac mae'n anffodus bod cynifer o'r rheini, o leiaf yn rhannol, yn ganlyniad uniongyrchol penderfyniadau gan Lywodraeth bresennol Cymru a'i rhagflaenydd. Mae'r ddau ddiwydiant hyn yn cyfrannu dros 6.5% o werth ychwanegol crynswth Cymru ac yn cyflogi oddeutu 60,000 o bobl drwy'r wlad, ac maent o'r pwys mwyaf i'n lles cenedlaethol. Ar wahân i'w cyfraniad ariannol amlwg a'r swyddi y maent yn eu creu, maent hefyd yn cyfrannu at ein diwylliant ac at ein gallu i gynnal ein hamgylchedd. Felly, rhaid peidio â'u hanwybyddu. Maent yn rhan hanfodol o dreftadaeth ein cenedl a'i dyfodol.

In the first scoping session of the recently launched cross-party group on rural affairs, a point that was raised frequently was the concept of rural proofing. For too long, it appears that our rural communities in Wales have made agriculture and forestry very much an area of deficiency. These have been short changed by the Welsh Government by having retrofitted guidelines thrust upon them, very often by a Government that shows only a limited grasp of the realities of life in rural Wales. It is clear that those aspects of Government are also behind amendment 1 today, which we are unable to support.

Yn ystod sesiwn gwmpasu gyntaf y grŵp trawsbleidiol a lansiwyd yn ddiweddar i drafod materion gwledig, un pwynt a godwyd yn aml oedd cysyniad prawfesur gwledig. Ers yn rhy hir, mae'n ymddangos bod ein cymunedau gwledig yng Nghymru wedi gwneud amaethyddiaeth a choedwigaeth yn faes diffyg i raddau helaeth iawn. Mae'r rhain wedi cael cam gan Lywodraeth Cymru oherwydd iddi orfodi ôl-ganllawiau arnynt, a hynny'n aml gan Lywodraeth nad yw ond yn dangos gafael gwan ar realiti bywyd yn y Gymru wledig. Mae'n amlwg mai'r agweddau hynny ar y Llywodraeth sydd hefyd yn gyfrifol am welliant 1 heddiw, gwelliant na allwn ei gefnogi.

Leaving aside the spectre of European Union common agricultural policy reform, I wish to use my time today to focus on two specific challenges that have their roots firmly set here in Cardiff bay: the ongoing malaise around Glastir, which we have heard described in some detail; and the creation of the new single environmental body.

A gadael o'r neilltu ddrychiolaeth diwygio polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, yr wyf am ddefnyddio'r amser sydd gennyf heddiw i ganolbwyntio ar ddwy her benodol â'u gwreiddiau'n gadarn yma ym mae Caerdydd: yr anfodlonrwydd parhaus ynglŷn â Glastir, yr ydym wedi clywed disgrifiad manwl ohono; a chreu'r un corff amgylcheddol newydd.

When Glastir was created by the previous Welsh Government, it was heralded as the single catch-all policy that would provide for the needs of the Welsh agriculture industry. Several years on, it continues to be a disappointment, with little over 12% of

Pan grëwyd Glastir gan Lywodraeth flaenorol Cymru, honnwyd mai hwn fyddai'r un polisi hollgynhwysol a fyddai'n darparu ar gyfer holl anghenion diwydiant amaethyddol Cymru. Sawl blwyddyn yn ddiweddarach, mae'n dal i'n siomi, gyda dim ond ychydig

expressions of interest being converted into contracts. The reasons for this failure are complex, and I am pleased to see that the current Deputy Minister has partially delivered on his earlier outspoken criticism of the scheme by holding the current stocktaking exercise.

dros 12% o'r rheini sy'n mynegi diddordeb yn troi'n gontractau. Mae'r rhesymau dros y methiant hwn yn rhai cymhleth ac rwyf yn falch bod y Dirprwy Weinidog presennol wedi gweithredu'n rhannol yn dilyn ei feirniadaeth groch flaenorol ar y cynllun drwy gynnal yr ymarfer cyfrif stoc presennol.

Aside from the obvious issues around the tone and complexity of the limited stakeholder engagement that originally took place, the challenge that farmers often raise with me is the continued lack of less favoured area recognition, an oversight that covers 80% of the landmass of Wales. While I support the National Farmers Union's desire that the stocktake should address this problem, I feel that it is worth reminding the Chamber that such concerns could be easily addressed within the terms of the existing EU limits, as was confirmed in correspondence recently from Commissioner Cioloş of the European Commission. Compensatory payments to farmers affected by natural handicaps could be provided under a specific LFA scheme, like the previous scheme, Tir Mynydd. The Welsh Government could also provide higher agri-environmental payments to LFA farmers under the condition that those farmers committed themselves to additional actions with additional environmental benefits. Therefore, while it is true that the Welsh Government failed to make the case for their inclusion within the current Glastir scheme, there is no reason why additional measures could not be taken to ensure that LFA farmers are not adversely affected in the light of it.

Ar wahân i'r problemau amlwg o ran naws a chymhlethdod yr ymgysylltu prin a fu â rhanddeiliaid yn y lle cyntaf, yr anhawster y bydd ffermwyr yn aml sôn wrthyf amdano yw'r diffyg parhaus o ran cydnabod ardaloedd llai ffafriol, sy'n golygu bod 80% o dir Cymru yn cael ei anwybyddu. Er fy mod yn cefnogi awydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr i weld yr ymarfer cyfrif stoc yn rhoi sylw i'r broblem hon, teimlaf ei bod yn werth atgoffa'r Siambr y gellid yn rhwydd fynd i'r afael â'r pryderon hyn o fewn telerau terfynau presennol yr Undeb Ewropeaidd, fel y cadarnhawyd mewn gohebiaeth yn ddiweddar gan Gomisiynydd Cioloş o'r Comisiwn Ewropeaidd. Gellid talu iawndaliadau i ffermwyr yr effeithir arnynt gan anfanteision naturiol o dan gynllun penodol ar gyfer Ardaloedd Llai Ffafriol, tebyg i'r cynllun blaenorol, Tir Mynydd. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd dalu taliadau amaeth-amgylcheddol uwch i ffermwyr Ardaloedd Llai Ffafriol ar yr amod bod y ffermwyr hynny'n ymrwymo i gamau ychwanegol â manteision amgylcheddol ychwanegol. Felly, er ei bod yn wir fod Llywodraeth Cymru wedi methu llwyddo i ddadlau o blaid eu cynnwys yn y cynllun Glastir presennol, nid oes rheswm pam na ellid cymryd camau ychwanegol i sicrhau nad yw ffermwyr Ardaloedd Llai Ffafriol ar eu colled yn sgil hynny.

To turn briefly to the much discussed forestry sector, it is clear that the impetus for many of the current challenges stem from the Government's decision to integrate the Forestry Commission into the proposed single environmental body. While my party has supported a merger in principle, it continues to be clear that the evidence shows that the devil is in the detail on how these three organisations can be run without compromising the vital commercial component of the Forestry Commission. To quote one of Wales's leading timber companies, BSW Timber Ltd., it is clear that

A throi'n sydyn at y sector coedwigaeth sydd wedi'i drafod yn helaeth, mae'n amlwg mai'r hyn sydd wedi symbylu llawer o'r anawsterau presennol yw penderfyniad y Llywodraeth i gynnwys y Comisiwn Coedwigaeth yn yr un corff amgylcheddol y bwriedir ei greu. Er bod fy mhlaid wedi cefnogi uno'r cyrff mewn egwyddor, mae'r dystiolaeth yn dal i ddangos yn glir mai yn y manylion y mae'r diafol o ran sut y gellir cynnal y tri chorff hyn heb beryglu elfen fasnachol hollbwysig y Comisiwn Coedwigaeth. A dyfynnu un o brif gwmnïau coed Cymru, BSW Timber Ltd., er bod y

while the industry understands the reasoning behind the SEB proposals, there is a need for better regulation and the removal of overlaps in the remit of these organisations.

diwydiant yn deall y rhesymu y tu ôl i gynigion SEB, mae'n amlwg bod angen gwell rheoleiddio a dileu'r gorgyffwrdd rhwng cylchoedd gwaith y cyrff hyn.

**Russell George:** As a Member who represents one of the largest rural constituencies in Wales, I cannot emphasise enough the value and contribution that the agriculture and forestry sectors bring to the Welsh economy. The total income from farming last year was nearly £210 million, supporting nearly 60,000 jobs. The forestry sector in Wales contributes an estimated £841 million to the national economy and employs 10,000 people directly and a further 8,500 indirectly. They are sizeable chunks of the Welsh economy. It is clear, from the representations that I have received over the last year, that these sectors are growing even more frustrated by a Government that neither understands nor takes their concerns on board. Rather, it blunders through with policy regardless of the views of relevant groups. We have seen some of the issues. On bovine tuberculosis, there was a complete reneging on the scientific evidence base. The single environmental body is creating a mechanism to deliver a policy that will not be formulated, forcing three very different organisations together with no guiding aim or culture. Glastir is probably the worst designed farming scheme in the history of Welsh devolution. The Government has a lot to answer for, and I look forward to hearing the Deputy Minister defend his position.

**Russell George:** A minnau’n Aelod sy’n cynrychioli un o etholaethau gwledig mwyaf Cymru, ni allaf bwysleisio digon werth y sectorau amaeth a choedwigaeth a’u cyfraniad at economi Cymru. Cyfanswm yr incwm o ffermio y llynedd oedd bron £210 miliwn, gan gefnogi bron 60,000 o swyddi. Mae’r sector coedwigaeth yng Nghymru’n cyfrannu amcangyfrif o £841 miliwn at economi’r wlad ac yn cyflogi 10,000 o bobl yn uniongyrchol ac 8,500 arall yn anuniongyrchol. Maent yn ddarnau sylweddol o economi Cymru. Mae’n amlwg, yn sgil y sylwadau yr wyf wedi’u cael yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, bod y sectorau hyn yn mynd yn fwyfwy rhwystredig yn wyneb Llywodraeth nad yw’n deall eu pryderon nac ychwaith yn rhoi sylw iddynt. Yn hytrach, mae’n baglu yn ei blaen â’i pholisi, ni waeth beth yw barn y grwpiau dan sylw. Rydym wedi gweld rhai o’r problemau. Gyda'r TB buchol, gwrthodwyd y sylfaen dystiolaeth wyddonol yn llwyr. Mae'r un corff amgylcheddol yn creu mecanwaith i wireddu polisi na chaiff ei ffurfio, gan orfodi tri chorff gwahanol iawn at ei gilydd heb ddim nod na diwylliant i’w tywys. Glastir, mae’n debyg, yw’r cynllun ffermio gwaethaf ei ddyluniad yn hanes datganoli Cymru. Mae gan y Llywodraeth lawer iawn i ateb drosto ac rwyf yn edrych ymlaen at glywed y Dirprwy Weinidog yn amddiffyn ei safbwynt.

There are two key areas that I would like to focus on briefly. First, in relation to Glastir, and the woodland management aspect in particular, I have real concern that the views of the private forestry sector are not being heard. Several of my constituents involved in the stakeholder meetings to discuss the Glastir woodland management grant scheme have conveyed to me that what they have been telling officials is simply falling on deaf ears. There is a concern regarding the inflexibility of how the grant scheme is set out and how the Government is trying to squeeze grants for the forestry sector into Glastir, which I and others do not believe will work. The previous scheme, Better Woodlands for Wales, supported sustainable

Mae dau brif faes yr hoffwn ganolbwyntio arnynt yn gyflym. Yn gyntaf, ynglŷn â Glastir, a’r agwedd rheoli coetiroedd yn benodol, rwyf yn poeni o ddifrif nad yw barn y sector coedwigaeth preifat yn cael ei chlywed. Mae sawl un o’m hetholwyr a fu’n ymwneud â’r cyfarfod rhanddeiliaid i drafod cynllun grantiau rheoli coetiroedd Glastir wedi dweud wrthyf fod yr hyn y maent wedi bod yn ei ddweud wrth swyddogion yn disgyn ar glustiau byddar. Mae pobl yn poeni bod y cynllun grantiau’n anhyblyg ac am y ffordd y mae’r Llywodraeth yn ceisio gwthio grantiau ar gyfer y sector coedwigaeth i Glastir. Nid wyf fi na phobl eraill yn meddwl y gwnaiff hyn weithio. Roedd y cynllun blaenorol, Coetiroedd Gwell i Gymru, yn

woodland management to achieve a wide variety of objectives, which were set out in the Welsh woodlands strategy and were not just specific targets for particular policy areas. As with the agriculture side of Glastir, landowners and farmers are being put off in large numbers, because they perceive the application process for the Glastir woodland management scheme to be rigid and inflexible.

cefnogi rheoli coetiroedd mewn modd cynaliadwy er mwyn cyflawni amrywiaeth eang o amcanion Roedd yr amcanion hyn wedi'u rhestru yn strategaeth coetiroedd Cymru ac yn fwy na dim ond targedau penodol ar gyfer meysydd polisi arbennig. Fel sy’n wir am ochr amaethyddol Glastir, mae nifer helaeth o berchnogion tir a ffermwyr yn cefnu ar hyn, oherwydd eu bod yn gweld y broses ymgeisio ar gyfer cynllun rheoli coetiroedd Glastir yn broses haearnaidd ac anhyblyg.

Finally, in relation to the single environmental body, I will be brief, as we shall be speaking on this debate next week. However, despite the Minister for environment stating in our debate on the merger process last December that he would be moving forward to ensure that the interests of the Welsh forestry industry are protected, the sector is still not convinced that the Government is doing that. This is something that has been borne out in the consultation process. The Environment and Sustainability Committee was very clear about its concerns over the potential impact on the forestry sector and the wider Welsh economy if the Government moves forward with the merger process with uncertainty still hanging over it. It will pose a major risk to commercial businesses and to potential investment. I hope that the Government takes the committee’s recommendations forward and heeds the warnings from the sector, as it is essential that businesses feel confident in continuing to invest in the economy of Wales.

Yn olaf, o ran yr un corff amgylcheddol, byddaf yn gryno, oherwydd byddwn yn siarad yn y ddadl hon yr wythnos nesaf. Serch hynny, er bod Gweinidog yr amgylchedd wedi dweud yn ein dadl ynglŷn â'r broses uno fis Rhagfyr diwethaf y byddai’n symud ymlaen i sicrhau bod buddiannau diwydiant coedwigaeth Cymru yn cael eu gwarchod, nid yw’r sector wedi’i argyhoeddi eto bod y Llywodraeth yn gwneud hynny. Mae hyn yn rhywbeth y mae’r broses ymgynghori wedi’i amlygu. Roedd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn glir iawn ynghylch ei bryderon am yr effaith bosibl ar y sector coedwigaeth ac ar economi ehangach Cymru os bydd y Llywodraeth yn symud ymlaen â’r broses uno ag ansicrwydd yn gwmwl drosto o hyd. Bydd yn peri risg fawr i fusnesau masnachol ac i ddarpar fuddsoddwyr. Rwyf yn gobeithio y gwnaiff y Llywodraeth fwrw ymlaen ag argymhellion y pwyllgor ac y bydd yn gwrando ar y rhybuddion gan y sector, oherwydd ei bod yn hanfodol i fusnesau deimlo’n ffyddiog ynglŷn â pharhau i fuddsoddi yn economi Cymru.

**David Rees:** Speaking as a Member who represents one of the most industrialised constituencies in Wales that also has one of the largest forested areas, I recognise that rural industries are a vital part of Welsh culture, heritage and identity. Such businesses are about the hard graft of putting food on our tables and providing us with some of the raw materials that we need.

**David Rees:** A minnau’n Aelod sy’n cynrychioli un o’r etholaethau mwyaf diwydiannol Cymru ac sydd hefyd ag un o’r coedwigoedd mwyaf, rwyf yn sylweddoli bod diwydiannau gwledig yn rhan hollbwysig o ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth Cymru. Mae busnesau fel hyn yn gweithio'n galed i roi bwyd ar ein byrddau ac i ddarparu rhywfaint o’r deunyddiau crai sydd eu hangen arnom.

We are also talking about a network of businesses, many of them family-run, shaping communities and our economy. That is why this debate is important, because we

Rydym hefyd yn sôn am rwydwaith o fusnesau, llawer ohonynt yn fusnesau teulu, sy'n ffurfio ein cymunedau a’n heconomi. Dyna pam mae’r ddadl hon yn bwysig,

need a countryside that lives, works and thrives for our economy, our environment and our future wellbeing. The Welsh Government's programme for government recognises the significant challenges that rural communities have faced over the past decade and those they are facing currently and will face in the future. That is why one of the overarching priorities is to achieve a sustainable future for these communities.

oherwydd mae angen cefn gwlad arnom sy'n byw, yn gweithio ac yn ffynnu er mwyn ein heconomi, ein hamgylchedd a'n lles yn y dyfodol. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu'n cydnabod yr anawsterau sylweddol y mae cymunedau gwledig wedi'u hwynebu yn ystod y degawd diwethaf a'r rheini y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac y byddant yn eu hwynebu yn y dyfodol. Dyna pam mai un o'r blaenoriaethau cyffredinol yw sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer y cymunedau hyn.

In applying the rural development plan for 2007-13, more than £800 million will have been invested in supporting the countryside and rural communities. Axis 1 is £89 million, while axis 2 is £594 million. Axis 3 is £75 million, and axis 4 is £32 million. Further schemes have also made real differences to Wales's rural industries and communities.

Wrth roi'r cynllun datblygu gwledig ar waith ar gyfer 2007-13, bydd mwy na £800 miliwn wedi'i fuddsoddi i gefnogi cefn gwlad a chymunedau gwledig. Mae Echel 1 yn werth £89 miliwn, ac echel 2 yn werth £594 miliwn. Mae Echel 3 yn werth £75 miliwn ac echel 4 yn werth £32 miliwn. Mae cynlluniau eraill hefyd wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i ddiwydiannau a chymunedau gwledig Cymru.

I would add the rider that I have concerns about the roll-out of broadband throughout Wales, and I have written to the relevant Minister to ensure that rural and Valleys communities do not lag behind other parts of Wales as superfast broadband becomes more widely available.

Byddwn yn ychwanegu'r amod fy mod yn poeni am ledaenu band eang drwy Gymru ac yr wyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol i sicrhau na fydd cymunedau gwledig a chymunedau'r cymoedd yn llusgo ar ôl rhannau eraill o Gymru pan fydd band eang cyflym iawn ar gael ar raddfa ehangach.

There is one vital sector of many rural communities that has been overlooked in this motion. It was alluded to by Antoinette Sandbach in her opening address—tourism. This clearly fits in with the agriculture and forestry sectors. I want to look at the specific case of the Afan valley in my constituency. Coal mines were the major employers in the area, until the last one closed in the 1960s in my valley, and later on in neighbouring valleys. These closures left large voids in our communities, with many out of work and future jobs lost, together with a string of bustling pit villages in decline. However, these communities have been resilient and have turned to their natural resources once more. Now, the forestry areas of the Afan valley are home to some of Wales's best mountain bike routes, such as the Skyline trail up around Glyncorrwg, and approximately 25 miles of former railway tracks and forest trails are now used for walking, cycling, mountain biking, horse

Mae un sector hollbwysig mewn llawer o gymunedau gwledig sydd wedi cael ei anghofio yn y cynnig hwn. Fe'i crybwyllwyd gan Antoinette Sandbach yn ei haraith agoriadol—twristiaeth. Mae hyn yn amlwg yn cydweddu â'r sector amaethyddiaeth a'r sector coedwigaeth. Yr wyf am edrych ar enghraifft benodol cwm Afan yn fy etholaeth i. Y pyllau glo oedd prif gyflogwyr yr ardal, nes i'r pwll olaf gau yn fy nghwm yn yr 1960au, ac yn ddiweddarach mewn cymoedd cyfagos. Wrth iddynt gau, gadawyd bylchau mawr yn ein cymunedau, gan olygu bod llawer yn ddi-waith a swyddi'n cael eu colli ar gyfer y dyfodol. Gwelwyd hefyd ddirywiad llinyn o bentrefi bywiog y maes glo. Serch hynny, mae'r cymunedau hyn wedi gwrthsefyll y dirywiad ac wedi troi at eu hadnoddau naturiol unwaith eto. Bellach, mae coedwigoedd cwm Afan yn gartref i rai o lwybrau beicio mynydd gorau Cymru, megis llwybr y Skyline yng nghyffiniau Glyncorrwg, ac mae oddeutu 25 milltir o hen

riding and wildlife watching, creating a strong tourism industry. In addition to that, we had the announcement last week that one of the biggest onshore windfarms would come to that area.

lwybrau'r rheilffyrdd a llwybrau'r goedwig yn cael eu defnyddio bellach ar gyfer cerdded, beicio, beicio mynydd, marchogaeth ceffylau a gwylio bywyd gwyllt, gan greu diwydiant twristiaeth cryf. At hynny, cawsom y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf y byddai un o'r ffermydd gwynt mwyaf ar dir yn dod i'r ardal honno.

Since the first official trail was built, thanks to money from this Welsh Government, the Afan Forest Park has been revitalised as a tourist destination that attracts approximately 170,000 visitors a year. This area continues to provide for traditional forestry industries, as areas of forest are harvested and wood is transferred to saw mills around Wales and to a local biomass power plant, where bits that normally would not be harvested are being utilised. Unfortunately, the area has been affected by the outbreak of the *Phytophthora ramorum* disease, which means that areas greater than originally planned will now be felled to prevent its spread.

Ers gosod y llwybr swyddogol cyntaf, diolch i arian gan y Llywodraeth hon yng Nghymru, mae Parc Coedwig Afan wedi'i adfywio'n gyrchfan i dwristiaid sy'n denu oddeutu 170,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'r ardal hon yn dal i ddarparu ar gyfer diwydiannau traddodiadol y goedwig, gan fod rhannau o'r goedwig yn cael eu torri a'r coed yn cael eu cludo i felinau coed o gwmpas Cymru ac i ganolfan bŵer biomas leol, lle mae darnau na fyddent fel arfer yn cael eu medi'n cael eu defnyddio. Yn anffodus, mae clefyd *Phytophthora ramorum* wedi effeithio ar yr ardal, sy'n golygu y bydd yn rhaid torri mwy o goed nag a fwriadwyd yn wreiddiol yn awr i'w atal rhag lledu.

5.00 p.m.

However, the forestry industry and the tourism activities will continue to operate and I have been impressed by the response of the Welsh Government, Forestry Commission Wales—which has given me a strong vision for the future—and local government, which are all working to mitigate the effects of these diseases. Therefore, while I recognise the value of rural industries to the Welsh economy and the challenges that they face, I cannot agree with the motion, particularly point 2. The Welsh Government has taken, and will continue to take, action that will help rural industries.

Serch hynny, bydd diwydiant y goedwig a'r gweithgareddau i dwristiaid yn mynd rhagddynt ac mae ymateb Llywodraeth Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru—sydd wedi cynnig gweledigaeth gref imi ar gyfer y dyfodol—a llywodraeth leol, sydd i gyd yn gweithio i liniaru effeithiau'r clefydau hyn, wedi creu argraff arnaf. Felly, er fy mod yn cydnabod gwerth diwydiannau gwledig i economi Cymru a'r anawsterau sy'n eu hwynebu, ni allaf gytuno â'r cynnig, yn enwedig â phwynt 2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau a fydd yn helpu diwydiannau gwledig, a bydd yn parhau i wneud hynny.

I will end by praising the innovation, investment and ingenuity that our rural businesses bring to the industry. We cannot underestimate the role that they play in growing and rebalancing our national economy. They are important to the Welsh economy, our environment and our future wellbeing, and we must treasure them. We can support them in partnership with rural communities.

Tynnaf i ben drwy ganmol yr arloesi, y buddsoddi a'r dyfeisgarwch y bydd ein busnesau gwledig yn eu cynnig i'r diwydiant. Ni allwn danystyried eu rôl yn datblygu ac yn ail-gydbwyso'n heconomi genedlaethol. Maent yn bwysig i economi Cymru, i'n hamgylchedd ac i'n lles yn y dyfodol, a rhaid inni eu trysori. Gallwn eu cefnogi mewn partneriaeth â chymunedau gwledig.

**Suzy Davies:** I am pleased to take part in today's debate. Even with farmer numbers in decline, our indigenous agriculture and related food and drink businesses contribute about £3 billion to the Welsh economy—nearly 7% of our annual GVA. It is the equivalent of a fifth of what it costs to run the Assembly; it would be good for these Welsh industries to be afforded a fifth of the Welsh Government's attention and respect. Agriculture is one of the most heavily regulated sectors of our economy. While the source of much of that regulation comes from the EU, we need to be far more pragmatic about how those directives manifest themselves in Welsh law. The EU-compatible legal systems of most other European countries mean that they are far defter at introducing legislation in a way that allows for the best cost-benefit ratio for their farmers. We, on the other hand, pick away at it, until we end up with a dog's breakfast like Glastir, which is made all the more indigestible by gold plate being piled on, without design advice from stakeholders. I look forward to the Deputy Minister's statement next week on the recent review.

**Suzy Davies:** Rwyf yn falch o gael cyfrannu at y ddadl heddiw. Er bod nifer y ffermwyr yn gostwng, mae ein busnesau amaethyddol cynhenid a'r busnesau bwyd a diod sy'n gysylltiedig â hwy'n cyfrannu oddeutu £3 biliwn i economi Cymru—bron 7% o'n Gwerth Ychwanegol Crynswth blynyddol. Mae'n cyfateb i un rhan o bump o'r hyn y mae'n ei gostio i gynnal y Cynulliad; byddai'n dda petai'r diwydiannau hyn yng Nghymru'n cael un rhan o bump o sylw a pharch Llywodraeth Cymru. Amaethyddiaeth yw un o'r sectorau yn ein heconomi sy'n cael ei reoleiddio fwyaf. Er mai'r Undeb Ewropeaidd yw ffynhonnell llawer o'r rheoleiddio hwnnw, mae angen inni fod yn fwy pragmatig o lawer ynglŷn â sut mae'r cyfarwyddebau hyn yn eu hamlygu eu hunain yng nghyfraith Cymru. Mae systemau cyfreithiol y rhan fwyaf o wledydd eraill Ewrop yn gydnaws â system yr Undeb Ewropeaidd ac felly maent yn fwy medrus o lawer yn cyflwyno deddfwriaeth mewn ffordd sy'n caniatáu'r gymhareb gost-budd orau i'w ffermwyr. Ar y llaw arall, byddwn ni'n pigo yma a thraw nes creu smonach fel Glastir, a hwnnw wedyn yn gymaint anos ei dreulio am ei fod yn cael ei oreuro mor drwchus, heb ofyn am gyngor rhanddeiliaid ynglŷn â'r cynllun. Edrychaf ymlaen at ddatganiad y Dirprwy Weinidog yr wythnos nesaf am yr adolygiad diweddar.

The sign-up period for Glastir is too long for a product that is too uncertain, despite the over-worked detail. I am reminded of the system of off-plan sales for buy-to-let properties, whereby people are tied in to complex contracts, committed to an expensive and stressful course of action, all based on some over-hyped architect's drawings and the promise of a completion date that, in the end, is postponed and postponed. On completion, buyers often find themselves disappointed with the quality of the property, producing ever-growing snagging lists and ultimately struggling to find tenants to justify the investment. The rush for buy-to-let properties contributed to the bank crash. Mercifully, farmers are more responsible, but they are still aggrieved, not by property market greed, but by blatant waste. The Welsh Government's idea of implementing EU law is to spend the best part of £6 million on just setting up a scheme,

Mae'r cyfnod ymuno â Glastir yn rhy faeth ar gyfer cynnyrch sy'n rhy ansicr, er gwaetha'r gorfanylu. Mae'n fy atgoffa am y drefn gwerthu eiddo ar sail cynlluniau y bydd pobl yn eu prynu a'u gosod. Cânt eu clymu i gontractau cymhleth, gan ymrwymo i gam gweithredu drud sy'n achosi straen, a'r cyfan wedi'i seilio ar ddyluniadau gorganmolaethus rhyw bensaer a'r addewid o ddyddiad cwblhau a gaiff, yn y pen draw, ei ohirio a'i ohirio. Wrth gwblhau, bydd y prynwyr yn aml yn siomedig â safon yr eiddo, ac yn llunio rhestrau o fân broblemau sy'n tyfu o hyd gan straffaglu yn y pen draw i ddod o hyd i denantiaid i gyfiawnhau'r buddsoddiad. Cyfrannodd y rhuthr i brynu eiddo prynu-i'w-gwerthu at ddymchwel y banciau. Diolch byth, mae ffermwyr yn fwy cyfrifol, ond maent yn dal yn ddig, nid oherwydd trachwant y farchnad eiddo, ond oherwydd gwastraff amlwg. Syniad Llywodraeth Cymru o roi cyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar

for which 40% of applicants have said that they withdraw or cannot join, and that is still a gamble for those to have signed up.

waith yw gwario £6 miliwn fwy neu lai ar sefydlu cynllun y mae 40% o'r ymgeiswyr wedi dweud eu bod yn tynnu yn ôl ohono neu na allant ymuno ag ef, a chynllun sy'n dal yn dipyn o fenter i'r rheini sydd wedi penderfynu ymuno.

A sum of £6 million is not insignificant. It would more than pay for a five-year badger cull in an intensive action area, according to the evidence paper submitted by the TB eradication board. It would have covered the cost of a five-year vaccination programme as well, but the cull would have been more than twice as cost effective, with fewer cattle getting infected in that time, and less compensation being due for compulsory slaughter. The cull would have saved enough taxpayers' money to spend on Designed to Smile, for example. As it is, farmers in the intensive action area who wasted time and resources after being reasonably led to expect that a cull would proceed, will get nothing.

Mae £6 miliwn yn swm sylweddol. Byddai'n fwy na digon i dalu am ddifa moch daear am bum mlynedd mewn ardal triniaeth ddwys, yn ôl y papur tystiolaeth a gyflwynwyd gan y bwrdd dileu TB. Byddai wedi talu am gost rhaglen frechu bum mlynedd hefyd, ond buasai'r difa fwy na dwywaith mor gost-effeithiol, buasai llai o wartheg yn cael eu heintio yn y cyfnod hwnnw, a llai o iawndal yn ddyledus am y difa gorfodol. Byddai difa moch daear wedi arbed digon o arian y trethdalwr i'w wario ar y Cynllun Gwên, er enghraifft. Fel y mae, ni chaiff ffermwyr yn yr ardal triniaeth ddwys ddim byd er iddynt wastraffu eu hamser a'u hadnoddau, ar ôl cael eu harwain yn rhesymol i ddisgwyl y byddai'r difa'n mynd rhagddo

Deputy Minister, in looking at how wasteful the Government has been in this policy area, you may want to look at evidence, albeit anecdotal at this stage, emerging from vaccination trials in Gloucestershire. It seems that badgers get trap happy, returning regularly to the trap for the bait and another jab of vaccine. Regrettably, the marker dye used to identify previously vaccinated badgers washes off in the rain. Exasperated by this waste, farmers are looking for evidence that the Welsh Government will act in their interests. Deputy Minister, can the Government commit to doing three things that may help restore farmers' confidence in you? First, will you make greater efforts to rural-proof secondary legislation? For example, the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012, which I raised last week in the Assembly, will reclassify self-catering accommodation with the purpose of charging for waste collection and disposal. This is a new charge on farmers who have invested heavily in diversification into holiday lets.

Ddirprwy Weinidog, wrth edrych ar ba mor wastraffus y mae'r Llywodraeth wedi bod yn y maes polisi hwn, efallai yr hoffech edrych ar dystiolaeth, er mai tystiolaeth storïol yw ar hyn o bryd, sy'n codi yn sgil y treialon brechu yn Swydd Gaerloyw. Mae'n ymddangos bod moch daear yn dechrau cael blas ar y maglau, yn dychwelyd atynt yn rheolaidd i nôl y llith a chael pigiad arall o'r brechiad. Yn anffodus, mae'r lliwur a ddefnyddir i farcio'r moch daear sydd wedi cael eu brechu eisoes yn golchi ymaith yn y glaw. Mae'r gwastraff hwn yn cythruddo ffermwyr ac felly maent yn chwilio am dystiolaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu er eu lles. Ddirprwy Weinidog, a all y Llywodraeth ymrwymo i wneud tri pheth a allai helpu i ailennyn ffydd y ffermwyr ynoch? Yn gyntaf, a wnewch ymdrechu rhagor i sicrhau trefniadau prawfesur gwledig ar gyfer is-ddeddfwriaeth? Er enghraifft, bydd Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Cymru a Lloegr) 2012, a godais yr wythnos diwethaf yn y Cynulliad, yn ailddosbarthu llety hunanarlwyo gyda'r diben o godi am gasglu a gwaredu gwastraff. Tal newydd fydd hwn a godir ar ffermwyr sydd wedi buddsoddi'n helaeth er mwyn arallgyfeirio drwy osod tai gwyliau.

Secondly, I have criticised Glastir for its uncertainty, which makes it a bad contract by any standards, but it is not as bad as the typical contract between a dairy farmer and milk buyers, where prices are not fixed by any mechanism and the buyer is unilaterally free to alter the price, while tying the farmer in with exclusivity clauses for long periods. I wonder how close this is to unfair competition practice.

Yn ail, rwyf wedi beirniadu Glastir am ei ansicrwydd, sy'n golygu ei fod yn gontract gwael yn ôl unrhyw safonau, ond nid yw gynddrwg â'r contract nodweddiadol rhwng ffermwyr llaeth a phrynwyr llaeth, lle nad oes yr un mecanwaith i bennu prisiau a lle bydd gan y prynwr rwydd hynt i newid y pris, tra bydd y ffermwr yn cael ei glymu gan gymalau'n ei gyfyngu am gyfnod hir. Tybed pa mor agos yw hyn at ymarfer cystadleuaeth annheg.

Thirdly, the Queen's Speech has indicated that the coalition Government will bring in a Bill to introduce the groceries code adjudicator—the long-awaited supermarket ombudsman. That adjudicator needs to have the power to make enforceable decisions, not just advisory ones. Can your Government commit to working constructively with the UK Government, particularly on the last two points, in order to deliver cost-effective policies to support our rural industries?

Yn drydydd, mae Araith y Frenhines wedi awgrymu y bydd y Llywodraeth glymblaid yn cyflwyno Mesur i sefydlu dyfarnwr y cod cyflenwi bwydydd—yr ombwdsman archfarchnadoedd y bu hir ddisgwyl amdano. Mae angen i'r dyfarnwr hwnnw gael y pŵer i wneud penderfyniadau y gellir eu gorfodi, nid dim ond pwerau cynghori. A all eich Llywodraeth ymrwymo i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn enwedig yng nghyswllt y ddau bwynt olaf, er mwyn sicrhau polisïau cost-effeithiol i gefnogi ein diwydiannau gwledig?

**Llyr Huws Gruffydd:** Yr ydym wedi clywed am y sialensiau sy'n wynebu'r diwydiant—mae pwysau i gynhyrchu mwy o fwyd tra bo costau'n cynyddu ar yr un pryd, yn enwedig yng nghyd-destun costau tanwydd, gwrtaith, bwyd anifeiliaid ac yn y blaen. Mae cyfrifoldebau amgylcheddol cynyddol ar ffermwyr, ac mae ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hynny yn heriol yn ei hunan. Fodd bynnag, rwy'n gwybod bod ffermwyr yn hapus i wneud hynny gyhyd ag y bo'r hinsawdd a'r cyd-destun yn gydnaws â gwneud hynny.

**Llyr Huws Gruffydd:** We have heard about the challenges facing the industry—there is pressure to produce more food at a time when costs are increasing, particularly in the context of the cost of fuel, fertiliser, animal feed and so on. Farmers face increasing environmental responsibilities, and responding positively to those challenges is challenging in itself. However, it is something that I know farmers are happy to do, as long as the climate and context is in keeping with doing so.

Ond, ar yr union adeg pan oedd angen y berthynas gryfaf bosibl rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant, beth a gawsom? Yn lle adeiladu ar waith da Llywodraeth Cymru'n Un, a oedd wedi creu seiliau cadarn ar gyfer perthynas o gydweithredu a chydweithio effeithiol, yr hyn a gafwyd oedd diddymu swydd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, tynnu'r rôl allan o'r Cabinet, a'i hisraddio i rôl Dirprwy Weinidog. Pa neges oedd hynny yn ei rhoi o ran blaenoriaethau'r Llywodraeth Lafur hon?

However, at the very time that we needed the strongest possible relationship between the Welsh Government and the industry, what did we get? Rather than building on the good work of the One Wales Government, which created firm foundations for a relationship of effective collaboration and co-operation, what we had was the abolition of the role of Minister for Rural Affairs, the withdrawal of the role from Cabinet, and its downgrading to the role of Deputy Minister. What sort of message did that send in terms of this Labour Government's priorities?

Yn gefndir i hynny roedd y newid cyfeiriad

The background to all of that was the

arteithiol o hir o safbwynt TB mewn gwartheg, a lusgodd ymlaen am y rhan orau o flwyddyn. Rwy'n dal i bendroni pam bod y cyfrifoldeb am iechyd anifeiliaid wedi'i drosglwyddo—heblaw bod rheswm gwleidyddol a safbwyntiau personol yn rhan o'r mater. Roedd datganiad i fod i ddod yn yr hydref, yna aeth hynny'n fis Tachwedd, yna cyn y Nadolig, yna yn y flwyddyn newydd, ac yn y cyfamser roedd 700 o wartheg y mis yn cael eu difa oherwydd y cyflwr. Y canlyniad ar y diwedd, wrth gwrs, oedd yr un gwaethaf posibl i ffermwyr. Roedd hwn yn benderfyniad cwbl wleidyddol, ac roedd yr adroddiad yn dweud hynny. Mae Cymdeithas Filfeddygol Prydain wedi crisialu'r hyn a gawsom yn y pen draw, sef bod y Llywodraeth wedi gwneud i wyddoniaeth ffitio'r polisi yn hytrach na gwneud i'r polisi ffitio'r wyddoniaeth.

tortuously drawn-out change of direction on bovine TB, which dragged on for the best part of a year. I am still confused as to why responsibility for animal health was transferred—apart, of course, from the possibility of it being done for a political reason or because of personal views. We were expecting a statement in the autumn, then it became November, then before Christmas, and then the new year, and in the meantime 700 cattle per month were being slaughtered because of the condition. The outcome, of course, was the worst possible one for farmers. This was a political decision, as the report said. The British Veterinary Association has summed up what we got in the end: the Government made the science fit the policy rather than the policy fit the science.

Mae'r cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n adeiladol â rhanddeiliaid a gwella tryloywder. Mae gwersi amlwg i'w dysgu o ffars proses y penderfyniad ar TB. Ond, rydym yn edrych yn awr ar yr argymhellion a ddaw o adroddiad 'Hwyluso'r Drefn', a bydd hynny, gobeithio, yn mynd peth o'r ffordd at adfer y berthynas. Er mor werthfawr yw pob un o'r 74 o argymhellion unigol, bydd effaith cyfun y newid diwylliant, gobeithio, yn gynsail ar gyfer adfer y berthynas rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant. Mae'r holl ofynion rheoleiddiol wedi creu'r diwylliant hwn o ddrwgdybiaeth, neu ddiwylliant o ofn—yn ôl yr adroddiad—ymhlith ffermwyr, yn deillio'n aml iawn o gymhlethdod y miloedd o dudalennau o reolau a rheoliadau sy'n taflu eu cysgod dros ffermwyr yn eu gwaith, gan eu bod mor hawdd eu tramgwyddo yn gwbl anfwriadol. Fel y dywed yr adroddiad, mae rheoleiddwyr hefyd yn cyfrannu at y diwylliant hwnnw drwy ddyblygu gwaith, peidio â rhannu gwybodaeth, mabwysiadu dulliau gwahanol i'w gilydd a dehongli rheoliadau yn anghyson. Mae honiadau hefyd o orymyrraeth gan rai arolygwyr. Gyda'i gilydd, mae'r cyfan yn creu'r amharodrwydd hwn ymhlith ffermwyr i fynd at yr awdurdodau am gyngor, oherwydd yr ofn o gael eu targedu gydag archwiliad.

The motion calls on the Welsh Government to constructively engage with stakeholders and improve transparency. There are clear lessons to be learned from the farce surrounding the process of a decision on TB. However, we now look to the recommendations coming from the 'Working Smarter' report, which will hopefully go some way to restoring the relationship. Despite the fact that the 74 individual recommendations are worthwhile, the comprehensive change of culture will, hopefully, be the foundation for rebuilding the relationship between the Government and the industry. The regulatory requirements have created a culture of suspicion, or, as the report states, a culture of fear among farmers, emanating very often from complexities in terms of the thousands of pages of rules and regulations casting their shadows over farmers in their day-to-day work, as it is so easy to unintentionally break those rules and regulations. As the report says, regulators also contribute to that culture by duplicating work, failing to share information, adopting different approaches and taking inconsistent views on regulations. There are also accusations that some inspectors intervene too often. It all creates unwillingness among farmers to go to the authorities for advice, for fear of being targeted with inspections.

Felly, drwgdybiaeth yw'r gair sy'n crisialu'r sefyllfa yn fy marn i, a hynny wedi'i

So, suspicion is the word that encapsulates all of this, in my view, and that is intensified by

ddwysáu gan rai o benderfyniadau Llywodraeth Cymru. Mae perthynas waith gadarnhaol a thryloyw, wedi'i seilio ar barch ac ymddiriedaeth rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant, yn gwbl allweddol i symud yr agenda yn ei blaen. Yn ôl yr adroddiad, mae '*adversarial culture'*, yn anffodus, wedi datblygu rhwng dwy garfan sydd ymhellach oddi wrth ei gilydd yn awr efallai nag ers blynyddoedd mawr.

some of the decisions taken by the Welsh Government. A positive working relationship that is transparent and based on trust and mutual regard between the Government and the industry is crucial in moving the agenda forward. An 'adversarial culture', according to the report, has unfortunately developed between two parties that are further apart now, perhaps, than they have been for many years.

Mae rhywun yn poeni wedyn ein bod yn gweld tueddiadau nid annhebyg yn datblygu yn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector coedwigaeth. Rydym wedi clywed am werth a phwysigrwydd y sector—mae'n werth £841 miliwn i economi Cymru yn flynyddol ac yn cefnogi 18,500 o swyddi. Mae 14% o Gymru wedi'i gorchuddio â choed, sy'n ymddangos yn ffigur sylweddol, ond mae cymharu'r ffigur hwnnw â'r cyfartaledd o 27% yng ngweddill Ewrop yn gosod y sefyllfa mewn cyd-destun gwahanol. Pan fo Confor, sef ffederasiwn sy'n cynrychioli 2,000 o fusnesau yn y sector, yn dweud wrth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w safbwynt gael ei hanwybyddu'n llwyr yng nghyd-destun y trafodaethau i greu un corff amgylcheddol, mae'r clychau larwm yn dechrau canu.

One is concerned that we see trends that are not dissimilar developing in the relationship between the Welsh Government and the forestry sector. We have heard about the value and importance of that sector—it is worth £841 million to the Welsh economy every year and supports 18,500 jobs. Forestry accounts for 14% of Welsh land, which appears significant, but comparing that with the European average of 27% sets it in a different context. When Confor, the federation representing 2,000 businesses in the sector, tells the Environment and Sustainability Committee that its views were completely ignored in the context of discussions on creating one environmental body, alarm bells are set off.

Mae amser wedi fy nghuro, felly rhaid imi derfynu yn y fan honno.

Time has beaten me, so I will end on that point.

**Paul Davies:** Rwy'n falch o'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon, yn enwedig o ystyried mai amaethyddiaeth yw un o brif ddiwydiannau sir Benfro.

**Paul Davies:** I am pleased to take part in this debate, especially given that agriculture is one of Pembrokeshire's main industries.

Mae'n hynod bwysig bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwerth am arian yn y ffordd y mae'n gwario ei chyllidebau, ac, wrth gwrs, mae gan Weinidogion gyfrifoldeb i drethdalwyr i sicrhau bod hyn yn digwydd yn effeithiol. Felly, dylai penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru gael eu gwneud ar sail tystiolaeth yn unig, nid ar sail gwleidyddiaeth, fel y dywedodd yr Aelod dros Ogledd Cymru.

It is very important that the Welsh Government ensures value for money in the way that it spends its budgets, and, of course, Ministers have a responsibility to taxpayers to ensure that that is done effectively. Therefore, Welsh Government decisions should be based on evidence alone, and not on politics, as the Member for North Wales said.

Mae'n cynnig yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle mae'r Llywodraeth wedi cymryd penderfyniadau nad ydynt yn effeithiol yn ariannol nac yn ymarferol. Daw hyn â mi, felly, at yr hyn y byddaf yn canolbwyntio fy

Our motion draws attention to a number of areas in which the Government has made decisions that are not financially and practically effective. That brings me, therefore, to the issue on which I will focus

sylwadau arno, sef polisi'r Llywodraeth i waredu TB mewn gwartheg. Fel y gŵyr y Dirprwy Weinidog, mae'r clefyd hwn yn cael effaith enfawr ar y diwydiant amaethyddol yn fy etholaeth. Mae ffermwyr sir Benfro wedi bod yn hynod o siomedig ac, mewn rhai achosion, yn ddigalon oherwydd bod Gweinidog yr amgylchedd a'r Llywodraeth wedi newid y polisi eleni ar waredu TB mewn gwartheg.

this afternoon—the Government's policy on bovine TB eradication. As the Deputy Minister knows, this disease has a huge impact on the agriculture industry in my constituency. Farmers in Pembrokeshire are very disappointed and, in some cases, despondent because of the decision taken by the Minister for environment and the Government to change the policy on bovine TB eradication.

Deallaf fod cost y gwahanol bolisïau ar waredu TB mewn gwartheg wedi'i amlinellu mewn papur a dderbyniwyd gan Weinidog yr amgylchedd ym mis Mawrth eleni. Yn ogystal â chynnwys tystiolaeth i ddangos y byddai polisi i waredu TB mewn gwartheg drwy ddifa moch daear yn gweithio, mae'r papur hefyd yn amlinellu y byddai difa moch daear i daclo TB yn bolisi a fyddai'n arbed arian i drethdalwyr. Fel y dywedodd Suzy Davies, mae'r papur yn dangos y byddai'r polisi o ddifa moch daear yn arbed dros £5 miliwn, o gymharu â'r polisi brechu, a fyddai'n arbed rhyw £2.5 miliwn yn unig. Gallai'r arbedion ychwanegol hyn gael eu defnyddio i gefnogi'r sector amaethyddol mewn rhyw ffordd arall. Yn anffodus, bydd yn rhaid i'r trethdalwr dalu am brosiect brechu nad yw hyd yn oed wedi'i seilio ar wyddoniaeth. Fel y dywedodd Brian Walters, llefarydd Undeb Amaethwyr Cymru ar TB mewn gwartheg, mae'r penderfyniad hwn nid yn unig yn bradychu ffermwyr, mae'n bradychu trethdalwyr hefyd.

I understand that the costs of the various policies on bovine TB eradication were outlined in a paper received by the Minister for environment in March this year. In addition to including evidence showing that a badger culling policy would work in terms of eradicating bovine TB, the paper also outlines that a policy of culling badgers to deal with TB would save taxpayers' money. As Suzy Davies said, the paper shows that the badger culling policy would save more than £5 million, compared with a saving of only around £2.5 million for the vaccination policy. These additional savings could be used to support the agriculture sector in some other way. Unfortunately, taxpayers will have to pay for a vaccination project that is not even science-based. As Brian Walters, bovine TB spokesperson for the FUW, said, this decision not only betrays farmers, it also betrays taxpayers.

Er Mai 2010, mae ffermwyr yn yr ardal ddwys wedi cydweithredu'n llwyr â Llywodraeth Cymru, drwy dderbyn rheolau costus er mwyn paratoi ar gyfer y difa. Yn amlwg, mae ffermwyr a'r Llywodraeth wedi gwastraffu amser ac adnoddau wrth baratoi am ddifa moch daear, ac nid yw hynny bellach yn mynd i ddigwydd.

Since May 2010, farmers in the intensive action area have co-operated fully with the Welsh Government, accepting costly regulations in preparation for the cull. Obviously, farmers and the Government have wasted time and resources in making preparations for a badger cull that is not now going to happen.

Mae'r ffaith na wnaethpwyd y penderfyniad i ddilyn y trywydd brechu ar sail tystiolaeth wyddonol yn cael ei feirniadu dro ar ôl tro. Mae'r adolygiad gwyddonol annibynnol a gomisiynwyd gan y Llywodraeth ei hun hyd yn oed wedi cyfaddef na chynhaliwyd treialon i asesu a fyddai brechu moch daear yn lleihau nifer y gwartheg sydd â TB. Yn wir, mewn ateb ysgrifenedig i'm cyd-Aelod Antoinette Sandbach, cyfaddefodd y

The fact that the decision to go down the vaccination route was not taken on the basis of scientific evidence has been repeatedly criticised. Even the independent scientific review commissioned by the Government has admitted that no trials have been held to assess whether badger vaccination would reduce the number of cattle contracting TB. Indeed, in a written response to my colleague Antoinette Sandbach, the Minister admitted

Gweinidog na chafwyd asesiad o'r effaith ar TB mewn gwartheg yn y dyfodol.

that no assessment has been made of the impact on TB in cattle in the future.

Mae'n glir bod y polisi brechu newydd hyd yn oed yn amhoblogaidd ymysg gwyddonwyr. Mae'r Athro Chris Pollock wedi ymddiswyddo oherwydd nad oedd yn credu bod y polisi brechu hwn wedi'i brofi ar raddfa fawr. Felly, nid oes ganddo hyder y bydd y fath ddull yn gweithio.

It is clear that the new vaccination policy is even unpopular among scientists. Professor Chris Pollock has resigned because he does not believe that the vaccination policy has been tested on a large scale. Therefore, he has no confidence that such a scheme will work.

Mae'n amlwg y bydd y polisi brechu newydd hwn yn costio mwy i drethdalwyr, ac, ar lefel ymarferol, y bydd y clefyd yn gallu byw mewn moch daear am flynyddoedd, gan barhau i ledaenu'r clefyd. Yn naturiol, mae brechu'n atal clefyd ond nid yw'n ei wella. Hoffwn i'r Dirprwy Weinidog ateb y cwestiwn hwn yn ei ymateb i'r ddadl hon: os daw'n amlwg, yn y broses frechu, fod mochyn daear yn sâl ac yn cario'r clefyd, a fydd yn ymarferol i ganiatáu i'r anifail hwnnw fynd yn rhydd i ddioddef a pharhau i ledaenu'r clefyd?

It is clear that the new vaccination policy costs more taxpayers' money and, on a practical level, that the disease will exist among badgers for years to come, and will continue to be spread. Naturally, vaccination prevents a disease but it does not cure it. I would like the Deputy Minister to answer this question in his response to the debate: if, during the vaccination process, it becomes clear that a badger is already ill and is carrying the disease, is it practical to allow that animal to go free, to suffer and to continue to spread this disease?

5.15 p.m.

Credaf fod polisi gwreiddiol y Llywodraeth flaenorol yn holistaidd ac yn sicr yn rhatach na'r polisi newydd. Nid wyf yn deall beth sydd wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf. Yr unig beth sydd wedi newid yw y bu etholiad ac mae'n edrych fel pe bai'r penderfyniad hwn wedi ei wneud am resymau gwleidyddol, nid am resymau ymarferol, gwyddonol ac ariannol. Does dim byd wedi newid ers i'r Dirprwy Weinidog ei hun bleidleisio dros ddifa moch daear y llynedd. Dylai'r Dirprwy Weinidog a'r Llywodraeth ailystyried y polisi hwn oherwydd byddai'r polisi gwreiddiol yn llawer mwy holistaidd ac effeithiol, yn ymarferol ac yn ariannol.

I believe that the original policy of the previous Government was holistic and certainly cheaper than the new policy. I do not understand what has changed in the past year. All that has changed is that there has been an election and it appears to me that this decision has been taken for political reasons, not for practical, scientific and financial reasons. Nothing has changed since the Deputy Minister himself voted in favour of the badger cull last year. The Deputy Minister and the Government should reconsider this policy because the original policy would have been far more holistic and effective, practically and financially.

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** Thank you for the opportunity to give the Government's view on the rather peculiar motion that has been placed before us by the Conservatives. In terms of where we are, it is possibly somewhat unfortunate that the motion was laid last week, before recent discussions at the Council of Ministers demonstrated that the Government's approach to agri-

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Diolch ichi am y cyfle i gyfleu barn y Llywodraeth am y cynnig rhyfedd braidd sydd wedi'i roi ger ein bron gan y Ceidwadwyr. O ran ein sefyllfa ar hyn o bryd, efallai ei bod yn anffodus braidd i'r cynnig gael ei osod yr wythnos diwethaf, cyn i'r trafodaethau diweddar yng Nghyngor y Gweinidogion ddangos bod agwedd y Llywodraeth at gynlluniau amaeth-

environment schemes is at the leading edge in terms of the European debate and at the centre of gravity in relation to where the European Union is heading.

amgylcheddol ar flaen y gad o ran y ddadl yn Ewrop ac yng nghraidd disgyrchiant o ran y trywydd y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei ddilyn.

On Glastir, I made a statement six weeks ago on the stock take that I am currently undertaking. I have already said that I will report back to the Assembly with another oral statement at the end of June. That is transparency, Antoinette; that is how we conduct ourselves in the Assembly. We have created the opportunity for debate and we will report back on the conclusion next month and you will have the opportunity to give us your views on that.

O ran Glastir, rhoddais ddatganiad chwe wythnos yn ôl ynglŷn â'r ymarfer cyfrif stoc yr wyf yn ei gynnal ar hyn o bryd. Rwyf wedi dweud eisoes y byddaf yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad drwy ddatganiad llafar arall ddiwedd Mehefin. Dyna dryloywder, Antoinette, dyna sut y byddwn yn ymddwyn yn y Cynulliad. Rydym wedi creu'r cyfle ar gyfer dadl a byddwn yn adrodd yn ôl ar y casgliad fis nesaf ac fe gewch gyfle i roi eich barn inni am hynny.

On where we are with the common agricultural policy, I have already said that we have had a full consultation on the matter. I have already said that I will be making an oral statement. It is programmed to take place next week and you will have an opportunity for further discussion at that time. That is also transparency.

Ynglŷn â'n sefyllfa o ran y polisi amaethyddol cyffredin, rwyf wedi dweud eisoes inni ymgynghori'n llawn ynghylch hyn. Rwyf wedi dweud eisoes y byddaf yn rhoi datganiad llafar. Trefnwyd i hynny ddigwydd yr wythnos nesaf ac fe gewch gyfle i drafod y peth eto bryd hynny. Dyna enghraifft arall o dryloywder.

I tabled a debate on the food industry last month to enable you to discuss that aspect of the rural economy as well. I notice that not one speaker has referred to the food industry in their contributions. That demonstrates a limited view of what the rural economy is and what is required in terms of Government support for the rural economy.

Cyflwynais ddadl am y diwydiant bwyd fis diwethaf i'ch galluogi i drafod yr agwedd honno ar yr economi wledig hefyd. Sylwaf nad oes yr un siaradwr wedi cyfeirio at y diwydiant bwyd yn ei gyfraniadau. Mae hynny'n dangos agwedd gyfyng at beth yw'r economi wledig a pha fath o gefnogaeth y mae gofyn i'r Llywodraeth ei rhoi iddi.

**Elin Jones:** Diolch, Ddirprwy Weinidog, am gymryd yr ymyriad. Un o’r cwmnïau bwyd mwyaf eiconig a llewyrchus sydd wedi bod gennym yng Nghymru yw Rachel’s Dairy yn Aberystwyth. Cafwyd newyddion trist heddiw y bydd yn colli traean o’i weithlu. A wnewch sicrhau’r Siambr y bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda pherchnogion cwmni Rachel’s, Lactalis, i ddiogelu dyfodol y cwmni hwnnw yn Aberystwyth?

**Elin Jones:** Thank you, Deputy Minister, for taking the intervention. Rachel’s Dairy in Aberystwyth is one of the most iconic and prosperous food companies that we have had in Wales. Very sad news has been heard today that it is to lose a third of its workforce. Will you assure the Chamber that the Government will work with the owners of Rachel’s, Lactalis, to safeguard the future of that company in Aberystwyth?

**Alun Davies:** I certainly can give you that reassurance. As you will know, we spoke about it over the weekend. My officials have been, and will continue to be, in contact with Rachel’s. I had a meeting with officials on the matter today. I will continue to keep the Chamber and you informed on that. Rachel’s, as you said, is an iconic brand, not only for Aberystwyth, but also for Wales. It is vital

**Alun Davies:** Gallaf eich sicrhau o hynny'n bendant. Fel y gwyddoch, buom yn ei drafod dros y penwythnos. Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â chwmni Rachel's a bydd y cysylltiad hwnnw'n parhau. Cefais gyfarfod â swyddogion ynglŷn â'r mater heddiw. Byddaf yn dal i sicrhau bod y Siambr a chithau'n cael gwybod am y sefyllfa. Mae Rachel's fel y dywedasoch, yn

that we protect and nurture brands and businesses like Rachel’s for the future. We will continue to do that.

frand eiconig, nid dim ond i Aberystwyth, ond hefyd i Gymru. Mae'n hollbwysig inni warchod a meithrin brandiau a busnesau fel Rachel's at y dyfodol. Byddwn yn parhau i wneud hynny.

On where we are, we have had significant engagement with stakeholders—not just once or twice a year, but ongoing engagement throughout the year. I spoke to the National Farmers Union for an hour and a half this morning and will speak to the Farmers’ Union of Wales and the Country Land and Business Association next week. We speak regularly to people, formally, at structured meetings, and informally at events and activities, throughout the year. I have proactively sought opportunities to create conversations where they do not exist or where they would not take place.

O ran lle'r ydym arni, rydym wedi ymgysylltu i raddau helaeth â rhanddeiliaid—nid dim ond unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, ond yn barhaus drwy gydol y flwyddyn. Treuliais awr a hanner y bore yma yn siarad ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a byddaf yn siarad ag Undeb Amaethwyr Cymru a Chymdeithas Tir a Busnesau Chefn Gwlad yr wythnos nesaf. Byddwn yn siarad â phobl yn rheolaidd, yn ffurfiol, mewn cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu, ac yn anffurfiol mewn digwyddiadau a gweithgareddau drwy'r flwyddyn. Rwyf wedi mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyfleoedd i greu sgyrsiau lle nad ydynt yn digwydd neu lle na fyddent yn digwydd.

I initiated the working smarter process. I presume that Llyr was welcoming the report because he quoted from it. There is a commitment in it to address those issues and to ensure that we have independent verification of how we address those issues and deliver on promises made. So, we have a process in place; a process that is transparent and that hardwires in accountability to the Chamber, the industry, and to communities outside the Chamber. We will continue to work in that way.

Rhoddais broses hwyluso'r drefn ar waith. Rwyf yn tybio bod Llŷr yn croesawu'r adroddiad oherwydd iddo ddyfynnu ohono. Mae'n ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion hynny ac i sicrhau ein bod yn dilysu'r materion hynny'n annibynnol ac yn gwireddu ein haddewidion. Felly, mae gennym broses ar waith; proses sy'n dryloyw a phroses lle y mae atebolrwydd i'r Siambr, i'r diwydiant ac i gymunedau y tu allan i'r Siambr yn rhan hanfodol o'r drefn. Byddwn yn parhau i weithio felly.

I will respond to some of the points made by Suzy Davies. You were certainly right to make those points about rural-proofing; that is a matter to which I hope to return in due course and it is certainly something that we will be addressing. You spoke about the dairy industry, which is something that we discussed here some weeks ago. You will be aware that I have spoken to processors in the industry and I have spoken to those working within the dairy industry itself. We will be writing once again to DEFRA within the next week or so to follow up on progress on the voluntary code of conduct. I hope that we will be able to agree a voluntary code of conduct in the near future. That is why, a few weeks ago, we did not wish to accept your amendment on the EU dairy package. That is not our preferred way of making progress on

Atebaf rai o'r pwyntiau a godwyd gan Suzy Davies. Roeddech yn sicr yn llygad eich lle'n codi'r pwyntiau hynny ynglŷn â phrawfesur gwledig; mae hwnnw'n fater yr wyf yn gobeithio dychwelyd ato maes o law ac mae'n sicr yn rhywbeth y byddwn yn mynd i'r afael ag ef. Soniasoch am y diwydiant llaeth, sy'n rhywbeth a drafodwyd gennym yma ychydig wythnosau yn ôl. Gwyddoch imi siarad â phroseswyr yn y diwydiant ac imi siarad â'r rheini sy'n gweithio yn y diwydiant llaeth ei hun. Byddwn yn ysgrifennu at DEFRA unwaith eto yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf ar drywydd y cod ymddygiad gwirfoddol. Rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu cytuno ar god ymddygiad gwirfoddol yn y dyfodol agos. Dyna pam, ychydig wythnosau yn ôl, nad oeddem am dderbyn eich gwelliant ynglŷn â phecyn llaeth yr

this matter. However, I am quite confident that we will have progress on this.

Undeb Ewropeaidd. Yn ein barn ni, nid dyna'r ffordd orau o fwrw ymlaen â'r mater. Rwyf yn eithaf hyderus y gwelwn gynnydd yn hyn o beth.

Your final point was on the adjudicator. We need management and regulation of the supply chain. The supply chain and the market in dairy clearly do not work at the moment. That is very clear. We agree with you on that. That is why I will be writing to the UK Government to support what it is doing in terms of the adjudicator, but also to ask it to go much further than it is going and to ensure that, when the position is created, the adjudicator will have real powers, real teeth and will be able to ensure that people throughout the supply chain have the opportunity to create real profit.

Roedd a wnelo'ch pwynt olaf â'r dyfarnwr. Mae angen rheoli a rheoleiddio'r gadwyn gyflenwi. Mae'n amlwg nad yw'r gadwyn gyflenwi a'r farchnad yn gweithio ar hyn o bryd yn y diwydiant llaeth. Mae hynny'n amlwg iawn. Rydym yn cytuno â chi ynglŷn â hynny. Dyna pam y byddaf yn ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gefnogi'r hyn y mae'n ei wneud o ran y dyfarnwr, ond gan ofyn iddi hefyd fynd ymhellach o lawer nag y mae ar hyn o bryd a sicrhau, pan grëir y swydd, y bydd gan y dyfarnwr bwerau go iawn, dannedd go iawn, ac y bydd yn gallu sicrhau bod gan bobl drwy'r gadwyn gyflenwi gyfle i greu elw go iawn.

**Darren Millar:** Thank you for taking an intervention, Deputy Minister. I am very grateful to hear that you will be supporting the adjudicator role that is being created by the UK Government. I wonder what you might be able to learn through engaging with the Irish Government regarding the situation in that nation. It seems to have a better relationship and balance between the supermarket industry and food producers, including the dairy industry. You will know of its experience from speaking to people like Senator Feargal Quinn. Could a contribution from the Irish experience help Wales?

**Darren Millar:** Diolch ichi am dderbyn ymyriad, Ddirprwy Weinidog. Rwyf yn ddiolchgar iawn o glywed y byddwch yn cefnogi rôl y dyfarnwr sy'n cael ei chreu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Tybed a allech ddysgu rhywbeth drwy ymgysylltu â Llywodraeth Iwerddon ynglŷn â'r sefyllfa yn y genedl honno. Mae'n ymddangos bod gwell perthynas a chydbwysedd yno rhwng y diwydiant archfarchnadoedd a chynhyrchwyr bwyd, gan gynnwys y diwydiant llaeth. Gwyddoch am brofiad Iwerddon o siarad â phobl fel y Seneddwr Feargal Quinn. A allai profiad Iwerddon fod o gymorth i Gymru?

**Alun Davies:** Thank you for that, Darren. Certainly, Senator Feargal Quinn sets an example that many would like to follow. He is certainly someone with whom I would like to converse further.

**Alun Davies:** Diolch ichi am hynny, Darren. Yn sicr, mae'r Seneddwr Feargal Quinn yn gosod esiampl y byddai llawer yn hoffi ei dilyn. Mae'n sicr yn rhywun yr hoffwn sgwrsio rhagor ag ef

I will conclude by saying a few words on forestry. I recognise the concerns that were outlined by William Powell, but the budget for woodland planting and management has been increased from £3.25 million under the previous Better Woodlands for Wales scheme to a maximum of £11 million under the Glastir woodland creation scheme. These schemes are available to all woodland owners irrespective of whether they participate in other aspects of Glastir, and they will continue to enable us to meet the Welsh Government’s woodland planting targets.

Tynnaf i ben drwy ddweud ychydig o eiriau am goedwigaeth. Rwyf yn cydnabod y pryderon y soniodd William Powell amdanynt, ond mae'r gyllideb ar gyfer plannu a rheoli coetiroedd wedi cynyddu o £3.25 miliwn o dan gynllun blaenorol Coetiroedd Gwell i Gymru i uchafswm o £11 miliwn o dan gynllun creu coetiroedd Glastir. Mae'r cynlluniau hyn ar gael i bob perchennog coetir, ni waeth a yw'n rhan o agweddau eraill Glastir neu beidio, a byddant yn dal i'n galluogi i wireddu targedau plannu coetiroedd Llywodraeth Cymru. Byddant yn

They will provide continuing grants for restocking and the ongoing management of the woods. Therefore, there is clear support in place. That support has not decreased, but has increased. It has increased in a way that enables woodland managers to invest in the future of their woodlands, not simply today, but to manage them for the future.

**Kirsty Williams** *rose—*

**Alun Davies:** I am sorry; I cannot give way again, Kirsty, because time is beating us.

In conclusion, we are seeking to ensure that the timber industry and woodland management contribute to a wider, more diverse and strong rural economy. I would like to finish by saying that we need to look at opportunities to increase the value that is created in the rural economy to strengthen and improve the economy that exists in rural Wales. We now have an opportunity to do so through the reform of the common agricultural policy and pillar 2 and the next rural development plan. I will make announcements on this next week. However, we have the opportunity to shape and strengthen the whole of the rural economy over the coming months. I hope that that is something that will unite Members in the Chamber and, if we can unite Members on wanting to achieve that, we can achieve great things for rural Wales.

**Mark Isherwood:** I thank Antoinette for moving the motion and I thank all of those who have contributed to the debate. It has been a useful debate, many valid points have been made and, by and large, it has been a debate in very good spirit. As Antoinette stated in her opening speech, rural Wales is a living and working landscape and is home to two of our most sustainable industries, namely agriculture and forestry, which support 77,000 jobs and maintain our beautiful Welsh landscape. As she said, huge opportunities exist in both sectors, but the Welsh Government has made regrettable decisions that have failed to deliver value for money.

She referred to TAN 6 and to the fact that

darparu grantiau parhaus ar gyfer ailstocio a rheoli coedwigoedd yn barhaus. Felly, mae'n amlwg bod cymorth ar gael. Nid yw'r cymorth hwnnw wedi gostwng. Mae wedi cynyddu. Mae wedi cynyddu mewn ffordd sy'n galluogi rheolwyr coetiroedd i fuddsoddi yn nyfodol eu coetiroedd, nid dim ond heddiw, ond i'w rheoli ar gyfer y dyfodol.

**Kirsty Williams** *a gododd—*

**Alun Davies:** Mae'n ddrwg gennyf; ni allaf ildio eto, Kirsty, oherwydd mae amser yn mynd yn drech na ni.

I gloi, rydym yn ceisio sicrhau bod y diwydiant coed a rheoli coetiroedd yn cyfrannu at economi wledig ehangach sy'n fwy amrywiol ac yn gryfach. Hoffwn derfynu drwy ddweud bod angen inni edrych ar gyfleoedd i gynyddu'r gwerth sy'n cael ei greu yn yr economi wledig er mwyn cryfhau a gwella'r economi sy'n bodoli yng nghefn gwlad Cymru. Mae gennym gyfle i wneud hynny yn awr drwy ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin a cholofn 2 a'r cynllun datblygu gwledig nesaf. Byddaf yn cyhoeddi gwybodaeth am hyn yr wythnos nesaf. Serch hynny, mae cyfle inni yn awr lunio a chryfhau'r economi wledig drwyddi draw dros y misoedd nesaf. Rwyf yn gobeithio bod hynny'n rhywbeth a fydd yn uno Aelodau'r Siambr hon, ac, os gallwn uno'r Aelodau yn eu hawydd i gyflawni hynny, gallwn gyflawni pethau mawr dros y Gymru wledig.

**Mark Isherwood:** Diolch i Antoinette am gynnig y cynnig a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl. Mae wedi bod yn ddadl fuddiol. Mae llawer o bwyntiau dilys wedi'u codi ac, ar y cyfan, mae'r ddadl wedi'i chynnal mewn ysbryd da iawn. Fel y dywedodd Antoinette yn ei haraith agoriadol, mae'r Gymru wledig yn dirwedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio ac mae'n gartref i ddau o'n diwydiannau mwyaf cynaliadwy, sef amaethyddiaeth a choedwigaeth, a'r rheini'n cynnal 77,000 o swyddi ac yn cynnal ein tirwedd hardd yma yng Nghymru. Fel y dywedodd, mae'r ddau sector yn cynnig cyfleoedd enfawr, ond mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniadau anffodus sydd heb sicrhau gwerth am arian.

Cyfeiriodd at TAN 6 ac at y ffaith mai dim

only 14 applications for affordable rural housing were received in the first year because of the failure of local authorities to implement TAN 6 and the failure of the Welsh Government to hold them to account. I would add to that the need to empower and liberate rural housing enablers to identify real, hidden affordable housing need in rural areas, so that they can go to local authorities and community and town councils equipped with that knowledge, rather than have to seek permission to carry out research that is often met with subjective cynicism.

ond 14 o geisiadau am dai gwledig fforddiadwy a gafwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf oherwydd bod awdurdodau lleol heb roi TAN 6 ar waith ac oherwydd na lwyddodd Llywodraeth Cymru i'w dal yn atebol. Byddwn yn ychwanegu at hynny bod angen grymuso a rhyddhau galluogwyr tai gwledig er mwyn iddynt allu canfod yr angen cudd gwirioneddol am dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. Yna, gallent fynd at awdurdodau lleol a'u cynghorau cymuned a thref wedi'u harfogi â'r wybodaeth honno, yn hytrach na gorfod ceisio caniatâd i wneud ymchwil a hynny'n aml yn ennyn ymateb sinigaidd o oddrychol.

Antoinette referred to Glastir, the Welsh Government's lame duck agri-environment scheme. Stakeholders warned of its failings, but they were ignored. She also spoke of the forestry sector taking on a high financial liability because of the Welsh Government's merger of the environmental bodies.

Cyfeiriodd Antoinette at Glastir, hwyaden gloff cynllun amaeth-amgylchedd Llywodraeth Cymru. Cafwyd rhybuddion am ei wendidau gan randdeiliaid ond fe'u hanwybyddwyd. Soniodd hefyd am y sector coedwigaeth yn ysgwyddo atebolrwydd ariannol mawr oherwydd bod Llywodraeth Cymru'n uno'r cyrff amgylcheddol.

William Powell stated that it was regrettable that many of the challenges facing agriculture and forestry industries are a result of Welsh Government policies. He spoke of the challenges presented by the malaise surrounding Glastir and the creation of the single environment body, and said that the Welsh Government could provide higher agri-environment payments to farmers in less favoured areas, as the European Commission had indicated.

Dywedodd William Powell ei fod yn gresynu bod llawer o'r anawsterau sy'n wynebu diwydiannau amaethyddol a choedwigaeth wedi'u creu gan bolisïau Llywodraeth Cymru. Soniodd am yr anawsterau sy'n codi yn sgil y diflastod ynglŷn â Glastir a chreu'r un corff amgylcheddol, a dywedodd y gallai Llywodraeth Cymru roi taliadau amaeth-amgylchedd uwch i ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol, fel y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi awgrymu.

Russell George referred to Welsh Government policy blunders, regardless of the views of relevant groups. In that context, he referred to bovine TB, the fact that three organisations are being forced into becoming one environmental body, the inflexibility of Glastir leading to landowners and farmers being put off, and the woodland management scheme being rigid and inflexible.

Cyfeiriodd Russell George at sawl smonach gan Lywodraeth Cymru ym maes polisi, ni waeth beth oedd barn y grwpiau perthnasol. Yn y cyd-destun hwnnw, cyfeiriodd at TB buchol, y ffaith bod tri chorff yn cael eu gorfodi i uno'n un corff amgylcheddol, tirfeddianwyr a ffermwyr yn cefnu ar Glastir am ei fod mor anhyblyg a bod y cynllun rheoli coetiroedd yn haearnaidd ac yn anystwyth.

David Rees made some good points. He recognised the rural industry's vital role in the culture, economy and identity of Wales. He recognised that we need a countryside that lives and works. He recognised that there are specific challenges facing rural communities. He spoke of concerns over the

Gwnaeth David Rees nifer o bwyntiau da. Roedd yn cydnabod rôl hollbwysig diwydiannau gwledig o ran diwylliant, economi a hunaniaeth Cymru. Roedd yn cydnabod bod angen cefn gwlad arnom lle mae pobl yn byw ac yn gweithio. Roedd yn cydnabod bod anawsterau penodol yn

role of broadband and that rural areas should not be left to lag behind. He raised an important point about the fact that tourism fits with the agriculture and forestry sectors. He rightly praised the ingenuity and investment of rural industries. We would all support those relevant points.

wynebu cymunedau gwledig. Soniodd am bryderon ynglŷn â rôl band eang ac na ddylid gadael i ardaloedd gwledig lusgo ar ei hôl hi. Cododd bwynt pwysig ynglŷn â bod twristiaeth yn cydweddu â'r sectorau amaethyddol a choedwigaeth. Rhoddodd ganmoliaeth ddyledus i ddyfeisgarwch diwydiannau gwledig a'u parodrwydd i fuddsoddi. Byddem i gyd yn cefnogi'r pwyntiau perthnasol hynny.

Suzy Davies started by talking about indigenous agricultural food and drink industries and their contribution of £3 billion to the Welsh economy. She said that we need to be more pragmatic about applying EU directives that affect our farmers. She talked about blatant waste in the Welsh Government's implementation of EU law, and about the complex and poorly designed Glastir scheme leading to farmers wasting time and resources and ending up receiving nothing. She went on to talk about bovine TB and that farmers are looking for evidence that the Welsh Government will act in their interest. She cited the example of the new waste charge on farmers running holiday let businesses, which is perhaps the law of unintended consequences hitting again because insufficient thought was given to it before it was implemented. She also referred to the supermarket ombudsman, and the need for the Welsh Government to work constructively with the UK Government in this regard.

Dechreuodd Suzy Davies drwy sôn am y diwydiannau bwyd a diod amaethyddol cynhenid a'u bod yn cyfrannu £3 biliwn i economi Cymru. Dywedodd fod angen inni fod yn fwy pragmatig ynglŷn â rhoi cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd sy'n effeithio ar ein ffermwyr ar waith. Soniodd am wastraff amlwg wrth i Lywodraeth Cymru roi cyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar waith ac am y ffaith fod cynllun cymhleth, gwael ei ddyluniad Glastir yn golygu bod ffermwyr yn gwastraffu amser ac adnoddau ac yn cael dim yn y pen draw. Aeth rhagddi i sôn am TB buchol a bod ffermwyr yn chwilio am dystiolaeth y gwnaiff Llywodraeth Cymru weithredu er eu budd hwy. Soniodd am enghraifft y tâl newydd am wastraff a godir ar ffermwyr sy'n cadw busnes gosod tai gwyliau. Dyma enghraifft arall o bosibl o'r ddeddf canlyniadau annisgwyl yn ein taro eto oherwydd na chafodd y peth ei ystyried ddigon cyn ei roi ar waith. Cyfeiriodd hefyd at yr ombwdsmon archfarchnadoedd a bod angen i Lywodraeth Cymru weithio mewn ffordd adeiladol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y cyswllt hwn.

Llyr Huws Gruffydd talked about the pressure to produce more food at the same time that fertiliser feed and fuel prices are increasing. He said that the Welsh Labour Government abolished the role of the Minister for Rural Affairs and downgraded it to the role of a Deputy Minister. He rightly asked what message that sends to the sector and internationally. He also asked why the responsibility for animal health was transferred. He referred to the reversal of the decision on bovine TB as a political decision, making science fit the policy, rather than the policy fit the science. That was well put. He talked about a culture of fear and suspicion among farmers that was being intensified by Welsh Government decisions. In respect of

Soniodd Llŷr Huws Gruffydd am y pwysau i gynhyrchu mwy o fwyd ar yr un pryd ag y mae prisiau gwrtaith a thanwydd yn cynyddu. Dywedodd fod Llywodraeth Lafur Cymru wedi diddymu rôl y Gweinidog Materion Gwledig a'i hisraddio drwy greu rôl Dirprwy Weinidog. Roedd yn llygad ei le'n gofyn pa neges y mae hynny'n ei hanfon at y sector ac yn rhyngwladol. Gofynnodd hefyd pam y trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros iechyd anifeiliaid. Cyfeiriodd at wrthdroi'r penderfyniad ynglŷn â TB buchol a'i alw'n benderfyniad gwleidyddol, gan wneud i'r wyddoniaeth gydweddu â'r polisi yn hytrach nag i'r polisi gydweddu â'r wyddoniaeth. Dweud da. Soniodd am ddiwylliant ofn ac amheuaeth ymhlith ffermwyr a hwnnw'n cael

the forestry sector, he talked about the industry’s views being completely disregarded.

ei ddwysáu gan benderfyniadau Llywodraeth Cymru. O ran y sector coedwigaeth, dywedodd fod barn y diwydiant yn cael ei hanwybyddu'n llwyr.

Paul Davies said that Welsh Government decisions should be based on evidence only, not political considerations. He put it politely and said that the reversal of the decision on bovine TB had disappointed farmers in Pembrokeshire—I suspect that they might express it in a more earthy way than ‘disappointment’. He had the evidence to show that the bovine TB eradication policy would both work and save money for taxpayers and had been stepped around and sidelined and that farmers and the Welsh Government had wasted resources preparing for a cull that is not now going to happen. He asked whether, if, during the vaccination process, badgers are found to be already carrying the disease, it is right to release them. He said that the original policy, which was voted for in this Chamber at the end of the last Assembly, was far more effective.

Dywedodd Paul Davies y dylid seilio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar dystiolaeth yn unig, nid ar ystyriaethau gwleidyddol. Dywedodd yn gwrtais fod gwrthdroi'r penderfyniad ynglŷn â TB buchol wedi bod yn siom i ffermwyr yn Sir Benfro—rwyf yn amau y byddent hwy'n defnyddio ymadrodd agosach at y pridd na 'siom'. Roedd ganddo'r dystiolaeth i ddangos y bydda’r polisi i ddileu TB buchol yn gweithio ac yn arbed arian i drethdalwyr a’i fod wedi cael ei ochrgamu a'i wthio i'r cyrion a bod ffermwyr a Llywodraeth Cymru wedi gwastraffu adnoddau'n paratoi ar gyfer cynllun difa na fydd yn digwydd bellach. Gofynnodd, os gwelir yn ystod y broses frechu, bod y clefyd eisoes ar foch daear, a yw'n iawn eu rhyddhau. Dywedodd fod y polisi gwreiddiol, y pleidleisiwyd o'i blaid yn y Siambr hon ddiwedd y Cynulliad diwethaf, yn fwy effeithiol o lawer.

5.30 p.m.

Then the Deputy Minister, Alun Davies, responded. I think that his opening line about this being a peculiar motion was rather a peculiar opening statement in a contribution that, while not entirely peculiar, certainly contained peculiar elements. He referred to Glastir, undertaking a stocktake and said that he would report back with another statement in June. We are getting another statement, chaps and ladies. Is that not fantastic? He referred to the CAP and the opportunity for further discussion next week. He said that not one speaker mentioned the food industry. However, as I have already said, Suzy Davies addressed that in her contribution. He said that there is significant engagement with stakeholders and that he has spoken to the NFU this morning. That is the problem. They do not want you to speak to them; they want you to speak with them.

Yna, ymatebodd y Dirprwy Weinidog, Alun Davies. Credaf fod ei linell agoriadol sef bod y cynnig hwn yn un rhyfedd braidd yn ddatganiad agoriadol rhyfedd braidd mewn cyfraniad, er nad oedd yn gwbl ryfedd, yn sicr yn cynnwys elfennau rhyfedd. Cyfeiriodd at gynllun Glastir, cyfrif stoc a dweud y byddai'n adrodd yn ôl gyda datganiad arall ym mis Mehefin. Rydym am gael datganiad arall, gyfeillion. Onid yw hynny'n fendigedig? Cyfeiriodd at y PAC a'r cyfle i drafod rhagor yr wythnos nesaf. Dywedodd na chyfeiriodd yr un siaradwr at y diwydiant bwyd. Serch hynny, fel yr wyf wedi dweud eisoes, soniodd Suzy Davies am hynny yn ei chyfraniad. Dywedodd fod ymgysylltu sylweddol ar waith â rhanddeiliaid a'i fod wedi siarad ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr y bore yma. Dyna'r broblem. Nid eich clywed chi'n siarad yw eu dymuniad, ond cael sgwrs ddwy ffordd.

However, he said—and this is to be welcomed—that he wants to return to rural-proofing policies. Everyone would welcome that. He said that we need management and

Fodd bynnag, dywedodd—ac mae hyn i'w groesawu—ei fod am ddychwelyd at bolisïau prawfesur gwledig. Byddai pawb yn croesawu hynny. Dywedodd fod angen inni

regulation of the supply chain and that he will be writing to the UK Government to support its proposals for the supermarket adjudicator. Of course, we welcome that and we are interested to know what wider proposals you might have to suggest to it to improve on the proposals. He responded to Darren Millar's intervention regarding good practice in Ireland in a positive light. He concluded by talking about recognising the concerns of the forestry sector and increasing the budget to support woodland management.

reoli a rheoleiddio'r gadwyn gyflenwi ac y bydd yn ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gefnogi ei chynigion ar gyfer dyfarnwr yr archfarchnadoedd. Wrth gwrs, rydym yn croesawu hynny a byddai'n dda gennym wybod pa gynigion eraill y gall fod gennych i'w hawgrymu iddo er mwyn gwella'r cynigion. Ymatebodd yn gadarnhaol i ymyriad Darren Millar ynglŷn ag arferion da yn Iwerddon. Daeth i ben drwy sôn am gydnabod pryderon y sector coedwigaeth a chynyddu'r gyllideb i gefnogi rheoli coetiroedd.

So, many points were highlighted. The Federation of Small Businesses Wales highlighted the importance of sectors such as agriculture and forestry being adequately supported. It also highlighted the importance of other rural businesses crucial to the rural community's make-up. This must not be neglected and requires consultation with rural businesses to ensure that they are placed at the heart of any approach. With regard to the single environment body, the FSB Wales called on the Welsh Government to work closely with the small business community to ensure that any reforms properly address the barriers it faces and contribute to creating the right conditions for sustainable growth.

Felly, codwyd llawer o bwyntiau. Tynnodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru sylw at bwysigrwydd rhoi digon o gefnogaeth i sectorau megis amaethyddiaeth a choedwigaeth. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd busnesau gwledig eraill sy'n hollbwysig i wead y gymuned wledig. Rhaid peidio ag esgeuluso hyn ac mae gofyn ymgynghori â busnesau gwledig er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gosod wrth wraidd unrhyw ddull a ddefnyddir. O ran yr un corff amgylcheddol, galwodd y Ffederasiwn ar Lywodraeth Cymru i weithio'n glos gyda'r gymuned busnesau bach er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau'n mynd i'r afael yn iawn â'r rhwystrau y mae'n eu hwynebu gan gyfrannu at greu'r amgylchiadau iawn iddi dyfu mewn ffordd gynaliadwy.

I call on Members to support the motion, recognising the challenges facing the agricultural and forestry sectors and their value to the Welsh economy and regretting the failure of the Welsh Government to deliver cost-effective policies to support these rural industries.

Galwaf ar yr Aelodau i gefnogi'r cynnig, gan gydnabod yr anawsterau sy'n wynebu'r sector amaethyddiaeth a'r sector coedwigaeth a'u gwerth i economi Cymru a gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i sicrhau polisïau cost-effeithiol i gefnogi'r diwydiannau gwledig hyn.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are. I will therefore defer all voting on this item until voting time. Voting time will now follow. Are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig heb welliant. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Mae'n amser pleidleisio yn awr. A oes tri Aelod sy'n dymuno imi ganu'r gloch? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

# Cyfnod Pleidleisio
# Voting Time

*Cynnig NDM4955: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM4955: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

*Cynnig NDM4986: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 32.*
*Motion NDM4986: For 22, Abstain 0, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4986: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 1 to NDM4986: For 27, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred

Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii)*
*As there was an equality of votes, the Deputy Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii)*

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4986: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM4986: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren

Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4986: O blaid 17, Ymatal 10, Yn erbyn 27.*
*Amendment 3 to NDM4986: For 17, Abstain 10, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn

Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

Cynnig NDM4986 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn cydnabod y sialensiau sy'n wynebu'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth a'u gwerth i economi Cymru;*

*2. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyflawni polisïau costeffeithiol i gefnogi'r diwydiannau gwledig hyn; a*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*a) ymgysylltu'n adeiladol â rhanddeiliaid y diwydiant;*

*b) gwella tryloywder ei pholisïau;*

*c) sicrhau bod ei pholisïau'n cyflawni gwerth am arian ac nad ydynt yn tanseilio swyddi gwledig yn y sector preifat; a*

*d) sicrhau bod y sector coedwigaeth yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ar y lefel uchaf mewn unrhyw un corff amgylcheddol newydd.*

Motion NDM4986 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Recognises the challenges facing the agricultural and forestry sectors and their value to the Welsh economy;*

*2. Regrets the failure of the Welsh Government to deliver cost-effective policies to support these rural industries; and*

*3. Calls on the Welsh Government to:*

*a) constructively engage with industry stakeholders;*

*b) improve the transparency of its policies;*

*c) ensure that its policies deliver value for money and do not undermine private sector rural jobs; and*

*d) ensure that there is adequate representation for the forestry sector at the highest level in any new single environmental body.*

*Cynnig NDM4986 fel y'i diwygiwyd: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Motion NDM4986 as amended: For 27, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann

| | |
|---|---|
| Millar, Darren | Jones, Carwyn |
| Parrott, Eluned | Lewis, Huw |
| Powell, William | Mewies, Sandy |
| Ramsay, Nick | Morgan, Julie |
| Roberts, Aled | Price, Gwyn R. |
| Sandbach, Antoinette | Rathbone, Jenny |
| Thomas, Rhodri Glyn | Rees, David |
| Thomas, Simon | Sargeant, Carl |
| Whittle, Lindsay | Skates, Kenneth |
| Williams, Kirsty | Thomas, Gwenda |
| Wood, Leanne | Watson, Joyce |

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii)*
*As there was an equality of votes, the Deputy Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii)*

*Gwrthodwyd cynnig NDM4986 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4986 as amended not agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I ask those Members leaving the Chamber to please do so quickly and quietly.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gofynnaf i'r Aelodau hynny sy'n ymadael â'r Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

## Dadl Fer
## Short Debate

### Tîm Prydain Fawr: Cyfle Euraid
### Team GB: A Golden Opportunity

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to present this short debate this afternoon. Bethan Jenkins, Mike Hedges and Mohammad Asghar have asked for a minute in which to contribute to the debate and I am more than happy to facilitate that.

Later this summer, Great Britain will play host to the largest sporting event to be held on these shores since the World Cup in 1966. This presents us with a unique opportunity to put Wales and its athletes on the centre stage, with clear benefits in terms of the economy, tourism as well as in a sporting and culture sense. While I am sure that we all see the Olympic and Paralympic Games as a celebration of sporting achievement, primarily in terms of track and field events, we cannot ignore the potential of our one-off participation in the football competition, particularly given that several of the tournament's key fixtures are to be hosted in Wales at the Millennium Stadium. As football is the country's most played and, indeed, most watched sport, the participation of a one-off football team comprising some

**Andrew R.T. Davies:** Rwy'n croesawu'r cyfle i gyflwyno'r ddadl fer hon y prynhawn yma. Mae Bethan Jenkins, Mike Hedges a Mohammad Asghar wedi gofyn am funud i gyfrannu i'r ddadl ac rwy'n fwy na pharod i hwyluso hynny.

Yn ddiweddarach yr haf hwn, bydd Prydain yn croesawu'r digwyddiad chwaraeon mwyaf i'w gynnal yma ers Cwpan y Byd ym 1966. Mae hwn yn gyfle unigryw inni ddod â Chymru a'i hathletwyr i sylw'r byd, â manteision amlwg i'r economi a thwristiaeth yn ogystal â'n chwaraeon a'n diwylliant. Rwy'n sicr bod pob un ohonom yn gweld y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd fel dathliad o lwyddiant ym maes chwaraeon, a chystadlaethau trac a maes yn bennaf, ond ni allwn anwybyddu potensial cymryd rhan unwaith yn unig yn y gystadleuaeth bêl-droed, yn enwedig gan y bydd nifer o brif gemau'r twrnamaint yn cael eu cynnal yng Nghymru, yn Stadiwm y Mileniwm. Gan mai pêl-droed yw'r gêm sy'n cael ei chwarae a'i gwylio fwyaf yn y wlad, mae creu tîm pêl-droed, ar gyfer un achlysur yn unig, a fydd yn

of the best players from across the United Kingdom has generated huge interest in terms of column inches and debate. Sadly, this debate has focused too much on whether our best footballers should be allowed to fulfil their desire to represent Great Britain and not enough on how we can tap into the excitement that it will generate and how we can maximise the benefits for Wales by playing a positive and constructive role in staging this event.

cynnwys rhai o'r chwaraewyr gorau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig wedi ennyn diddordeb anhygoel o ran modfeddi colofnau a dadleuon. Yn anffodus, mae'r ddadl hon wedi canolbwyntio gormod ar y cwestiwn a ddylid caniatáu i'n chwaraewyr pêl-droed gorau wireddu eu dymuniad i gynrychioli Prydain a dim digon ar y cwestiwn sut y gallwn fanteisio ar y cyffro y bydd hyn yn ei greu a sicrhau'r budd gorau posibl i Gymru drwy chwarae rhan gadarnhaol ac adeiladol yn y broses o lwyfannu'r digwyddiad hwn.

Naturally, it would be impossible to discuss the football competition without addressing some of the controversy that has punctuated the coverage of it so far. However, in this speech I shall attempt to do so and set out the positive case for participation by our Welsh footballers. This is a once-in-a-lifetime opportunity, so, for us as a country and for the individual athletes who may be selected, it is vital that we take advantage of it. That is why so many people have been making the case for allowing Welsh players to take part this summer. The idea has attracted a great deal of support among the Welsh players themselves, with Gareth Bale and Aaron Ramsey having taken part in various promotional events ahead of the competition. However, the enthusiasm for Team GB is not restricted to the younger players in the Welsh squad. Indeed, the likes of Craig Bellamy and Ryan Giggs have repeatedly declared their interest in appearing as over-age players. For Giggs, who was unfortunate not to have made it to a major competition during his illustrious international career, this will be his last chance to represent Wales, and, indeed, Britain, on the world stage. Yesterday, he outlined what this would mean to him. He said:

Wrth gwrs, byddai'n amhosibl trafod y gystadleuaeth bêl-droed heb gyfeirio rhywfaint at y dadleuon sydd wedi taflu cysgod arni hyd yn hyn. Fodd bynnag, yn yr araith hon ceisiaf wneud hynny ac amlinellu'r ddadl gadarnhaol pam y dylai pêl-droedwyr Cymru gymryd rhan. Mae hwn yn gyfle unwaith mewn oes, felly fel gwlad, ac fel athletwyr unigol a allai gael eu dewis, mae'n hanfodol ein bod yn manteisio arno. Dyna pam y mae cynifer o bobl wedi bod yn dadlau o blaid caniatáu i chwaraewyr o Gymru gymryd rhan yr haf hwn. Mae'r chwaraewyr eu hunain wedi dweud eu bod yn cefnogi'r syniad, gyda Gareth Bale ac Aaron Ramsey yn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyrwyddo amrywiol cyn y gystadleuaeth. Fodd bynnag, nid yw'r brwdfrydedd dros Dîm Prydain wedi'i gyfyngu i chwaraewyr iau sgwad Cymru. Yn wir, mae rhai fel Craig Bellamy a Ryan Giggs wedi datgan droeon y byddai ganddynt ddiddordeb mewn ymddangos fel chwaraewyr hŷn. Bu Giggs yn anffodus i beidio â chyrraedd cystadleuaeth fawr yn ystod ei yrfa ryngwladol ddisglair, a hwn fydd ei gyfle olaf i gynrychioli Cymru, a Phrydain mewn gwirionedd, ar lwyfan y byd. Amlinellodd ddoe beth y byddai hyn yn ei olygu iddo:

'I'm on the shortlist and if I get picked it would be fantastic, I think everyone is excited about the Olympics coming to Britain'.

Rydw i ar y rhestr fer a byddwn wrth fy modd yn cael fy newis. Rwy'n credu bod pawb yn teimlo'n gyffrous bod y Gemau Olympaidd yn dod i Brydain.

His manager, Sir Alex Ferguson, recognises this and has agreed to release him to play in a major tournament before he retires. Why should he not have that chance? In every other event taking place this summer, athletes from across the United Kingdom will happily compete side-by-side under the Union Jack.

Mae ei reolwr, Syr Alex Ferguson, yn cydnabod hyn ac mae wedi cytuno i'w ryddhau i chwarae mewn twrnamaint mawr cyn iddo ymddeol. Pam na ddylai gael y cyfle hwnnw? Ym mhob digwyddiad chwaraeon arall yr haf hwn, bydd athletwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig yn cystadlu ochr yn ochr

Only the heartless or the small-minded would deny him this opportunity.

Opponents of Team GB have repeatedly spoken of the damage that it could do to the future integrity of the four home nations and their roles within FIFA. However, recent statements from the FIFA president have indicated that one-off participation would not jeopardise the independent status of our national association. I have a statement from FIFA president Sepp Blatter in March of this year in front of me, which I will read it out for the benefit of the sceptics. He states:

'it's very clear. If they play, there is no sanction from Fifa.'

He also said that

'The Fifa executive committee has dealt with this matter and even given it to the congress.'

He added that

'The composition of this team…is absolutely free to the Olympic committee of GB and to the four British associations.'

The important sentence is:

'this composition has no influence on any privileges existing actually with Fifa'.

I am sure that opponents will recycle a number of outdated quotations from Blatter, but this matter has now been settled decisively by the authority that governs the world game.

It is worth noting that there will absolutely not be a home nations team competing beyond this Olympics. This is very much a one-off Team GB event. Even the most enthusiastic advocates—I include myself in that category—do not see a Team GB playing in world cups or European championships. We are talking about a once-in-a-lifetime event and only because it is being hosted in our own backyard.

yn ddigon bodlon dan faner Jac yr Undeb. Dim ond rhywun dideimlad neu gul ei feddwl fyddai'n gwarafun y cyfle hwn iddo.

Mae gwrthwynebwyr Tîm Prydain wedi siarad dro ar ôl tro am y niwed y gallai hyn ei achosi i hunaniaeth y pedair gwlad yn y dyfodol a'u rolau o fewn FIFA. Fodd bynnag, mae datganiadau a wnaethpwyd yn ddiweddar gan lywydd FIFA wedi nodi na fyddai cymryd rhan unwaith yn unig yn peryglu statws annibynnol ein cymdeithas genedlaethol. Mae datganiad a wnaethpwyd gan lywydd FIFA, Sepp Blatter, ym mis Mawrth eleni o'm blaen, a darllenaf ef er mwyn yr amheuwyr. Mae'n dweud:

mae'n glir iawn. Os byddant yn chwarae, ni fydd cosb gan Fifa.

Dywedodd hefyd fod

pwyllgor gweithredol Fifa wedi trafod y mater hwn a hyd yn oed wedi ei gyflwyno i'r gyngres.

Ychwanegodd mai

pwyllgor Olympaidd Prydain a phedair cymdeithas Prydain...sydd i benderfynu ynglŷn â chyfansoddiad y tîm hwn.

Y frawddeg bwysig yw:

nid yw'r cyfansoddiad hwn yn dylanwadu ar unrhyw freintiau sy'n bodoli ar hyn o bryd gyda Fifa.

Rwy'n siŵr y bydd gwrthwynebwyr yn codi nifer o hen ddyfyniadau gan Blatter, ond mae'r mater hwn wedi cael ei ddatrys yn derfynol yn awr gan yr awdurdod sy'n rheoli'r gêm drwy'r byd.

Mae'n werth nodi mai dim ond yn y gemau Olympaidd hyn y bydd Tîm Prydain yn cymryd rhan. Digwyddiad unwaith yn unig yw hwn. Nid yw hyd yn oed y rhai mwyaf brwdfrydig o blaid hyn—ac rwy'n cynnwys fy hun yn y categori hwnnw—yn gweld Tîm Prydain yn chwarae yng ngemau cwpan y byd neu mewn pencampwriaethau Ewropeaidd. Rydym yn siarad am ddigwyddiad unwaith mewn oes a dim ond am ei fod yn cael ei gynnal ar garreg y drws.

I always find it amusing to hear it suggested that supporters of Team GB are somehow anti-Welsh. I will always support Wales first, but the Olympics are different. They are a different matter entirely, and I have no problem perceiving myself as both Welsh and British. At a time when our national institutions are growing in self-confidence, it seems particularly sad that there are still politicians who would make a nationalistic case against our athletes competing under the British banner. I am sure that Colin Jackson did not feel any less Welsh simply because he was proudly competing and succeeding as a Brit. As the six nations tournament proves each year, competition among the home nations is as fierce and competitive as any in the world: think of the relish as we approach the match with our old enemy England each year. However, we also have the opportunity to have a touring British Lions side determined every four or five years.

Mae'n rhyfedd bob amser clywed rhywun yn awgrymu bod cefnogwyr Tîm Prydain rywsut neu'i gilydd yn wrth-Gymreig. Byddaf bob amser yn cefnogi Cymru yn gyntaf, ond mae'r Gemau Olympaidd yn wahanol. Maent yn fater hollol wahanol, ac nid wyf yn cael unrhyw anhawster i ystyried fy hun fel Cymro ac fel Prydeiniwr. Mae'n ymddangos yn drist iawn, ar adeg pan mae hunanhyder ein sefydliadau cenedlaethol yn cynyddu, bod gwleidyddion o hyd a fyddai'n cyflwyno dadl genedlaetholgar yn erbyn caniatáu i'n hathletwyr gystadlu dan faner Prydain. Rwy'n siŵr nad oedd Colin Jackson yn teimlo'n llai Cymreig oherwydd ei fod yn cystadlu'n falch ac yn llwyddo fel Prydeiniwr. Fel y mae twrnamaint y chwe gwlad yn profi bob blwyddyn, mae'r gystadleuaeth ymhlith gwledydd Prydain mor ffyrnig a chystadleuol ag yn unman: meddyliwch am yr holl edrych ymlaen wrth i ni agosáu at y gêm fawr yn erbyn Lloegr, yr hen elyn, bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae cyfle hefyd i fynd ar daith gyda'r Llewod Prydeinig bob pedair neu bum mlynedd.

A lot has been said and made of the idea that this somehow represents English co-opting of Welsh success. That is, when Wales is doing well, we are British, and when we are less successful, we are Welsh. That is, of course, nonsense. Our footballing talent stands to gain just as much by exposing itself to high-level international competition for the first time as the rest of Britain does by taking it on. The likes of Bale and Ramsey will start the next round of the World Cup qualifying substantially more experienced in having played against some of the world's top players. The participation of Welsh players not only benefits Team GB, it can only benefit the Welsh team in the long run. The former Welsh international John Hartson, who was desperately unfortunate not to make it to a major competition with Wales, has called for the negativity to be swept aside and for the public to get behind the idea. He said that this is

Mae llawer wedi cael ei ddweud am y syniad bod hyn rywsut neu'i gilydd yn arwydd o'r ffordd y mae Lloegr yn ceisio hawlio llwyddiant Cymru. Hynny yw, pan fydd Cymru'n gwneud yn dda, rydym yn Brydeinwyr, a phan fyddwn yn llai llwyddiannus, byddwn yn Gymry. Nonsens yw hynny, wrth gwrs. Mae gan ein talentau pêl-droed gymaint i'w ennill drwy gymryd rhan mewn cystadleuaeth ryngwladol fawr am y tro cyntaf ag sydd gan weddill Prydain i'w ennill drwy gynnal y gystadleuaeth. Bydd chwaraewyr fel Bale a Ramsey yn dechrau rownd nesaf gemau rhagbrofol Cwpan y Byd yn llawer mwy profiadol ar ôl chwarae yn erbyn rhai o chwaraewyr gorau'r byd. Mae cael chwaraewyr o Gymru yn y tîm o fudd i Dîm Prydain, ac ni all ond bod o fudd i dîm Cymru yn yr hirdymor. Mae John Hartson, y cyn chwaraewr rhyngwladol a oedd yn anffodus iawn i beidio â chyrraedd cystadleuaeth fawr gyda Chymru, wedi galw ar y cyhoedd i roi'r syniadau negyddol o'r neilltu ac i gefnogi'r syniad. Dywedodd fod hwn

'an opportunity to go and represent Wales under a GB banner in a major tournament.'

yn gyfle i gynrychioli Cymru dan faner Prydain mewn twrnamaint mawr.

That statement is there in black and white. There is no threat to Welsh independence.

Mae'r datganiad hwnnw yno mewn du a gwyn. Nid oes bygythiad i annibyniaeth Cymru.

Economically, there are clear benefits too. These are not just one-off revenue streams in terms of shirt sales and merchandise. Glamorgan Cricket Club estimates that hosting the Ashes test match in 2009 was worth as much as £20 million to the local economy and offered engagement with over 65,000 children and young people in Wales. An Olympic event involving a truly British football team should be capable of achieving similar results. Unfortunately, it would appear that the uncertainty over the participation of the other home nations has dampened enthusiasm for ticket sales. That said, at the last count, 58,000 tickets had been sold for Team GB's pool match against Uruguay, and I am certain that the rest will be snapped up once the final squad has been announced.

Mae manteision economaidd amlwg hefyd. Nid ffrydiau refeniw untro yn unig yw'r rhain ar ffurf gwerthiant crysau a nwyddau. Mae Clwb Criced Morgannwg yn amcangyfrif bod cynnal gêm brawf y Lludw yn 2009 yn werth cymaint ag £20 miliwn i'r economi leol a'i fod wedi bod yn gyfle i ymgysylltu â thros 65,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Dylai cystadleuaeth Olympaidd â thîm pêl-droed gwirioneddol Brydeinig allu cyflawni canlyniadau tebyg. Yn anffodus, ymddengys bod yr ansicrwydd a fydd gwledydd eraill Prydain yn cymryd rhan wedi effeithio ar y brwdfrydedd i brynu tocynnau. Wedi dweud hynny, ar y cyfrif diwethaf, roedd 58,000 o docynnau wedi eu gwerthu ar gyfer gêm grŵp Tîm Prydain yn erbyn Uruguay, ac rwy'n sicr y bydd y gweddill yn gwerthu'n fuan ar ôl i'r garfan derfynol gael ei chyhoeddi.

5.45 p.m.

People all over Wales should feel motivated to come to Cardiff to experience this great event, putting money into the local economy and helping businesses once again to benefit from a major event. It also gives us an opportunity to place Cardiff in the spotlight, not just in Wales, but in the UK and far beyond. A successful event could promote Cardiff and Wales as a tourism destination throughout the globe, and the Olympics offer us the perfect shop window. It is just that we do not seem to be putting much effort behind the strategy, particularly, if I may say so, the strategy from the Welsh Government. Time is running out.

Dylai pobl ym mhob cwr o Gymru deimlo bod arnynt eisiau dod i Gaerdydd i fod yn rhan o'r digwyddiad mawr hwn, cyfrannu at yr economi leol a helpu busnesau unwaith eto i elwa ar ddigwyddiad mawr. Mae hefyd yn gyfle inni roi Caerdydd dan y llifoleuadau, nid yn unig yng Nghymru, ond yn y DU a thu hwnt. Gallai digwyddiad llwyddiannus hyrwyddo Caerdydd a Chymru fel cyrchfan i ymwelwyr o bob cwr o'r byd, ac mae'r Gemau Olympaidd yn ffenestr siop berffaith inni. Yr unig broblem yw nad ydym fel pe baem yn rhoi llawer o ymdrech y tu ôl i'r strategaeth, yn enwedig, os caf ddweud, strategaeth Llywodraeth Cymru. Mae amser yn brin.

Indeed, the Welsh Government has admitted that there is no tourism strategy in place that focuses specifically on the Olympics, and there are currently no plans to tailor Visit Wales's 2012 advertising campaign to ensure that it targets people who have an interest in the games. That information was given in response to written Assembly question WAQ57820. I am also concerned to find that the First Minister has not held a single

Yn wir, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfaddef nad oes strategaeth twristiaeth sy'n canolbwyntio'n benodol ar y Gemau Olympaidd, ac nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i deilwra ymgyrch hysbysebu 2012 Croeso Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn targedu pobl sydd â diddordeb yn y gemau. Rhoddwyd yr wybodaeth honno mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad WAQ57820. Rwyf hefyd yn bryderus o

meeting to discuss how to make sure that Wales benefits from hosting key Olympic fixtures. That, too, was elicited from an Assembly written question. In fact, on every occasion that I have sought his view on Welsh participation in the tournament, he has refused to be drawn on the matter, deferring instead to the Football Association of Wales as the governing body that runs the game. That is fair enough in some respects, but this is going ahead whether we are in or not.

ganfod nad yw'r Prif Weinidog wedi cynnal yr un cyfarfod i drafod sut i wneud yn siŵr bod Cymru'n elwa o ganlyniad i gynnal rhai o brif gystadlaethau'r Gemau Olympaidd. Daeth hynny i'n sylw, hefyd, yn dilyn un o gwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad. Yn wir, bob tro yr wyf wedi gofyn iddo beth yw ei farn ynglŷn â Chymru'n cymryd rhan yn y twrnamaint, mae wedi gwrthod dweud dim ynglŷn â'r mater, gan basio'r bêl yn hytrach i Gymdeithas Bêl-droed Cymru fel y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am y gêm. Mae hynny'n ddigon teg ar un ystyr, ond mae'r twrnamaint yn mynd yn ei flaen pa un a ydym ynddo ai peidio.

All opportunities to maximise Welsh participation at the Olympics should be taken. It is time to put the controversy behind us and unite behind the team. Giving young Welsh people the opportunity watch their Welsh heroes playing for Team GB will have obvious benefits for increasing sports participation in a country where 34% of the children are, regrettably, overweight or obese. Furthermore, their involvement in this competition will benefit our nation in the global shop window, with obvious economic benefits.

Dylid manteisio ar bob cyfle i gynyddu rhan Cymru yn y Gemau Olympaidd. Mae'n bryd inni roi'r dadlau y tu inni ac uno y tu ôl i'r tîm. Bydd rhoi cyfle i bobl ifanc Cymru wylio eu harwyr Cymreig yn chwarae i Dîm Prydain yn dod â manteision amlwg, drwy gael mwy o blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn gwlad lle mae 34% o'n plant, yn anffodus, dros eu pwysau neu'n rhy dew. Ar ben hyn, bydd cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon o fudd i'n cenedl yn y ffenestr siop fyd-eang, ac yn arwain at fanteision economaidd amlwg.

I challenge anyone who claims to care about Wales to say that isolating us from our British neighbours at this football tournament will be good for Wales. It will have the polar opposite effect, damaging us economically and culturally, and perhaps most importantly, it will deny our footballers a golden opportunity to flourish.

Rwy'n herio unrhyw un sy'n honni ei fod yn caru Cymru i ddweud y bydd ynysu ein hunain oddi wrth ein cymdogion Prydeinig yn y twrnamaint pêl-droed hwn o fudd i Gymru. Bydd yr effaith yn gwbl groes. Bydd yn ein niweidio'n economaidd ac yn ddiwylliannol, ac yn bwysicach na dim efallai, bydd yn amddifadu ein pêl-droedwyr o gyfle euraid i ddisgleirio.

Finally, before you cry out that no-one cares about Olympic football, just ask the world's best player, Lionel Messi, who starred in Argentina's gold-winning squad at the last Olympic Games. The reason no-one notices the football competition is because we so rarely compete in it. That is going to change, and we are lucky enough to be hosting matches here in Cardiff. I, for one, will be cheering the players on and the team as a whole, and I very much hope that the people of Wales will get behind Team GB and support our players when they take to the field at the Millennium Stadium here in Cardiff.

Yn olaf, cyn i chi ddweud nad oes neb yn poeni am bêl-droed yn y Gemau Olympaidd, gofynnwch i chwaraewr gorau'r byd, Lionel Messi, a oedd yn aelod o garfan yr Ariannin a enillodd y fedal aur yn y Gemau Olympaidd diwethaf. Y rheswm pam nad oes neb yn sylwi ar y gystadleuaeth bêl-droed yw mai yn anaml iawn y byddwn ni'n cymryd rhan ynddi. Mae hynny'n mynd i newid, ac rydym yn ddigon ffodus i gael cynnal gemau yma yng Nghaerdydd. Byddaf i'n cefnogi'r chwaraewyr a'r tîm cyfan, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd pobl Cymru'n uno y tu ôl i Dîm Prydain ac yn cefnogi ein chwaraewyr pan fyddant yn camu i'r cae yn

Stadiwm y Mileniwm yma yng Nghaerdydd.

**Bethan Jenkins:** I thank the leader of the Conservatives in Wales for raising this important issue. I will start from the basis that it is not an anti-British stance that I hold. Why would the Football Association of Wales take an anti-British stance? It is not a political organisation; it is an independent body that represents football in Wales, and its representatives are very concerned about the threat to its future. In 2008, Sepp Blatter said

**Bethan Jenkins:** Diolch i arweinydd y Ceidwadwyr yng Nghymru am godi'r mater pwysig hwn. Dechreuaf o'r sail nad safiad gwrth-Brydeinig sydd gennyf. Pam y byddai Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n cymryd safiad gwrth-Brydeinig? Nid yw'n sefydliad gwleidyddol; mae'n gorff annibynnol sy'n cynrychioli pêl-droed yng Nghymru, ac mae ei gynrychiolwyr yn bryderus iawn ynglŷn â'r bygythiad i'w ddyfodol. Yn 2008, dywedodd Sepp Blatter

'If you start to put together a combined team for the Olympics, the question will automatically come up that there are four different associations'.

Os dechreuwch ddod â thîm at ei gilydd ar gyfer y Gemau Olympaidd, y mater a fydd yn codi'n awtomatig yw y bydd gennych bedair cymdeithas wahanol.

With four votes, he said that that brings into question the privileges of the British associations. Yes, his view has changed, but which view do we trust? Can we trust him not to change his mind in the future and issue a statement similar to that from Hugh Robertson MP, your Tory colleague, who said that Team GB should be the template for future games? Surely, that is a slippery slope towards our having a constant team GB, which would undermine the FAW.

Â phedair pleidlais, dywedodd fod hynny'n codi amheuaeth ynglŷn â breintiau cymdeithasau Prydain. Do, mae ei farn wedi newid, ond ym mha farn y dylem ymddiried? A allwn ymddiried ynddo i beidio â newid ei feddwl yn y dyfodol a chyhoeddi datganiad tebyg i'r un gan Hugh Robertson AS, eich cyd-Aelod Torïaidd, a ddywedodd y dylai Tîm Prydain fod yn batrwm ar gyfer gemau'r dyfodol? Onid yw hynny'n llethr llithrig tuag at gael tîm Prydain ar adegau eraill, gan danseilio Cymdeithas Bêl-droed Cymru?

Another point that I want to make before my minute is up is with regard to the timing. Potentially, some Welsh footballers included in Team GB will not be able to play as part of the Welsh team in qualifying games for the World Cup in 2014, thereby jeopardising their future, as opposed to looking at how we can progress in the future. You should be supporting the FAW in its stance on this issue.

Pwynt arall y byddwn yn hoffi ei wneud cyn i'm munud ddod i ben yw amseriad hyn. Mae'n bosibl na fyddai rhai pêl-droedwyr o Gymru a fyddai'n cael eu cynnwys yn Nhîm Prydain yn gallu chwarae fel rhan o dîm Cymru mewn gemau rhagbrofol ar gyfer Cwpan y Byd yn 2014. Byddai hynny'n rhoi eu dyfodol yn y fantol, yn hytrach nag ystyried sut y gallwn symud ymlaen yn y dyfodol. Dylech fod yn cefnogi Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn ei safiad ar y mater hwn.

**Mike Hedges:** I thank Andrew Davies for allowing me to speak in this debate. If you go back to 1948, when the Olympics were last in Britain, we had a Great Britain team. There were players from Scotland, Northern Ireland and England, and a Mr G. Manning—a fullback, I understand—was the Welsh representative. The world did not end and Wales carried on as an international side. The British team did very well and reached the

**Mike Hedges:** Diolch i Andrew Davies am adael imi siarad yn y ddadl hon. Os ewch yn ôl i 1948, y tro diwethaf i'r Gemau Olympaidd gael eu cynnal ym Mhrydain, roedd gennym dîm Prydain. Roedd chwaraewyr o'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, a gŵr o'r enw Mr G. Manning—cefnwr, yn ôl yr hyn a ddeallaf—oedd cynrychiolydd Cymru. Ni ddaeth y byd i ben a pharhaodd tîm cenedlaethol Cymru.

semi-finals but lost to a full-strength Yugoslavian side. Unfortunately, it also lost the play-off games so did not come back with a bronze medal.

Gwnaeth tîm Prydain yn dda iawn gan golli yn y rownd gynderfynol i dîm cryf o Iwgoslafia. Yn anffodus, collodd y gemau ail gyfle hefyd felly ni ddaeth yn ôl â medal efydd.

Britain took part in the Olympic Games as a team right up until 1960. Again, a side was selected from the four home nations; again, nothing happened. The team failed to qualify for the next three Olympics, which is hardly surprising given that the British team was selected from teams such as Bishop Auckland FC, Cardiff Corinthians AFC, Dulwich Hamlet FC and Queen's Park FC, but was playing against first-choice national teams from eastern Europe. All the players were considered to be amateurs, so people like Lev Yashin were playing in goal for Russia, while the British goalkeeper came from one of the amateur teams here. It is hardly surprising that we found it difficult to compete. All the Scandinavian leagues were also amateur at that time, and many of the players who played in the 1958 World Cup final for Sweden had earlier played against Wales in the Olympics. Entering a British team to the Olympics is neither new nor radical, and I hope that it is successful.

Cymerodd Prydain ran yn y Gemau Olympaidd fel tîm tan 1960. Unwaith eto, dewiswyd tîm o'r pedair gwlad; unwaith eto, ni ddigwyddodd dim. Dair gwaith yn olynol wedyn methodd y tîm ag ennill ei le yn y Gemau Olympaidd, er nad yw hynny'n syndod gan fod tîm Prydain yn cael ei ddewis o dimau fel Bishop Auckland FC, Cardiff Corinthians AFC, Dulwich Hamlet FC a Queen's Park FC, ond yn chwarae yn erbyn timau cenedlaethol dewis cyntaf o ddwyrain Ewrop. Roedd y chwaraewyr i gyd yn cael eu hystyried yn amaturiaid, felly roedd pobl fel Lev Yashin yn chwarae yn y gôl i Rwsia, tra oedd gôl-geidwad Prydain yn dod o un o'r timau amatur yma. Nid yw'n syndod ei bod yn anodd inni gystadlu. Roedd y cynghreiriau Sgandinafaidd i gyd yn amatur hefyd bryd hynny, ac roedd llawer o'r chwaraewyr a chwaraeodd yng ngêm derfynol Cwpan y Byd 1958 dros Sweden wedi chwarae yn erbyn Cymru yn gynharach yn y Gemau Olympaidd. Nid yw Tîm Prydain yn syniad newydd na radical yn y Gemau Olympaidd, ac rwy'n gobeithio y bydd yn llwyddiannus.

**Mohammad Ashgar:** The Welsh Government's major events strategy states that,

**Mohammad Ashgar:** Yn ôl strategaeth digwyddiadau mawr Llywodraeth Cymru,

'Building a positive external reputation and brand image for Wales is an important challenge recognised by the Welsh Assembly Government.'

'Mae meithrin enw da a brand neu ddelwedd gadarnhaol i Gymru yn her bwysig sydd wedi'i chydnabod gan Lywodraeth y Cynulliad.'

Fine words indeed, but words are all that the Welsh Government has delivered. The reality is that it has done nothing to take advantage of the fact that the world's biggest sporting event is coming to Wales. Back in August, I asked the First Minister what his Government was doing to ensure that Wales was making the most of this golden opportunity. All I was given was a vague reassurance about regular discussions and connecting to the games. Throughout the whole build-up, it has shown an ambivalent attitude, and we see the result in disappointing ticket sales. It is a shame that the Minister cannot show the same

Geiriau da, ond geiriau yw'r unig beth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gyflawni. Y gwir amdani yw nad yw wedi gwneud dim i fanteisio ar y ffaith bod digwyddiad chwaraeon mwya'r byd yn dod i Gymru. Ym mis Awst, gofynnais i'r Prif Weinidog beth yr oedd ei Lywodraeth yn ei wneud er mwyn sicrhau bod Cymru'n gwneud y gorau o'r cyfle euraid hwn. Y cyfan a gefais oedd sicrwydd amwys ynglŷn â thrafodaethau rheolaidd a chysylltu â'r gemau. Drwy gydol y cyfnod cyn y gemau, mae wedi dangos agwedd amwys, ac mae'r canlyniad i'w weld yn y gwerthiant tocynnau siomedig. Trueni

enthusiasm, interest, support and affection as that shown by Welsh players in this country.

na all y Gweinidog ddangos yr un brwdfrydedd, diddordeb, cefnogaeth a hoffter ag a ddangosir gan chwaraewyr Cymru yn y wlad hon.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I thank Andrew R.T. Davies for bringing forward today's debate and the other Members here this afternoon for their contributions.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Diolch i Andrew R.T. Davies am gyflwyno'r ddadl heddiw ac i'r Aelodau eraill sydd yma y prynhawn yma am eu cyfraniadau.

Certainly, there is no disagreement from me that it is vital for us to secure a real and lasting legacy for Wales from these Olympics, and that having high-profile events here is a huge opportunity for us. The football matches will generate more excitement, I am sure, the closer that we get to those games. However, we need to be clear from the outset. The configuration of the Olympic football tournament and the constitution of participating teams is a matter for the Football Association of Wales and the other football authorities concerned, not for the Welsh Government. I know that there was a previous First Minister who, from time to time, could not help but offer a little selection advice for our national and club sides, but I do not think it was ever more than the voice of a sports fan who happened to run the Government; it was not direction from Government. Since taking this job, I have been unapologetic in expressing my belief that sport and politics do mix, and always have. I have said that sport matters, not least because of its ability to break down barriers and bring communities together. That is not the same thing, however, as saying that the Welsh Government should be directing the FAW on how best to go about its business on a daily basis.

Yn sicr, nid wyf yn anghytuno ei bod yn hanfodol ein bod yn sicrhau gwaddol real a pharhaol i Gymru yn dilyn y Gemau Olympaidd, a bod cael digwyddiadau sy'n cael llawer o sylw yma yn gyfle aruthrol i ni. Rwy'n siŵr y bydd mwy o gyffro ynglŷn â'r gemau pêl-droed wrth iddynt ddod yn nes. Fodd bynnag, mae angen inni fod yn glir o'r dechrau. Nid mater i Lywodraeth Cymru yw cyfluniad twrnamaint pêl-droed y Gemau Olympaidd a chyfansoddiad y timau sy'n cymryd rhan, ond yn hytrach i Gymdeithas Pêl-droed Cymru a'r awdurdodau pêl-droed perthnasol eraill. Gwn fod y Prif Weinidog blaenorol, o bryd i'w gilydd, yn methu ag ymatal rhag cynnig ychydig o gyngor ynglŷn â dewis ein timau cenedlaethol a thimau clybiau, ond nid wyf yn credu bod hynny erioed yn fwy na llais cefnogwr chwaraeon a oedd yn digwydd bod yn rhedeg y Llywodraeth; nid cyfarwyddyd gan y Llywodraeth ydoedd. Ers derbyn y swydd hon, rwyf wedi dweud heb flewyn ar fy nhafod fy mod yn credu bod angen cadw chwaraeon a gwleidyddiaeth ar wahân. Rwyf wedi dweud hynny erioed. Rwyf wedi dweud bod chwaraeon yn bwysig, yn anad dim oherwydd eu gallu i chwalu muriau a dod â chymunedau at ei gilydd. Nid yw hynny yr un peth, fodd bynnag, â dweud y dylai Llywodraeth Cymru fod yn dweud wrth Gymdeithas Pêl-droed Cymru sut i wneud ei gwaith o ddydd i ddydd.

Members will be familiar with the position of the FAW in relation to Team GB. It is the status of the four British football associations within FIFA that is at the heart of the debate about Welsh players being included in the Great Britain football team for the Olympics in 2012. The FAW's concern is that the inclusion of Welsh players in the GB men's or women's football teams, which are formed to compete in the Olympics, could lead to a

Bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â safiad Cymdeithas Pêl-droed Cymru ynglŷn â Thîm Prydain. Dyma statws y pedair cymdeithas bêl-droed ym Mhrydain sy'n rhan o FIFA ac sy'n ganolog i'r ddadl ynglŷn â chynnwys chwaraewyr o Gymru yn nhîm pêl-droed Prydain ar gyfer y Gemau Olympaidd yn 2012. Pryder Cymdeithas Bêl-droed Prydain yw y gallai cynnwys chwaraewyr Cymru yn nhimau pêl-droed dynion neu ferched

situation that would undermine that status. That concern is based on previous attempts by confederations outside Europe to end or limit the special historical status of the British associations, one of which is to compete separately in international football tournaments. The FAW believes that, if the four British associations agreed to allow a GB team on this occasion, it would give weight to the argument that the UK should have only one team participating in FIFA competitions and that, as a result, Wales and the other home nations would lose their national teams and, possibly, their separate membership of UEFA and FIFA. That does not necessarily mean that the men's or women's GB teams in 2012 will not include any Welsh players. The FAW opposes the idea of a GB football team in principle, and will not support or encourage any Welsh player who wants to participate. However, it does not intend to stop any Welsh players from participating if they are selected. It is a matter of individual choice for the player concerned.

Prydain, sy'n cael eu ffurfio i gystadlu yn y Gemau Olympaidd, arwain at sefyllfa a fyddai'n tanseilio'r statws hwnnw. Mae'r pryder hwnnw'n seiliedig ar ymdrechion blaenorol gan gydffederasiynau y tu allan i Ewrop i derfynu neu gyfyngu ar statws hanesyddol arbennig cymdeithasau Prydain, gan gynnwys cystadlu ar wahân mewn twrnameintiau pêl-droed rhyngwladol. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n credu y byddai cytundeb gan bedair cymdeithas Prydain i ganiatáu tîm Prydain ar yr achlysur hwn yn cryfhau'r ddadl mai dim ond un tîm ddylai'r DU ei gael yng nghystadlaethau FIFA ac, o ganlyniad, y byddai Cymru a'r gwledydd eraill yn colli eu timau cenedlaethol ac, o bosibl, eu haelodaeth ar wahân o UEFA a FIFA. Nid yw hynny'n golygu o reidrwydd na fydd timau dynion neu ferched Prydain yn 2012 yn cynnwys unrhyw chwaraewyr o Gymru. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n gwrthwynebu'r syniad o dîm pêl-droed Prydain mewn egwyddor, ac ni fydd yn cefnogi nac yn annog unrhyw chwaraewr o Gymru sy'n dymuno cymryd rhan. Fodd bynnag, nid yw'n bwriadu atal unrhyw chwaraewyr o Gymru rhag cymryd rhan os cânt eu dewis. Mater o ddewis personol i'r chwaraewr dan sylw ydyw.

You or I, or anyone else, might have a view about that, but we should accept that the FAW, like the other British football associations, is an autonomous, self-governing body that is accountable to FIFA and UEFA, so it is not appropriate for a national Government to interfere in or direct its affairs.

Mae'n bosibl bod gennych chi neu fi, neu rywun arall, farn ynglŷn â hynny, ond dylem dderbyn bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru, fel y cymdeithasau pêl-droed eraill ym Mhrydain, yn gorff annibynnol, sy'n llywodraethu ei hun, ac sy'n atebol i FIFA ac UEFA, felly nid yw'n briodol i Lywodraeth genedlaethol ymyrryd yng ngwaith y corff hwnnw na dweud beth y dylai ei wneud.

What I would say is that we need to respect the decision of those players involved. They have been given the freedom by their clubs and national association to make a choice, and we should respect the choices that they make. In a number of cases, we are talking about Wales captains past and present who have offered and still do offer a huge amount to the success of Welsh football. To ostracise these players in any way would be to damage Welsh football.

Yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw bod angen inni barchu penderfyniad y chwaraewyr hynny sy'n rhan o hyn. Maent wedi cael y rhyddid i ddewis gan eu clybiau a'u cymdeithas genedlaethol, a dylem barchu eu dewisiadau. Mewn nifer o achosion, rydym yn siarad am gyn gapteiniaid a chapteiniaid presennol Cymru sydd wedi cynnig, ac sy'n dal i gynnig llawer iawn i lwyddiant pêl-droed yng Nghymru. Byddai gwahardd y chwaraewyr hyn mewn unrhyw ffordd yn gwneud drwg i bêl-droed Cymru.

Let me close by saying that the Welsh

Gadewch imi orffen drwy ddweud bod

Government does have some direct interests in promoting football. This year, we are providing nearly £1 million to support the development of grass-roots football in Wales. This funding is being used by the Welsh Football Trust to improve coach education, train more volunteers to become football leaders, encourage participation among young people, and develop talented players.

Llywodraeth Cymru yn ymwneud rhywfaint â hyrwyddo pêl-droed yn uniongyrchol. Eleni, rydym yn darparu bron i £1 miliwn i gefnogi datblygu pêl-droed yn y gymuned yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio gan Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru i wella addysg hyfforddwyr, hyfforddi mwy o wirfoddolwyr i ddod yn arweinwyr pêl-droed, annog mwy o bobl ifanc i gymryd rhan a datblygu chwaraewyr dawnus.

**Andrew R.T. Davies:** I note that you said that you were about to close, but on the point that I raised about the Welsh Government not having a clear campaign for its Visit Wales strategy to lure Olympic visitors to Wales, are you not disappointed, as Minister for sport, that we are not using this opportunity? In particular, the Welsh Government has not harnessed that strategy to bring thousands of the visitors going to London over to Wales to visit some of the venues.

**Andrew R.T. Davies:** Gwn eich bod wedi dweud eich bod ar fin gorffen, ond o ran y pwynt a godwyd gennych nad oes gan Lywodraeth Cymru ymgyrch glir ar gyfer ei strategaeth Croeso Cymru i ddenu ymwelwyr Gemau Olympaidd i Gymru, onid ydych yn siomedig, fel Gweinidog chwaraeon, nad ydym yn defnyddio'r cyfle hwn? Yn fwyaf arbennig, nid yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r strategaeth honno i ddod â miloedd o'r ymwelwyr sy'n mynd i Lundain i Gymru i ymweld â rhai o'r lleoliadau.

**Huw Lewis:** I am disappointed that you take that view. I have been a busy bee in ensuring that the profile of Olympic events taking place in Wales has been as high as possible. You have said yourself that we already have 52,000 tickets sold for the Uruguay game, and I have no doubt that the stadium will be full for that. It is difficult to see how you can go much further than having a full stadium. We have also been raising the profile of the fantastic work that we have done with partner organisations on the training camp offer that we have made to upwards of 20 nations. The boxing training camp in connection with Cardiff University is one that springs immediately to mind as a fantastic example of Wales working in an international context, a tourism context, and with the spirit of the Olympics and sport at its very heart.

**Huw Lewis:** Rwy'n siomedig eich bod yn meddwl hynny. Rwyf wedi bod yn brysur iawn yn ceisio sicrhau bod y digwyddiadau hynny sy'n cael eu cynnal yng Nghymru'n cael cymaint o sylw ag sy'n bosibl. Rydych wedi dweud eich hun bod 52,000 o docynnau wedi eu gwerthu'n barod ar gyfer gêm Uruguay, ac rwy'n sicr y bydd y stadiwm yn llawn ar gyfer y gêm honno. Mae'n anodd gweld sut y gallwch wneud llawer mwy na chael stadiwm llawn. Rydym hefyd wedi bod yn codi proffil y gwaith gwych rydym wedi ei wneud gyda sefydliadau sy'n bartneriaid wrth gynnig gwersylloedd hyfforddi i dros 20 o wledydd. Mae'r gwersyll hyfforddi bocsio sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Caerdydd, i ddechrau, yn enghraifft wych o Gymru'n gweithio mewn cyd-destun rhyngwladol, cyd-destun twristiaeth, gan ganolbwyntio ar naws y Gemau Olympaidd a chwaraeon.

Make no mistake, by hosting 11 games of Olympic football, we will have the eyes of the world on Cardiff and on Wales—Andrew R.T. Davies is quite right about that. Whether or not any Welsh players are taking part, we all have the opportunity to support Wales and the Welsh economy by buying tickets for these matches and raising the profile of the events. This will be a once-in-a-lifetime opportunity for Welsh sports fans to see

Yn sicr, drwy gynnal 11 gêm bêl-droed Olympaidd, bydd llygaid y byd ar Gaerdydd ac ar Gymru—mae Andrew R.T. Davies yn gwbl gywir ynglŷn â hynny. Pa un a fydd chwaraewyr Cymru'n cymryd rhan ai peidio, mae gan bob un ohonom gyfle i gefnogi Cymru ac economi Cymru drwy brynu tocynnau ar gyfer y gemau hyn a chodi proffil y digwyddiadau. Bydd hwn yn gyfle unwaith mewn oes i gefnogwyr chwaraeon

Olympic competition here on their doorstep. We should grab that chance and demonstrate to the world that Wales truly is a great sporting nation that punches above its weight.

Cymru weld cystadlaethau'r Gemau Olympaidd yma ar stepen eu drws. Dylem fanteisio ar y cyfle hwnnw a dangos i'r byd bod Cymru'n hoff iawn o chwaraeon ac y gallwn gystadlu â'r goreuon.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.58 p.m.*
*The meeting ended at 5.58 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)

Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)